

Agenda – Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Fideo Gynadledda drwy Zoom Llinos Madeley
Dyddiad: Dydd Iau, 21 Ionawr 2021 Clerc y Pwyllgor
Amser: 09.00 0300 200 6565
SeneddPPIA@senedd.cymru

Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, penderfynodd y Cadeirydd wahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv

- 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**
(09.00)
- 2 COVID-19: Sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru**
(09.00 – 09.30) (Tudalennau 1 – 2)
Kirsty Williams AS, y Gweinidog Addysg
Huw Morris – Cyfarwyddwr Grŵp Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes, Llywodraeth Cymru
Steve Davies, Cyfarwyddwr, Cyfarwyddiaeth Addysg, Llywodraeth Cymru.

Dogfennau atodol:
Themâu craffu

- 3 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021–22**
(09.30 – 10.30) (Tudalennau 3 – 113)
Kirsty Williams AS, y Gweinidog Addysg
Huw Morris – Cyfarwyddwr Grŵp Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes, Llywodraeth Cymru
Steve Davies, Cyfarwyddwr, Cyfarwyddiaeth Addysg, Llywodraeth Cymru

Dogfennau atodol:
Briff Ymchwil
CYPE(5)–02–21 – Papur 1

- Egwyl**
(10.30 – 10.45)



4 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021–22

(10.45 – 12.00)

(Tudalennau 114 – 152)

Vaughan Gething AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Eluned Morgan AS, Y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg
Julie Morgan AS, y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Albert Heaney, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol, Grŵp Iechyd a
Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru
Claire Bennett, Cyfarwyddwr, Cymunedau a Threchu Tlodi – Llywodraeth
Cymru
Tracey Breheny, Dirprwy Gyfarwyddwr Iechyd Meddwl, Camddefnyddio
Sylweddau a Grwpiau Agored i Niwed – Llywodraeth Cymru
Dr Heather Payne, Uwch-swyddog Meddygol ar gyfer Iechyd Mamau a Phlant
– Llywodraeth Cymru
Steve Elliot, Dirprwy Cyfarwyddwr Cyllid – Llywodraeth Cymru

Dogfennau atodol:

Briff Ymchwil

CYPE(5)–02–21 – Papur 2

5 Papurau i'w nodi

(12.00)

5.1 Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol a'r Gweinidog Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021–22

(Tudalennau 153 – 154)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)–02–21– Papur i'w nodi 1

5.2 Llythyr gan y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021–22

(Tudalennau 155 – 156)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)–02–21– Papur i'w nodi 2

5.3 Llythyr gan y Gweinidog Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor ar 26 Tachwedd 2020

(Tudalennau 157 – 161)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-02-21 – Papur i'w nodi 3

5.4 Llythyr oddi wrth Gomisiynydd Plant Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)

(Tudalennau 162 – 166)

Dogfennau atodol:

CYPE(5)-02-21 – Papur i'w nodi 4 (Saesneg yn unig)

6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

(12.00)

7 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22 – trafod y dystiolaeth.

(12.00 – 12.30)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Oddi wryh: Llywodraeth Cymru

Dyddiad: 21 Ionawr 2021

Amser: 9:15-10:30am

Teitl: Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2021-22 – Prif Grŵp Gwariant (MEG) Addysg

Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar y cynigion ar gyfer y Prif Grŵp Gwariant (MEG) a amlinellwyd yng Nghyllideb ddrafft 2021-22¹, a gyhoeddwyd ar 21 Rhagfyr 2020. Mae hefyd yn rhoi diweddariad ar feysydd penodol sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor.

Mae Cyllideb ddrafft 2021-22 yn darparu cynllun blwyddyn ar gyfer referniw a buddsoddiad cyfalaf a baratowyd yn dilyn Adolygiad blwyddyn o Wariant Llywodraeth y DU a gyhoeddwyd ar 25 Tachwedd 2020. Dyma'r Gyllideb derfynol a gyhoeddwyd yn ystod tymor y Senedd bresennol ac mae'r dyraniadau yn dangos sut, yn y frwydr yn erbyn y pandemig, rydym yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael i *Ddiogelu* iechyd y cyhoedd a swyddi, *Adeiladu* dyfodol gwyrddach a *Newid* i Gymru sy'n fwy cyfartal.

1. Meysydd Trawsbynciol

1.1 Tryloywder wrth gyflwyno'r gyllideb

1.1.1 Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o gynlluniau dangosol ar gyfer MEG Addysg a gyhoeddwyd yng Nghyllideb ddrafft 2021-22:

| MEG Addysg – Crynodeb | £000oedd | | | |
|--|---------------------------|-------------------------------------|--------------------|--|
| | Cyllideb Derfynol 2020-21 | Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2020-21 | Newidiadau 2021-22 | Cyllideb Ddrafft 2021-22 Cynlluniau Newydd |
| Adnodd | 1,567,175 | 1,564,326 | 60,196 | 1,624,522 |
| Cyfalaf | 217,516 | 209,491 | 41,968 | 251,459 |
| Cyfanswm Adnoddau a Chyfalaf | 1,784,691 | 1,773,817 | 102,164 | 1,875,981 |
| AME Adnoddau ² | -123,801 | -123,801 | -24,585 | -148,386 |
| AME Cyfalaf | 863,631 | 863,631 | 105,330 | 968,961 |
| Cyfanswm AME | 739,830 | 739,830 | 80,745 | 820,575 |
| Cyfanswm – MEG Addysg³ | 2,524,521 | 2,513,647 | 182,909 | 2,696,556 |

Adnodd

¹ Yn y papur hwn, mae '/' yn cyfeirio at flwyddyn academiaidd sy'n rhychwantu'r cyfnod rhwng 1 Awst a 31 Gorffennaf ac mae '-' yn cyfeirio at flwyddyn ariannol sy'n rhychwantu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth.

² Gwariant a Reolir yn Flynyddol

³ Prif Grŵp Gwariant

1.1.2 O ran Adnodd, mae Cyllideb Derfynol 2020-21 yn cynrychioli'r ffigur llinell sylfaen ar gyfer Cyllideb ddrafft 2021-22, yn amodol ar fân addasiadau, fel y crynhoir isod:

| | £000 |
|--|------------------|
| Cyllideb Adnodd MEG Addysg – Cyllideb Derfynol 2020-21 | 1,567,175 |
| Addasiadau llinell sylfaen: | |
| Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Llythrennedd a Rhifedd – Buddsoddi i Arbed – asesiadau personol ar-lein | (2,100) |
| Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Costau Gweinyddu'r Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr / CThEM – Rhaglen Trawsnewid y Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr | 620 |
| Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer gwariant Rhaglenni CCAUC – Cyllid Pontio'r UE – Cymru Fyd-eang | (1,369) |
| Llinell sylfaen Adnodd MEG Addysg 2020-21 – Cyllideb Ddrafft 2021-22 | 1,564,326 |

1.1.3 Mae cyllideb Adnodd MEG Addysg wedi cynyddu o £60.2m (3.9%) o gymharu â llinell sylfaen 2020-21. Crynhoir y newidiadau, a ddadansoddwyd yn ôl referniw (cyllidol) ac anariannol (anghyllidol), isod:

| Addysg: Cyllideb adnodd | £000oedd | | | | % y newid Llinell Sylfaen 2020-21 |
|-------------------------------|---------------------------------|--|-----------------------|--|--|
| | Cyllideb Derfynol 2020-21 | Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2020-21 | Newidiadau 2021-22 | Cyllideb Ddrafft 2021-22 Cynlluniau Newydd | |
| Referniw (Cyllidol) | 1,460,021 | 1,457,172 | 56,298 | 1,513,470 | 3.9% |
| Anariannol (Anghyllidol) | 107,154 | 107,154 | 3,898 | 111,052 | 3.6% |
| Cyfanswm yr Adnodd | 1,567,175 | 1,564,326 | 60,196 | 1,624,522 | 3.9% |

1.1.4 Crynhoir y cynnydd o £60.2m yn y tabl isod, sy'n cynnwys nifer o ddyraniadau sy'n gysylltiedig â'r cynnydd cyffredinol yn y cyllid i'r MEG o Gronfeydd Wrth Gefn Cymru sy'n gwneud cyfanswm o £57.6m, wedi'u gwrthbwysu gan drosglwyddiadau net o £2.6m i mewn i'r MEG:

| Addysg: Dyraniadau'r gyllideb adnodd | Llinell Wariant yn y Gyllideb | 2021-22 £000 |
|--|-------------------------------|-----------------|
| Diwygio'r Cwricwlwm – Costau Uniongyrchol Ysgolion, adnoddau a chyfathrebu a gwerthuso | Adolygiad o'r Cwricwlwm | 7,900 |
| Diwygio'r Cwricwlwm – Cymwysterau Cymru | Cymwysterau Cymru | 369 |
| Cymwysterau Cymru Ychwanegol – dibrisiant (anariannol) | Cymwysterau Cymru | 35 |
| Cyllid ar gyfer COVID-19 – cyllid Ailadeiladu Addysg Bellach | Darpariaeth Addysg Bellach | 5,000 |
| Cynnydd o ran Demograffeg Darpariaeth Chweched Dosbarth ac Addysg Bellach | Darpariaeth Addysg Bellach | 21,745 |
| Cyfrif Dysgu Proffesiynol | Darpariaeth Addysg Bellach | 5,390 |
| Cyllid ar gyfer COVID-19 – Recriwtio, Adfer, Gwella Safonau – cyllid dal i fyny i ysgolion (y flwyddyn academaidd 2020/21) | Grant Gwella Ysgolion | 12,029 |
| Lleiafrifoedd Ethnig a Sipsiwn, Roma a Theithwyr | Grant Gwella Ysgolion | 1,000 |
| Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad | Grant Datblygu Disgyblion | 2,000 |
| Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol | Bwyd a Maeth mewn Ysgolion | 2,150 |

| Addysg: Dyraniadau'r gyllideb adnodd | Llinell Wariant yn y Gyllideb | 2021-22 £000 |
|---|---|-----------------|
| Cyfanswm y trosglwyddiadau o'r Gronfeydd Wrth Gefn | | 57,618 |
| Trosglwyddiad i MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu – ad-daliad Buddsoddi i Arbed – asesiadau personol | Llythrennedd a Rhifedd | (285) |
| Trosglwyddiad i MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol – llwgu yn ystod y gwyliau | Bwyd a Maeth mewn ysgolion | (1,000) |
| Trosglwyddiad i mewn o MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol – Myfyrwyr Meddygol a Deintyddol (anariannol) | Darpariaeth Cyllideb Adnodd Benthyciadau i Fyfyrwyr | 3,863 |
| Cyfanswm y trosglwyddiadau rhwng Prif Grwpiau Gwariant | | 2,578 |
| DEL Adnodd – cynnydd net | | 60,196 |

Cyfalaf

1.1.5 O ran cyfalaf, mae llinell sylfaen 2020-21 yn adlewyrchu'r gyllideb a gyflwynwyd yng Nghyllideb Derfynol 2020-21 wedi'i haddasu i ddileu £8.220m o gyllid a ddyrannwyd yng nghyllideb y flwyddyn diwethaf ar gyfer Tŷ Carbon Niwtral Coleg y Cymoedd.

1.1.6 Ceir cyllideb gyfalaf Addysg o £251.5m ar gyfer 2021-22, sef cynnydd o £42m o gymharu â llinell sylfaen 2020-21. Crynhoir y newidiadau, sy'n ymwneud â dyraniadau i Gronfeydd Wrth Gefn Llywodraeth Cymru ac ohonynt, yn y tablau isod:

| Addysg: Cyllideb Cyfalaf | £000 | | | | |
|---|---------------------------------|--|-----------------------|--|--|
| | 2020-21 Cyllideb Derfynol | 2020-21 Llinell Sylfaen Ddiwygiedig | Newidiadau 2021-22 | Cyllideb Ddrafft 2021-22 Cynlluniau Newydd | % y newid Llinell Sylfaen 2020-21 |
| Cyfalaf traddodiadol | 217,711 | 209,491 | 40,000 | 249,491 | 19.1% |
| Cyfalaf Trafodion Ariannol⁴ | (195) | - | 1,968 | 1,968 | - |
| Cyfanswm y Cyfalaf | 217,516 | 209,491 | 41,968 | 251,459 | 20% |

| Addysg: cyllideb gyfalaf Dyraniadau o Gronfeydd Wrth Gefn | Llinell Wariant yn y Gyllideb | 2021-22 £000 |
|---|-------------------------------|-----------------|
| Rhaglen Ysgolion ar gyfer y 21 ^{ain} Ganrif ac Addysg – Codiad cyfalaf cyffredinol | Seilwaith Addysg | 35,000 |
| Prosiect Peilot Ysgolion Carbon Sero-Net | Seilwaith Addysg | 5,000 |
| Dyraniad Cyfalaf Trafodion Ariannol – Model Buddsoddi | Seilwaith Addysg | 710 |

⁴ Mae cyfalaf trafodion ariannol yn rhan o setliad DEL cyfalaf na ellir ond ei ddefnyddio ar gyfer benthyciadau a buddsoddiadau ecwiti i drydydd partion. Ar y cyfan, mae'n rhaid i'r cyllid gael ei ad-dalu i Drysorlys EM. Ar gyfer MEG Addysg, mae ad-daliadau yn ymwneud â £4.5m o gyllid a ddyrannwyd i Goleg y Cymoedd yn 2016-17 ar gyfer campws Aberdâr a £10.6m i Goleg Pen-y-bont ar Ogwr yn 2019-20 ar gyfer Academi STEAM.

| | | |
|---|------------------|---------------|
| Cydfuddiannol Banc Datblygu Cymru | | |
| Dyraniad Cyfalaf Trafodion Ariannol – Dyled Israddedig | Seilwaith Addysg | 1,900 |
| Ad-daliadau Cyfalaf Trafodion Ariannol – Coleg y Cymoedd | Seilwaith Addysg | (200) |
| Ad-daliadau Cyfalaf Trafodion Ariannol – Coleg Pen-y-bont ar Ogwr | Seilwaith Addysg | (442) |
| DEL Cyfalaf – cynnydd net | | 41,968 |

Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)

1.1.7 Mae cyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) yn ymwneud â benthyciadau i fyfyrwyr sy'n seiliedig ar alw ac yn sensitif i'r gyfradd llog a ffactorau macro-economaidd eraill ac sydd felly'n anodd i'w rhagweld. Cytunir ar y gyllideb hon â'r Trysorlys bob blwyddyn ac mae wedi'i hariannu'n llawn. Mae'r gyllideb wedi cynyddu £80.7m yn 2021-22.

1.2 Sylwadau ar Gamau Gweithredu a Manylion Dyraniadau Llinellau Gwariant yn y Gyllideb

1.2.1 Yn unol â chais y Pwyllgor, rhoddir sylwadau sy'n esbonio'r newidiadau i bob Cam Gweithredu o fewn y MEG yn **Atodiad A**. Rhoddwyd esboniad naratif tryloyw i esbonio cynnydd a gostyngiadau, lle na chânt eu cwmpasu yn y papur tystiolaeth, a chadarnhad ynghylch o/i ble y dyrannwyd y trosglwyddiadau.

1.2.2 Ceir dadansoddiad o'r newidiadau i MEG Addysg yn ôl Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer 2021-22 yn **Atodiad B**. Mae'r adroddiad yn rhoi manylion am ddyraniadau Cyllideb Atodol Gyntaf ac Ail Gyllideb Atodol 2020-21, yr alldro a ragwelir ar gyfer 2020-21 a'r alldroeon terfynol ar gyfer 2019-20 yn unol â chais y Pwyllgor.

1.2.3 Rhoddir esboniad o'r rhesymau dros ailgyfrifo'r llinell sylfaen o dan baragraff 1.1.2 ar gyfer refeniw ac 1.1.5 ar gyfer cyfalaf. Ni ddefnyddiwyd Ail Gyllideb Atodol 2020-21 fel cyllideb llinell sylfaen at ddibenion cymharu. Roedd y Gyllideb hon yn cynnwys nifer o ddyraniadau a oedd yn ymwneud â COVID-19 a gostyngiad o £47m i Gronfa Wrth Gefn yr ymateb i COVID-19 a weithredwyd yn y Gyllideb Atodol Gyntaf, y mae'r naill a'r llall yn anghylchol.

1.3 Blaenoriaethau Addysg a Blaenoriaethau Strategol Eraill

1.3.1 Drwy ein cyllideb addysg gwerth £1.9bn, rydym yn cyflawni *Cenhadaeth ein Cenedl*, sy'n nodi'n glir ein hymrwymiad i wella safonau i bawb, darparu system addysg deg a chynhwysol, a fydd yn destun balchder i bawb. Mae'r diweddariad i gynllun gweithredu *Cenhadaeth ein Cenedl*, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2020, yn nodi sut y byddwn yn parhau i symud ymlaen tuag at weithredu'r cwricwlwm newydd i Gymru ym mis Medi 2022 yn effeithiol.

1.3.2 Mae'n hanfodol ein bod yn parhau i fuddsoddi i gefnogi'r broses o roi'r cwricwlwm newydd ar waith os ydym am gyflawni ein huchelgeisiau mewn gwirionedd. Fel y'i hamlinellir ym mharagraff 1.5.1, rydym yn buddsoddi £8.3m yn ychwanegol i gefnogi'r broses o wireddu'r cwricwlwm ym mhob

ysgol yn 2021-22. Bydd y cyllid ychwanegol hwn yn hanfodol er mwyn sicrhau y gallwn lwyr gefnogi ysgolion wrth iddynt bontio i ddiwygio'r cwricwlwm mewn ffordd gadarn a chydgyssylltiedig drwy ddarpariaeth Dysgu Proffesiynol.

- 1.3.3 Bydd ein Dull Cenedlaethol o ymdrin â Dysgu Proffesiynol yn helpu i wireddu'r cwricwlwm newydd drwy baratoi ein holl ymarferwyr ar gyfer y newid sylfaenol mewn ymarfer sydd ei angen. Rydym yn parhau i fuddsoddi yn ein proffesiwn addysgu gyda'r lefel uchaf erioed o fuddsoddiad, sef £31m, yng nghyllidebau ysgolion rhwng 2018-19 a 2020-21 er mwyn cefnogi dysgu proffesiynol, ac adeiladu ar sylfeini cadarn ar gyfer y cam nesaf yn ein taith. Ar gyfer 2021-22, rydym yn darparu £15m yn ychwanegol er mwyn sicrhau bod ein proffesiwn addysgu yn cael y cymorth sydd ei angen arno i wireddu ein cwricwlwm gweddnewidiol newydd.
- 1.3.4 Rydym yn buddsoddi dros £900m y flwyddyn yn y system cymorth i fyfyrwyr fwyaf blaengar a theg yn y DU ac er mwyn sicrhau bod setliad cyllido cynaliadwy ar gyfer addysg uwch. Ni yw'r wlad gyntaf yn y DU i gynnig cymorth gyda chostau byw i fyfyrwyr sy'n hafal i'r cyflog byw cenedlaethol a'r unig wlad yn Ewrop i gynnig yr un cymorth i fyfyrwyr rhan-amser a myfyrwyr ôl-raddedig.
- 1.3.5 Rydym yn gweithredu ar argymhellion cam olaf Adolygiad Diamond, ac yn buddsoddi £25m yn ychwanegol yn ein prifysgolion, drwy CCAUC. Rydym hefyd yn parhau i ddarparu cyllid craidd CCAUC er mwyn cydnabod effaith y pandemig ar y sector addysg uwch a'i rôl yn tyfu'r economi yn y dyfodol, drwy gynyddu lefelau sgiliau uchel, ymchwil ac arloesedd a chenhadaeth ddinesig.
- 1.3.6 Fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer y gyllideb ddrafft, rwyf wedi cael nifer o drafodaethau â'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd ynglŷn â'r lefel o adnoddau sydd eu hangen i gyflawni ein blaenoriaethau allweddol ac effeithiau trawsbynciol ein cynlluniau gwariant. Bydd y trafodaethau hynny yn parhau wrth inni symud tuag at Gyllideb derfynol a dechrau'r flwyddyn ariannol newydd, yn enwedig wrth inni adolygu effaith y pandemig ar y sefydliadau a ariennir gennym.
- 1.3.7 Mae gwerth am arian ac eglurder ynghylch sut rydym yn defnyddio ein hadnoddau'n effeithiol yn ganolog i gyflawni ein blaenoriaethau, yn enwedig wrth inni symud tuag at adfer ac ailadeiladu yn 2021-22. Unwaith y bydd gwariant wedi'i gynllunio yn unol â blaenoriaethau, mae prosesau hen sefydledig ar waith i sicrhau y caiff yr adnoddau eu defnyddio'n effeithiol at y dibenion a fwriadwyd. Mae'r gweithdrefnau llywodraethu a monitro sydd ar waith yn adlewyrchu natur ein cydberthnasau â phartneriaid cyflawni. Mae'r cynigion cyllidebol hyn yn adlewyrchu fy ymrwymiad o hyd i ddiogelu a blaenoriaethu buddsoddiad sy'n cefnogi mesurau ataliol hyd y gellir.

1.4 Hawliau plant ac ystiriaethau trawsbynciol eraill

Asesiadau Effaith

- 1.4.1 Dros y blynyddoedd diweddar, rydym wedi cynnal asesiadau effaith mewn ffordd integredig, sy'n cynnwys ystyried hawliau plant, gan adlewyrchu eu nodweddion gwarchoddedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, yn ogystal ag ystyried effaith penderfyniadau a pholisïau ar lesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol, fel y'u nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), yn ogystal â chynaliadwyedd a'r Gymraeg. Mae dull gweithredu integredig yn ein galluogi i ddeall effaith gyffredinol penderfyniadau ar blant a phobl ifanc yn well.
- 1.4.2 O dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, rydym wedi rhoi ystyriaeth gytbwys a sylw dyledus i'r hawliau a nodir yng Nghonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae Cyllideb ddrafft 2021-22, a gyhoeddwyd ar 21 Rhagfyr 2020, yn nodi effeithiau ein penderfyniadau ar wariant fel rhan o'r prif naratifau ym mhennod pedwar a phennod chwech, gan gynnwys tynnu sylw at benderfyniadau ar wariant sy'n cael effaith uniongyrchol ar blant a phobl ifanc. Ategir hyn gan yr Aseiad Effaith Integredig Strategol yn Atodiad C, sy'n amlinellu'r dystiolaeth gyd-destunol sydd wedi cefnogi ein penderfyniadau ar wariant, gan gynnwys effaith y pandemig ar blant a phobl ifanc. Mae Atodiad C hefyd yn cynnwys astudiaethau achos manylach ynglŷn ag effeithiau penderfyniadau penodol ar wariant, gan gynnwys un ar ein cymorth ar gyfer iechyd meddwl plant a phobl ifanc.
- 1.4.3 Ni chynhaliwyd Aseiad penodol o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer MEG Addysg fel rhan o'r broses o baratoi cyllideb ddrafft. Cynhelir asesiadau effaith manwl, gan gynnwys Aseiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, fel rhan o'n proses barhaus o ddatblygu ac adolygu polisïau. Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r asesiadau hyn i lywio penderfyniadau cyllidebol a'r aseiad o effaith ehangach y gyllideb. Drwy hyn, yng nghyd-destun dyraniadau'r gyllideb, sicrhewr bod tystiolaeth a dealltwriaeth o'r effeithiau yn cael eu hystyried o'r cychwyn cyntaf a thrwy gydol ein proses o baratoi'r gyllideb.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

- 1.4.4 Yn y cyd-destun hwn, na welwyd ei debyg o'r blaen, rydym yn parhau i gael ein llywio gan y pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 er mwyn gwella'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau. Rydym yn cydnabod yr angen i gydweithio â'n partneriaid a defnyddio ein hadnoddau cyfun yn effeithiol er mwyn cynllunio ar gyfer y dewisiadau anodd o'n blaenau.
- 1.4.5 Rydym yn parhau i weithio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac amrywiaeth o arbenigwyr i asesu sut rydym yn mynd i'r afael â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Wrth wraidd *Cenhadaeth ein Cenedl* mae llesiant cenedlaethau'r dyfodol; ac fel rhan o'r genhadaeth honno, caiff cwricwlwm newydd eang, cytbwys, cynhwysol a heriol ei roi ar waith. Rydym hefyd yn cydnabod na fydd diwygio'r cwricwlwm ar ei ben ei hun yn cynnig newid cynaliadwy. Mae'r cwricwlwm newydd yn cael ei

ddylunio i sicrhau ei fod yn gwneud y cyfraniad mwyaf posibl i bob un o'r nodau llesiant.

Yr effaith ar ddyraniadau o fewn MEG Addysg

1.4.6 Yn y gyllideb ddrafft hon, rydym wedi gwneud nifer o ddyraniadau ar ôl ystyried asesiadau o'r effaith ar hawliau plant, cydraddoldebau, y Gymraeg, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae hyn yn cynnwys:

- £2.2m yn ychwanegol ar gyfer y Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol sy'n bron â dyblu ein buddsoddiad i £4.9m yn 2021-22, er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac addysgol;
- cynyddu cyllid ar gyfer ein Grant Lleiafrifoedd Ethnig, Sipsiwn, Roma a Theithwyr o £1m, gan adlewyrchu'r angen cynyddol am gymorth i ddysgwyr a'r galw am y gwasanaethau hyn, gan ddarparu cyfanswm o £11m o gyllid y flwyddyn nesaf;
- £5m o gyllid cyfalaf ychwanegol er mwyn cyflwyno Prosiect Peilot Carbon Sero i ddatgarboneiddio ysgolion a cholegau yng Nghymru. Bydd y cyllid yn helpu partneriaid cyflawni i drawsnewid y seilwaith addysg yng Nghymru wrth inni barhau i bontio tuag at ystadau ysgolion ac addysg bellach cynaliadwy.

1.4.7 Er nas dyrennir i MEG Addysg, rydym hefyd yn dyrannu £23.3m yn ychwanegol i ymestyn prydau ysgol am ddim yn ystod gwyliau'r ysgol yn 2021-22 er mwyn parhau i roi cymorth i deuluoedd sy'n wynebu anawsterau yn ystod y cyfnod anodd hwn.

1.5 Costau Deddfwriaeth

Diwygio'r cwricwlwm a'r Bil Cwricwlwm ac Asesu

1.5.1 Yn ogystal â pharhau i ddarparu ein cyllidebau presennol ar gyfer diwygio'r cwricwlwm yn 2021-22, rydym yn buddsoddi £8.3m yn ychwanegol (£7.9m i Linell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Diwygio'r Cwricwlwm a £0.4m (Linell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Cymwysterau Cymru)) yn 2021-22 er mwyn cefnogi'r gwaith o roi'r cwricwlwm newydd i Gymru ar waith yn effeithiol. Mae'r cyllid hwn yn hanfodol i gyflawni amcan cyffredinol *Cenhadaeth ein Cenedl*; rhoi cwricwlwm gwednewidiol ar waith o 2022 ac ar gyfer y costau a nodir yn y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru). Mae hyn yn cynnwys:

- £1m i gefnogi'r gwaith sylweddol o gomisiynu adnoddau addysg dwyieithog i ysgolion a ddisgwylir i gefnogi'r broses o roi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith ac sy'n ychwanegol at y gyllideb bresennol o £3.1m ar gyfer adnoddau Cymraeg i ysgolion cyfrwng Cymraeg (Linell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Cymraeg mewn Addysg).
- Darperir £6.4m i gefnogi ysgolion yn uniongyrchol wrth iddynt roi'r cwricwlwm newydd ar waith. Bydd y cyllid yn galluogi pob ysgol i benodi o leiaf un ymarferydd o leiaf unwaith yn y Rhwydwaith Cenedlaethol. Mae hyn yn ategu'r buddsoddiad sylweddol ym maes dysgu proffesiynol yn fwy cyffredinol, gyda £15m arall i'w ddyrannu yn 2021-22 o'r Linell Wariant yn

y Gyllideb ar gyfer Datblygu a Chefnogi Athrawon i barhau i baratoi ysgolion ar gyfer y cwricwlwm newydd.

- £0.5m i gefnogi gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd a gwerthuso ar raddfa ehangach. Mae gweithgarwch ymgysylltu a chyfathrebu sylweddol â rhanddeiliaid allweddol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod pawb yn deall yr hyn sy'n newid a'r hyn y mae'r diwygiadau i'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yn ei olygu iddynt.
- £0.4m o gyllid ychwanegol er mwyn galluogi Cymwysterau Cymru i gyfrannu at y rhaglen ddiwygio ochr yn ochr â'i flaenoriaethau presennol.

1.5.2 Byddwn yn parhau i ddarparu ein cyllidebau presennol ar gyfer diwygio'r cwricwlwm sy'n werth £4m i gyd (Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Diwygio'r Cwricwlwm) er mwyn parhau i roi cymorth i ddatblygu canllawiau statudol ar y cwricwlwm a deunyddiau; gwaith ymchwil a gwerthuso i lywio'r broses o roi'r cwricwlwm ar waith a monitro cynnydd; a pharhau i gynnal trafodaethau rhwng cyrff cenedlaethol a rhanbarthol ac ysgolion er mwyn cefnogi'r gwaith o ddylunio'r cwricwlwm a'i roi ar waith. Bydd hefyd yn parhau i roi cymorth i gonsortia addysgu rhanbarthol er mwyn helpu pob ysgol gyda'r broses o ddylunio eu cwricwlwm a pharatoi i'w roi ar waith o 2022 ymlaen; ariannu ymarferwyr i weithio'n uniongyrchol gyda Llywodraeth Cymru i lunio canllawiau ychwanegol ar y cyd, gan gynnwys cwricwlwm a threfniadau asesu ar gyfer lleoliadau meithrin nas cynhelir; ariannu rhwydwaith o ysgolion arloesi i roi adborth ar y broses o roi'r cwricwlwm newydd ar waith; a helpu ysgolion i ymgysylltu â'r Rhwydwaith Cenedlaethol wrth inni symud i'r cam o roi'r cwricwlwm ar waith.

Diwygiadau i Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol a'r Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil

1.5.3 Caiff cyllid i gefnogi'r gwaith o roi diwygiadau i Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol ar waith ei ystyried yn ystod 2021-22.

Deddfwriaeth a basiwyd yn y pedwerydd Cynulliad a'r bumed Senedd

1.5.4 Nid oes unrhyw gostau yn gysylltiedig â deddfwriaeth a basiwyd yn y pedwerydd Cynulliad ar gyfer MEG Addysg. Mae hyn yn cynnwys: Deddf Cymwysterau Cymru 2015; Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015; Deddf Addysg (Cymru) 2014; a Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014, gan fod holl ddarpariaethau'r Deddfau wedi cael eu rhoi ar waith erbyn hyn.

1.5.5 Ymdrinnir â'r costau sy'n gysylltiedig â rhoi Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ar waith yn ystod y Pumed Cynulliad ar wahân isod.

Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a Rhaglen ehangach Trawsnewid ADY

- 1.5.6 Bydd costau o £6.9m yn gysylltiedig â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg 2018 a'r Rhaglen Trawsnewid ADY yn 2021-22, a ddaw o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol (£2.5m) a'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Gwella Safonau mewn Ysgolion (£4.4m). Bydd y gyllideb yn cyllido cymorth i weithredu/pontio; datblygu'r gweithlu; codi ymwybyddiaeth; a chefnogi polisi.

Deddfwriaeth Senedd y DU

- 1.5.7 Nid oes unrhyw ddeddfwriaeth gan Senedd y DU sy'n effeithio ar MEG Addysg ar gyfer 2021-22.

Is-ddeddfwriaeth

- 1.5.8 Mae'r gyllideb yn parhau i ystyried is-ddeddfwriaeth berthnasol yn 2021-22. Mae asesu costau rhoi deddfwriaeth ar waith a'r effaith ar y rhai y mae a wnelo â nhw yn rhan hanfodol o sicrhau y caiff egwyddorion "Cyfraith Dda" eu dilyn. Dyma pam mae rheoliadau drafft yn destun asesiad cadarn o gostau a manteision, a gyflawnir drwy ymgynghori ac ymgysylltu â'n rhanddeiliaid, wrth ddatblygu'r asesiadau effaith rheoleiddiol. Mae hyn yn sicrhau y caiff ein penderfyniadau eu llywio gan y bobl y byddant yn effeithio arnynt.

1.6 Effaith COVID-19

Effaith COVID-19 ar MEG Addysg yn 2020-21 a 2021-22, gan gynnwys symudiadau i mewn i linellau'r gyllideb ac allan ohonynt, y cyfraniad gros i ymateb cyllidebol Llywodraeth Cymru i COVID-19, a'r swm a dderbyniwyd oddi wrtho, yn ogystal ag effaith net hyn.

- 1.6.1 Mae **Atodiad C** yn rhoi crynodeb o effaith net COVID-19 ar MEG Addysg yn 2020-21 a 2021-22, o ganlyniad i gyfraniadau i'r Gronfa Ganolog a chyfraniadau ohoni y cytunwyd arnynt hyd yma. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith i £46.552m o referniw gael ei ddychwelyd o MEG Addysg i'w ryddhau i Gronfa Wrth Gefn COVID-19 a ddaliwyd yn ganolog yng Nghyllideb Atodol Gyntaf 2020. Mae hefyd yn cadarnhau'r dyraniadau ychwanegol (£71.4m) ar gyfer COVID-19 a chyfalaf a ddychwelwyd (£1.5m), a gyhoeddwyd yn Ail Gyllideb Atodol 2020-21. Yn olaf, mae'n cadarnhau'r dyraniadau pellach y cytunwyd arnynt fel rhan o'r cynllun ail-greu ar ôl COVID-19 a gyhoeddwyd ym mis Hydref, a gaiff ei ffurfioli fel rhan o'r Drydedd Gyllideb Atodol. Mae hyn yn cadarnhau mai'r effaith net ar MEG Addysg yn 2020-21 yw cynnydd o £100m (£59m o adnodd a £41m o gyfalaf) o Gronfa Wrth Gefn COVID-19. Dyrannwyd cyfanswm o £17m mewn perthynas â COVID-19 ar gyfer MEG Addysg yn 2021-22.

- 1.6.2 Lle rydym wedi gwneud arbedion mewn cyllidebau presennol, rydym wedi canolbwyntio ar y meysydd hynny lle roedd gweithgareddau'n annhebygol o gael eu cynnal yn ôl y bwriad o ganlyniad i'r pandemig; lle y gellir eu cynnal yn wahanol am gost is; neu lle y gellir eu gohirio. Lle y bo modd, rydym wedi ceisio diogelu arian buddsoddi i alluogi a chefnogi gweithgareddau diwygio hyd nes y bydd yn fwy priodol.

- 1.6.3 Derbyniwyd cyllid anuniongyrchol o Gronfa Wrth Gefn COVID-19 drwy Gronfa Cadernid Economaidd yr Economi a Thrafnidiaeth, a wnaeth y trosglwyddiadau canlynol i mewn i mewn i MEG Addysg (Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Gwariant Rhaglenni CCAUC):
- £3m i barhau i gyflwyno gradd-brentisiaethau yng Nghymru;
 - £1.5m i ddatblygu cynllun cymorth sy'n cyd-redeg â rhaglen Go Wales a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, ac sy'n rhannu ei huchelgeisiau, sy'n canolbwyntio ar fyfyrwyr sydd wedi graddio yn ystod y pandemig.
- 1.6.4 Rydym hefyd wedi ceisio ailwrpasu cyllid yn y MEG i ymateb i bandemig COVID-19. Mae hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer y rhaglen Cadw'n Ddiogel, Dal ati i Ddysgu a rhaglen Technoleg Addysg Hwb (gweler paragraff 1.6.17 a 1.6.18). Byddwn yn parhau i fonitro goblygiadau ariannol y pandemig ac yn ailflaenoriaethu eto yn ôl yr angen.

Manylion am y dyraniadau i raglen 'dal i fyny' COVID-19 yn 2020-21 a 2021-22 a'r defnydd a wneir o'r cyllid hwn.

- 1.6.5 Cydnabu Llywodraeth Cymru fod y rhan fwyaf o ddysgwyr wedi wynebu cryn darfu ar eu haddysg yn y flwyddyn academiaidd 2019/20, a bydd llawer yn wynebu bylchau yn eu haddysg y bydd angen eu llenwi yn ystod y flwyddyn academiaidd ganlynol.
- 1.6.6 Dyrannwyd cyfanswm o £15.4m ar gyfer cyllid dal i fyny ôl-16 yn 2020-21, a dyrannwyd £11.3m i golegau Addysg Bellach a £4.1m ar gyfer addysg chweched dosbarth Awdurdodau Lleol. Darparwyd y cyllid hwn er mwyn cydnabod costau ychwanegol y cymorth addysgu cynyddol yr oedd ei angen ar y myfyrwyr hynny a gollodd addysg wyneb yn wyneb yn 2019/20, ynghyd â chost ychwanegol cefnogi'r broses o bontio i addysg ôl-16. Caiff y cyllid ei ddarparu ar gyfer pob dysgwr amser llawn rhwng 16 a 19 oed, sy'n golygu cynnydd o 5 y cant yn y cyllid fesul myfyriwr. Mae hyn yn ei dro yn cynyddu nifer yr oriau a ariannwn o 650 awr fesul rhaglen fel arfer i 682 awr fesul rhaglen. Bydd y canllawiau archwilio yn 2020/21 yn adlewyrchu hyn.
- 1.6.7 Ym mis Gorffennaf, cyhoeddwyd £29m o gyllid ychwanegol i recriwtio, adfer a gwella safonau mewn ysgolion yng Nghymru mewn ymateb i'r effaith a grëwyd gan bandemig COVID-19. O'r buddsoddiad hwn, darparwyd £16.8m yn 2020-21 ac rydym yn dyrannu £12m arall yn y Gyllideb ddrafft ar gyfer 2021-22. Blaenoriaeth Llywodraeth Cymru fu sicrhau bod y rhai â'r angen mwyaf yn gallu cael gafael ar gymorth. Caiff y cyllid ychwanegol ei dargedu at flynyddoedd 7, 11, 12 a 13 a hefyd at ddysgwyr o bob oeddan sydd o dan anfantais ac yn agored i niwed. Er mwyn cefnogi'r rhaglen hon ymhellach, dyrannwyd cyllid hefyd i'r consortia rhanbarthol (£0.233m y consortiwm) er mwyn cefnogi anghenion cydgysylltu a Dysgu Proffesiynol sy'n codi.
- 1.6.8 Rydym hefyd yn neilltuo £7m yn ychwanegol yn 2020-21 i ddarparu rhagor o adnoddau i awdurdodau lleol i'w galluogi i ganolbwyntio ar y dysgwyr yr effeithiwyd arnynt fwyaf, yn enwedig ym mlynnyddoedd 'arholiadau' 11, 12 a 13. Rydym hefyd yn gweithio gyda CBAC, rhanbarthau ac ysgolion i sicrhau

bod dysgwyr yn gallu cael gafael ar adnoddau e-ddysgu o ansawdd uwch i'w helpu i baratoi ar gyfer asesiad.

Manylion am y dyraniadau yn 2020-21 a 2021-22 i sefydliadau addysg bellach er mwyn cefnogi darpariaeth i ddysgwyr y gohiriwyd cwblhau eu cwrs, a nifer y dysgwyr unigryw yr effeithiwyd arnynt.

- 1.6.9 Yn sgil gwybodaeth gan Cymwysterau Cymru ac Ofqual ar 23 Mai yn nodi pa gymwysterau galwedigaethol na ellid eu cyfrifo/amcangyfrif yn yr un ffordd â chymwysterau TGAU a Safon Uwch, penderfynwyd, yn achos rhai cymwysterau, mai'r unig opsiwn oedd gohirio'r asesiad. Er enghraifft, lle nad oes modd cyfrifo canlyniad yn ddilys, nac addasu'r asesiad mewn ffordd nad yw'n tansilio hyder yn y cymwysterau.
- 1.6.10 Darperir hyd at £5m yn 2020-21 i gefnogi'r dysgwyr galwedigaethol hyn nad oeddent yn gallu cael canlyniad wedi'i gyfrifo ac yr oedd angen iddynt ddychwelyd i'r coleg i ennill eu cymwysterau sy'n rhoi trwydded i ymarfer.
- 1.6.11 Mae colegau wedi rhoi data am y dysgwyr yr effeithiwyd arnynt, sydd wrthi'n cael eu dilysu yn erbyn data archwiliedig Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru a ddelir gan Lywodraeth Cymru, gyda'r nod o wneud taliadau i golegau ym mis Ionawr 2021. Tra bod y data hyn yn parhau i gael eu dilysu, yn y ffurflen gychwynnol a ddychwelwyd gan golegau nodwyd 6,917 o ddysgwyr yr effeithiwyd arnynt.

Gweithgarwch addysgol a oedd yn gysylltiedig â COVID-19 y tu allan i MEG Addysg

- 1.6.12 Rydym yn darparu adnoddau sylweddol i awdurdodau lleol i'w galluogi i ddarparu'r gwasanaethau a'r cymorth sydd eu hangen ar eu cymunedau lleol. Darperir dros £0.5bn drwy'r Gronfa Galedi Frys i Awdurdodau Lleol o dan MEG Tai a Llywodraeth Leol i dalu'r costau ychwanegol yn ystod y flwyddyn ariannol hon ar gyfer pob maes gwasanaeth a hefyd i roi cymorth yn sgil colli incwm. Mae'r swm hwn wedi darparu dros £16.6m ar gyfer costau ychwanegol a £22.3m ar gyfer incwm a gollwyd gan wasanaethau Addysg.
- 1.6.13 Hyd at ddiwedd mis Hydref 2020, roedd awdurdodau lleol yng Nghymru wedi hawlio £30m yn 2020-21 i ddarparu prydau ysgol am ddim i ddisgyblion cymwys yn ystod gwyliau'r ysgol ac i ddisgyblion cymwys na fu modd iddynt fynychu'r ysgol drwy gydol y pandemig.
- 1.6.14 Mae sicrhau parhad prydau ysgol am ddim wedi bod yn un o flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru yn ystod y pandemig. Mae Cymru wedi arwain y ffordd o ran sicrhau, yn ystod y cyfnod hwn o gryn ansicrwydd, fod y rhai sy'n dibynnu ar brydau ysgol am ddim wedi gallu parhau i'w derbyn yn ystod gwyliau'r ysgol. Gan adeiladu ar y cyllid a gyhoeddwyd gennyf yn ystod y flwyddyn ariannol hon, byddwn yn darparu £23.3m yn ychwanegol i ymestyn darpariaeth prydau ysgol am ddim yn ystod gwyliau'r ysgol drwy gydol 2021-22. Bydd y buddsoddiad hwn nid yn unig yn helpu i leihau tloedi ac

anghydraddoldebau iechyd yn ein cymdeithas, ond bydd hefyd yn rhoi cymorth i deuluoedd sy'n cael trafferth cael dau ben llinyn ynghyd yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Manylion unrhyw gyllid ychwanegol, neu ailgyfeirio adnoddau, ar gyfer dysgu ac addysgu o bell i ddisgyblion ysgol.

1.6.15 Cyhoeddwyd y rhaglen Cadw'n Ddiogel, Dal ati i Ddysgu ar 20 Ebrill 2020, a oedd yn amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, a'n holl bartneriaid ym mhob rhan o'r system addysg, yn ystod pandemig COVID-19 er mwyn cefnogi:

- diogelwch ein holl ddysgwyr a'n gweithlu addysg;
- iechyd a lles corfforol a meddyliol ein holl ddysgwyr a'n gweithlu addysg;
- gallu ein holl ddysgwyr i barhau i ddysgu;
- y broses o ddychwelyd i'r ysgol ac ymlaen i gam nesaf addysg dysgwyr.

1.6.16 Fel rhan o'r rhaglen Cadw'n Ddiogel, Dal ati i Ddysgu, cafodd £2m o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Datblygu a Chefnogi Athrawon ei ailbwrpasu yn 2020-21 er mwyn cefnogi amrywiol elfennau o waith, gan gynnwys:

- £0.435m i ariannu ymchwil i ddeall goblygiadau pandemig COVID-19 ar feysydd penodol o system addysg Cymru, gan gynnwys darparu addysg gychwynnol i athrawon;
- £0.148m i gefnogi athrawon newydd gymhwyso wrth iddynt bontio i gyfnod ymsefydlu statudol yr amherir arno;
- £0.025m i dalu costau unrhyw hawlfraint neu drwydded sy'n codi o ganlyniad i ddarparu adnoddau ar Hwb;
- £0.1m i gyflwyno cwrs dysgu o bell ar-lein ar lunio, creu a chyflwyno adnoddau dysgu o bell anghydamseredig o ansawdd da (ar ffurf e-ddysgu digidol a phapur);
- £0.315m i ariannu gwaith Cyngor Llyfrau Cymru i gyfuno agendâu llythrennedd ac iechyd a lles er mwyn cynnig detholiad o lyfrau darllen i ysgolion ar thema iechyd a lles;
- £0.5m i gonsortia rhanbarthol gyflwyno dysgu proffesiynol;
- £0.526m i gydweithio â CBAC i ddatblygu adnoddau dysgu ac addysgu i gefnogi dysgwyr Safon Uwch.

1.6.17 Fel rhan o'r rhaglen Cadw'n Ddiogel, Dal ati i Ddysgu, dyrannwyd hyd at £3m yn 2020-21 ar gyfer dysgwyr a oedd wedi'u hallgáu'n ddigidol. Cafodd y cyllid ei ailbwrpasu o'r £30m o gyllid Cyfalaf Technoleg Addysg Hwb gan helpu awdurdodau lleol i dalu'r costau a oedd yn gysylltiedig â'r holl drwyddedau, caledwedd a chysylltedd hyd at 31 Mawrth 2021.

1.6.18 Ymatebodd Llywodraeth Cymru yn gyflym i'r pandemig drwy sicrhau cytundeb cysylltedd cenedlaethol â gweithredwyr symudol mawr ar gyfer dyfeisiau MiFi, a chyflwynodd ateb technegol a oedd yn galluogi awdurdodau lleol ac ysgolion i ailbwrpasu dyfeisiau a oedd ganddynt eisoes at ddefnydd dysgwyr yn y cartref. Roedd modd prynu dyfeisiau newydd hefyd o dan raglen seilwaith ehangach Technoleg Addysg Hwb. Drwy'r cyllid hwn, cafodd awdurdodau lleol eu helpu i sicrhau na fyddai diffyg mynediad at liniadur na chysylltedd yn rhwystr i ddysgu o bell ac fe'i gwnaed yn bosibl i ddysgwyr

barhau ar eu taith addysgol pan oedd ysgolion ar gau neu pan oedd angen i ddysgwyr hunanynysu.

1.7 Effaith Brexit

Y goblygiadau i MEG Addysg yn sgil diwedd cyfnod pontio'r UE ar 31 Rhagfyr 2020

1.7.1 Caiff yr holl weithrediadau ymchwil, datblygu ac arloesi presennol eu hariannu drwy Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERF) ac fel y cyfryw maent yn gweithredu o dan reolau'r UE. Nid yw'n amlwg eto, o ran y broses na faint o gyllid a fydd ar gael i Lywodraeth Cymru, sut y bydd Llywodraeth y DU yn disodli dyraniadau ERDF blaenorol. At hynny, yn niffyg cyllid gan yr UE, bydd angen darparu cyllid craidd oni fydd cyllid amgen ar lefel y DU ar gael.

Cyllid yr UE a hawliwyd gan MEG Addysg 2020-21 a rhagolwg ar gyfer 2021-22

1.7.2 Rydym wedi parhau i bwysu ar Lywodraeth y DU i gyflawni ymrwymadau ei maniffesto a'r addewidion a wnaed yn ystod ymgyrch refferendwm yr UE na fyddai Cymru yn colli ceiniog o ganlyniad i adael yr UE.

1.7.3 Bydd unrhyw beth sy'n brin o'r swm llawn yn seiliedig ar lefelau cyllido presennol yr UE yn arwain at darfu ar ddiwedd y cyfnod pontio a goblygiadau i adferiad yr economi ar ôl COVID-19, ac yn peryglu'r gallu i gefnogi dysgwyr ledled Cymru.

1.7.4 Roedd y sector addysg a darparwyd sgiliau yng Nghymru, sy'n cael cyllid yn uniongyrchol gan yr UE drwy gymryd rhan mewn amrywiaeth o raglenni cystadleuol, gan gynnwys rhaglen ymchwil Horizon 2020 a rhaglen symudedd Erasmus+, yn disgwyl i Lywodraeth y DU weithredu'n unol â'i haddewidion, ac, fel y gellir deall, byddant yn siomedig bod yr addewidion hyn wedi cael eu torri.

1.7.5 Byddwn yn parhau i gefnogi'r trydydd sector, a gweithio mewn partneriaeth ag ef, drwy Weithgor Brexit Addysg Bellach ac Uwch a thrwy ymgysylltu â rhanddeiliaid unigol yn rheolaidd er mwyn ystyried effeithiau posibl y berthynas â'r UE ar ôl pontio, a cheisio mynd i'r afael â nhw. Mae hyn yn cynnwys nodi strategaethau i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sydd ar gael i Gymru a'u rhoi ar waith wrth inni feithrin cydberthnasau newydd â'r UE a phartneriaid rhyngwladol eraill.

1.7.6 Mae'r ansicrwydd o hyd ynghylch a fydd modd cymryd rhan yn Erasmus+ neu gynllun amgen domestig i'r DU gyfan yn y dyfodol yn anfodhaol. Os na chaiff ein gallu i gymryd rhan yn Erasmus+ ei sicrhau, dyrannodd Adolygiad o Wariant 2020 Llywodraeth y DU gyllid ar gyfer cynllun amgen domestig i'r DU gyfan, ond nid yw lefel na chwmpas y cyllid amgen yn hysbys eto. Hyd nes bod y sefyllfa yn glir, ni allwn gadarnhau beth fyddai'r gofyniad am gyfraniad i gostau rhedeg trefniadau gweinyddu Erasmus+ na chynllun

amgen (£200k ar hyn o bryd ar gyfer cyfran Cymru o ffi reoli'r Asiantaeth Genedlaethol sy'n gweithredu cynllun Erasmus+ yng Nghymru).

1.7.7 Nod y Gronfa Bontio Ewropeaidd gwerth £50m oedd helpu busnesau, y trydydd sector a gwasanaethau cyhoeddus i gynllunio a pharatoi ar gyfer Brexit. Ar gyfer 2020-21, neilltuwyd £1.369m o'r Gronfa Bontio Ewropeaidd ar gyfer Cymru Fyd-eang II (o fewn Cam Gweithredu Addysg Uwch), ar ôl dyraniad o £1.382m o'r Gronfa yn 2019-20 (a £800,000 yn 2018-19). Mae Cymru Fyd-eang II yn fenter bwysig o ran ein hymdrechion i liniaru effeithiau Brexit, nid yn unig mewn perthynas â'r sector addysg uwch, ond hefyd ei effeithiau ehangach ar economi a chymdeithas Cymru.

1.8 Monitro cyllidebau

1.8.1 Yn ystod 2020-21, byddwn yn parhau i fonitro a herio pob cyllideb bob mis, er mwyn ystyried y rhagolygon diweddaraf a symudiadau rhwng cyllidebau yn ôl yr angen. Mae hyn yn cynnwys monitro cyllid ychwanegol a ddyrannwyd o Gronfa Wrth Gefn COVID-19 yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Rwy'n cael diweddariadau ariannol rheolaidd ar ragolygon y MEG er mwyn sicrhau bod y cyllidebau yn dal i fod ar y trywydd cywir i fodloni fy mlaenoriaethau. Rydym yn ymgymryd â gwaith monitro manwl iawn er mwyn sicrhau bod cyllid yn cael ei fuddsoddi lle mae ei angen fwyaf a'i fod hefyd yn cefnogi ein blaenoriaethau – yn y lle cywir, ar yr adeg gywir.

1.8.2 Mae trefniadau a strwythurau llywodraethu ar waith o ran COVID-19 ac ymateb Llywodraeth Cymru i'r argyfwng. Mae'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd yn ystyried materion cyllid sy'n ymwneud â COVID-19 yn rheolaidd, ac rwyf finnau a Gweinidogion perthnasol eraill yn cymryd rhan yn ôl y gofyn. Drwy'r cyfarfodydd hynny, gall y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd gael cyngor a safbwyntiau amrywiol ar y materion hyn cyn gwneud penderfyniadau neu roi cyngor i'r Cabinet.

1.8.3 Bwriedir gwneud nifer o drosglwyddiadau arfaethedig ar gyfer Trydedd Gyllideb Atodol 2020-21 a fydd yn effeithio ar MEG Addysg a chrynoir y rhain yn y tabl isod:

| Disgrifiad | Llinell Wariant yn y Gyllideb | £000 |
|--|------------------------------------|---------|
| Refeniw | | |
| Trosglwyddiadau o Gronfeydd Wrth Gefn COVID-19 (gweler Atodiad C) | Amrywiol | 37,612 |
| Trosglwyddiad o'r Gronfa Ganolog – Cyflogau Athrawon (cyn 16) | Datblygu a Chefnogi Athrawon | 3,981 |
| Trosglwyddiad o'r Gronfa Ganolog – Cyflogau Athrawon (Chweched Dosbarth) | Darpariaeth Addysg Bellach | 232 |
| Trosglwyddiad o Lywodraeth y DU – Dysgu ar gyfer Troseddwyd | Dysgu ar gyfer Troseddwyd | 3,300 |
| Trosglwyddiad i MEG Tai a Llywodraeth Leol | Bwyd a Maeth mewn Ysgolion | (1,000) |
| Trosglwyddiad i MEG Tai a Llywodraeth Leol | Grŵp Agored i Niwed | (600) |
| Trosglwyddiad o MEG Tai a Llywodraeth Leol – Digartrefedd Ieuenctid | Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid | 3,700 |
| Trosglwyddiad o MEG Tai a Llywodraeth Leol – Prydau | Darpariaeth Addysg | 479 |

| | | |
|---|--|---------------|
| Ysgol am Ddim mewn Addysg Bellach | Bellach | |
| Trosglwyddiad o MEG Addysg a Hyfforddiant | Darpariaeth Addysg Bellach | 1,750 |
| Trosglwyddiad o MEG Addysg a Hyfforddiant – Prentisiaethau Lefel Gradd | Gwariant Rhaglenni CCAUC | 4,000 |
| Trosglwyddiad o MEG Addysg a Hyfforddiant – Trawsnewid Digidol | Trawsnewid Digidol | 516 |
| Trosglwyddiad o MEG Iechyd a Gofal Cymdeithasol – bwsari GIG Cymru | Grantiau Cymorth i Fyfrwyr | 2,800 |
| Trosglwyddiad i MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu – addasiad Buddsoddi i Arbed – cyllid i fyfrwyr | Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Costau Gweinyddu'r Cwmni Benthyciadau i Fyfrwyr/CThEM | 74 |
| Trosglwyddiad o MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu – addasiad Buddsoddi i Arbed – Profion Llythrennedd a Rhifedd | Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Llythrennedd a Rhifedd | (2,100) |
| Cyfanswm y Refeniw | | 54,744 |
| Cyfalaf | | |
| Trosglwyddiadau o Gronfeydd Wrth Gefn COVID-19 (gweler Atodiad C) | Amrywiol | 39,360 |
| Trosglwyddiad i'r Gronfa Ganolog Wrth Gefn – enillion ar gyfer Cyfalaf Trafodion Ariannol ychwanegol mewn perthynas â'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol | Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Seilwaith Addysg | (383) |
| Trosglwyddiad o'r Gronfa Ganolog Wrth Gefn – cyllid Model Buddsoddi Cydfuddiannol – arian benthycia Banc Datblygu Cymru (Cyfalaf Trafodion Ariannol) | Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Seilwaith Addysg | 783 |
| Cyfanswm y Cyfalaf | | 39,760 |

2. Meysydd penodol

Mae'r adran hon yn rhoi diweddariad ar y meysydd penodol yn unol â chais y Pwyllgor.

2.1 Cyllid ar gyfer cyllidebau ysgolion

Esboniad o'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu cyllid ar gyfer ysgolion yng Nghyllideb Ddrafft 2021-22 ac wedi ystyried adolygiad Sibieta o wariant ysgolion, a ddaeth i'r casgliad: "Erbyn hyn mae sylfaen dystiolaeth gref sy'n dangos manteision sylweddol yn sgil gwario mwy ar ysgolion. Ar draws ystod o gyd-destunau a gwledydd, gwelwyd bod cynnydd o 10% mewn gwariant yn gwella enillion addysgol ac enillion yn ddiweddarach mewn bywyd tua 7-10%."

2.1.1 Pan gomisiynwyd yr adolygiad o wariant ysgolion y llynedd, ni allai neb fod wedi rhagweld pwysau digynsail pandemig y coronafeirws ar gyllidebau'r sector cyhoeddus. Rwy'n hollol ymwybodol o'r pwysau gwirioneddol y mae awdurdodau lleol ac ysgolion yn eu hwynebu o ganlyniad i hynny. Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud popeth o fewn ei gallu i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus Cymru yn cael yr holl adnoddau sydd eu hangen arnynt i ymateb i effaith yr argyfwng a'i liniaru. Yn awr, yn fwy nag erioed, mae angen inni ddeall y penderfyniadau ar gyllid a wneir ledled Cymru er mwyn sicrhau tegwch a rhagoriaeth i'n dysgwyr.

- 2.1.2 Y brif ffynhonnell o gyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ysgolion yw'r cyllid i awdurdodau lleol drwy Grant Cynnal Refeniw Setliad Llywodraeth Leol o dan MEG Tai a Llywodraeth Leol. Mae sicrhau bod llywodraeth leol yn cael y setliad gorau posibl weedi bod yn ganolog i'n gwaith paratoi ar y gyllideb unwaith eto y flwyddyn hon. Rydym yn rhoi codiad o £176m i lywodraeth leol yn 2021-22 er mwyn cefnogi gwasanaethau rheng flaen, gan gynnwys ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol. Mae hyn yn adeiladu ar setliad gwell o lawer yn y flwyddyn gyfredol er mwyn galluogi llywodraeth leol i gefnogi a darparu gwasanaethau lleol hanfodol a gwerthfawr sy'n canolbwyntio ar ysgolion a gofal cymdeithasol.
- 2.1.3 Er bod oedi cyn cyhoeddi'r adroddiad hwn o ganlyniad i COVID-19 ac felly nad yw'n effeithio'n uniongyrchol ar ddyraniadau yn y gyllideb ddrafft hon, bydd bellach yn rhoi tystiolaeth i alluogi'r rhai sy'n llunio polisïau i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth wrth ystyried cyllid ysgolion ledled Cymru yn y dyfodol, gan barhau â'n nod cyffredinol o wella safonau ysgolion a lleihau anghydraddoldebau. Caiff y canfyddiadau eu defnyddio i helpu'r rhai sy'n llunio polisïau i benderfynu a oes gan ysgolion mewn amgylchiadau gwahanol ddigon o gyllid i dargedu unrhyw gynnydd mewn gwariant yn y ffordd orau, yn awr ac yn y dyfodol, er mwyn cefnogi ein diwygiadau addysg.

Esboniad o'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried dau o argymhellion eraill Luke Sibieta yng Nghyllideb Ddrafft 2021-22:

- ***Dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu cyllid ychwanegol ar gyfer yr ysgolion mwyaf difreintiedig.***
- ***Dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu cyllid ychwanegol ar gyfer ysgolion â chweched dosbarth.***

- 2.1.4 Mae'n annerbyniol bod amgylchiadau cymdeithasol neu economaidd yn effeithio ar lwyddiant addysgol plentyn. Mae gwrthsefyll effeithiau anfantais ac amddifadedd ar blant a phobl ifanc yn ganolog i'n grant blaenllaw yn y maes hwn, sef y Grant Datblygu Disgyblion. Mae'r Grant Datblygu Disgyblion yn darparu cyllid ychwanegol i ysgolion, y blynyddoedd cynnar a lleoliadau eraill er mwyn galluogi dysgwyr o dan anfantais i sicrhau eu canlyniadau addysgol gorau. Rhoddir y rhan fwyaf o'r grant yn uniongyrchol i ysgolion a lleoliadau, ac eithrio'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal, a reolir yn rhanbarthol gan y consortia.
- 2.1.5 Rydym yn parhau i gynyddu ein buddsoddiad yn y Grant Datblygu Disgyblion o flwyddyn i flwyddyn. Ers ei gyflwyno yn 2012, rydym wedi darparu mwy na £585 miliwn drwy'r Grant Datblygu Disgyblion, sydd wedi helpu'r hyn sy'n cyfateb i fwy na 530,000 o blant a phobl ifanc i sicrhau eu canlyniadau addysgol gorau. Rydym yn cydnabod bod pandemig COVID-19 yn cael effaith enfawr ar deuluoedd difreintiedig ac yn rhoi pwysau ychwanegol ar ysgolion difreintiedig. Drwy gynyddu'r dyraniad yn y gyllideb ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion bydd modd rhoi mwy o gymorth i'r ysgolion hyn lle ceir disgyblion sy'n agored i niwed a mynd i'r afael â'r cynnydd yn nifer y dysgwyr y mae eu teuluoedd mewn tloedi o ganlyniad i'r pandemig. Rydym yn parhau i wneud y buddsoddiad uchaf erioed yn y Grant Datblygu Disgyblion, sef dros

£100m yn 2021-22. Ar ben hyn, rydym yn dyrannu £2m yn ychwanegol ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad, sy'n golygu y bydd cyfanswm o fwy na £10m o gyllid y flwyddyn nesaf.

- 2.1.6 O ran yr adolygiad o gyllid ysgolion, mae *Cenhadaeth ein Cenedl* yn rhoi pwys cenedlaethol ar wella ysgolion ym mhob rhan o'r system. Rydym wedi cydnabod yr adroddiad ac mae trafodaethau'n mynd rhagddynt i ystyried sut y bydd y canfyddiadau yn dylanwadu ar y Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer 2021-22. Mae dyraniadau'r Grant Datblygu Disgyblion yn seiliedig ar nifer y dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy'n brocsi dros amddifadedd. Caiff y Grant Lleihau Maint Dosbarthiadau Babanod ei dargedu at ysgolion sy'n bodloni meini prawf penodol, gan gynnwys y rhai sydd â lefelau uchel o amddifadedd.
- 2.1.7 Noder y dylai unrhyw flaenoriaeth a roddir i gyllid ychwanegol ar gyfer ysgolion â chweched dosbarth hefyd gael ei hystyried gyda'r un flaenoriaeth i ddarpariaeth 16-19 mewn colegau Addysg Bellach. Mae hyn yn adlewyrchu datganiadau Llywodraeth Cymru am gydraddoldeb rhwng darpariaeth ôl-16 debyg mewn ysgolion a cholegau Addysg Bellach, ond hefyd gydraddoldeb rhwng llwybrau academiaidd a galwedigaethol.
- 2.1.8 Mae cyllideb ddrafft 2021-22 yn cydnabod y flaenoriaeth ar gyfer darpariaeth 16-19 mewn ysgolion â chweched dosbarth a cholegau, gan nodi bod demograffeg y garfan oedran hon yn cynyddu ac y dylai cyllid gynyddu yn unol â hynny. Ar gyfer 2021-22, rydym yn darparu tua £21.7m i gydnabod demograffeg gynyddol dysgwyr 16-19 oed mewn darpariaeth chweched dosbarth ac addysg bellach, ynghyd â £7m a ddyrannwyd yn y MEG i roi rhagor o gymorth ar gyfer ymrwymadau i ddarpariaeth chweched dosbarth ac addysg bellach.
- 2.1.9 Bu'n bwysig, nid yn unig cydnabod y cynnydd mewn demograffeg ar yr oedran hwn, ond hefyd effeithiau tebygol COVID-19 a phenderfyniadau sy'n ymwneud â COVID-19 ar nifer y bobl ifanc sy'n dewis aros mewn addysg. Hynny yw, mae canlyniadau TGAU cynyddol a phrinder cyfleoedd swyddi yn arwydd y bydd canran y garfan hon sy'n dewis aros mewn addysg yn cynyddu.

Asesiad wedi'i ddiweddarau gan y Gweinidog o ddigonolrwydd y ddarpariaeth ar gyfer cyllidebau ysgolion yn 2021-22, o ystyried y tarfu o ganlyniad i COVID-19 a'r diwygiadau sylweddol i'r cwricwlwm ac ADY y bydd yn ofynnol i ysgolion baratoi ar eu cyfer a'u rhoi ar waith.

- 2.1.10 O ystyried y cefndir heriol mae'r Gyllideb hon yn cael ei chyflwyno yn ei erbyn, mae ein cynlluniau gwariant ar gyfer 2021-22 yn adeiladu ar y setliad gwell o lawer yn y flwyddyn gyfredol i'n galluogi i roi cymorth ar gyfer cyllidebau ysgolion a darparu ein gwasanaethau rheng flaen i ysgolion. Fodd bynnag, er mwyn rhoi'r setliad gorau posibl i lywodraeth leol, mae'n golygu cydnabod yr holl grantiau penodol sy'n cefnogi ysgolion hefyd. Ar gyfer 2021-22, byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn grantiau penodol i awdurdodau lleol o fewn MEG Addysg sy'n cefnogi cyllidebau ysgolion, gan

gynyddu'r Grant Lleiafrifoedd Ethnig a Sipsiwn, Roma a Theithwyr a'r Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad.

- 2.1.11 Fel y nodir yn 1.5.1., rydym yn cynyddu cyllid yn 2021-22 er mwyn helpu i wireddu ein huchelgeisiau i ddiwygio'r cwricwlwm. Byddwn hefyd yn parhau i ddarparu'r swm o £8m a ddyrannwyd yng nghyllideb y flwyddyn diwethaf i roi cymorth parhaus i awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach (cyfeirir at adran 2.8).
- 2.1.12 Byddaf yn parhau i adolygu effaith y pandemig ar y sefydliadau a ariannwn wrth inni symud i'r flwyddyn ariannol nesaf. Er mwyn sicrhau bod unrhyw benderfyniadau yn ateb yr heriau sy'n datblygu o ganlyniad i'r pandemig yn y ffordd orau bosibl, mae'n ddoeth cadw cymaint o hyblygrwydd â phosibl yn awr a dyrannu cyllid yn ôl yr angen.

2.2 Cyllid ar gyfer gwella ysgolion

Dadansoddiad manwl o'r ffordd y caiff yr elfen flynyddol o ymrwymiad y Bumed Senedd i roi buddsoddiad ychwanegol o £100 miliwn i wella safonau mewn ysgolion ei dyrannu yn 2021-22.

- 2.2.1 Rydym wedi darparu £100m yn ystod y tymor Senedd hwn er mwyn gwella safonau mewn ysgolion. Ar gyfer 2021-22, byddwn yn parhau i ddarparu £25.5m arall o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Gwella Safonau mewn Ysgolion er mwyn parhau â'r ymrwymiad hwn i wella safonau mewn ysgolion. Byddaf yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar y dyraniadau dangosol yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Gwella Safonau mewn Ysgolion ar gyfer 2021-22 unwaith y byddant wedi'u pennu'n derfynol.

Dadansoddiad o'r ffordd y cafodd cyllid o dan ymrwymiad y Bumed Senedd i roi £100 miliwn o fuddsoddiad ychwanegol i wella safonau mewn ysgolion ei ddyrannu a'i ddefnyddio yn ystod y Senedd hon.

- 2.2.2 Mae'r dadansoddiad yn **Atodiad D** yn rhoi diweddariad ar y ffordd y dyrannwyd y £100m yn ystod y tymor Senedd hwn. Mae'r blaenoriaethau ar gyfer addysg a'r meysydd lefel uchel ar gyfer buddsoddi'r £100m wedi'u pennu i gyd-fynd â'n cefnogaeth i gyflawni *Cenhadaeth ein Cenedl* yn llwyddiannus.

Diweddariad i Dabl D a gyhoeddwyd yn yr atodiad i bapur y Gweinidog i'r Pwyllgor ar Gyllideb Ddrafft 2020-21, sy'n rhestru dyraniadau i'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb sy'n cefnogi'r gwaith o wella safonau mewn ysgolion o fewn MEG Addysg yn ystod y Senedd hon.

- 2.2.3 Ceir dadansoddiad wedi'i ddiweddarau o'r holl Linellau Gwariant yn y Gyllideb o fewn MEG Addysg sy'n cyfrannu at wella safonau mewn ysgolion ar gyfer y cyfnod rhwng 2016-17 a 2021-22 yn **Atodiad E**.

Manylion am ddyraniadau Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol yn 2020-21 ac mewn blynyddoedd blaenorol, yn ogystal ag unrhyw ddyraniadau dangosol sydd ar gael ar gyfer 2021-22, yn ôl consortiwm ac 'amcan' (neu bennawd arall, p'un bynnag sy'n gymwys).

2.2.4 Mae'r tabl yn **Atodiad F** yn rhoi dadansoddiad o Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol ar gyfer 2020-21 ac mewn blynyddoedd blaenorol. Nid oes dadansoddiad dangosol ar gyfer 2021-22 ar gael ar hyn o bryd. Yn 2020-21, gofynnwyd i bartneriaid cyflawni nodi meysydd lle y gall arbedion godi yng ngoleuni COVID-19 a chafodd £4.2m ei nodi a'i ddychwelyd i Gronfa Wrth Gefn COVID-19 fel y'i cyhoeddwyd yng Nghyllideb Atodol Gyntaf 2020-21. Mae Llywodraeth Cymru a'r partneriaid cyflawni yn parhau i weithio gyda'i gilydd i sicrhau y caiff y grantiau a'r gwaith o gyflawni prosiectau eu monitro'n effeithiol.

2.2.5 Ar ôl i gyngor Castell-nedd Port Talbot dynnu'n ôl o gonsortiwm rhanbarthol ERW ym mis Ebrill 2020, rhoddodd Llywodraeth Cymru grant ar wahân i gyngor Castell-nedd Port Talbot yn 2020-21 er mwyn iddo roi cymorth a darparu gwasanaethau i'w ysgolion a fyddai wedi dod o ERW yn flaenorol. Cytunodd ERW a chyngor Castell-nedd Port Talbot ar nifer o feysydd cyflawni (a oedd yn ymwneud â diwygio'r cwricwlwm a dysgu proffesiynol) y byddai ERW yn parhau i'w darparu i ysgolion Castell-nedd Port Talbot; yn yr achosion hyn, cadwyd y cyllid perthnasol gan ERW.

Gwybodaeth am elfen Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol sy'n ymwneud â'r Grant Gwella Addysg a diweddariad ar y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau y caiff hwn ei ddefnyddio'n strategol ac y caiff ei effaith ei gwerthuso.

2.2.6 Erys y Grant Gwella Addysg yn rhan o Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol, a ddefnyddir i helpu'r consortia rhanbarthol i gyflawni ein blaenoriaethau i ysgolion ac addysg a amlinellwyd yn *Cenhadaeth ein Cenedl* a'i ddiweddariad ym mis Hydref 2020. Yng nghanol hyn y mae cwricwlwm gweddnewidiol, a ategir gan bedwar amcan galluogi, y mae'n rhaid i waith y consortia eu cefnogi.

2.2.7 Er bod lle i'r consortia rhanbarthol ddefnyddio'r Grant Gwella Addysg yn hyblyg er mwyn cefnogi ein blaenoriaethau cenedlaethol, mae'n dal i ganolbwyntio'n bennaf ar y Cyfnod Sylfaen, cymorth i Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a gwella dysgu ac addysgu. Mae'n rhaid cadw at gyfradd ddirprwyo o 80% o leiaf i ysgolion ac mae Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrwydd o ran hyn.

2.2.8 Drwy delerau ac amodau'r grant sicrheir bod ysgolion yn cydymffurfio â'r cymarebau rhwng staff a disgyblion. Mae'n ofynnol i'r consortia bennu eu fformiwla ddyrannu i ysgolion er mwyn eu helpu i sicrhau'r cymarebau a argymhellir i gyflwyno Cyfnod Sylfaen o safon uchel. Mae'n rhaid i'r cyllid hefyd gael ei ddefnyddio i helpu ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau nas cynhelir i ddarparu addysg o safon uchel.

2.2.9 Disgwylir i'r consortia rhanbarthol roi tystiolaeth o ychwanegedd y cyllid a'i effaith. Caiff y broses o ddarparu'r cyllid ei monitro drwy gerrig milltir a dangosyddion perfformiad allweddol a amlinellir yng nghynlluniau busnes y consortia.

2.3 Lleihau effaith amddifadedd ar ganlyniadau addysgol

Gwybodaeth am y ffordd y defnyddir adnoddau o fewn MEG Addysg i gyflawni ymrwymiad hirdymor Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag effaith amddifadedd ar ganlyniadau addysgol.

2.3.1 Mae'n rhaid i bob dysgwr, ble bynnag mae'n byw, gael cyfle i gyrraedd ei botensial. Mae mynd i'r afael â thlodi yn un o flaenoriaethau allweddol y llywodraeth hon ac mae cau'r bwch mewn cyflawniad rhwng ein disgyblion sydd o dan yr anfantais fwyaf a'u cyfoedion yn hanfodol i Genhadaeth ein Cenedl.

2.3.2 Mae'r Grant Datblygu Disgyblion yn darparu cyllid i liniaru effeithiau amddifadedd ar addysg drwy ddarparu £1,150 fesul dysgwr i ysgolion a lleoliadau blynyddoedd cynnar. Hefyd, mae'r Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad yn rhoi cymorth uniongyrchol i deuluoedd i'w helpu i brynu gwisg ysgol, gwisg chwaraeon ac adnoddau ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol eraill ar adegau allweddol yn ystod addysg dysgwr, gan gynnwys pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

2.3.3 Dyranwyd £9.4m ychwanegol ar gyfer 2020-21, sy'n golygu bod y Grant Datblygu Disgyblion yn werth dros £100m, a bydd y cyllid hwnnw yn parhau ar gyfer 2021-22. Roedd hyn yn cynnwys dyraniad ychwanegol o £6.6 miliwn i'r Grant Datblygu Disgyblion Blynyddoedd Cynnar. Bu ymyrryd yn gynnar yn effeithiol o ran mynd i'r afael ag effeithiau hirdymor amddifadedd ar addysg. Felly, mae'r Grant Datblygu Disgyblion Blynyddoedd Cynnar yn rhoi cyllid ychwanegol ar gyfer y blynyddoedd cynnar ar yr un gyfradd â chyllid y Grant Datblygu Disgyblion mewn ysgolion. Drwy ymyrryd yn gynnar, mae'n llai tebygol y bydd angen ymyriadau costus ar berson ifanc yn ddiweddarach yn ystod ei daith addysg ac y bydd yn gadael addysg uwchradd heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET).

2.3.4 At hynny, mae gan bob plentyn yng Nghymru, gan gynnwys y rhai sy'n derbyn gofal ac sydd wedi derbyn gofal yn y gorffennol, yr hawl i ddisgwyl addysg ragorol, ni waeth beth fo'i amgylchiadau. Rydym wedi cefnogi plant sy'n derbyn gofal mewn addysg drwy roi tua £5 miliwn y flwyddyn drwy'r Grant Datblygu Disgyblion – Plant sy'n Derbyn Gofal. Y Consortia Addysg Rhanbarthol sy'n gweinyddu'r grant hwn, mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol ac ysgolion. Mae cyllid y Grant Datblygu Disgyblion – Plant sy'n Derbyn Gofal yn seiliedig ar £1,150 fesul plentyn sy'n derbyn gofal; fodd bynnag, nid yw'r cyllid wedi'i glustnodi ar gyfer pob plentyn. Drwy'r dull gweithredu hwn, gall y consortia, gan weithio gyda phartneriaid, benderfynu ar yr ymyriadau strategol mwyaf effeithiol i gefnogi pobl ifanc sydd wedi cael

profiad o fod mewn gofal, er gwaethaf newidiadau o ran gofal neu leoliad ysgol.

- 2.3.5 Yn 2020, gwnaethom gyflwyno cyllid a arweinir gan y consortia i gefnogi ysgolion. Gall y cyllid hwn gefnogi ysgolion unigol neu ariannu gweithgarwch ar lefel ranbarthol neu leol, ac rydym wedi gwneud y cyllid hwn yn hyblyg yn fwriadol er mwyn ymateb i amgylchiadau lleol yn wyneb pandemig COVID-19.

Manylion am y gyllideb a ddarperir ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion ac asesiad wedi'i ddiweddarau o'i fforddiadwyedd a'i werth am arian.

- 2.3.6 Yn 2020-21, dirprwywyd dros £92m o'r Grant Datblygu Disgyblion yn uniongyrchol i ysgolion a lleoliadau addysg, a rheolwyd y gweddill gan y consortia ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion – Plant sy'n Derbyn Gofal, neu awdurdodau lleol ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad. Dyfernir y Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad yn seiliedig ar alw, ac mae arwydd cynnar o ddata CYBLD yn awgrymu cynnydd yn y galw a adlewyrchwyd mewn cynnydd yn llinell sylfaen y Grant Datblygu Disgyblion.
- 2.3.7 Dyfernir cyllid gweddilliol ar gyfer gweithgareddau meithrin gallu yn ystod y flwyddyn i gefnogi dysgwyr o dan anfantais, gan gynnwys Cyngorwyr Strategol y consortia rhanbarthol; cadw gwasanaeth yr Eiriolwr dros Wella Cyrhaeddiad (Syr Alasdair MacDonald); a gwaith sy'n mynd rhagddo ar ganllawiau ar gost y diwrnod ysgol. Oherwydd COVID-19, mae nifer y dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi cynyddu'n sylweddol a heb y cynnydd i gyllideb y Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad, byddai'n rhaid inni ystyried lleihau'r taliad fesul dysgwr.
- 2.3.8 Mae cyllideb y Grant Datblygu Disgyblion hefyd yn darparu £0.250m i gefnogi plant milwyr yng Nghymru er mwyn cydnabod y ffaith y gall plant aelodau o'n Lluoedd Arfog wynebu heriau ychwanegol oherwydd ffordd o fyw eu teulu, sef symud ysgol yn aml a/neu riant yn absennol am gyfnod i ffwrdd ar ddyletswydd. Yn 2020-21, mae'r cyllid yn cefnogi plant milwyr yng Nghymru drwy becyn o gymorth cyffredinol a ddarperir gan SSCE Cymru i bob ysgol yng Nghymru a chymorth wedi'i dargedu â mwy o ffocws lle mae'r angen mwyaf. Mae cyllid yn dibynnu ar gyflwyno cynllun cymorth, cyfarfodydd diweddarau rheolaidd a chyflwyno canlyniadau a sicheir. Y bwriad yw y bydd y cyllid hwn yn parhau yn 2021-22.
- 2.3.9 Er mwyn sicrhau gwerth am arian, rydym yn parhau i bwysleisio pwysigrwydd arferion gorau wrth ddefnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion. O dan delerau ac amodau'r grant, mae'n ofynnol i gonsortia lunio cynllun cymorth sy'n nodi sut y byddant yn defnyddio'r grant ar gyfer y flwyddyn ariannol honno, gan gynnwys sut y byddant yn sicrhau bod lleoliadau yn defnyddio ymchwil a thystiolaeth i wneud penderfyniadau ynghylch y defnydd o'r grant. Yn 2021, byddwn yn cyhoeddi canllawiau newydd ar y Grant Datblygu Disgyblion ac yn sicrhau bod y canllawiau hyn ar gael i ysgolion drwy lanlwytho astudiaethau achos ar Hwb. O dan delerau ac amodau'r Grant Datblygu Disgyblion, rydym hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i

dystiolaeth gan elusennau ymchwil addysgol megis y Gronfa Waddol Addysg gael ei defnyddio, sy'n golygu y gall lleoliadau addysgol wario'r Grant Datblygu Disgyblion ar ymyriadau a fydd yn gwella cyrhaeddiad dysgwyr sydd o dan anfantais. At hynny, drwy gynnal sgysiau rheolaidd â Chynghorwyr y Grant Datblygu Disgyblion mewn consortia, rydym yn sicrhau y caiff cyllid ei addasu yn ôl anghenion lleol a'i ddefnyddio'n effeithiol ar lawr gwlad.

- 2.3.10 Mae gan y mwyafrif o ysgolion systemau olrhain ar waith bellach ac mae gennym ragor o setiau data hefyd sy'n rhychwantu nifer o flynyddoedd a fydd yn cynnig mwy o fanwl gywirdeb, a bydd hyn oll yn fodd i wneud dadansoddiad mwy cadarn yn y dyfodol. Byddwn yn ystyried sut y gallwn weithio gydag ysgolion i ddefnyddio'r data sy'n cael eu coladu'n llawn a chryfhau trefniadau monitro ar gyfer gwaith gwerthuso yn y dyfodol. Bydd gwaith sy'n mynd rhagddo i ddatblygu ein canllawiau ar y Grant Datblygu Disgyblion ymhellach yn ystyried beth yn rhagor y gellir ei wneud yn genedlaethol i gefnogi'r gwaith monitro a gwerthuso lleol hwn. Byddwn hefyd yn parhau â'r deialog ag arbenigwyr yn y maes er mwyn cadarnhau dichonoldeb asesu gwerth am arian yn y cyd-destun hwn.
- 2.3.11 Rydym eisoes yn annog ysgolion i fabwysiadu dulliau ysgol gyfan, a all fod yn fuddiol i bob dysgwr ond sy'n sicrhau bod anghenion dysgwyr o dan anfantais yn cael eu cefnogi. Rydym hefyd wedi cyflwyno dull gweithredu mewn clwstwr ar gyfer cyllid y Grant Datblygu Disgyblion – Plant sy'n Derbyn Gofal sy'n golygu y gellir gwneud arbedion maint ond sydd hefyd yn sicrhau bod pob ysgol wedi cael hyfforddiant os bydd plant sydd wedi cael profiad o fod mewn gofal yn ymuno â'i hi. Mae hon yn ffordd effeithiol o wneud y defnydd gorau o adnoddau cyfyngedig a thrwy hynny gall ysgolion, rhieni a gofaluwr gefnogi plant unigol yn well, a chyfrannu at eu haddysg yn yr ysgol ac yn y cartref.

Gwybodaeth am gronfa'r Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad a faint o deuluoedd dysgwyr sydd wedi cael budd ers iddo gael ei gyflwyno yn lle'r Grant Gwisg Ysgol.

- 2.3.12 Cyflwynwyd y Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad yn 2018/19 i gynnig cymorth i deuluoedd tuag at brynu gwisg ysgol a chyfarpar ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol. Er bod y grant ar gael i blant sy'n derbyn gofal am bob blwyddyn y maent yn yr ysgol, gall dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ei hawlio ar adegau pontio allweddol yn eu haddysg (dechrau yn y dosbarth derbyn, Blwyddyn 3, 7 a 10). Telir y Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad drwy awdurdodau lleol ar gyfradd o £200 i ddysgwyr sy'n dechrau yn yr ysgol uwchradd, neu £125 ar gyfer pob blwyddyn arall.
- 2.3.13 Ers i gronfa'r Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad ar gyfer y flwyddyn hon gael ei chyflwyno, mae dros 23,000 o ddysgwyr wedi cael budd a bydd rhagor o hawliadau gan awdurdodau lleol ar ddechrau 2021. Mae cyllid y Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad nid yn unig yn helpu i fynd i'r afael â diffygion materol tlodi, megis anallu i fforddio gwisg ysgol ddigonol, ond mae hefyd yn cefnogi dyheadau gwell, cyfoethogi diwylliannol, gwydnwch a

llesiant ymhlith dysgwyr o dan anfantais drwy eu hannog i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau allgyrsiol eraill.

Unrhyw gyllid arall o fewn MEG Addysg ar gyfer mentrau i fynd i'r afael â'r gydberthynas rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad negyddol, er enghraifft llwgu yn ystod y gwyliau a phrosiectau cyfoethogi gwyliau ysgol.

2.3.14 Ar gyfer 2021-22, byddwn yn cynyddu ein buddsoddiad yn y Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol £2.15m, ar ôl buddsoddi £1.8m o gyllid ychwanegol yng nghyllideb y flwyddyn diwethaf. Mae'r rhaglen yn rhoi cyfleoedd i blant 7-11 oed fod yn fwy egnïol, bwyta'n iach a meithrin cyfeillgarwch a hefyd fanteisio i'r eithaf ar gyfleusterau'r ysgol leol mewn ardaloedd o dan anfantais yn ystod gwyliau'r ysgol. Mae'n cefnogi camau gweithredu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac addysgol a thlodi bwyd yn ystod gwyliau'r haf. Drwy'r cyllid ychwanegol, sy'n gwneud cyfanswm buddsoddiad o £4.85m yn 2021-22, bydd modd ehangu'r rhaglen i 14,000 o blant o bosibl.

2.3.15 Yn 2019, cynhaliwyd cynllun peilot o'r defnydd o leoliadau gwaith chwarae i fynd i'r afael â llwgu yn ystod y gwyliau, ac arweiniodd llwyddiant y cynlluniau hyn at ddyrannu £1m i gefnogi'r dull gweithredu hwn yn 2020-21. Y bwriad o'r dechrau oedd y dylid darparu'r cyllid hwn ochr yn ochr â'r hyn a ddyrannwyd drwy'r Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol. Rydym wedi cadw'r dyraniad o £1m ar gyfer lleoliadau gwaith chwarae i fynd i'r afael â llwgu yn ystod y gwyliau yn y gyllideb ar gyfer 2021-22, ond trosglwyddir y cyllid o MEG Addysg i MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn y Gyllideb ddrafft hon. Rydym yn ystyried y ffordd orau o dargedu'r cyllid hwnnw ar gyfer 2021-22.

2.3.16 Ar gyfer 2021-22, byddwn hefyd yn cadw'r cyllid i gefnogi meysydd penodol o amddifadedd:

- £0.845m i hyrwyddo urddas mislif yn y sector Addysg Bellach a pharhau i ddarparu'r cyllid ar gyfer 2021-22 er mwyn cefnogi menywod a merched mewn ffordd sy'n hyrwyddo ymrwymiad Llywodraeth Cymru i leihau anghydraddoldebau;
- cyllideb ar gyfer Cronfa Ariannol Wrth Gefn i gefnogi dysgwyr cymwys drwy roi cyllid ychwanegol ar gyfer trafndiaeth, yr hyn sy'n cyfateb i ddarpariaeth prydau ysgol am ddim a chostau gofal plant.

2.4 Gweithlu addysg

Manylion am ddyraniadau'r gyllideb i ariannu:

- ***diwygiadau Llywodraeth Cymru i Addysg Gychwynnol i Athrawon;***
- ***datblygu arlwy dysgu proffesiynol cenedlaethol i'r gweithlu addysg.***

2.4.1 Mae cyllid yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Datblygu a Chefnogi Athrawon i gefnogi diwygiadau i AGA:

- £1.969m i gyflwyno'r llwybrau AGA 'amgen' newydd (TAR rhan-amser a TAR â chyflog) i fod yn rhan o gyfres gydynol o lwybrau o ansawdd uchel i mewn i addysgu o dan ein diwygiadau i AGA. Mae TAR rhan-amser a TAR â chyflog ar gael o flwyddyn academaidd 2020/21 ymlaen. Mae'r gyllideb yn darparu grant hyfforddiant a grant cyfraniad at gyflog ar gyfer myfyrwyr AGA ar y cynllun seiliedig ar gyflogaeth, TAR â chyflog, sy'n darparu athrawon pynciau Uwchradd â blaenoriaeth (Gwyddoniaeth, Mathemateg a Chymraeg) ar gyfer y gweithlu yn ogystal â gwneud y gweithlu'n fwy amrywiol ar y cyfan i'r rhai lle nad yw rhaglen AGA amser llawn yn addas. Hefyd, mae'r gyllideb wedi darparu ar gyfer datblygu'r llwybrau newydd a'u rhoi ar waith i ddechrau drwy ein contract â'r Brifysgol Agored a ddaw i ben ym mis Chwefror 2021 yn ôl y disgwyl.
- £3.14m i barhau i ddarparu'r cynllun cymhelliant ar gyfer pynciau â blaenoriaeth er mwyn helpu i recriwtio athrawon i'r proffesiwn.
- Darparwyd £0.160m yn 2020-21 i gefnogi costau sy'n ymwneud â datblygu polisi a lywir gan dystiolaeth i barhau i gefnogi diwygiadau Llywodraeth Cymru i AGA. Cynigir y bydd y cyllid hwn yn parhau yn 2021-22, gyda £0.160m yn ychwanegol i gefnogi'r ymchwil sy'n mynd rhagddi i ystyried y ffordd orau o helpu i recriwtio pobl BAME i'r proffesiwn, gan gynnig llwybrau i Athrawon Cymwysedig addysg bellach ennill SAC yn ogystal â chefnogi digwyddiadau i aeddfedu a chefnogi ein hegin-bartneriaethau AGA.
- £0.5m ar gyfer cynllun cymhelliant cyfrwng Cymraeg Iaith Athrawon Yfory a ddechreuodd ym mis Medi 2018, sydd wedi'i dargedu at athrawon dan hyfforddiant sy'n siarad Cymraeg i'w hannog i ddilyn rhaglen AGA uwchradd i ôl-raddedigion cymwys a fydd yn eu galluogi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Dyrannwyd hyd at £0.2m yn 2020-21 ar gyfer ymgyrch cyfathrebu a marchnata ar gyfer Addysgu yng Nghymru.

2.4.2 Mae'n hanfodol cynnig dysgu proffesiynol o ansawdd uchel er mwyn cyflawni amcan cyffredinol *Cenhadaeth ein Cenedl* a rhoi cwricwlwm gweddnewidiol ar waith o 2022. Yn 2021-22, byddwn yn dyrannu bron £37m o'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb ar gyfer Datblygu a Chefnogi Athrawon a Gwella Safonau mewn Ysgolion er mwyn cefnogi'r broses o ddatblygu a chyflwyno dysgu proffesiynol yn unol â'r Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol, Caiff cyllid ei ddyrannu drwy amrywiol lwybrau, gan gynnwys rhwydwaith cenedlaethol o ysgolion, y consortia rhanbarthol a phrifysgolion, er mwyn cefnogi nifer o flaenoriaethau. Mae elfennau allweddol y cyllid hwn fel a ganlyn:

- £15m i'w ddyrannu'n uniongyrchol i ysgolion i'w galluogi i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd. Mae hyn yn ychwanegol at y buddsoddiad o £31 miliwn mewn dysgu proffesiynol, sydd wedi cael ei ddyfarnu'n uniongyrchol i ysgolion ers 2018 (£9m yn 2018-19, £15m yn 2019-20 a £7m yn 2020-

- 21). Mae'r cyllid hwn yn gyson â'r costau a amlinellwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru).
- Tua £5.5m i'w ddyrannu i ranbarthau a rhanddeiliaid eraill er mwyn parhau â'r Rhaglen Datblygu Cwricwlwm i Gymru i baratoi pob ysgol i wireddu'r cwricwlwm newydd.
 - Tua £1.3m i barhau â'r Prosiect Ymholi Proffesiynol Cenedlaethol i ariannu prifysgolion a rhwydwaith cenedlaethol o ysgolion ymholi arweiniol er mwyn cefnogi datblygiad system ehangach.
 - £1m i barhau i ychwanegu amrywiaeth eang o adnoddau o ansawdd uchel at wefan y [Daith Dysgu Proffesiynol](#) a lunnir mewn partneriaeth â rhanbarthau ac ysgolion er mwyn cefnogi diwrnodau HMS dysgu proffesiynol ychwanegol.
 - £2.4m i gefnogi'r gwaith o ddatblygu elfennau Pecyn Cymorth yn ystod Cam Cynnar Gyrfa, sy'n cynnwys datblygu a chyflwyno rhaglen hyfforddi a mentora benodol genedlaethol a rhaglen Gradd Meistr newydd.
 - £6.4m i gefnogi dysgu proffesiynol iaith Gymraeg a chyfrwng Cymraeg.
 - £1m i barhau i gynnig dysgu proffesiynol i'r rhai sy'n cynorthwyo addysgu.
 - £0.5m i alluogi ein rhwydwaith addysgeg ac ymarfer cenedlaethol i barhau i hwyluso'r broses o gydgyhyrchu dulliau newydd o ddysgu ac addysgu a fydd yn ofynnol o dan y diwygiadau i'r cwricwlwm.
 - £0.25m i barhau â'n hymrwymiad i ddatblygu pob ysgol fel sefydliad sy'n dysgu, i'w galluogi i nodi ei chryfderau a'i blaenoriaethau ei hun ar gyfer gwella, gan gynnwys dysgu proffesiynol.
 - Tua £0.8m i ddatblygu'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ac Ymholi Addysgol a'i rhoi ar waith er mwyn cefnogi polisi a lywir gan dystiolaeth, datblygu proffesiwn sy'n hyddysg mewn dulliau ymchwil, a meithrin gallu ymchwil ym maes addysg uwch yng Nghymru.
 - Tua £2.7m i ariannu Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol a'r rhaglenni arweinyddiaeth sydd wedi cael eu hachredu.

Gwybodaeth am unrhyw gyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i Gyngor y Gweithlu Addysg.

2.4.3 Dyfarnwyd cyllid grant o £6.294m i Gyngor y Gweithlu Addysg ar gyfer 2020-21 er mwyn cefnogi'r gweithgareddau canlynol:

- Gweinyddu a hysbysu am Statws Athro Cymwysedig (SAC);
- Apeliadau ac ardystio cyfnodau ymsefydlu;
- Gweinyddu'r rhaglen ymsefydlu ar gyfer Athrawon Newydd Gymhwyso yng Nghymru;
- Cynnal a datblygu'r Pasbort Dysgu Proffesiynol;
- Hyrwyddo gyrfaoedd yn y proffesiynau cofrestredig;
- Prosiect recriwtio a chadw athrawon BAME;
- Ysgrifenyddiaeth i Gorff Adolygu Cyflogau ac Amodau Cymru;
- Darparu data a dadansoddi;
- Cyfraniad at gofrestru;
- Mentrau / digwyddiadau i hyrwyddo'r broses o ymgorffori rhaglenni a'r diwylliant AGA newydd yng Nghymru;
- Astudiaeth mapio Addysg Bellach a SAC;

- Prosiect safonau proffesiynol Addysg Bellach a dysgu seiliedig ar waith;
- Prosiect safonau proffesiynol athrawon a staff cymorth ysgolion

2.4.4 Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn cyfarfod â Chyngor y Gweithlu Addysg ar ddechrau 2021 i drafod y grant i'w ddyfarnu iddo ar gyfer 2021-22. Rydym yn disgwyl i'r grant a ddyfernir fod yn debyg i'r cyllid a ddarparwyd ar gyfer 2020-21 ond bydd yn dibynnu ar brosiectau yn y dyfodol yng ngoleuni COVID-19.

Manylion am gyllid i awdurdodau lleol tuag at dalu costau dyfarniad cyflog athrawon ar gyfer y flwyddyn academaidd 2020/21, gan gynnwys dadansoddiad rhwng y flwyddyn ariannol 2020-21 a'r flwyddyn ariannol 2021-22 a'r priod ddulliau a ddefnyddiwyd (grant uniongyrchol neu ran o setliad llywodraeth leol).

Cadarnhad o ba gyfran o gostau dyfarniad cyflog athrawon 2020/21 y mae Llywodraeth Cymru yn ei hariannu'n uniongyrchol. (Cyfeiriodd datganiad y Gweinidog ar 14 Hydref 2020 at £5.5 miliwn ar gyfer elfen blwyddyn ariannol 2020-21, a nododd Memorandwm Esboniadol i Orchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2020 gost flynyddol o £41 miliwn.)

2.4.5 Amcanestynnodd Memorandwm Esboniadol i Orchymyn Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) 2020 y byddai'r ystod o godiadau i raddfeydd cyflog a lwfansau athrawon, a oedd yn gwneud cyfanswm o gynnydd o 3.1% o'r bil cyflog cyffredinol yn costio £41m y flwyddyn (o ddechrau'r flwyddyn academaidd 2020/21). Y swm cyfatebol ar gyfer y cyfnod o saith mis rhwng mis Medi 2020 a mis Mawrth 2021 yw £23.9m, sydd yn y flwyddyn ariannol 2020-21.

2.4.6 Er nad yw'r cyllid a ddarperir drwy'r Grant Cynnal Refeniw wedi'i glustnodi ac y gall pob awdurdod lleol benderfynu ar ei flaenoriaethau, un ffactor pwysig o ran penderfyniad Llywodraeth Cymru i gynyddu cyllid ar gyfer y Grant Cynnal Refeniw ar gyfer 2020-21 oedd ei bod yn cydnabod effaith cyflog athrawon. Felly, rhagwelwyd y byddai costau dyfarniad cyflog 2020/21 yn cael eu talu drwy gyllid cynyddol i'w ddyrannu i awdurdodau lleol drwy'r Grant Cynnal Refeniw a'u gallu i godi cyllid drwy'r dreth gyngor, ond daethom yn ymwybodol o'r pwysau eithriadol eraill ar gyllidebau awdurdodau lleol o ganlyniad i COVID-19.

2.4.7 Yn seiliedig ar ragolygon o chwyddiant o 2.6% gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, dosbarthwyd £18.4m ychwanegol drwy faes gwariant gwasanaethau ysgolion drwy'r Grant Cynnal Refeniw, er mwyn adlewyrchu'r ffaith y bydd y codiadau yng nghyflog athrawon yn 2020/21, ochr yn ochr â dyfarniad cyflog 2019/20 yn codi yn y flwyddyn ariannol 2020-21. Ar 14 Hydref, cyhoeddais £5.5m o gyllid ychwanegol i helpu i dalu am gost dyfarniad cyflog 2020/21 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020-21 (7 mis). Roedd y swm hwn yn cynnwys £3.981m i gydnabod y gwahaniaeth rhwng rhagolwg y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol a'r 3.1% y cytunwyd arno ar gyfer y blynyddoedd meithrin i flwyddyn 11, a £1.556m arall i gydnabod y cynnydd llawn o 3.1% yn y dyraniad ar gyfer darpariaeth chweched dosbarth ôl-16.

Mae'r cyllid ychwanegol wedi cael ei ddyrannu drwy grant uniongyrchol o MEG Addysg yn 2020-21.

- 2.4.8 Nododd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd yn glir yn y gyllideb ddrafft mai un o'r dewisiadau anodd rydym wedi'i wynebu wrth bennu ein cynlluniau gwariant ar gyfer y flwyddyn nesaf yw'r ffordd rydym yn ymdrin â chyflog y sector cyhoeddus. Y gwir amdani yw na chawsom unrhyw gyllid ychwanegol drwy fformiwla Barnett i ddarparu ar gyfer dyfarniadau cyflog i'r sector cyhoeddus cyfan o ystyried penderfyniad Llywodraeth y DU i ohirio codiadau cyflog yn y sector cyhoeddus, ac eithrio i'r GIG a'r rhai ar y cyflogau isaf. Felly, bydd angen darparu ar gyfer goblygiadau dyfarniadau cyflog yn 2021-22 o fewn gwaith cynllunio cyllidebol awdurdodau lleol yng ngoleuni'r setliad cyffredinol.
- 2.4.9 Er na chawsom unrhyw gyllid ychwanegol gan Lywodraeth y DU ar gyfer cyflog y sector cyhoeddus, wrth benderfynu ar y ffordd y câi cyllid ei ddosbarthu rhwng awdurdodau ar gyfer setliad llywodraeth leol, rydym wedi cydnabod y penderfyniadau a wnaed ar gytundeb cyflog athrawon 2020/21, a'r ymrwymiad gan lywodraeth leol i ariannu'r cytundeb hwn, drwy gyfeirio'r cyllid angenrheidiol i mewn i'r rhan o'r fformiwla sy'n ymwneud ag ysgolion.

2.5 Diwygio'r Cwricwlwm

Gwybodaeth am gyllid i gefnogi'r gwaith o baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru a'i roi ar waith – p'un a yw hynny'n ymwneud yn uniongyrchol â'r Bil Cwricwlwm ac Asesu neu weithgarwch ehangach.

- 2.5.1 Manylwyd ar y cyllid i gefnogi'r gwaith o baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru a'i roi ar waith o dan adran 1.5.1 i 1.5.2.

Os nas cynhwysir yn yr uchod, manylion am ddysgu proffesiynol i'r gweithlu addysg er mwyn iddo baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd.

- 2.5.2 Amlinellwyd y manylion am ddysgu proffesiynol i helpu i baratoi ymarferwyr ar gyfer y cwricwlwm newydd o dan adran 2.4.2.

2.6 Iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc

Gwybodaeth am oblygiadau ariannol y gwaith ar ymgorffori dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd emosiynol ac iechyd meddwl i MEG Addysg yn 2020-21, gan gynnwys unrhyw gyllid i gefnogi'r canllawiau statudol.

Manylion am y ffordd y defnyddir unrhyw gyllid o MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ategu gwaith mewn ysgolion ar y maes hwn.

- 2.6.1 Yn 2020-21, buddsoddwyd £5m i gefnogi llesiant dysgwyr fel rhan o'n dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd emosiynol ac iechyd meddwl. Darparwyd cyllid ar y cyd o gyllideb MEG Addysg (£2m) a chyllideb MEG Iechyd

Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg (£3m) er mwyn cydnabod natur drawsbynciol y gwaith hwn a phwysleisio ein hymrwymiad i hyrwyddo'r agenda hon.

2.6.2 Dechreuwyd ar nifer o ffrydiau gwaith cydgysylltiedig, gan gynnwys:

- Cyllid i wella ac ehangu'r gwasanaeth cwnsela i ysgolion. Mae'r gwasanaeth yn gweld tua 11,500 o blant a phobl ifanc bob blwyddyn ac, yn ystod y flwyddyn gyfredol, rydym wedi buddsoddi £1.252m yn ychwanegol yn y gwasanaeth er mwyn ehangu'r ddarpariaeth a helpu'r gwasanaeth i gyflwyno sesiynau cwnsela ar-lein o ganlyniad i COVID-19. Mae awdurdodau lleol yn dweud wrthym y bydd y buddsoddiad ychwanegol hwn yn ei gwneud yn bosibl i gynnal 14,500 o sesiynau cwnsela eraill yn ystod y flwyddyn gyfredol, gan gefnogi 3,100 o blant a phobl ifanc ychwanegol. Rydym hefyd wedi comisiynu Prifysgol Caerdydd i adolygu effeithiolrwydd y gwasanaeth presennol a'r angen i estyn y cymorth addas i'r oedran islaw'r trothwy presennol, sef Blwyddyn 6. Bydd yr adolygiad yn cyflwyno ei adroddiad yn ddiweddarach yn 2021. Mae cwnsela mewn ysgolion hefyd yn elfen annatod o'r continwmm o gymorth sydd ar gael i ddysgwyr o dan ein dull ysgol gyfan o ymdrin â Llesiant.
- £0.6m i wneud ymyriadau cyffredinol ac ymyriadau wedi'u targedu mewn ysgolion a £0.450m arall i gefnogi hyfforddiant athrawon ac aelodau eraill o staff yr ysgol ar lesiant.
- £0.050m yn ystod y flwyddyn gyfredol i helpu sefydliadau addysg uwch i ddatblygu modiwlau dysgu proffesiynol wedi'u targedu'n benodol at gefnogi'r ymateb i COVID-19, dysgu cyfunol a dychwelyd i'r ysgol yn nhymor yr hydref.

Manylion am gyllid ar gyfer unrhyw fentrau ychwanegol neu fentrau wedi'u teilwra i gefnogi iechyd meddwl plant a phobl ifanc yn ystod pandemig COVID-19.

2.6.3 Yn anochel, mae'r pandemig yn achosi mwy o bryder i bobl o bob oedran, yn bennaf plant a phobl ifanc. Rydym yn cydnabod bod goblygiadau COVID-19 o ran iechyd emosiynol a llesiant yn debygol o barhau ar ôl i effaith gorfforol y pandemig ddod i ben, gyda phlant a phobl ifanc yn wynebu profedigaeth, yr effaith economaidd ar eu teuluoedd, pryderon ynglŷn â'r effaith ar eu haddysg a phryderon ynglŷn â'u hiechyd ac iechyd eu teulu a'u ffrindiau. Fel y cyfryw, rydym yn ystyried bod ein dull ysgol gyfan o ymdrin â Llesiant emosiynol a meddyliol yn rhan annatod o'r broses o fynd i'r afael ag effaith COVID-19 yn ei chyfanrwydd.

2.6.4 Ar gyfer 2021-22, dyrennir £4m yn ychwanegol ar gyfer y dull ysgol gyfan o fewn MEG Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg. Bydd y cyllid ychwanegol hwn yn adeiladu ar y £5m a ddarparwyd yn 2020-21 ac yn sicrhau y gallwn gefnogi pob angen o ran llesiant, o feithrin gwydnwch i ymyriadau wedi'u targedu'n well i ddysgwyr er mwyn sicrhau y gellir diwallu eu hanghenion y tu allan i wasanaethau arbenigol. Mae hyn yn rhoi cyllideb gyffredinol o £9m ar gyfer y dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl yn 2021-22.

- 2.6.5 Yn 2020-21, rydym wedi dyrannu £2m i gefnogi iechyd meddwl a llesiant yn y sector addysg bellach. Wrth ddatblygu'r model cyllido a chanllawiau, mae swyddogion wedi gweithio gyda chydweithwyr yn CCAUC i ddysgu o'u profiad o gyflwyno mentrau tebyg, ac i rannu gwybodaeth fanwl am brosiectau a gaiff ei cyllio.
- 2.6.6 Mae rhan o'r cyllid a ddyrannwyd i'r sector addysg bellach wedi'i neilltuo ar gyfer prosiectau cydweithredol ac rydym wedi annog cydweithio rhwng sectorau addysgol. Mae un bartneriaeth yn gweithio gyda phrifysgol i werthuso effaith ei mentrau iechyd meddwl a llesiant; mae cyfle i ehangu cydweithio traws-sector yn y dyfodol.
- 2.6.7 Bu'n rhaid gohirio prosiect arfaethedig ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a CCAUC, er mwyn gwerthuso cymorth ar gyfer iechyd meddwl dysgwyr wrth bontio o addysg bellach i addysg uwch oherwydd effaith COVID-19 a'r heriau a oedd yn gysylltiedig â sicrhau y gellid ymgysylltu â staff yn y sector y flwyddyn hon. Bydd cyllid iechyd meddwl ar gael yn 2021-22 a chaiff y prosiect hwn ei adfer.
- 2.6.8 Mae colegau wedi cyflwyno adroddiadau monitro ar eu prosiectau iechyd meddwl ym mis Rhagfyr 2020, a byddant yn cyflwyno adroddiadau pellach ym mis Mawrth 2021. Rydym yn cynnal arolwg o ddysgwyr sy'n cynnwys gwybodaeth am iechyd meddwl a phryder. Hefyd, mae Estyn yn cynnal adolygiad thematig o iechyd meddwl a llesiant dysgwyr ôl-16 yn ystod y pandemig, a chaiff adroddiad ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2021. Bydd yr argymhellion yn llywio gwaith ar lesiant yn y sector addysg bellach yn y dyfodol ac yn helpu i adeiladu sylfaen dystiolaeth o ran "yr hyn sy'n gweithio".

2.7 Cymorth i ddysgwyr o Leiafrifoedd Ethnig a Sipsiwn, Roma a Theithwyr

Manylion am gyllid i gefnogi addysg dysgwyr o Leiafrifoedd Ethnig a Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn 2021-22 a'r ffordd y caiff hwn ei ddosbarthu.

- 2.7.1 Mae Llywodraeth Cymru yn benderfynol o sicrhau bod pob plentyn yn cael y cymorth sydd ei angen arno i gyrraedd safonau uchaf addysg ac i ffynnu. Rydym yn ymwybodol o'r rhwystrau iaith a diwylliannol penodol y mae plant o leiafrifoedd ethnig a phlant Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn eu hwynebu, a dyna pam mae'n hollbwysig eu bod yn cael cymorth i gyrraedd eu potensial llawn. Caiff cyfanswm o £11m ei ddarparu i awdurdodau lleol yn 2021-22 drwy'r Grant Lleiafrifoedd Ethnig a Sipsiwn, Roma a Theithwyr er mwyn parhau i gefnogi plant o leiafrifoedd ethnig a phlant Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Mae hyn yn gynydd o £1m er mwyn cydnabod y cynnydd yn nifer y dysgwyr o leiafrifoedd ethnig y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt.
- 2.7.2 Rydym wedi datblygu perthynas waith gadarnhaol ag awdurdodau lleol a thrwy weithgor rydym wedi cyd-lunio fformiwla gyllido ddiwygiedig a set o egwyddorion ar gyfer y Grant Lleiafrifoedd Ethnig a Sipsiwn, Roma a

Theithwyr o 2021-22 ymlaen. Mae'r fformiwla ddiwygiedig a'r egwyddorion yn adlewyrchu diben y grant yn fwy cywir ac yn cynnig dosbarthiad tecach o'r cyllid. O 2021-22, bydd egwyddorion y grant y cytunwyd arnynt fel a ganlyn:

- cynhwysiant – yn yr ysgol a'r gymuned ehangach;
- tegwch – dileu rhwystrau a gwella cyfleoedd mewn bywyd;
- dileu rhwystrau i ddilyn y cwricwlwm, gan gynnwys ffocws ar gaffael iaith;
- gwella presenoldeb;
- ymgysylltu â dysgwyr, teuluoedd a chymunedau;
- hyfforddiant a meithrin gallu yn y gweithlu ysgolion;
- integreiddio ag addysg, gan gynnwys ffocws ar bontio i'r ysgol a rhwng cyfnodau;
- cefnogi'r broses bontio ôl-16 i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth.

2.7.3 Mae'r egwyddorion hyn oll yn seiliedig ar y ddealltwriaeth y dylai fod hyblygrwydd i awdurdodau lleol gynllunio a darparu cymorth ar sail asesiad o anghenion lleol. Caiff y cyllid, a fydd yn weithredol o 2021-22, ei ddsbarthu drwy ddefnyddio fformiwla sy'n seiliedig ar nifer y plant sydd â Saesneg fel iaith Ychwanegol (heb gynnwys plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr), ynghyd â niferoedd plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD). Roedd y penderfyniad i fabwysiadu Saesneg fel iaith Ychwanegol yn sail i'r fformiwla wedi'i seilio ar ymchwil bod caffael iaith yn un o'r ffactorau allweddol yng ngallu plentyn i gael addysg ac o ran ei gyrhaeddiad.

Cadarnhad ynghylch a fydd cyllid wedi'i glustnodi yn parhau ar gyfer y ddarpariaeth hon neu a fydd Llywodraeth Cymru yn ailystyried ei chynnig blaenorol i brif ffrydio hyn yng ngweithgareddau craidd awdurdodau lleol.

2.7.4 Gallaf gadarnhau y byddwn yn parhau i ddarparu cyllid grant ar sail cyllid wedi'i glustnodi o fewn MEG Addysg.

2.8 Anghenion Dysgu Ychwanegol

Asesiad wedi'i ddiweddarau o'r pwysau y mae awdurdodau lleol, ysgolion a cholegau yn eu hwynebu i gyflwyno'r ddarpariaeth AAA/ADY bresennol, effaith y swm ychwanegol o £9.4 miliwn yn 2020-21 ac a gaiff cyllid ychwanegol pellach ei ddarparu yn 2021-22.

2.8.1 Yng nghyllideb y flwyddyn diwethaf, daparwyd £8m yn ychwanegol i awdurdodau lleol a cholegau addysg bellach er mwyn cefnogi plant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol gyflwyno adroddiad terfynol ar ddiwedd 2020-21 yn manylu sut y cafodd y cyllid ei ddefnyddio. Ar gyfer 2021-22, byddwn yn parhau i ddarparu'r cyllid hwn er mwyn helpu awdurdodau lleol a sefydliadau addysg bellach i dalu am y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â helpu dysgwyr ag anghenion cymhleth ac anabledau i lwyddo. Mae'r gyllideb ddrafft yn

cynnwys trosglwyddiad o £0.845m o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Darpariaeth Addysg Bellach, sy'n cyfateb i'r gyfran o'r £8m i sefydliadau addysg bellach.

- 2.8.2 Mae darpariaeth addysg bellach arbenigol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y bobl ifanc hynny sydd ag anawsterau dysgu neu anableddau na ellir diwallu eu hanghenion yn eu coleg lleol yn gallu dilyn cyrsiau addysg bellach a chael hyfforddiant sy'n addas ar gyfer eu hanghenion. Y flwyddyn diwethaf, gwnaethom fuddsoddi £1.4m yn ychwanegol i gefnogi myfyrwyr ag anawsterau dysgu, gan wneud cyfanswm o £13.9m o gyllid y flwyddyn. Ar gyfer 2021-22, byddwn yn parhau i wneud y buddsoddiad hwnnw er mwyn sicrhau y gallwn ateb y galw presennol ymhlith y dysgwyr hynny hyd at 25 oed y mae angen darpariaeth addysg bellach arbenigol arnynt i ddilyn cyrsiau addysg bellach.

Gwybodaeth am ddarparu cyllid ar gyfer Rhaglen Trawsnewid ADY a rhoi Deddf 2018 ar waith.

- 2.8.3 Dyranwyd pecyn o gyllid gwerth £20m gan Lywodraeth Cymru yn 2017 er mwyn helpu i baratoi ar gyfer rhoi'r system ADY newydd ar waith yn ystod y tymor Cynulliad presennol. Fel yr amlinellir yn 1.5.6., nodir £6.9m o gostau yn gysylltiedig â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a'r Rhaglen Trawsnewid ADY ehangach yn 2021-22 (Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer ADY a'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Gwella Safonau mewn Ysgolion).
- 2.8.4 Bydd y system ADY newydd yn cael ei rhoi ar waith yn raddol o fis Medi 2021, a bydd y rolau statudol a grëwyd o dan y Ddeddf yn cychwyn ym mis Ionawr 2021. Disgwylir y bydd modd cwblhau'r brif raglen i'w rhoi ar waith drwy ailbroffilio gweddill y £20m er mwyn adlewyrchu'r terfyn amser newydd.

Cadarnhad ynghylch a yw Llywodraeth Cymru yn dal i gredu y bydd rhoi'r system ADY newydd ar waith yn gost niwtral, yn seiliedig ar ddisgwyliad y bydd arbedion o ganlyniad i lai o anghydfodau a gwrthdaro yn gwrthbwysu costau'r ddarpariaeth ychwanegol.

- 2.8.5 Mae'r rhan fwyaf o'r costau sy'n ymwneud â'r systemau presennol yn ymwneud â'r ddarpariaeth i ddiwallu anghenion. Nid yw'r Ddeddf ADY na'r Cod ADY yn cynyddu'r angen, ac nid ydynt ychwaith yn gofyn am fwy o ddarpariaeth. Bwriedir i'r costau gweinyddu sy'n gysylltiedig â phontio o'r systemau presennol i'r system newydd fod yn rhan o'r £20m rydym yn ei fuddsoddi i hwyluso ein rhaglen trawsnewid ADY.

Y sefyllfa ddiweddaraf ar gyllid ar gyfer hyfforddi seicolegwyr addysg yng Nghymru a'r trefniant cyllid grant â Phrifysgol Caerdydd.

- 2.8.6 Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi grant i Brifysgol Caerdydd sy'n talu ffioedd a bwrsariau 10 o fyfyrwyr y flwyddyn ar eu rhaglen hyfforddiant

proffesiynol tair blynedd ar gyfer Doethuriaeth mewn Seicoleg Addysgol. Atgyfnerthwyd y trefniant hwn o 2019-20 drwy gysylltu isafswm o fwrsariau â myfyrwyr a all weithio drwy gyfrwng y Gymraeg eisoes neu sydd â'r potensial i wneud hynny, a thrwy annog myfyrwyr i aros a gweithio yng Nghymru yn union ar ôl graddio. Mae'r trefniant cyllid grant presennol ar waith am dair blwyddyn academaidd, tan fis Awst 2022, a dyrennir £0.8m o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer ADY yn 2021-22 er mwyn parhau â'r ymrwymiad hwn.

2.9 Maint dosbarthiadau babanod

Gwybodaeth am ddarpariaeth gyllidebol ar gyfer lleihau maint dosbarthiadau babanod yn 2021-22, gan gynnwys dadansoddiad o ddyraniadau awdurdodau lleol dros dymor y Senedd hon.

2.9.1 Darparwyd £36m (£16m refeniw ac £20m cyfalaf) dros dymor y Senedd bresennol er mwyn lleihau maint dosbarthiadau babanod. Ceir dadansoddiad o ddyraniadau awdurdodau lleol yn **Atodiad G**. Dosbarthwyd yr elfen refeniw ar sail fformiwla a oedd yn ystyried cyfuniad o'r elfen o'r Aseiad Gwario Safonol sy'n ymwneud â'r Aseiad o Addysgu Ysgolion Meithrin a Chynradd a Gwasanaethau Eraill yn seiliedig ar Ddangosyddion, a nifer y dosbarthiadau o 29 a mwy ym mhob awdurdod lleol (gan ddefnyddio cyfartaledd dros 4 blynedd o ddata CYBLD rhwng 2013 a 2016). Mae'r grant wedi'i bwysoli 60% ar gyfer yr elfen sy'n ymwneud â'r Aseiad Gwario Safonol a 40% ar gyfer yr elfen sy'n ymwneud â maint dosbarthiadau.

2.9.2 Roedd yr elfen cyfalaf yn destun proses ymgeisio, lle mae lleihau maint dosbarthiadau babanod mewn ysgolion sy'n bodloni meini prawf targed yn dibynnu ar sicrhau mwy o le mewn ystafelloedd dosbarth. Bu 17 o awdurdodau lleol yn llwyddiannus yn eu ceisiadau am yr elfen cyfalaf o'r grant.

2.9.3 Ar gyfer 2021-22, rydym wedi dyrannu £6m o refeniw i barhau i roi cymorth o ran maint dosbarthiadau.

Diweddariad ar nifer yr ysgolion, dosbarthiadau a disgyblion sydd wedi cael budd hyd yma.

2.9.4 Mae'r elfen refeniw o'r grant yn ariannu 116 o athrawon ychwanegol a 45 o gynorthwywyr addysgu ychwanegol, sy'n sicrhau budd i 11,000 o ddisgyblion mewn 461 o ddosbarthiadau babanod mewn 123 o ysgolion. Mae'r elfen cyfalaf gwerth £20m yn ariannu 59 o ystafelloedd dosbarth ychwanegol ynghyd â gwell cyfleusterau mewn 33 o ysgolion ledled Cymru. Er bod nifer o brosiectau cyfalaf wedi'u cwblhau, mae rhai wedi cael eu gohirio o ganlyniad i effaith COVID-19. Gall gwaith adeiladu barhau i gael ei gwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf a chaiff ei reoli fel rhan o gyllideb Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21^{ain} Ganrif.

2.9.5 Cyhoeddwyd [adroddiad cynnydd ar y Grant Lleihau Maint Dosbarthiadau Babanod 2017-2019](#) gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2020 ac mae'n

rhoi diweddariad ar y cynnydd rydym yn ei wneud i leihau maint dosbarthiadau babanod ers i'r grant gael ei lansio ym mis Ebrill 2017.

2.10 Y Grant Ysgolion Bach a Gwledig

Gwybodaeth am ddarpariaeth gyllidebol ar gyfer y Grant Ysgolion Bach a Gwledig yn 2021-22, gan gynnwys dadansoddiad o ddyraniadau awdurdodau lleol dros dymor y Senedd hon.

2.10.1 Darparwyd £10m (£2.5m y flwyddyn) dros dymor y Senedd hon i gefnogi ysgolion bach a gwledig. Ceir dadansoddiad o ddyraniadau awdurdodau lleol yn **Atodiad H**. Ar gyfer 2021-22, rydym wedi neilltuo £2.5m er mwyn parhau i roi cymorth ar gyfer y flaenoriaeth hon.

2.10.2 Caiff y grant ei ddosbarthu i awdurdodau lleol ar sail fformiwla. Dyrennir 70% drwy gyfeirio at deneurwydd poblogaeth a 30% drwy gyfeirio at nifer yr ysgolion (cynradd) a gynhelir gan yr awdurdod lleol sydd â llai na 90 o ddisgyblion.

Diweddariad ar nifer yr ysgolion sydd wedi cael budd hyd yma a disgrifiad byr o'r prif ddefnyddiau o'r grant.

2.10.3 Nod y grant yw helpu i ymateb i'r heriau penodol a wynebir gan ysgolion bach a gwledig. Felly, prif ddibenion y grant yw:

- Annog arloesedd, gan gynnwys y defnydd o dechnoleg ddigidol newydd i wrthsefyll problem ynysu proffesiynol drwy harneisio grym TG, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth rhithwir.
- Cefnogi mwy o gydweithio rhwng ysgolion.
- Rhoi cymorth gweinyddol ychwanegol mewn ysgolion lle mae gan y pennaeth ymrwymiad i addysgu o leiaf 10% o'r amserlen.
- Cynyddu'r defnydd cymunedol o adeiladau ysgol, boed hynny at ddibenion addysgol neu anaddysgol.

2.10.4 Mae tua 450 o ysgolion wedi elwa dros bedair blynedd y grant Mae'r cyllid wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer amrywiaeth eang o ddibenion. Y defnydd mwyaf cyffredin yw cefnogi mwy o gydweithio rhwng ysgolion. Mae ysgolion wedi gweithio gyda'i gilydd ar faterion cyd-fuddiant, gan gynnwys y strategaeth cynhwysiant digidol. Mae'r cyllid hefyd wedi cael ei ddefnyddio i ddatblygu gweithdrefnau a pholisïau ar y cyd rhwng nifer o ysgolion. Mae eraill wedi mynd â chydweithio rhwng ysgolion gam ymhellach drwy ffederaleiddio o dan un corff llywodraethu.

2.10.5 Mae'r cyllid hefyd wedi cael ei ddefnyddio i benodi swyddi ar y cyd, er enghraifft mae Conwy wedi defnyddio ei ddyraniad i benodi tri Swyddog Cymorth Busnes Lefel Uwch ar gyfer 21 o'i ysgolion cynradd mewn tri chlwestwr sy'n canolbwyntio ar swyddogaethau gweinyddol lefel uwch. Defnyddiodd un awdurdod lleol ei gyllid i gyflogi gweithiwr cyswllt â'r gymuned un diwrnod yr wythnos er mwyn cynyddu'r defnydd cymunedol o adeiladau ysgol. Mae hyn wedi arwain at sefydlu dosbarthiadau Cymraeg

cymunedol, rhedeg llyfrgell gymunedol sydd ar agor i'r cyhoedd a grŵp chwarae cymunedol. Mae ysgolion wedi defnyddio'r cyllid i wella technoleg at ddefnydd disgyblion a'r gymuned ehangach.

2.11 Estyn

Manylion am ddyraniad cyllidebol Estyn ar gyfer 2021-22 o MEG Tai a Llywodraeth Leol, gan gynnwys y trafodaethau diweddar â'r arolygiaeth ar y lefelau o gyllid sydd eu hangen arni a sut mae hyn yn cymharu â blynyddoedd blaenorol.

2.11.1 Mae cyfanswm dyraniad cyllidebol Estyn yn parhau ar yr un lefel yn 2021-22, sef £11.504m, sy'n cynnwys adnoddau cyllidol (£11.023m), adnoddau anghyllidol (£0.2m) a chyfalaf (£0.281m) o fewn y Gwariant Llinell yn y Gyllideb ar gyfer Estyn o dan MEG Tai a Llywodraeth Leol.

2.11.2 Mae swyddogion wedi bod mewn trafodaethau ag Estyn ynglŷn â'r goblygiadau i'r arolygiaeth o ran adnoddau, gan weithredu ar yr argymhellion yn 'Arolygiaeth Dysgu'. Bydd angen ystyried unrhyw gostau ychwanegol i gefnogi Estyn yn ystod 2021-22.

2.12 Cymwysterau

Manylion am ddyraniad cyllidebol Cymwysterau Cymru yn 2021-22, gan gynnwys y trafodaethau diweddar â'r rheoleiddiwr ar y lefelau o gyllid sydd eu hangen arno a sut mae hyn yn cymharu â blynyddoedd blaenorol.

2.12.1 Yn 2020-21, gwnaethom fuddsoddi £0.981m yn ychwanegol o fewn y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Cymwysterau Cymru er mwyn iddo ddechrau ar ei raglen waith hirdymor i gwmpasu a datblygu cymwysterau ar gyfer y cwricwlwm newydd. Yn 2021-22, rydym yn dyrannu £0.369m yn ychwanegol, gan roi cyfanswm o £1.35m i Cymwysterau Cymru i gefnogi gwaith ar ddiwygio'r cwricwlwm yn 2021-22. Drwy'r cyllid hwn, ynghyd â chyllid dibrisiant anariannol ychwanegol o £0.035m (cyfanswm cyllideb anariannol o £0.250m), bydd cyfanswm cyllideb adnoddau Cymwysterau Cymru yn cynyddu i £9.867m ar gyfer 2021-22.

Diweddariad ar unrhyw gyllid ychwanegol y mae Cymwysterau Cymru yn ei gael i gefnogi ei waith ar ddiwygio cymwysterau yng nghyd-destun y Cwricwlwm Newydd i Gymru a'i raglen o adolygiadau sector o gymwysterau galwedigaethol.

2.12.2 Fel yr amlinellir uchod, dyrannwyd £0.369m yn ychwanegol i Cymwysterau Cymru i gefnogi ei waith ar ddiwygio cymwysterau, gan gynyddu cyfanswm ei gyllid i £1.35m ar gyfer 2021-22. Nid oes angen unrhyw gyllid ychwanegol

ar gyfer gwaith adolygu sectorau a fydd yn cyd-fynd yn agosach â'r gwaith ar ddiwygio'r cwricwlwm bellach. Bydd y cyllid yn cefnogi:

- cyflogi staff arbenigol i fwrw ymlaen â gwaith dylunio ac asesu penodol manwl ar gymwysterau ar gyfer y cwricwlwm newydd;
- ymgynghori ymhellach ar gamau nesaf y gwaith ar ddiwygio'r cwricwlwm (bydd gwaith ar Ddiwygio'r Cwricwlwm yn parhau tan 2027-28);
- dadansoddi ymgynghoriadau;
- gwaith arolygu ac ymchwil;
- gwaith ar nodi costau posibl o ganlyniad i newid mewn cymwysterau i gyrff dyfarnu a'r ffordd y gall y rhain effeithio ar ganolfannau arholi;
- dysgu proffesiynol a hyfforddiant athrawon a swyddogion arholiadau ar yr ystod newydd o gymwysterau.

2.12.3 Bydd ymgynghoriad ar y fersiwn ddiweddaraf o ymgynghoriad Cymwys ar gyfer y Dyfodol Cymwysterau Cymru ar yr ystod o gymwysterau i ddysgwyr 16 oed yn y dyfodol yn y Flwyddyn Newydd. Dyma ail gam yr ymgynghoriad ar gymwysterau ar gyfer y cwricwlwm newydd ond mae camau pellach yn yr arfaeth.

2.12.4 Mae'r sefyllfa bresennol o ran arholiadau a achoswyd gan y pandemig yn golygu bod yr ymarfer i ddiwygio'r cwricwlwm yn parhau i fod un heriol iawn. Wrth i waith Cymwysterau Cymru ar gymwysterau ar gyfer y cwricwlwm newydd fynd rhagddo, bydd y cynigion yn destun Asesiad Effaith Rheoleiddiol, a chaiff unrhyw gostau i gyrff dyfarnu, ysgolion a rhannau eraill o'r sector sy'n gysylltiedig â'r cymwysterau newydd, eu hystyried yn fanwl.

Gwybodaeth am unrhyw oblygiadau ariannol i Cymwysterau Cymru, neu i gyllidebau Llywodraeth Cymru, yn sgil tarfu COVID-19 a'r trefniadau eithriadol ar gyfer dyfarnu cymwysterau yn 2020 ac yn 2021 o bosibl.

2.12.5 Mae Cymwysterau Cymru wedi nodi llithriant ar gyfer 2020-21 oherwydd gwariant is ar deithio a chynhaliadau; cynadleddau a digwyddiadau allanol o ganlyniad i COVID-19. Bu hefyd ychydig o oedi cyn penodi staff i weithio ar ddiwygio'r cwricwlwm. Hyd yma, nodwyd £0.6m fel tanwariant yn erbyn cyllideb 2020-21 sy'n cael ei hadolygu'n barhaus. Mae'n amlwg bod COVID-19 wedi tarfu ar ddysgu, asesiadau ac arholiadau. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae Cymwysterau Cymru yn gweithio gyda'r Grŵp Cynghori ar Ddylunio a Chyflawni fel arsyllwyr â CBAC, er mwyn sicrhau bod y trefniadau newydd mor gadarn â phosibl o dan yr amgylchiadau.

2.13 Addysg cyfrwng Cymraeg

Manylion am ddarpariaeth gyllidebol i gefnogi strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru a Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol.

2.13.1 Mae *Cymraeg mewn addysg: cynllun gweithredu 2017-21*, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2017, yn nodi ein cyfeiriad ar gyfer datblygu addysg cyfrwng

Cymraeg a Chymraeg dros gyfnod o bedair blynedd, yn unol â gweledigaeth *Cymraeg 2050* a *Cenhadaeth ein Cenedl*. Y Gyfarwyddiaeth Addysg sy'n arwain y gwaith o roi gweithgareddau a chymau gweithredu ar waith mewn ymateb i'r blaenoriaethau addysg a nodwyd yn y cynllun gweithredu, er enghraifft cynyddu nifer yr athrawon, datblygu'r cwricwlwm a chymorth i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Bydd MEG Addysg yn parhau i roi cymorth ar gyfer y gweithgareddau hyn o'r Llinellau Gwariant presennol yn y Gyllideb (Datblygu a Chefnogi Athrawon, Diwygio'r Cwricwlwm, Anghenion Dysgu Ychwanegol a Gwella Safonau mewn Ysgolion) yn 2021-22.

2.13.2 Mae awdurdodau lleol yn parhau i ddefnyddio cyllid o nifer o ffynonellau i roi eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ar waith, gan gynnwys gweithgareddau sy'n cael eu cefnogi a'u darparu drwy'r Rhaglen Gyfalaf i sicrhau Ysgolion ar gyfer yr 21^{ain} Ganrif a Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol. Wrth gyflwyno eu Grant Gwella Ysgolion gofynnir i'r consortia rhanbarthol sicrhau bod y rhaglen o weithgareddau a ariennir yn adlewyrchu'r blaenoriaethau a nodir yng Nghynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol.

2.13.3 Daeth rheoliadau newydd ynglŷn â'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg i rym ym mis Ionawr 2020 a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynllunio dros y tymor hwy (10 mlynedd) a nodi targed mwy uchelgeisiol iddynt hwy eu hunain i gynyddu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn eu hardal yn unol â cherrig milltir *Cymraeg 2050*. Dyrennir cyllideb o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Cymraeg mewn Addysg er mwyn helpu awdurdodau lleol i baratoi Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg 10 mlynedd newydd.

2.13.4 Er mwyn cefnogi'r garreg filltir o gynyddu canran y dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg, rydym yn bwrw ymlaen â'r broses o gyflawni prosiectau cyfalaf a ariennir drwy gyfuniad o Gronfa Grant Cyfalaf cyfrwng Cymraeg a'r Cynnig Gofal Plant gwerth £46m a gyhoeddwyd yn ystod 2018-2019 (£32.81m o'r Grant Cyfalaf cyfrwng Cymraeg a £13.02m o Grant Cyfalaf y Blynyddoedd Cynnar). Mae'r cyllid grant ychwanegol hwn yn cefnogi 46 o brosiectau mewn 20 o awdurdodau lleol a fydd yn arwain at 2,818 o leoedd ychwanegol mewn ysgolion a lleoliadau gofal plant ar gyfer dysgwyr cyfrwng Cymraeg pan fydd pob prosiect wedi'i wireddu. Bydd yr hwb ariannol hwn yn mynd rywfaint o'r ffordd i gefnogi'r cynnydd mewn darpariaeth sydd ei angen i ymateb i uchelgais *Cymraeg 2050*.

2.13.5 Mae'r rhan fwyaf o'r 46 o brosiectau yn mynd rhagddynt yn dda, ac mae wyth prosiect eisoes wedi'u cwblhau, ac mae dros £16.1m wedi'i hawlio hyd yma. Agorais Neuadd Breswyl Pantycelyn ar 18 Medi, gan groesawu'r myfyrwyr newydd, ac edrychaf ymlaen at agor Glan-llyn Isa yn swyddogol yn y Flwyddyn Newydd. Rydym yn disgwyl i'r rhan fwyaf o'r prosiectau gael eu cwblhau erbyn 2021/22.

Amlinelliad o'r ffordd y mae Camau Gweithredu cyllideb Cymraeg mewn Addysg yn cefnogi Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru a'i tharged o

sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Crynodeb o'r ffordd y mae gweithgarwch a ariennir o dan y Cam Gweithredu hwn yn ymwneud â gweithgarwch a ariennir o dan MEG Cysylltiadau Rhyngwladol a'r Gymraeg (teitl cywir y MEG ar adeg ysgrifennu)

2.13.6 Rhoddir Strategaeth y Gymraeg Llywodraeth Cymru, *Cymraeg 2050*, ar waith mewn partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allanol. Mae cyllideb Cymraeg mewn Addysg, sy'n parhau ar lefel o £12.675m ar gyfer 2021-22, yn cefnogi ein hymrwymiad i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ac yn cefnogi'r gwaith a wneir mewn perthynas â Thema 1 o'r strategaeth (Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg).

2.13.7 Mae'r gweithgareddau a ariennir drwy'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Cymraeg mewn Addysg yn cynnwys: datblygu darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg a dwyieithog; cymorth i ddatblygu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a'u rhoi ar waith; cymorth i golegau addysg bellach a darparwyr hyfforddiant roi hyfforddiant i alluogi tiwtoriaid ac aseswyr i addysgu a hyfforddi dysgwyr yn ddwyieithog; a chyllid ar gyfer y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu darpariaeth addysg uwch cyfrwng Cymraeg ac arwain y gwaith datblygu ôl-16. Mae gweithgareddau eraill yn cynnwys: datblygu adnoddau addysgu a dysgu i gefnogi gweithgarwch addysgu Cymraeg, pynciau eraill drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal ag adnoddau dwyieithog i gefnogi'r cwricwlwm newydd.

2.13.8 Mae gweithgarwch o fewn y Llinell Wariant hon yn y Gyllideb hefyd yn cefnogi'r gwaith a wneir drwy'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb ar gyfer y Gymraeg a Chomisiynydd y Gymraeg o fewn MEG Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg (Cysylltiadau Rhyngwladol a'r Gymraeg gynt). Mae cyllid o fewn y MEG hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar Thema 2 (Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg) a 3 (Creu amodau ffafriol – Seilwaith a chyd-destun) *Cymraeg 2050*. Er mwyn gwireddu'r weledigaeth o filiwn o siaradwyr Cymraeg, rydym yn cymryd camau o dan bob un o'r tair thema ac yn cydnabod y rhyngddibyniaethau rhyngddynt. Mae gwaith a wneir o dan Thema 1 yn creu siaradwyr newydd ac mae gwaith o dan Thema 2 a 3 yn creu cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith. Er enghraifft, mae MEG Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg yn ariannu *Cymraeg i Blant* sydd â'r nod o helpu i gynyddu nifer y plant mewn addysg cyfrwng Cymraeg drwy gefnogi rhieni, darpar rieni ac aelodau eraill o'r teulu. Mae hefyd yn ariannu *Siarter Iaith* sy'n cefnogi ac yn hyrwyddo'r defnydd anffurfiol o'r Gymraeg ymhlith plant oedran ysgol gynradd ac Ysgol Gymraeg Llundain sy'n galluogi'r rhai sydd wedi gadael Cymru i barhau i gyfrannu at ein cymuned a'n cymdeithas ehangach drwy gyfrwng y Gymraeg neu helpu disgyblion sy'n cael eu haddysg gynradd yn Llundain i ymuno ag addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg pan fydd teuluoedd yn symud yn ôl i Gymru yn ddiweddarach.

Gwybodaeth am unrhyw gyllid a ddyrennir i gefnogi'r gwaith o wireddu un continwmm ar gyfer dysgu ac addysgu'r Gymraeg, er enghraifft cynyddu niferoedd yn y gweithlu addysg sy'n siarad Cymraeg.

- 2.13.9 Cefnogir cyllid ar gyfer cynyddu niferoedd yn y gweithlu addysg sy'n siarad Cymraeg drwy gyllid yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Datblygu a Chefnogi Athrawon a'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Gwella Safonau mewn Ysgolion.
- 2.13.10 Rydym yn parhau i roi cymhellion i athrawon dan hyfforddiant o Gymru i ddilyn Addysg Gychwynnol i Athrawon ac rwyf wedyn parhau â chymhelliant laith Athrawon Yfory o £5,000 ar gyfer pob myfyriwr sy'n mynd yn ei flaen i addysgu yn Gymraeg. O'i ystyried ochr yn ochr â chymhellion eraill i athrawon cyfrwng Cymraeg ar gyfer pynciau â blaenoriaeth, mae hyn yn golygu y gallai myfyriwr AGA cymwys gael cymhelliant o fwy na £25,000 i gyd yn y flwyddyn academaidd 2020/21 a 2021/22.
- 2.13.11 Comisiynwyd TAR rhan-amser a Chynllun AGA sy'n seiliedig ar Gyflogaeth, sef TAR â Chyflog, i wneud y gweithlu addysgu yn fwy amrywiol a chefnogi gyrfaoedd yn y proffesiwn, gan gynnwys y sector cyfrwng Cymraeg. Mae'r rhain yn weithredol bellach. Mae ein pecyn cyllid hael i fyfyrwyr ar gael i fyfyrwyr rhan-amser a gall myfyrwyr TAR â Chyflog gael grant hyfforddiant a gall eu hysgolion hefyd gael grant cyfraniad cyflog.
- 2.13.12 Dechreuodd y rhaglen pontio cynradd i uwchradd cyfrwng Cymraeg i roi cymorth i athrawon drosglwyddo o addysgu yn y sector cynradd i addysgu yn y sector uwchradd ym mis Medi 2020, gyda 10 athro yn cymryd rhan mewn pum ysgol. Rydym wrthi'n adolygu'r rhaglen er mwyn datblygu cynigion ar gyfer y flwyddyn academaidd 2021/22.
- 2.13.13 Mae dysgu proffesiynol yn nodwedd allweddol o'r ffordd rydym yn atgyfnerthu'r niferoedd addysgu cyfrwng Cymraeg ac yn gwella sgiliau athrawon i addysgu Cymraeg fel rhan o'r cwricwlwm newydd. Byddwn yn datblygu cynigion newydd ar gyfer ein rhaglenni ymsefydlu ynghyd â rhaglenni dysgu proffesiynol i athrawon yn ystod blynyddoedd cynnar eu gyrfa, ac rydym yn awyddus i adeiladu ar ddatblygiad y Gymraeg, a'r arbenigedd i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a gyflwynir yn AGA fel rhan o'r rhaglenni hyn.
- 2.13.14 Rydym hefyd yn parhau i helpu ymarferwyr i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg yn unol â'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth drwy'r cynllun sabothol a chymorth a ddarperir gan y consortia rhanbarthol ac ar y cyd â rhanddeiliaid eraill. Rydym yn gobeithio parhau i ddarparu'r un lefel o gyllid yn 2021-22 er mwyn cefnogi dysgu proffesiynol i athrawon y Gymraeg a chyfrwng Cymraeg, sy'n gwneud cyfanswm o £6.4m.
- 2.13.15 Yn y diweddariad i *Cenhadaeth ein Cenedl* (mis Hydref 2020), nodais gyfres o gamau pellach y byddwn yn eu cymryd ar y cyd â phartneriaid i barhau i gefnogi ysgolion ar y llwybr i ddiwygio. Un ymrwymiad o'r fath yw sefydlu Rhwydwaith Cenedlaethol ar gyfer rhoi'r diwygiadau ar waith, sy'n cynnwys ymarferwyr a rhanddeiliaid, er mwyn rhannu dealltwriaeth ym mhob rhan o'r proffesiwn, casglu gwybodaeth a chyd-lunio atebion i rwystrau rhag gwneud hynny. Dyrannwyd £0.025m o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Diwygio'r Cwricwlwm ar gyfer ymgysylltu ag arbenigwyr, cyfathrebu a

deunyddiau ategol ar gyfer y Rhwydwaith Cenedlaethol, ynghyd â £0.096m i gynnwys ymarferwyr yn y Rhwydwaith Cenedlaethol.

2.13.16 Bydd y Cydweithdy yn hollbwysig o ran gweithredu ar argymhellion y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ac amcanion *Cenhadaeth ein Cenedl* drwy oruchwylio a hyrwyddo'r broses o roi'r cwricwlwm ar waith yn genedlaethol. Bydd yn grymuso ymarferwyr i feithrin dealltwriaeth a rennir, a mynd i'r afael â rhwystrau cenedlaethol, cyffredin i roi'r cwricwlwm ar waith yn y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor. Drwy'r dulliau hyn, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i helpu ysgolion i ddatblygu cwricwla sy'n cefnogi cynnydd yn Gymraeg, gan gynnwys sut y gellir cyflawni continwwm Cymraeg.

2.14 Y Blynyddoedd Cynnar / Cyfnod Sylfaen

Diweddariad ar y gwaith a wneir i adolygu'r berthynas rhwng cyfraddau cyllido gofal plant ar gyfer plant tair a phedair oed (o dan y cynnig Gofal Plant) ac addysg blynyddoedd cynnar (y Cyfnod Sylfaen) ar gyfer plant tair a phedair oed.

2.14.1 Mae sicrhau bod darpariaeth gofal plant a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn gyson â Darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen yn hollbwysig o hyd i lwyddiant parhaus Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru (y Cynnig). Rydym wedi cydnabod bod y cam cynnar o roi'r Cynnig ar waith wedi amlygu anghysondebau rhwng y gyfradd gyllido a delir gan awdurdodau lleol ar gyfer Darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen a'r elfen o'r Cynnig sy'n ymwneud â gofal plant.

2.14.2 Profwyd effaith cyflwyno cyfradd gyllido gyson ar gyfer yr elfennau o'r Cynnig sy'n ymwneud ag addysg a gofal rhwng mis Ionawr a mis Gorffennaf 2019 mewn prosiect peilot a gynhaliwyd mewn partneriaeth â Chyngor Sir y Fflint. Comisiynwyd Arad Research i gynnal gwerthusiad o'r prosiect peilot er mwyn asesu effaith cyfradd gyllido gyson, a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2019. Gohiriwyd y gwaith hwn oherwydd effaith y pandemig ac yna'i effaith ar y sector addysg a'r sector nas cynhelir.

2.14.3 Gan gael ein harwain gan yr argymhellion, rydym wedi gweithio gyda'r sector a llywodraeth leol i ddatblygu gwaith modelu ariannol manwl ar y costau ychwanegol posibl ac wedi ystyried y ffordd orau o sicrhau y byddai unrhyw gyllid ychwanegol yn cael yr effaith a ddymunir. Ar gyfer 2021-22, mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a minnau wedi nodi cyllid gwerth £3.8m i gyd (£1.9m yr un o MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a MEG Addysg) er mwyn cysoni cyfraddau cyllido yn y sector nas cynhelir. Mae'r cyllid hwn yn hanfodol er mwyn sicrhau sefydlogrwydd y cynnig gofal plant a gwireddu ein gweledigaeth hirdymor o gyflwyno addysg plentyndod cynnar a system gofal plant integredig.

Asesiad wedi'i ddiweddarau o sefyllfa ariannol y sector meithrin nas cynhelir a ariennir fel y mae'n ymwneud â MEG Addysg a phortffolio'r Gweinidog Addysg, gan gynnwys yng nghyd-destun cyflwyno'r cwricwlwm newydd.

- 2.14.4 Rydym yn ymrwymedig i sicrhau y dylai'r nifer mawr o blant ifanc sy'n cael eu profiad cyntaf o addysg mewn lleoliad gofal plant barhau i gael yr un ddarpariaeth addysgol o ansawdd uchel a bod y ddarpariaeth yn parhau i gael ei chryfhau. Byddwn yn datblygu'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu ar gyfer lleoliadau meithrin nas cynhelir gan ddilyn safonau uchel cyd-lunio a fu'n allweddol i ddatblygu'r Cwricwlwm i Gymru.
- 2.14.5 Mae'r gwaith datblygu hwn bellach wedi dechrau. Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r sector nas cynhelir wrth ddatblygu'r gwaith hwn, gan gynnwys ymarferwyr gofal plant, athrawon cyngori ar y blynyddoedd cynnar a'r sefydliadau mantell cenedlaethol. Rydym wedi rhoi cyllid i'r sefydliadau mantell – £0.060m yn 2019-20 er mwyn cryfhau eu cyfraniad at y gwaith datblygu hwn.
- 2.14.6 Rydym yn bwriadu defnyddio tymor yr haf 2021 i dreialu'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu drafft, ochr yn ochr ag ymgynghoriad cyhoeddus i sicrhau ein bod wedi ymgysylltu'n effeithiol â'r sector ac eraill cyn cyhoeddi'r dogfennau canllaw terfynol yn ystod tymor yr hydref. Rydym wrthi'n datblygu ein cynlluniau ar gyfer yr ymarfer pilot ac yn disgwyl y bydd yn costio tua £0.2m.
- 2.14.7 Er y bydd strwythur a therminoleg y trefniadau newydd ar gyfer lleoliadau meithrin yn gyson â'r Cwricwlwm i Gymru er mwyn sicrhau continwwm dysgu, bydd egwyddorion addysgeg allweddol y Cyfnod Sylfaen yn aros yr un fath. Felly, ni ddisgwylwn y bydd effaith sylweddol ar y sector nas cynhelir o ran rhoi'r cwricwlwm newydd ar waith. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i ymgysylltu'n agos â rhanddeiliaid er mwyn sicrhau ein bod yn deall unrhyw effaith debygol yn glir a sicrhau y gellir rhoi cymorth priodol ar waith i'r sector.
- 2.14.8 Rydym yn cydnabod y bydd dysgu proffesiynol yn hanfodol i gefnogi'r sector cyn i'r cwricwlwm ddod yn ofynnol yn hydref 2022. Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i benderfynu ar y ffordd fwyaf effeithiol o ddatblygu pecyn dysgu proffesiynol priodol.

2.15 Gwaith ieuencid

Manylion am y ddarpariaeth gyllidebol i gefnogi darpariaeth gwasanaethau ieuencid, gan gynnwys unrhyw newidiadau a wnaed i adlewyrchu gwaith ac argymhellion Bwrdd Gwaith Ieuencid Interim Llywodraeth Cymru.

- 2.15.1 Bydd y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuencid yn parhau ar yr un lefel ar gyfer 2021-22, sef £7.326m. Mae'r gyllideb hon yn ariannu nifer o grantiau cymorth ieuencid er mwyn cefnogi gwasanaethau ieuencid statudol a gwirfoddol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau lleol drwy'r Grant Cymorth Ieuencid, y sector gwirfoddol drwy'r

Grant i Gyrrff Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol, Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol, sef corff mantell sy'n cefnogi sefydliadau yn y sector gwirfoddol ac ETS Cymru sy'n cefnogi addysg a chymwysterau'r sector. Mae'r cyllid yn chwarae rôl allweddol o ran sicrhau bod Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru yn cael ei rhoi ar waith. Mae'r gwasanaethau ataliol hollbwysig, a ddarperir gan awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol, yn dibynnu'n gynyddol ar ddatblygu dulliau partneriaeth arloesol.

2.15.2 Mae'r gyllideb hon yn cyfrannu'n fawr tuag at gefnogi rhai o'n pobl ifanc fwyaf agored i niwed, gan gynnwys y rhai sydd â phroblemau emosiynol, iechyd meddwl neu lesiant sy'n datblygu, a phobl ifanc sy'n wynebu risg o fod yn ddigartref. Mae'r gwaith hwn sydd wedi'i dargedu yn adeiladu ar y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid llwyddiannus, gan wella gallu awdurdodau lleol a'u partneriaid i nodi a threfnu ymyriadau ar gyfer y rhai sydd eu hangen fwyaf ar y cyfle cyntaf oll. Bwriedir i'n buddsoddiad annog mwy o gydweithio a ffyrdd newydd o weithio. Mae'r gyllideb hon yn parhau i ddarparu cyllid o £2.5m wedi'i dargedu i gefnogi pobl ifanc ag anghenion llesiant emosiynol ac iechyd meddwl drwy ddulliau anghlinigol a gwaith ieuenctid yn y gymuned.

2.15.3 Bydd y gyllideb yn parhau i gefnogi gwaith y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Interim i ddatblygu model cynaliadwy ar gyfer gwaith ieuenctid, gan gynnwys ymgysylltu â phobl ifanc, drwy bwylgor pobl ifanc newydd ei sefydlu a'r sector gwaith ieuenctid drwy ei Grwpiau Cyfranogi Strategol, sydd wedi datblygu cynlluniau gwaith i gyflawni nodau Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru (2019). Bydd y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Interim yn cyhoeddi ei adroddiad interim 'Time to Deliver for Young People in Wales' ym mis Ionawr 2021.

2.16 Dysgu ar gyfer Troseddwyr

Manylion am ddarpariaeth yn 2021-22 a sut mae hyn yn cymharu â blynyddoedd blaenorol.

2.16.1 Bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru yn cyllido (o gyllid a ddarperir i Weinidogion Cymru yn benodol at y diben hwn gan Lywodraeth y DU) darpariaeth addysg a dysgu a llyfrgelloedd mewn carchardai sector cyhoeddus yng Nghymru drwy Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar y cyd â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi.

2.16.2 Yn 2021-22, caiff cyllideb o £3.328m ei dyrannu i Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi i gefnogi darpariaeth dysgu a sgiliau i garcharorion mewn carchardai sector cyhoeddus yn y de. Mae'r gyllideb hon wedi bod yn ddiglyfnewid ers 2020-21.

2.16.3 Darperir gwasanaethau addysg a dysgu yng Ngharchar EM Berwyn gan Novus Cambria ac mae ganddo drefniadau cyllido ar waith sy'n wahanol i garchardai eraill yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Cytunir ar gostau'r contract bob blwyddyn ac mae'r arian a drosglwyddir o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i Lywodraeth Cymru yn rhan o gostau'r contract. Cyfrifoldeb

Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yw ariannu unrhyw gostau sy'n weddill. O dan delerau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi sydd â'r cyfrifoldeb arweiniol am reoli'r gwasanaethau dysgu a sgiliau a ddarperir yng Ngharchar EM Berwyn o dan y contract. Ar gyfer 2020-21, trosglwyddwyd £3.3 miliwn yn ystod y flwyddyn o Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi i Lywodraeth Cymru i dalu Novus Cambria am ddarparu gwasanaethau addysg a dysgu. Disgwylir lefel debyg yn 2021-22 ond ni chytunwyd ar hyn eto.

- 2.16.4 Mae'r trefniant presennol yn galluogi Llywodraeth Cymru i wella ansawdd a pherthnasedd dysgu i droseddwyr ymhellach yng nghyd-destun blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Mae'n cefnogi nifer o ymrwymadau yn y Rhaglen Lywodraethu, gyda phrif ffocws ar roi'r cymorth sydd ei angen ar bobl i gael swyddi ac mae'n gweithredu ar nifer o argymhellion yn Adolygiad Hanson o Addysg mewn Carchardai. Drwy well addysg a dysgu sgiliau bywyd, bydd hyn yn fodd i dorri cylch anfantais ac anghydraddoldeb y mae llawer yn ei brofi yn y cohort hwn dros y tymor hwy.
- 2.16.5 Gwyddom fod rhoi mynediad at addysg o ansawdd da, sgiliau a chyflogaeth yn ffactor pwysig sy'n cyfrannu at ostwng cyfraddau aildroseddu ac rydym yn ymrwymedig i ddarparu rhaglen addysg a chyflogaeth i droseddwyr sy'n cefnogi llwybr effeithiol tuag at gefnu ar droseddu. Mae hyn yn cynnwys datblygu polisi dysgu i droseddwyr, a chydabu Fframwaith Credydau a Chymwysterau achrededig i Gymru lwybr i droseddwyr sy'n fenywod, a ddatblygwyd gyda chyfraniadau troseddwyr a chyn-droseddwyr.
- 2.16.6 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen gweithredu'n wahanol er mwyn cynorthwyo troseddwyr ifanc a throseddwyr sy'n fenywod sy'n rhan o'r system cyfiawnder troseddol neu sy'n wynebu risg o ddod yn rhan ohoni. Mae ein glasbrintiau yn uchelgeisiol, a byddant yn cymryd amser i'w cyflwyno. Wedi dweud hynny, mae cynnydd eisoes yn cael ei wneud i'w gwneud yn bosibl i'r nodau byrdymor, tymor canolig a hirdymor yn y glasbrintiau gael eu cyflawni.
- 2.16.7 Ein huchelgais yw datblygu system cyfiawnder ieuencid a system cyfiawnder i fenywod sy'n trin pawb gyda thegwch a pharch ond sydd hefyd yn canolbwyntio ar ymyrryd yn gynnar ac atal.
- 2.16.8 Rydym yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yng Ngwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn y carchar yn parhau i gael mynediad at ddeunyddiau addysg a sgiliau yn ystod y cyfnod heriol hwn.
- 2.16.9 Rydym hefyd yn gweithio gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi ar ei gynigion ar gyfer darparu gwasanaethau addysg a sgiliau yng Ngharchar EM y Parc yn y dyfodol fel rhan o Brosiect Dirwyn i Ben a Phontio

Carchar EM/STI y Parc⁵, gan fod y contractau yn dod i ben ym mis Rhagfyr 2022. Rydym am sicrhau y caiff y ddarpariaeth ei datblygu yn unol â chymwyseddau datganoledig Llywodraeth Cymru ym meysydd addysg a sgiliau.

2.17 Addysg bellach, darpariaeth chweched dosbarth a Dysgu Oedolion yn y Gymuned

Manylion am ddyraniadau cyflawn 2020/21 i golegau addysg bellach, gan gynnwys symiau pob elfen o'r dyraniad (h.y. amser llawn, rhan-amser, lwfans rhan-amser, amddifadedd, teneurwydd poblogaeth a lwfansau cyfrwng Cymraeg, lwfans cynhaliaeth ac addasiad Addysg Oedolion Cymru).

2.17.1 Rhoddir y wybodaeth hon yn **Atodiad I**.

Manylion am newidiadau i fodel cyllido addysg bellach (os o gwbl) o'r model a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn eich papur dyddiedig 8 Ionawr 2020 a'r rheswm dros unrhyw newidiadau.

2.17.2 Wrth gyfrifo cyllid addysg bellach, caiff yr un model â'r hyn a gyflwynwyd yn y papur dyddiedig 8 Ionawr 2020 ei ddefnyddio.

2.17.3 Bydd un newid bach, wedi'i gynllunio, i'r dull o ddeillio dysgwyr a ragwelir drwy gynnwys cyfartaledd dros dair blynedd (y flwyddyn diwethaf, defnyddiwyd cyfartaledd dros ddwy flynedd), a hynny am fod Llywodraeth Cymru yn dal y data perthnasol ar gyfer y tair blynedd diwethaf a bod y newid yn sicrhau bod methodoleg cyllido addysg bellach yn hollol unol â methodoleg cyllido darpariaeth chweched dosbarth, sydd wedi defnyddio cyfartaledd dros dair blynedd ers sawl blwyddyn bellach.

Manylion unrhyw gyllid a glustnodwyd ar gyfer sefydliadau addysg bellach neu ddarpariaeth chweched dosbarth y tu hwnt i'w grantiau craidd arferol.

2.17.4 O ran cyllideb 2021-22, ar adeg ysgrifennu, nid ydym wedi cytuno ar ddyraniadau ôl-16 eto, a hynny'n bennaf am fod y setiau data terfynol yn dal i gael eu dilysu. Byddwn yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar grantiau eraill sydd wedi'u clustnodi unwaith y byddwn wedi cytuno ar y dyraniadau ac wedi'u pennu'n derfynol.

Manylion unrhyw gyllid a ddarperir yng nghyllideb 2021-22 i sicrhau cyflog cyfwerth a/neu dalu am unrhyw ddyfarniad cyflog i sefydliadau addysg bellach a darpariaeth chweched dosbarth, gan gynnwys esboniad ynghylch digonolrwydd y cyllid i dalu'n llawn am unrhyw ddyfarniad cyflog / cyflogau cyfwerth dros gyfnod y gyllideb hon.

⁵ Sefydliad Troseddwy'r Ifanc

2.17.5 Ar adeg ysgrifennu, nid ydym wedi cytuno ar y dyraniadau ôl-16 eto, a hynny'n bennaf am fod y setiau data terfynol yn dal i gael eu harchwilio. Byddwn yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor unwaith y byddwn wedi cytuno ar y dyraniadau ac wedi'u pennu'n derfynol.

Manylion am ddyraniad cyflawn 2021-22 ar gyfer darpariaeth Chweched Dosbarth, yn ôl pob awdurdod lleol, a rhestr lawn o werthoedd rhaglenni ar gyfer 2020-21 a 2021-22 a ddefnyddiwyd wrth gyfrifo dyraniadau grant ar gyfer darpariaeth Chweched Dosbarth.

2.17.6 Ar adeg ysgrifennu, nid ydym wedi cytuno ar y dyraniadau ôl-16 i'r sector addysg bellach eto, a hynny'n bennaf am fod y setiau data terfynol yn dal i gael eu harchwilio. Byddwn yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor unwaith y byddwn wedi cytuno ar y dyraniadau ac wedi'u pennu'n derfynol.

2.17.7 Yn yr un modd, nid ydym wedi cytuno eto ar werthoedd rhaglenni 2021-22, sy'n rhan graidd o'r dyraniadau. Atodir rhestr lawn o werthoedd rhaglenni 2020-21 yn **Atodiad I**.

Copi o'r canllawiau diweddaraf ar Dybiaethau Cynllunio Rhagolygon Ariannol Addysg Bellach a roddwyd i sefydliadau addysg bellach.

2.17.8 O ganlyniad i effaith COVID-19, cytunwyd â'r sector na fyddai ymarfer Rhagolygon ariannol addysg bellach 2020 yn cael ei gomisiynu oherwydd y nifer mawr o achosion o ansicrwydd a oedd yn bodoli yn ystod camau cynnar y cyfyngiadau symud yn ogystal â'r gofynion o ran adnoddau a fyddai'n cael eu gosod ar staff cyllid addysg bellach yn ystod yr ymarfer, a allai fod wedi cael eu defnyddio'n well ar weithgareddau eraill. Yn ystod y cyfyngiadau symud, mae staff Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n agos gyda Grŵp Cyfarwyddwyr Cyllid Addysg Bellach i sicrhau iechyd ariannol y sector.

2.17.9 Unwaith y bydd y rhagolwg economaidd wedi sefydlogi ac y bydd achosion o gryn ansicrwydd wedi diflannu, byddwn yn ceisio cynnal yr ymarfer a byddwn yn rhoi tybiaethau cynllunio addas i'r sefydliadau addysg bellach er mwyn iddynt allu paratoi eu rhagolygon.

Esboniad cam wrth gam o'r model cyllido ar gyfer Dysgu Oedolion yn y Gymuned a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2019, a dyraniad Dysgu Oedolion yn y Gymuned, yn ôl y cyrff perthnasol sy'n cael y cyllid yn uniongyrchol.

2.17.10 At ddibenion dyraniad 2020-21, cafodd pob awdurdod lleol 5/12 o'i ddyraniad yn seiliedig ar y fethodoleg gyfredol ar gyfer gweddill y flwyddyn academaidd rhwng mis Ebrill 2020 a mis Awst 2020, gyda'r 7/12 o'r dyraniad a oedd yn weddill yn seiliedig ar y fethodoleg newydd rhwng mis Medi 2020 a mis Mawrth 2021 o'r flwyddyn academaidd 2020/21.

2.17.11 Mae'r fethodoleg newydd yn rhoi'r dyraniad cyffredinol i bob awdurdod lleol ar sail pro rata, yn seiliedig ar niferoedd dysgwyr ym mhob ardal sy'n dal cymhwyster lefel 1 neu is fel eu cymhwyster uchaf. Er y cydnabyddir bod y fethodoleg newydd hon yn arwain at rai newidiadau mawr mewn cyllid rhwng

awdurdodau lleol, mae'n sicrhau dull cyllido tecach, yn unol ag argymhellion yr ymgynghoriad ar Ddysgu Oedolion, drwy sicrhau bod pobl Cymru (sy'n dal cymhwyster lefel 1 neu is fel eu cymhwyster uchaf) yn cael yr un cyfle, ni waeth ym mha awdurdod lleol y maent yn byw.

2.17.12 Rydym yn sylweddoli bod angen i'r broses o symud i'r dyraniadau cyllid newydd gael ei chynllunio'n ofalus. O ganlyniad, rydym wedi cynnwys elfennau pontio er mwyn sicrhau na fydd dyraniad unrhyw awdurdod lleol yn gostwng mwy na 5% o gymharu â 2019-20; ac rydym wedi gosod terfyn er mwyn sicrhau na fydd dyraniad unrhyw awdurdod lleol yn cynyddu mwy na 50% (neu £50,000 ar y mwyaf).

2.17.13 Mae swyddogion yn gweithio'n agos gyda'r sector dysgu oedolion er mwyn trafod trefniadau pontio wedi'u teilwra i sicrhau'r lefelau newydd o gyllid.

2.17.14 Ceir dyraniadau Dysgu Oedolion yn y Gymuned ar gyfer 2020-21 yn **Atodiad I**.

2.18 Addysg uwch a chymorth i ddysgwyr ôl-16, gan gynnwys adnoddau ar gyfer benthyciadau i fyfyrwyr

Manylion am ddyraniad CCAUC, gan gynnwys manylion unrhyw gyllid a glustnodwyd, neu gyllid a fwriedir ar gyfer gweithgareddau penodol, gan gynnwys iechyd meddwl a llesiant myfyrwyr.

2.18.1 Nodir cyfanswm cyllideb ddiwygiedig CCAUC, yn unol ag Ail Gyllideb Atodol 2020-21 yn y tabl isod:

| Enw'r Llinell Wariant yn y Gyllideb | 2020-21 £000 |
|---|-------------------------|
| Gwariant Refeniw CCAUC | 193,357 |
| Dibrisiant CCAUC | 90 |
| Seilwaith Addysg (gwariant cyfalaf drwy'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Seilwaith Addysg) | 10,000 |
| Cyfanswm | 203,447 |

2.18.2 Anfonwyd llythyr cyllido interim i CCAUC ym mis Ebrill 2020 yn ei hysbysu am ddyraniad cymorth grant dangosol o £172m ar gyfer 2020-21 i gefnogi addysg uwch yng Nghymru. O ran y blaenoriaethau, hysbyswyd y Cyngor y bydd y blaenoriaethau rydym wedi canolbwyntio arnynt yn ystod y blynyddoedd diwethaf – sef cydweithredu AB-AU; cydweithredu rhwng y sector a busnes a diwydiant; ac adeiladu sector sydd â chyfrifoldeb sifig wrth ei wraidd – yn hanfodol i gefnogi'r ymdrech genedlaethol i ddelio â'r pandemig ac y byddwn yn disgwyl i'r Cyngor barhau i flaenoriaethu'r meysydd gweithgarwch hyn.

2.18.3 Anfonwyd cylch gwaith CCAUC ym mis Awst a oedd yn dyrannu £31.5m arall er mwyn sefydlu Cronfa Buddsoddi ac Adfer (£27m), rhoi cymorth ar gyfer

rhaglen Go Wales wedi'i hehangu (£1.5m) a chyllid ar gyfer cyflwyno graddbrentisiaethau yng Nghymru (£3m).

2.18.4 Roedd blaenoriaethau'r Gronfa Buddsoddi ac Adfer fel a ganlyn:

- Cynnal darpariaeth ym mhob rhan o'r system yng Nghymru mewn meysydd addysgu ac ymchwil â blaenoriaeth y mae angen eu cynnal drwy gydol y flwyddyn academaidd 2020/21 lle mae CCAUC wedi nodi bod darpariaeth o'r fath mewn perygl oherwydd methiant i recriwtio digon o fyfyrwyr domestig a rhyngwladol. Hoffwn pe bai CCAUC yn sicrhau ei fod wedi asesu sut y gall darpariaeth o'r fath barhau i fod yn gynaliadwy yn yr hirdymor.
- Prosiectau adfer a buddsoddi â blaenoriaeth ym maes addysgu ac ymchwil, yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer adfer, sefydlogi ac ailadeiladu'r economi, gan gynnwys ymchwil i ddeallusrwydd artiffisial, datblygu technolegau digidol a thechnolegau gwyrdd.
- Buddsoddi mewn technolegau dysgu a chyfleusterau dysgu cyfunol, gan gynnwys ehangu darpariaeth ar-lein a datblygiadau cyfochrog ym maes cynhwysiant a chyrhaeddiad digidol, er mwyn sicrhau parhad ansawdd profiad myfyrwyr mewn prifysgolion yng Nghymru, gyda'r nod o gynnal perfformiad traddodiadol gryf prifysgolion yng Nghymru o ran arolygon o brofiad myfyrwyr.
- Cefnogi'r penderfyniad i estyn contractau sgiliau ac ymchwil sydd mewn perygl rhwng prifysgolion a busnesau er mwyn cefnogi swyddi a chyfnewid gwybodaeth.
- Cronfeydd caledi myfyrwyr i'w dyrannu i sefydliadau gan CCAUC a sefydliadau i ddyrannu arian i fyfyrwyr, ar sail angen ariannol dybryd.
- Helpu sefydliadau i adolygu eu harlwy a chynghori eu llywodraethwyr ar ei ddatblygiad yn y dyfodol.

2.18.5 Yn 2021-22, gan adlewyrchu effaith barhaus COVID-19 ac yn unol â diwygiadau Diamond, bydd CCAUC yn cael dyraniad dangosol o £201m. Mae hwn yn cynnwys cyllideb wastad, heb gynnwys dyraniadau o gronfa wrth gefn COVID-19, gyda buddsoddiad ychwanegol o arbedion cymorth i fyfyrwyr.

O ran diwygiadau Diamond: nodi'r lefel ddisgwyliedig o arbedion cymorth ariannol i fyfyrwyr ar gyfer 2021-22 o gymharu â 2020-21 a chyfran y swm hwn a gaiff ei hailfuddsoddi yn y sector addysg uwch fel rhan o "Difidend Diamond".

2.18.6 Nodwyd £25m yn 2021-22 a chaiff y swm hwn ei ailfuddsoddi'n gyfan gwbl yn y sector addysg uwch, er mwyn gweithredu ar argymhellion cam terfynol adolygiad Diamond fel y cytunwyd gan y Cabinet. Mae hyn yn cynnwys cyllid ychwanegol ar gyfer pynciau costus (rhan-amser ac amser llawn), ehangu a chynnal darpariaeth ran-amser, cynyddu QR a chynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer cyfnewid gwybodaeth (rhan annatod o ymateb Llywodraeth Cymru i adolygiad Reid) a mwy o gydweithio rhwng addysg uwch, addysg bellach ac ysgolion.

2.18.7 Yn 2020-21, y bwriad oedd dyrannu £35m o gyllid ychwanegol i CCAUC fel dyraniad cylchol, gan roi'r cyllid iddo pan oedd ei angen i weithredu ar gam nesaf diwygiadau Diamond. Fodd bynnag, yn dilyn ymarfer ailflaenoriaethu'r gyllideb, cafwyd gostyngiad o £16.3m yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Gwariant Rhaglenni CCAUC, a oedd yn golygu bod yn rhaid i CCAUC addasu ei fuddsoddiadau arfaethedig mewn rhai o'r gweithgareddau hynny yn 2020-21. Fodd bynnag, ers hynny dyrannwyd £41.5m o gyllid ychwanegol i CCAUC er mwyn helpu'r sector i liniaru effeithiau'r pandemig, helpu'r adferiad economaidd ehangach a rhoi cymorth ychwanegol ar gyfer iechyd a llesiant myfyrwyr a chronfeydd caledi.

Manylion unrhyw ddyraniad yn 2021-22 a fwriadwyd ar gyfer cyflwyno gradd-brentisiaethau ac y bwriedir ei ddefnyddio i recriwtio prentisiaid newydd neu addysgu'r prentisiaid presennol yn unig.

2.18.8 Cynhwysir £5m yn llinell sylfaen CCAUC i gefnogi Gradd-brentisiaethau. Disgwylir y bydd rhagor o gyllid yn cael ei drosglwyddo yn ystod y flwyddyn o MEG yr Economi a Thrafnidiaeth (fel rhan o broses y gyllideb atodol) er mwyn cefnogi cost Gradd-brentisiaethau newydd a pharhaus yn 2021-22. Nid yw'r gost wedi'i chadarnhau ar hyn o bryd.

Manylion unrhyw gyllid cyfalaf sydd i'w ddarparu i CCAUC, gan gynnwys unrhyw gyfyngiadau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu gosod arno.

2.18.9 Mae'r ymrwymiad i gyllid cyfalaf dros dair blynedd (£10m y flwyddyn rhwng 2018-19 a 2020-21) i ddarparu cyllid i helpu sefydliadau i leihau eu risgiau ariannol sy'n gysylltiedig ag ystadau a sicrhau arbedion effeithlonrwydd wrth reoli eu hystadau a'u gweithrediadau, wedi cael ei ymestyn am flwyddyn arall. Dyrannwyd £10m arall o gyllid cyfalaf ar gyfer 2021-22.

Grantiau: Tabl yn dangos alldro 2019-20, a gwariant a ragwelir dros y pedair blynedd ganlynol (yn ôl myfyrwyr sy'n astudio yng Nghymru ac mewn manau eraill yn y DU) ar gyfer:

- ***Grant Ffioedd Dysgu ar gyfer israddedigion amser llawn;***
- ***Grant Cynhaliaeth ar gyfer israddedigion amser llawn;***
- ***Grant Ffioedd Dysgu ar gyfer israddedigion rhan-amser;***
- ***Grant Cynhaliaeth ar gyfer israddedigion rhan-amser;***
- ***Yr elfen sy'n ymwneud â Grant Cyllid Gradd Meistr;***
- ***Lwfans Cynhaliaeth Addysg;***
- ***Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (Addysg Bellach);***
- ***Grantiau a lwfansau wedi'u targedu***

2.18.10 Rhoddir y wybodaeth hon yn **Atodiad J**.

Darparu benthyciadau: Tabl yn dangos alldro 2019-20, a chost benthyciadau a ragwelir dros y pedair blynedd ganlynol (yn ôl myfyrwyr sy'n astudio yng Nghymru ac mewn manau eraill yn y DU) ar gyfer:

- ***Cost Ffioedd Dysgu ar gyfer israddedigion amser llawn a'r tâl a godir am Gyfrifyddu a Chyllidebu Adnoddau;***

- **Cost Ffioedd Dysgu ar gyfer israddedigion rhan-amser a chost benthyciadau cynhaliath a'r tâl a godir am Gyfrifyddu a Chyllidebu Adnoddau;**
- **Yr elfen sy'n ymwneud â chost benthyciadau Cyllid Gradd Meistr a'r tâl a godir am Gyfrifyddu a Chyllidebu Adnoddau;**
- **Cost benthyciadau doethurol a'r tâl a godir am Gyfrifyddu a Chyllidebu Adnoddau.**

2.18.11 Rhoddir y wybodaeth hon yn **Atodiad J**.

2.19 Darpariaeth addysg ôl-16 arall

Manylion am gyllid Cyfrifon Dysgu Personol

2.19.1 Mae'r Cyfrifon Dysgu Personol, sef rhaglen gwerth £17.4m ar gyfer 2021-22, yn rhoi cymorth i bobl gyflogedig, gweithwyr ar ffyrlo neu unigolion y mae COVID-19 wedi cael effaith negyddol arnynt ennill sgiliau a chymwysterau lefel uwch mewn sectorau â blaenoriaeth, gan rymuso unigolion i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu. Drwy hyn, cynigir cyfleoedd i bobl newid gyrfa neu uwchsgilio yn eu dewis alwedigaeth.

2.19.2 Caiff y cyrsiau a'r cymwysterau eu cyllido'n llawn gan Lywodraeth Cymru; cânt eu darparu gan golegau a rhoddir cynllun ymarferol i bob unigolyn y gall ymgymryd ag ef fel rhan o'i ymrwymadau presennol er mwyn ei helpu i gyflawni ei nodau gyrfa yn y dyfodol. Bydd y rhaglen yn helpu cyflogwyr i ailadeiladu eu busnesau drwy sgiliau a hyfforddiant mewn meysydd megis digidol, marchnata, cynhyrchu a rheoli.

2.19.3 Mae'r dull dysgu hyblyg hwn yn galluogi colegau i fynd ati mewn ffordd wahanol i gynnig cyrsiau a chymwysterau er mwyn bodloni gofynion pobl gyflogedig am sgiliau economaidd, ni waeth beth fo lefel flaenorol eu cymwysterau.

2.19.4 Wrth gyflwyno'r Cyfrifon Dysgu Personol hyd yma, mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu ffordd o weithredu sy'n canolbwyntio ar rywedd. Bwriad hyn yw helpu i nodi a deall effeithiau gwahanol posibl, gan gynnwys effeithiau anfwriadol, er mwyn gwella'r ffordd rydym yn blaenoriaethu ac yn dyrannu adnoddau. Comisiynwyd y Sefydliad Dysgu a Gwaith i ymgymryd â gwaith i ddeall ac ystyried pwy sy'n derbyn y cynnig, a nodi unrhyw rwystrau anfwriadol i grwpiau â nodweddion gwarchoddedig. Bydd canfyddiadau'r gwaith hwn ar gael ar ddechrau 2021.

Mae'n rhaid bod unigolion:

- Yn byw yng Nghymru
- Am ennill sgiliau/cymwysterau mewn sectorau â blaenoriaeth
- yn 19 oed neu'n hŷn

2.19.5 Hefyd, mae'n rhaid i unigolion fodloni o leiaf un o'r meini prawf canlynol:

- Pobl gyflogedig (gan gynnwys pobl hunangyflogedig) sy'n ennill o dan yr incwm canolrifol (£26,000),
- Gweithwyr ar ffyrlo,
- Gweithwyr â chontractau dim oriau,
- Staff asiantaeth,
- Yn wynebu risg o gael eu diswyddo,
- Mae COVID-19 wedi cael effaith negyddol arnynt

Manylion am gyllideb Cymraeg mewn Addysg, gan gynnwys unrhyw ddyraniad ar gyfer y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

2.19.6 Cyllid cyffredinol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yw £6.243m. Mae hyn yn cynnwys £5.4m ar gyfer y Coleg a £0.330m ar gyfer ei gynllun ysgoloriaeth cyfrwng Cymraeg mewn addysg uwch. Ar gyfer addysg ôl-16, dyrennir cyfanswm o £0.513m i gefnogi Cynllun Gweithredu cyfrwng Cymraeg Addysg Bellach a Phrentisiaethau.

2.20 Ymchwil ac arloesi, a gwyddoniaeth

Manylion am y cyllid ar gyfer ymchwil ac arloesi ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor yn ystod y broses o graffu ar gyllideb 2020-21 nad yw'n hollol glir ar hyn o bryd faint o arian y Llywodraeth sy'n cael ei ddyrannu i feysydd ymchwil ac arloesi, ac y byddai'r wybodaeth hon yn cael ei throsglwyddo i'r Pwyllgor unwaith y byddai'n hysbys.

2.20.1 Oherwydd pandemig COVID-19, bu'n rhaid i Lywodraeth Cymru ailflaenoriaethu ei hymdrechion er mwyn ymdrin â'r pandemig heriol tu hwnt hwn a'r effeithiau ar ein cymdeithas a'n heconomi ar bob lefel, gyda goblygiadau mawr i gyfrifoldebau perthnasol pob Gweinidog. Felly, ni allaf ond sôn am y sefyllfa fel y bo'n gymwys i gyfrifoldebau fy mhortffolio fy hun. Y cyllid gros ar gyfer Ymchwil a Datblygu yn fy mhortffolio ar gyfer 2021-22 yw £22.6m.

Manylion y cymorth ar gyfer y canlynol:

- **y Prif Gynghorydd Gwyddonol a'i swyddfa;**
- **gweithgarwch ymchwil ac arloesedd ar gyfer busnesau a diwydiant;**
- **y Gwyddorau bywyd.**

Y Prif Gynghorydd Gwyddonol a'i swyddfa:

2.20.2 Mae cyfanswm y cyllid a gynigir ar hyn o bryd ar gyfer y Prif Gynghorydd Gwyddonol a'r Swyddfa Gwyddoniaeth yn 2021-22 wedi'i rannu fel a ganlyn:

| Cyllideb y Swyddfa Gwyddoniaeth | 2021-22 |
|---------------------------------|---------|
| Cyfalaf | £000 |
| Sêr Cymru II+ | 439 |
| Sêr Cymru III | 5,236 |

| | |
|---|--------------|
| Cyfanswm | 5,675 |
| Refeniw | |
| Cymorth ar gyfer prosiectau a hwyluso prosiectau | 520 |
| Trio Sci Cymru | 330 |
| Llesiant a Marchnata, gan gynnwys cymorth ar gyfer Brexit a chyllid paratoi | 500 |
| Cyfanswm | 1,350 |

2.20.3 Fel rhan o'r ymateb i COVID-19, mae Prif Gynghorydd Gwyddonol Cymru a'r staff yn ei dîm wedi gwneud pob ymdrech ers mis Mawrth i roi cymorth i'w cydweithwyr ym maes iechyd.

2.20.4 Hefyd, cyhoeddodd Swyddfa Gwyddoniaeth Llywodraeth Cymru gais ymchwil, drwy Raglen Sêr Cymru, am geisiadau gan Brifysgolion yng Nghymru ar gyfer cynigion ymchwil gwreiddiol a allai gyfrannu at hyrwyddo neu ddatblygu ymchwil sy'n effeithio ar COVID-19. Yn ogystal â helpu i fynd i'r afael â materion â blaenoriaeth o ran COVID-19, roedd y gweithgaredd hwn hefyd yn anelu at gefnogi a defnyddio'r arbenigedd a'r dalent yn ein sector prifysgolion. Drwy'r fenter hon, bu modd cefnogi 39 o brosiectau i gyd, gan ddyrannu cyfanswm o £2.9m.

2.20.5 Mae prifysgolion wedi ymateb yn dda i gais ymchwil Sêr Cymru 'Mynd i'r afael â COVID-19' ac wedi blaenoriaethu adnoddau i helpu gyda phandemig COVID-19 a'i effeithiau ond maent hefyd wedi wynebu achosion o oedi o ran eu hymchwil gyffredinol pan na fu modd i academyddion gael mynediad i labordai yn ystod cyfnodau o gyfyngiadau symud.

2.20.6 Gyda'i gilydd, bydd y gwahanol amgylchiadau hyn yn golygu, yn anochel, y bydd rhai o ymrwymadau Prifysgolion i brosiectau ehangach, megis y rhai a gefnogir gan Sêr Cymru yn fwy cyffredinol, yn arafu. Yn gynyddol, bydd hyn yn golygu y caiff ymrwymadau eu cyflawni yn ystod blynyddoedd olaf y rhaglen gyfredol. Teimlir y bydd hyn yn gwella dros amser cyhyd ag y gallwn barhau i ddarparu digon o gyllid ac adnoddau i barhau i reoli a chefnogi rhaglen Sêr Cymru a'i buddiolwyr yn ystod cyfnod economaidd heriol tu hwnt. Dros y saith mlynedd diwethaf, mae rhaglen Sêr Cymru wedi cefnogi: tri rhwydwaith ymchwil, 12 o Gadeiryddion Ymchwil, 11 o 'Sêr Disglair', dros 115 o Gymrodyr Ymchwil a thua 340 o fyfyrwyr PhD ac ymchwilwyr ôl-ddoethurol yng Nghymru, o 29 o wledydd, gyda chyfanswm buddsoddiad o £100m.

2.20.7 Mae gwaith yn mynd rhagddo i adeiladu ar gam Sêr Cymru yn y dyfodol a'i ddatblygu i'w ystyried. Bydd y cam hwn yn adeiladu ar wersi a ddysgwyd, gan gynnwys yr ymateb i bandemig COVID-19. Fodd bynnag, efallai y bydd y cynigion yn wynebu cyfyngiadau ariannol, o ystyried y diffyg eglurder o hyd gan Lywodraeth y DU ynglŷn â'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r ffaith bod ymchwil ac arloesi wedi dibynnu'n hanesyddol ar fynediad Cymru at gronfeydd strwythurol yr UE.

Gweithgarwch ymchwil ac arloesedd ar gyfer busnesau a diwydiant

2.20.8 Cyfanswm Cyllid SMART ar gyfer Gweithgarwch Arloesi Busnes 2014-2020 (ond gall prosiectau unigol redeg tan 2023):

| Cyflawniadau Perfformiad SMART hyd yma | Unedau |
|--|---------------|
| Busnesau sy'n Derbyn Cymorth Anariannol | 463 |
| Cyngor Arbenigol sy'n Dechrau Cynnyrch neu Broses Newydd | 299 |
| Patentau a Gofrestrwyd | 39 |
| Nifer y busnesau/partneriaid sy'n cydweithredu â sefydliadau ymchwil a gefnogir. | 108 |
| Cynnydd mewn cyflogaeth mewn busnesau a gefnogir. | 351 |
| Cynhyrchion newydd i'r farchnad | 122 |
| Cynhyrchion newydd i'r cwmni | 423 |
| | |
| Buddsoddiad yn y sector preifat (£m) | £55.7m |

2.20.9 Cyfanswm Cyllid SMART ar gyfer Gweithgarwch Arloesi Busnes 2014-2020 (ond bydd prosiectau unigol yn rhedeg tan 2023, ond o fewn llinellau'r gyllideb bresennol).

| | Llywodraeth Cymru | ERDF | Sector Preifat | Cyfanswm |
|----------------------------|-------------------|---------------|----------------|----------------|
| Arloesedd SMART | £7.5m | £11.0m | - | £18.5m |
| SMART Cymru | - | £27.3m | £36.1m | £63.4m |
| Arbenigedd SMART | £1.3m | £30.3m | £19.7m | £51.3m |
| Cyfanswm | £8.8m | £68.6m | £55.7m | £133.1m |
| Cyfanswm y Flwyddyn | £1.2m | £9.8m | £8.0m | £19.0m |

2.20.10 Mae rhaglenni SMART yn cefnogi busnesau yng Nghymru drwy'r canlynol:

- **goresgyn** rhwystrau i arloesi ac ymchwil a datblygu *Arloesedd SMART* – llu maes o arbenigwyr diwydiant sy'n rhoi cyngor ac arweiniad ar ymchwil a datblygu, ymgynghoriaeth dechnegol, gweithgynhyrchu uwch, dylunio arloesol, arloesedd agored ac eiddo deallusol.
- **rhannu'r** risg sy'n gysylltiedig â'u harloesedd a'u hymchwil a datblygu. *SMART Cymru* – cydfuddsoddi i annog busnesau i roi prosesau arloesol ar waith ac ymgymryd ag ymchwil a datblygu, gan gynnwys dichonoldeb technegol, ymchwil ddiwydiannol a datblygu arbrofol.
- **cefnogi** gweithgarwch ymchwil a datblygu cydweithredol i fasnacheiddio gwybodaeth academaidd. *Arbenigedd SMART* – sy'n cefnogi prosiectau ymchwil a datblygu cydweithredol a arweinir gan ddiwydiant rhwng busnesau a sefydliadau ymchwil, gan droi ymchwil yn atebion masnachol.

2.20.11 Mae rhaglenni SMART yn cefnogi busnesau yng Nghymru drwy'r canlynol:

- **goresgyn** rhwystrau i arloesi ac ymchwil a datblygu *Arloesedd SMART* – llu maes o arbenigwyr diwydiant sy'n rhoi cyngor ac arweiniad ar ymchwil a datblygu, ymgynghoriaeth dechnegol, gweithgynhyrchu uwch, dylunio arloesol, arloesedd agored ac eiddo deallusol.
- **rhannu'r** risg sy'n gysylltiedig â'u harloesedd a'u hymchwil a datblygu. *SMART Cymru* – cydfuddsoddi i annog busnesau i roi prosesau arloesol ar waith ac ymgymryd ag ymchwil a datblygu, gan gynnwys dichonoldeb technegol, ymchwil ddiwydiannol a datblygu arbrofol.
- **cefnogi** gweithgarwch ymchwil a datblygu cydweithredol i fasnacheiddio gwybodaeth academaidd. *Arbenigedd SMART* – sy'n cefnogi prosiectau ymchwil a datblygu cydweithredol a arweinir gan ddiwydiant rhwng busnesau a sefydliadau ymchwil, gan droi ymchwil yn atebion masnachol.

Gwyddorau Bywyd

2.20.12 Mae cyfanswm y cyllid a gynigir ar hyn o bryd ar gyfer Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn 2021-22 wedi'i rannu'n gyfartal rhwng Addysg ac Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

2.20.13 Mae'r Hwb yn gangen gyflawni bwysig i hyrwyddo blaenoriaethau pwysig eraill a rennir. Mae'n un o'r prif ddulliau o sicrhau egwyddorion gweithio ar y cyd rhwng rhanddeiliaid ac integreiddio portffolios fel yr amlinellwyd yn Ffyniant i Bawb a Cymru Iachach, sef strategaethau cenedlaethol allweddol.

2.20.14 Ar ddechrau'r cyfnod cyllido presennol, cymeradwyodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a minnau gynllun busnes yr Hwb ar gyfer 2020/21 gyda ffocws ar bum maes effaith allweddol:-

- Cynhyrchion Meddyginiaethol Therapiwtig Datblygedig
- Digidol, Deallusrwydd Artiffisial a Roboteg
- Heneiddio'n Iach
- Academiâu Dysgu Dwys/Gofal Iechyd Seiliedig ar Werth
- Meddygaeth Fanwl

2.20.15 Yn y cyfnod adrodd rhwng mis Ebrill a mis Medi, mae gweithgarwch yr Hwb wedi arwain at gyfres o ganlyniadau cadarnhaol sydd wedi helpu i sicrhau 417 o swyddi a chontractau newydd gwerth £4.65m ar gyfer busnesau gwyddorau bywyd yng Nghymru.

2.20.16 Yn sgil pandemig COVID-19, mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru wedi ymgymryd â rôl allweddol o ran sut mae diwydiant yn ymgysylltu â'r GIG yng Nghymru. Daeth y sefydliad yn brif bwynt mynediad i fusnesau a oedd am gynnig atebion posibl i ateb y galw am gynhyrchion a gwasanaethau a grëwyd gan y pandemig. Mae wedi gwneud hyn drwy gynnig proses frysbenneu effeithiol i ddilysu darpar gyflenwyr i'w hatgyfeirio ymlaen at Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, Diwydiant Cymru, Llywodraeth

Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r gweithgarwch hwn yn mynd rhagddo o hyd a bydd yn parhau yn 2021/22 ochr yn ochr â'i feysydd effaith allweddol.

2.20.17 Erbyn mis Awst 2020, cafwyd 2,220 o ymholiadau gan fusnesau o ganlyniad i gais Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru i ddiwydiant ynglŷn â COVID-19 a'i ddigwyddiadau. Llwyddodd dros 550 o fusnesau yn y prawf diwydrwydd dyladwy cychwynnol gan Dîm yr Hwb cyn cael eu hatgyfeirio fel cyfleoedd i gyflenwi cynhyrchion. Er enghraifft, drwy weithio ochr yn ochr â chydweithwyr ym maes yr economi yng Ngrŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol, mae'r Hwb wedi llwyddo i gefnogi cwmnïau megis BCB International, sef cwmni sydd wedi bod yn gweithgynhyrchu cyfarpar diogelu ar gyfer marchnadoedd amddiffyn, morol ac antur yng Nghymru ers 160 o flynyddoedd. Newidiodd y cwmni ei weithgarwch cynhyrchu ar ei safle yn Llanelli i gynhyrchu hylif diheintio dwylo cryf iawn a chyfarpar diogelu personol, gan dderbyn archebion gwerth dros £2.2m. Mae wedi cyflenwi pedwar cynnyrch newydd i'r sector meddygol ac iechyd yng Nghymru ac wedi helpu i sicrhau 100 o swyddi o ganlyniad i hynny.

2.20.18 Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yw'r partner arweiniol hefyd mewn menter gydweithredol gwerth £24 miliwn â sector addysg uwch Cymru, gyda chymorth Llywodraeth Cymru a WEFO. Mae'r bartneriaeth â [Phrifysgol Caerdydd](#), [Prifysgol Abertawe](#) a [Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant](#) yn cynnig y cyfle i fanteisio ar arbenigedd academiaidd, drwy ddealltwriaeth o ecosystem y gwyddorau bywyd, a'r cyfleusterau diweddaraf sydd eu hangen ar arloeswyr ac entrepreneuriaid er mwyn gwireddu eu syniadau.

2.21 Cyllid cyfalaf ar gyfer seilwaith ysgolion a cholegau

Gwybodaeth am ddarpariaeth gyllidebol ar gyfer Ysgolion ar gyfer yr 21^{ain} Ganrif a hynt y rhaglen hyd yma, gan gynnwys gwariant a nifer y prosiectau a gwblhawyd/a gymeradwywyd hyd yma, yn ôl:

- ***crynodeb o wariant a nifer y prosiectau yr ymgwymerwyd â nhw / a gwblhawyd ym Mand A;***
- ***y sefyllfa ddiweddaraf o ran Band B y rhaglen.***

2.21.1 Mae Band A yn tynnu at ei derfyn ar ôl buddsoddi £1.61bn yn seilwaith ysgolion a cholegau yng Nghymru, gyda buddsoddiad o £801m gan Lywodraeth Cymru. Mae'r buddsoddiad hwn wedi cyflawni 170 o brosiectau yn erbyn targed o 150. O'r prosiectau hyn, mae 163 wedi'u cwblhau, ac mae'r gweddill yn cael eu hadeiladu.

2.21.2 Mae Band B wedi cyflawni eithaf tipyn, ar ôl dechrau'n swyddogol ym mis Ebrill 2019. Hyd yma, mae buddsoddiad gwerth £448m wedi cael ei gymeradwyo ar gyfer 43 o brosiectau, gyda chyfraniad o £295m gan Lywodraeth Cymru. O'r 43 o brosiectau a gymeradwywyd, mae 27 o brosiectau yn cael eu hadeiladu ac mae 12 ar y cam cyn adeiladu. Mae'n dda gennyf nodi bod pedwar prosiect wedi cael eu cwblhau hefyd.

Unrhyw oblygiadau i'r rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21^{ain} Ganrif o ganlyniad i COVID-19, gan gynnwys unrhyw effaith ar hynt prosiectau.

- 2.21.3 Mae'r pandemig, yn anochel, wedi effeithio ar y rhaglen, gyda'r gwaith adeiladu yn arafu a hyd yn oed yn cael ei atal dros dro ar rai prosiectau yn ystod mis Ebrill a mis Mai. Ar ôl siarad â phartneriaid cyflawni, rydym wedi llwyddo i gael y diweddaraaf ar y sefyllfa hon ac ar ddechrau'r flwyddyn cytunwyd y dylid talu prosiectau, yn fisol, yn ôl proffil i ysgogi'r sector adeiladu yn ystod y cyfnod anodd.
- 2.21.4 Yn ystod ein trafodaethau â'r partneriaid cyflawni, daeth yn amlwg bod costau yn cynyddu ar brosiectau, nid dim ond ar hyn o bryd ond hefyd yn y dyfodol, o ganlyniad i COVID-19. Mae angen i gontractwyr wella mesurau diogelwch ar safleoedd er mwyn cydymffurfio â'r canllawiau ar gadw pellter cymdeithasol. Bu cynnydd hefyd yng nghostau cadwyni cyflenwi. Er nad yw union ffigurau'r cynnydd yn hysbys yng Nghymru ar hyn o bryd, amcangyfrifir y bydd costau'r sector adeiladu yn chwyddo 15% o ganlyniad i hyn.
- 2.21.5 Er mwyn cefnogi'r costau ychwanegol hyn, sicrhawyd £30m yn ychwanegol ar gyfer y rhaglen o gronfa cadernid COVID-19. Bwriedir i'r cyllid hwn helpu i dalu costau yr aed iddynt o ganlyniad i'r pandemig, ond hefyd i ddechrau ariannu costau carbon sero-net. Rydym wrthi'n asesu ceisiadau partneriaid cyflawni am y cyllid hwn. Darparwyd £40m arall ar gyfer y rhaglen yn 2021-22, y bwriedir i £5m ohono gefnogi'r cynllun peilot carbon sero-net.

2.22 Cyllid cyfalaf ar gyfer gofal plant

Diweddariad ar gyllid cyfalaf o MEG Addysg ar gyfer y Cynnig Gofal Plant ac unrhyw wybodaeth ynglŷn â sut yr effeithiwyd / yr effeithir ar hyn o ganlyniad i'r adolygiad o'r hawl i gael y cynnig, fel y'i cyhoeddwyd ym mharagraff 368 o Gofnod y Trafodion ar 24 Medi 2019.

- 2.22.1 Yn 2021-22, byddwn yn parhau i ddarparu'r buddsoddiad ychwanegol gwerth £10m a ddyrannwyd yng nghyllideb y flwyddyn diwethaf i gefnogi cyllid cyfalaf ar gyfer Dechrau'n Deg a'r Cynnig Gofal Plant, er mwyn gwella ansawdd lleoliadau gofal plant ymhellach ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys £5m ar gyfer y Cynnig Gofal Plant sy'n gwneud cyfanswm o £45m o gyllid cyfalaf yn 2021-22, ac yn gwneud cyfanswm o £75m dros y cyfnod o bedair blynedd rhwng 2018-19 a 2021-22.
- 2.22.2 Nid yw'r adolygiad o'r hawl i gael y Cynnig Gofal Plant i Rieni mewn Hyfforddiant ac Addysg wedi'i gwblhau'n derfynol eto ac, ynghyd â'r ffaith bod y Cynnig Gofal Plant yn cael ei ddarparu yn seiliedig ar alw, mae'n rhy gynnar i ragweld yr effaith ar gyllid cyfalaf. Mae'r buddsoddiad o £75m hyd yma eisoes wedi'i neilltuo'n llawn ond gan fod £5m o hyd yn y llinell sylfaen, bydd y cyllid hwn yn cyfrannu tuag at unrhyw blant ychwanegol sy'n dod yn gymwys Ar hyn o bryd, rydym wedi dyrannu £6m yn fwy na'n cyllideb gyfalaf. Mae hwn yn swm darbodus am ei fod yn rhychwantu nifer o flynyddoedd, yn caniatáu ar gyfer twf yn y gyllideb dros y cyfnod hwnnw ac yn derbyn y gall

prosiectau cyfalaf newid o ran maint a chwmpas, ac efallai na fydd rhai yn mynd rhagddynt.

2.22.3 Bydd y cyllid ychwanegol ar gyfer 2021-22 yn ein helpu i barhau i gydleoli darpariaeth addysg gynnar bresennol â darpariaeth y cynnig gofal plant newydd ar un safle, lle bynnag y bo modd, gan gefnogi dull cydgysylltiedig o weithio gyda phlant a'u teuluoedd. Bydd yn sicrhau bod digon o ofal plant yn y manau cywir, gyda ffocws penodol ar ddatblygu darpariaeth newydd mewn ardaloedd lle mae prinder gwasanaethau gofal plant ar hyn o bryd, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd o dan anfantais.

2.22.4 Mae ein buddsoddiad cyfalaf yn cynnwys dyraniad o £8.4m i awdurdodau lleol ledled Cymru ar gyfer grantiau bach. Drwy hyn, gall darparwyr gofal plant wneud cais i'w hawdurdod lleol yn uniongyrchol am hyd at £10,000 ar gyfer prosiectau bach, megis gwaith adnewyddu, prynu eitemau newydd yn lle rhai wedi treulio a gwella'r cyfleusterau presennol. Darparwyd hefyd £2m yn ychwanegol yn ystod 2020-21 er mwyn helpu lleoliadau gofal plant yn benodol gydag addasiadau i ymdopi â'r gofynion o ganlyniad i'r pandemig.

2.22.5 Caiff grantiau cyfalaf y Cynnig Gofal Plant, Ysgolion ar gyfer yr 21^{ain} Ganrif, Dechrau'n Deg a darpariaeth cyfrwng Cymraeg eu darparu mewn ffordd gydweithredol er mwyn sicrhau dull cydgysylltiedig o reoli ein rhaglenni cyfalaf. Mae ein rhaglen gyfalaf yn cyfrannu at nod Llywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, gyda 49% o gyllid cyfalaf y Cynnig Gofal Plant yn cael ei fuddsoddi mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg a bron 6% mewn darpariaeth gofal plant ddwyieithog.

2.22.6 Ochr yn ochr â hyn, rydym yn buddsoddi £5.5m o gyllid cyfalaf yn 2021-22 yn Dechrau'n Deg er mwyn sicrhau bod ystad bresennol Dechrau'n Deg yn cael ei chynnal a'i chadw ac y gall barhau i roi gofal o'r safon uchaf. Bydd hefyd yn rhoi cyfle i Dechrau'n Deg gyfrannu at ddatblygu cyfleusterau'r Blynnyddoedd Cynnar integredig, wedi'u cydleoli fel rhan o Raglen Trawsnewid ehangach y Blynnyddoedd Cynnar.

2.23 Cyllid cyfalaf ar gyfer menter Ysgolion Bro

Gwybodaeth am ddarpariaeth gyllidebol ar gyfer grant Hybiau Cymunedol a Chanolfannau Dysgu Cymunedol a diweddariad ar hynt y gwaith o gynyddu ffocws cymunedol ystadau addysg.

2.23.1 Mae'r rhaglen Hybiau Cymunedol yn gwneud cynnydd da. Mae pedwar o'r 21 o brosiectau a gymeradwywyd wedi cael eu cwblhau, mae 10 wrthi'n cael eu hadeiladu ac mae saith ar y cam cyn adeiladu. Mae pob prosiect ar y trywydd cywir i gael ei gwblhau yn ystod 2021-22 ac mae cyllideb o £12.5m wedi cael ei dyrannu i helpu i'w cyflawni. Mae partneriaid cyflawni eisoes yn cynnwys agweddau cymunedol ar eu prosiectau Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21^{ain} Ganrif a ddylai gynyddu'r ddarpariaeth.

Crynodeb

Cyflwynir Cyllideb Ddrafft MEG Addysg ar gyfer 2021-22 i'r Pwyllgor i'w hystyried.

Kirsty Williams AS
Y Gweinidog Addysg

ATODIAD A – Sylwadau ar lefel camau gweithredu o fewn y MEG

Yn unol â chais y Pwyllgor, rhoddir sylwadau ar newidiadau i'r gyllideb ddrafft yn ôl Cam Gweithredu o fewn MEG Addysg isod. Maent yn adlewyrchu cyllidebau a gyhoeddwyd yn y Gyllideb Atodol Gyntaf a'r Ail Gyllideb Atodol ar gyfer 2020-21 a newidiadau ar gyfer 2021-22 o gymharu â llinell sylfaen 2020-21 (yn seiliedig ar Gyllideb Derfynol 2020-21 yn amodol ar newidiadau a amlinellir ym mharagraffau 1.1.2 a 1.1.5 o'r papur tystiolaeth).

Cam Gweithredu Llythrennedd a Rhifedd

| Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 Mai 2020 £000 | Ail Gyllideb Atodol 2020-21 Hydref 2020 £000 | Llinell Sylfaen 2020-21 £000 | Newidiadau 2021-22 £000 | Cyllideb Ddrafft 2021-22 Cynlluniau Newydd £000 |
|--|--|---------------------------------|----------------------------|---|
| 6,356 | 6,356 | 4,456 | (285) | 4,171 |

- Mae'r cyllid o fewn y Cam Gweithredu hwn yn cefnogi'r broses o gymryd y camau gweithredol a nodwyd yn y Rhaglen Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol. Mae'r gyllideb hefyd yn cefnogi'r broses o ddatblygu a chynnal y Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol a chyflwyno asesiadau ymaddasol ar-lein fesul cam.
- Er mwyn hwyluso'r broses o bontio o brofion ar bapur i asesiadau ymaddasol ar-lein, derbyniwyd cyllid Buddsoddi i Arbed gwerth £5m i gyd rhwng 2016-17 a 2019-20. Caiff hwn ei ad-dalu o 2021-22 tan 2024-25 yn seiliedig ar yr amserlen ad-dalu bresennol. Mae'r llinell sylfaen ar gyfer 2020-21 yn adlewyrchu'r penderfyniad i dynnu £2.1m o gyllid Buddsoddi i Arbed ar gyfer 2019-20 nad addaswyd ar ei gyfer yng Nghyllideb Derfynol 2020-21. Mae'r gostyngiad o £0.285m yn adlewyrchu ad-daliad y flwyddyn gyntaf o'r cyllid Buddsoddi i Arbed.

Cam Gweithredu'r Cwricwlwm

| Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 Mai 2020 £000 | Ail Gyllideb Atodol 2020-21 Hydref 2020 £000 | Llinell Sylfaen 2020-21 £000 | Newidiadau 2021-22 £000 | Cyllideb Ddrafft 2021-22 Cynlluniau Newydd £000 |
|--|--|---------------------------------|----------------------------|---|
| 10,053 | 10,053 | 13,080 | 8,900 | 21,980 |

- Mae'r Cam Gweithredu hwn yn cynnwys y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer y Cyfnod Sylfaen (gwaith polisi yn unig, mae'r cyllid cyflawni bellach wedi'i gynnwys yn y Grant Gwella Addysg o fewn Cam Gweithredu Safonau Addysg), y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer y Cwricwlwm a Threfniadau Asesu ac Adolygu'r Cwricwlwm. Mae'r gyllideb yn cynyddu £8.9m o gymharu â llinell sylfaen 2021-22. Mae'r cynnydd o £7.9m yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Adolygu'r Cwricwlwm yn 2021-22 yn rhoi cymorth ychwanegol ar gyfer diwygio'r cwricwlwm yn 2021-22 (ceir rhagor o fanylion yn 1.5.1.-1.5.2 o'r papur tystiolaeth).

- Bu cynnydd o £1m hefyd yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer y Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu fel cyfraniad at y costau sy'n gysylltiedig â chysoni'r cyfraddau cyllido ar gyfer addysg yn y Cyfnod Sylfaen a gofal plant drwy'r Cynnig Gofal Plant. Nodwyd cyfanswm cyllid o £3.8m (wedi'i rannu'n gyfartal rhwng MEG Addysg a MEG Gwasanaethau Cymdeithasol) yn 2021-22. Amlinellir rhagor o fanylion yn adran 2.14 o'r papur tystiolaeth. Nodwyd y £0.9m sy'n weddill drwy'r ddarpariaeth bresennol yn y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer y Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu.

Cam Gweithredu Addysgu ac Arweinyddiaeth

| Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 Mai 2020 £000 | Ail Gyllideb Atodol 2020-21 Hydref 2020 £000 | Llinell Sylfaen 2020-21 £000 | Newidiadau 2021-22 £000 | Cyllideb Ddrafft 2021-22 Cynlluniau Newydd £000 |
|---|---|---|------------------------------------|--|
| 31,895 | 31,895 | 38,914 | - | 38,914 |

- Mae'r gyllideb yn cefnogi cyllid ar gyfer Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA), gan gynnwys y llwybrau AGA 'amgen', TAR rhan-amser a TAR â Chyflog sydd ar gael o'r flwyddyn academaidd 2020/21, pan fydd grant hyfforddiant a grant cyfraniad cyflog yn cael eu darparu ar gyfer myfyrwyr AGA. Mae'r gyllideb hefyd yn darparu cyllid ar gyfer cymhellion Hyfforddi Athrawon (TAR addysg uwch ac addysg bellach) a datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer gweithwyr proffesiynol addysgu, gan gynnwys dysgu proffesiynol i baratoi ysgolion ar gyfer y cwricwlwm newydd. Mae hefyd yn ariannu Cyngor y Gweithlu Addysg i weinyddu Statws Athro Cymwysedig a'r Rhaglen Ymsefydlu mewn ysgolion, gan gynnwys dosbarthu cyllid i gefnogi mentora a chymorth i ANGAu.
- Ni chynigir unrhyw newidiadau i'r gyllideb hon ar gyfer 2021-22 (amlinellir rhagor o fanylion yn adran 2.4 o'r papur tystiolaeth).

Cam Gweithredu Cymwysterau

| Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 Mai 2020 £000 | Ail Gyllideb Atodol 2020-21 Hydref 2020 £000 | Llinell Sylfaen 2020-21 £000 | Newidiadau 2021-22 £000 | Cyllideb Ddrafft 2021-22 Cynlluniau Newydd £000 |
|---|---|---|------------------------------------|--|
| 9,463 | 9,463 | 9,463 | 404 | 9,867 |

- Mae'r gyllideb adnoddau ar gyfer Cymwysterau Cymru wedi cynyddu £0.404m yn 2021-22; £0.369m i gyfrannu at y rhaglen o ddiwygio ochr yn ochr â'r blaenoriaethau sydd ganddo eisoes; a swm anariannol ychwanegol o £0.035m ar gyfer dibrisiant (ceir rhagor o fanylion yn adran 2.12 o'r papur tystiolaeth).

Cam Gweithredu Addysg ôl-16

| Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 Mai 2020 £000 | Ail Gyllideb Atodol 2020-21 Hydref 2020 £000 | Llinell Sylfaen 2020-21 £000 | Newidiadau 2021-22 £000 | Cyllideb Ddrafft 2021-22 Cynlluniau £000 |
|---|---|---|------------------------------------|---|
|---|---|---|------------------------------------|---|

| £000 | £000 | | | Newydd £000 |
|---------|---------|---------|--------|----------------|
| 459,377 | 487,711 | 460,326 | 39,980 | 500,306 |

- Mae'r Cam Gweithredu hwn (y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Darpariaeth Addysg Bellach) yn cynnwys cyllid ar gyfer darpariaeth UA, Safon Uwch ac amrywiaeth eang o raglenni galwedigaethol i ddysgwyr 16-19 oed yn narpariaeth chweched dosbarth awdurdodau lleol ac mewn colegau addysg bellach. Mae hefyd yn darparu darpariaeth ran-amser i oedolion (darpariaeth Sgiliau Sylfaenol a Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill yn bennaf), mewn colegau addysg bellach a lleoliadau Dysgu Cymunedol awdurdodau lleol. Mae'r Cam Gweithredu hefyd yn cefnogi prosiectau strategol a gweithgareddau gwella ansawdd sydd â'r nod o wella'r ffordd y darperir dysgu ôl-16 yng Nghymru, gan gynnwys cymorth ar gyfer gwella ansawdd, meithrin gallu ac ymchwil i'r sector dysgu a sgiliau, cyllid grant y Sefydliad Dysgu a Gwaith (gan gynnwys Wythnos Addysg Oedolion), datblygu polisïau ym maes Gyrfaoedd, cyllid i helpu i gyflwyno rhwydwaith Seren, gan helpu'r dysgwyr mwyaf disglair i fynd i brifysgolion Ymddiriedolaeth Sutton; a gweithgareddau Erasmus i gefnogi symudedd rhwyngwladol i staff a myfyrwyr.
- Mae'r gyllideb ar gyfer Cam Gweithredu Addysg ôl-16 wedi cynyddu £39.98m ar gyfer 2021-22 o ganlyniad i'r dyraniadau canlynol:
 - £5m ar gyfer cyllid ailadeiladu addysg bellach;
 - £21.745m i adlewyrchu'r cynnydd yn nemograffeg addysg bellach a darpariaeth chweched dosbarth;
 - £5.39m i ariannu Cyfrifon Dysgu Personol;
 - trosglwyddiad o £7.0m i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Grantiau Cymorth i Fyfrwyr;
 - trosglwyddiad o £0.845m o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol, sef y gyfran o'r £8m o gyllid Anghenion Dysgu Ychwanegol i sefydliadau addysg bellach.

Cam Gweithredu Addysg Uwch

| Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 Mai 2020 £000 | Ail Gyllideb Atodol 2020-21 Hydref 2020 £000 | Llinell Sylfaen 2020-21 £000 | Newidiadau 2021-22 £000 | Cyllideb Ddrafft 2021-22 Cynlluniau Newydd £000 |
|--|--|---------------------------------|----------------------------|---|
| 161,947 | 193,477 | 176,878 | 25,025 | 201,903 |

- **Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer gwariant rhaglenni CCAUC** – Mae'r gyllideb hon yn cynnwys Cymorth Grant er mwyn i CCAUC gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru fel y'u nodwyd yn y Llythyr Cylch Gwaith Blynyddol. Mae'r blaenoriaethau presennol yn parhau i ganolbwyntio ar y canlynol: ehangu mynediad; ehangu a gwella darpariaeth ran-amser ac ymchwil i ansawdd; hyrwyddo mwy o gydweithio rhwng addysg uwch ac addysg bellach ac ymrwymiad i gynllunio darpariaeth addysg uwch ar sail ranbarthol; cyflwyno gradd-brentisiaethau yng Nghymru; cyfrannu at addysg a datblygiad proffesiynol athrawon drwy ymgysylltu agos rhwng prifysgolion ac

ysgolion; tyfu cenhadaeth ddinesig addysg uwch yng Nghymru; mynd i'r afael ag anghydraddoldeb cyflog a helpu i gyflwyno arferion gwaith teg ehangach Llywodraeth Cymru; rheoleiddio addysgu uwch, gan wella profiad myfyrwyr a chanlyniadau myfyrwyr; llesiant, gan gynnwys gweithio gyda phartneriaid ar fynd i'r afael â ffactorau sy'n amharu ar iechyd meddwl; a chyfrannu at ymdrechion Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a dadgarboneiddio ein heconomi. Bydd CCAUC hefyd yn ymgymryd â gwaith i helpu i roi ail gam Diamond ar waith a helpu i fwrw ymlaen â'n cynigion i sefydlu Comisiwn ar gyfer Addysg Drydyddol ac Ymchwil, er enghraifft, drwy ddatblygu cysylltiadau cryfach â'r sector AHO ehangach.

- Mae'r gyllideb ar gyfer Cam Gweithredu Addysg Uwch wedi cynyddu £25.025m yn 2021-22 o gymharu â llinell sylfaen 2021-22. Ceir cynnydd o £25m o ganlyniad i drosglwyddo cyllidebau o fewn y MEG o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Grantiau Cymorth i Fyfywyr, er mwyn parhau i roi ymateb Llywodraeth Cymru i Adolygiad Diamond ar waith. Mae'r newidiadau i'r rheoliadau ynglŷn â chymorth i fyfyrwyr yn derfynol bellach ac mae'r cam gweithredu olaf yn parhau drwy drosglwyddo adnoddau o'r grant ffioedd dysgu i CCAUC – mae hyn yn dechrau cyflwyno'r elfennau olaf o'r ymateb wrth iddynt gael eu rhoi ar waith yn raddol dros gyfnod o dair blynedd. Trosglwyddwyd swm ychwanegol o £0.025m i mewn o'r llinell wariant ar gyfer y Grant Cymorth i Fyfywyr ar gyfer Blaenoriaeth Ôl-raddedig a'r Bwrsari i Bobl dros 60 oed.
- **Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer cyfalaf CCAUC (Dibrisiant)** – mae'r gyllideb o £0.090m wedi parhau ar lefelau 2020-21.

Cam Gweithredu Safonau Addysg

| Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 Mai 2020 £000 | Ail Gyllideb Atodol 2020-21 Hydref 2020 £000 | Llinell Sylfaen 2020-21 £000 | Newidiadau 2021-22 £000 | Cyllideb Ddrafft 2021-22 Cynlluniau Newydd £000 |
|---|---|---|------------------------------------|--|
| 153,285 | 170,125 | 160,853 | 12,339 | 173,192 |

- **Llinell Wariant yn y Gyllideb ar y Grant Gwella Ysgolion** – Mae'r llinell wariant hon yn cynnwys maint dosbarthiadau babanod, y Grant Gwella Addysg a chyllid grant ar gyfer dysgwyr o gefndiroedd Lleiafrifoedd Ethnig a Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Mae'r llinell wariant hon wedi cynyddu £12.029m yn 2021-22 o ganlyniad i'r canlynol:
 - Dyranid COVID-19 o £12.029m o'r Cronfeydd Wrth Gefn ar gyfer cyllid dal i fyny i ysgolion ar gyfer gweddill y flwyddyn academaidd 2020/21 (gweler paragraff 1.6.16 o'r papur tystiolaeth);
 - £1m o'r Cronfeydd Wrth Gefn i roi cymorth ychwanegol ar gyfer dysgwyr o gefndiroedd Lleiafrifoedd Ethnig a Sipsiwn, Roma a Theithwyr (gweler adran 2.7 o'r papur tystiolaeth);
 - Trosglwyddiad o £1m o fewn y MEG i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer y Cwricwlwm ac Asesu er mwyn helpu i gysoni cyfraddau cyllido ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a'r Cynnig Gofal Plant (gweler 2.14 o'r papur tystiolaeth). Nid yw'r trosglwyddiad yn golygu toriad mewn cyllid ar

gyfer y llinell wariant hon, ac mae'n adlewyrchu'r cyllid a neilltuwyd i barhau â'r grant ar gyfer maint dosbarthiadau babanod yn 2021-22.

- **Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Gwella Safonau mewn Ysgolion** – Mae'r gyllideb hon yn cefnogi'r swm ychwanegol o £100m a neilltuwyd dros dymor y Senedd hon i wella safonau mewn ysgolion. Nid oes unrhyw newidiadau i'r gyllideb hon a dyrennir £25.5m yn 2021-22 i barhau â'n hymrwymiad i wella safonau a lleihau anghydraddoldebau mewn addysg.
- **Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Cefnogi Safonau Ysgolion** – Mae'r gyllideb hon yn ariannu systemau a phrosesau casglu data sy'n rhoi tystiolaeth ar gyfer gweithgarwch llunio polisïau ac sy'n weladwy ac yn broffil uchel. Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng y cyllid a rhoi tystiolaeth o welliannau mewn safonau a'u dangos a mynd i'r afael â'r bwloch cyrhaeddiad. Mae'r cynnydd o £0.31m o ganlyniad i drosglwyddo cyllidebau o fewn MEG i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Tystiolaeth Ymchwil a Rhyngwladol mewn perthynas â throsglwyddo'r cyfrifoldeb am PISA.

Cam Gweithredu'r Grant Datblygu Disgyblion

| Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 Mai 2020 £000 | Ail Gyllideb Atodol 2020-21 Hydref 2020 £000 | Llinell Sylfaen 2020-21 £000 | Newidiadau 2021-22 £000 | Cyllideb Ddrafft 2021-22 Cynlluniau Newydd £000 |
|--|--|---------------------------------|----------------------------|---|
| 108,500 | 108,500 | 111,500 | 2,000 | 113,500 |

- Bu cynnydd cyffredinol o £2m o ganlyniad i drosglwyddiad o'r Cronfeydd Wrth Gefn ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad, a fydd yn cynyddu'r cyllid i fwy na £10m yn 2021-22 (gweler adran 2.3 o'r papur tystiolaeth)

Cam Gweithredu TGCh Systemau Rheoli Gwybodaeth

| Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 Mai 2020 £000 | Ail Gyllideb Atodol 2020-21 Hydref 2020 £000 | Llinell Sylfaen 2020-21 £000 | Newidiadau 2021-22 £000 | Cyllideb Ddrafft 2021-22 Cynlluniau Newydd £000 |
|--|--|---------------------------------|----------------------------|---|
| 4,279 | 4,279 | 4,429 | - | 4,429 |

- Mae'r Cam Gweithredu hwn yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm drwy roi mynediad at amrywiaeth o adnoddau addysgu digidol o ansawdd uchel, gan gynnwys: Hwb; cymorth i wneud ceisiadau i AGC; a systemau rheoli data mewnol. Bydd y gyllideb hon yn parhau ar gyfer 2021-22.

Cam Gweithredu Llesiant Plant a Phobl Ifanc

| Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 Mai 2020 | Ail Gyllideb Atodol 2020-21 Hydref 2020 | Llinell Sylfaen 2020-21 £000 | Newidiadau 2021-22 £000 | Cyllideb Ddrafft 2021-22 Cynlluniau |
|--|--|---------------------------------|----------------------------|--|
|--|--|---------------------------------|----------------------------|--|

| £000 | £000 | | | Newydd £000 |
|--------|--------|--------|-----|----------------|
| 34,332 | 34,332 | 35,332 | 305 | 35,637 |

- Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol** – Mae'n cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Rhaglen Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), a rhoi'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) ar waith. Ceir cyllideb o £9.691m ar gyfer 2021-22, sy'n cynnwys y swm o £8m a ddyrannwyd yng nghyllideb y flwyddyn diwethaf, wedi'i wrthbwyso gan drosglwyddiad o £0.845m i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Darpariaeth Addysg Bellach, sef y ganran o'r £8m o gyllid ADY i sefydliadau addysg bellach.
- Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer bwyd a maeth mewn ysgolion** – Rydym wedi parhau i ddiogelu cyllid o fewn y Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Bwyd a Maeth mewn Ysgolion ar gyfer y Cynllun Llaeth mewn Ysgolion yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 ar gyfradd gymorthdaledig. Bu dau drosglwyddiad sy'n netio i £1.150m, sef:

 - £2.150m i ehangu'r rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol;
 - trosglwyddiad o £1m rhwng Prif Grwpiau Gwariant i gyllidebau gofal plant o fewn MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer llwgu yn ystod y gwyliau, er mwyn cywiro'r trosglwyddiad yng Nghyllideb Ddrafft 2020-21.
- Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer lleoliadau arbenigol ôl-16** – Mae'r gyllideb yn rhoi cyllid ar gyfer lleoliadau coleg arbenigol i ddysgwyr hyd at 25 oed y mae angen darpariaeth arbenigol arnynt i ddilyn cyrsiau addysg bellach sy'n addas i ddiwallu eu hanghenion. Mae'r cyllid yn statudol ac yn seiliedig ar alw. Bydd y gyllideb yn parhau ar lefel o £13.881m ar gyfer 2021-22 ar ôl cynnydd o £1.4m y flwyddyn diwethaf.
- Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer y Dull Ysgol Gyfan o Ymdrin â Llesiant** – Mae'r llinell wariant hon yn darparu cyllid i gefnogi'r dull ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a bydd yn parhau ar lefel o £2m ar gyfer 2021-22. Dyrennir swm ychwanegol o £4m i gefnogi'r dull ysgol gyfan o MEG Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg yn 2021-22 (ceir rhagor o fanylion yn adran 2.6 o'r papur tystiolaeth).
- Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Grwpiau sy'n Agored i Niwed** – Mae'r llinell wariant hon yn cynnwys swm ychwanegol o £0.9m i ymgymryd â gwaith archwiliol ar ddull integredig o gefnogi plant sy'n derbyn gofal mewn addysg. Fel rhan o'r gwaith hwn, cawsom adroddiad ar ymarfer cwmpasu i archwilio modelau integredig, Ysgolion Rhithwir, a dulliau system gyfan ymhellach, fel sail i ddull gweithredu i Gymru. O ganlyniad i'r adroddiad hwn, rydym hefyd wedi comisiynu ymchwil bellach gyda'r nod o gyflwyno dull gweithredu i Gymru yn y flwyddyn ariannol nesaf. Bydd y gyllideb yn parhau ar lefel o £1.150m ar gyfer 2021-22.

Cam Gweithredu Cymorth i Ddysgwyr ôl-16

| Cyllideb Atodol | Ail Gyllideb | Llinell Sylfaen | Newidiadau | Cyllideb Ddrafft |
|-----------------|--------------|-----------------|------------|------------------|
|-----------------|--------------|-----------------|------------|------------------|

| Gyntaf 2020-21 Mai 2020 £000 | Atodol 2020-21 Hydref 2020 £000 | 2020-21 £000 | 2021-22 £000 | 2021-22 Cynlluniau Newydd £000 |
|------------------------------------|---------------------------------------|-----------------|-----------------|---|
| 512,611 | 512,611 | 518,231 | (28,162) | 490,069 |

- Bu gostyngiad o £28.162m yn y Cam Gweithredu ar ôl trosglwyddo cyllidebau o fewn y MEG o'r llinell wariant ar gyfer Grantiau Cymorth i Fyfyrrwyr i'r llinell wariant ar gyfer Gwariant Rhaglenni CCAUC a'r llinell wariant ar gyfer Darpariaeth Addysg Bellach. Mae'r trosglwyddiad hwn yn cefnogi'r gwaith o barhau i roi ymateb Llywodraeth Cymru i Adolygiad Diamond ar waith. Mae'r newidiadau i'r rheoliadau ynglŷn â chymorth i fyfyrwyr yn derfynol bellach ac mae'r cam gweithredu olaf yn parhau drwy drosglwyddo adnoddau o'r grant ffioedd dysgu i CCAUC – mae hyn yn dechrau cyflwyno'r elfennau olaf o'r ymateb wrth iddynt gael eu rhoi ar waith yn raddol dros gyfnod o dair blynedd.
- **Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Grantiau Cymorth i Fyfyrrwyr** – Mae'r gyllideb hon yn cynnwys cyfrifon rhaglen cymorth i fyfyrwyr statudol sy'n seiliedig ar alw ar gyfer addysg uwch ac addysg bellach. Mae'r gyllideb yn cefnogi Grantiau a Ffioedd Rhan-amser, Grantiau wedi'u Targedu gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr, Grantiau Cymorth i Fyfyrrwyr, y Grant Ffioedd Dysgu a'r Lwfans Cynhaliaeth Addysg. Bydd y llinell wariant yn gostwng o £32.025m:
 - trosglwyddiad o £25m i'r llinell wariant ar gyfer Rhaglenni CCAUC er mwyn parhau â'n buddsoddiad mewn addysg uwch a swm arall o £0.025m i'r llinell wariant hon ar gyfer Blaenoriaeth Ôl-raddedig a'r Bwrsari i Bobl dros 60 oed.
 - trosglwyddiad o £7m i'r llinell wariant ar gyfer Darpariaeth Addysg Bellach wedi'i ddyrannu ar gyfer ein hymrwymiaidau i ddysgu gydol oes.
- **Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer costau gweinyddu'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr/CThEM** – Mae'r gyllideb hon yn darparu'r ffi weinyddu a delir i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr. Yn ogystal â busnes arferol a chostau prosiectau sy'n mynd rhagddynt, caiff y gyllideb hon ei defnyddio i ariannu'r gwaith o roi ymateb Llywodraeth Cymru i Adolygiad Diamod ar waith. Mae'r llinell wariant hefyd yn ariannu: ffi weinyddu CThEM, gweinyddiaeth y cymorth statudol i fyfyrwyr ar gyfer carfanau hanesyddol o fyfyrwyr a pholisïau a gweithredu gan Y Brifysgol Agored. Bydd y gyllideb yn parhau ar lefel o £14.343m ar gyfer 2021-22.
- **Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer darpariaethau cyllideb adnoddau benthyciadau i fyfyrwyr** – Mae'n cynnwys darpariaeth anariannol ar gyfer benthyciadau i fyfyrwyr. Mae cynnydd o £3.863m yn ymwneud â throsglwyddiad o MEG lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer Cynllun Hyfforddi'r Gweithlu AaGIC.
- **Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer dyfarniadau cymorth i fyfyrwyr wedi'u targedu** – Mae cyllideb y Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn yn rhoi cymorth ariannol yn ôl disgrisiwn i fyfyrwyr mewn sefydliadau addysg bellach, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a'r Brifysgol Agored, sy'n wynebu

caledi ariannol, er mwyn eu helpu i gael mynediad at gyrsiau ac aros mewn addysg. Mae'r Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn (Addysg Bellach) yn rhoi cymorth ariannol i'r myfyrwyr cymwys hynny a allai gael eu hatal rhag dilyn cyrsiau addysg bellach oherwydd ystyriaeth ariannol, neu sy'n wynebu caledi ariannol, am ba reswm bynnag, gan gynnwys rheswm corfforol neu anabledd arall. Bydd y gyllideb yn parhau ar lefel o £6.297m ar gyfer 2021-22.

Cam Gweithredu Ennyn Diddordeb Disgyblion

| Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 Mai 2020 £000 | Ail Gyllideb Atodol 2020-21 Hydref 2020 £000 | Llinell Sylfaen 2020-21 £000 | Newidiadau 2021-22 £000 | Cyllideb Ddrafft 2021-22 Cynlluniau Newydd £000 |
|---|---|---|------------------------------------|--|
| 784 | 784 | 2,015 | - | 2,015 |

- Mae'r Cam Gweithredu hwn (y llinell wariant ar gyfer Trechu Dadrithiad) yn cefnogi gweithgareddau sydd wedi'u hanelu at wella canlyniadau dysgwyr sy'n agored i niwed/o dan anfantais drwy'r canlynol: Gwella mesurau gwrthfwlio a phresenoldeb yn yr ysgol; Gŵyl y Gelli (rhaglenni i ysgolion a dysgwyr); Addysg Heblaw yn yr Ysgol, Cwnsela; Addysg yn y cartref; presenoldeb; gwrthfwlio. Yng nghyllideb y flwyddyn diwethaf, cynyddwyd y cyllid i £1.5m er mwyn helpu awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau mewn perthynas ag addysg yn y cartref a bodloni disgwyliadau newydd. Nid oes unrhyw newidiadau i'r gyllideb hon ar gyfer 2021-22.

Cam Gweithredu Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuencid

| Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 Mai 2020 £000 | Ail Gyllideb Atodol 2020-21 Hydref 2020 £000 | Llinell Sylfaen 2020-21 £000 | Newidiadau 2021-22 £000 | Cyllideb Ddrafft 2021-22 Cynlluniau Newydd £000 |
|---|---|---|------------------------------------|--|
| 10,654 | 10,654 | 10,654 | - | 10,654 |

- Mae'r Cam Gweithredu hwn yn ariannu nifer o grantiau cymorth i ieuencid er mwyn cefnogi gwasanaethau ieuencid statudol a gwirfoddol yng Nghymru ac ymgymryd â gweithgarwch i gefnogi'r gwaith o barhau i roi'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuencid ar waith (Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuencid). At hynny, mae'r Cam Gweithredu hefyd yn rhoi cyllid i Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi i gefnogi darpariaeth addysg a dysgu a llyfrgelloedd carchardai mewn carchardai yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae cyllid hefyd ar gael ar gyfer prosiectau peilot arloesol sy'n cefnogi'r agenda Dysgu ar gyfer Troseddwyr, a chefnogi'r gwaith o ddysgu sgiliau hanfodol i'r rhai sy'n bwrw eu dedfryd yn y gymuned. Mae rhwymedigaeth statudol ar Lywodraeth Cymru i ddarparu cyllid ar gyfer addysg mewn carchardai i oedolion yng Nghymru. Bydd y cyllid yn parhau ar gyfer 2021-22.

Cam Gweithredu Cymorth Cyflawni

| Cyllideb Atodol | Ail Gyllideb | Llinell Sylfaen | Newidiadau | Cyllideb Ddrafft |
|------------------------|---------------------|------------------------|-------------------|-------------------------|
|------------------------|---------------------|------------------------|-------------------|-------------------------|

| Gyntaf 2020-21 Mai 2020 £000 | Atodol 2020-21 Hydref 2020 £000 | 2020-21 £000 | 2021-22 £000 | 2021-22 Cynlluniau Newydd £000 |
|---|--|-------------------------|-------------------------|---|
| 1,062 | 1,062 | 1,366 | (310) | 1,056 |

- Mae'r Cam Gweithredu hwn yn darparu cyllid ar gyfer marchnata a chyfathrebu, ymchwil a'r Rhaglen Addysg Ryngwladol. Trosglwyddwyd £0.31m i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Cymorth Safonau Ysgolion mewn perthynas â PISA.

Cam Gweithredu Cymraeg mewn Addysg

| Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 Mai 2020 £000 | Ail Gyllideb Atodol 2020-21 Hydref 2020 £000 | Llinell Sylfaen 2020-21 £000 | Newidiadau 2021-22 £000 | Cyllideb Ddrafft 2021-22 Cynlluniau Newydd £000 |
|---|---|---|--|--|
| 12,325 | 12,325 | 12,675 | - | 12,675 |

- Bydd y Cam Gweithredu hwn (Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Cymraeg mewn Addysg) yn parhau yn 2021-22 ac mae'n cefnogi'r gwaith o roi *Cymraeg 2050* ar waith, sy'n cynnwys:
 - cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg;
 - comisiynu adnoddau dysgu ac addysgu;
 - ymchwil, gwerthuso a marchnata mewn perthynas â'r strategaeth;
 - cyllid ar gyfer y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Cam Gweithredu Arloesedd

| Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 Mai 2020 £000 | Ail Gyllideb Atodol 2020-21 Hydref 2020 £000 | Llinell Sylfaen 2020-21 £000 | Newidiadau 2021- 22 £000 | Cyllideb Ddrafft 2021-22 Cynlluniau Newydd £000 |
|---|---|---|---|--|
| 500 | 500 | 604 | - | 604 |

- Mae'r llinell wariant hon ar gyfer Arloesi Busnes yn cefnogi'r gwaith o sicrhau bod arloesi yn gallu cael yr effaith fesuradwy fwyaf bosibl ar economi Cymru drwy roi cymorth i fusnesau, y byd academiaidd a mentrau cydweithredol. Ni chynigir unrhyw newidiadau ar gyfer 2021-22.

Cam Gweithredu Gwyddoniaeth

| Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 Mai 2020 £000 | Ail Gyllideb Atodol 2020-21 Hydref 2020 £000 | Llinell Sylfaen 2020-21 £000 | Newidiadau 2021- 22 £000 | Cyllideb Ddrafft 2021-22 Cynlluniau Newydd £000 |
|---|---|---|---|--|
| 3,200 | 3,200 | 3,550 | - | 3,550 |

- **Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Gwyddoniaeth** – Diben y llinell wariant hon yw darparu cyllid ar gyfer hyrwyddo, cyflawni a chynghori i gefnogi gallu ymchwil a rhagoriaeth; comisiynu a dadansoddi tystiolaeth; annog cyfleoedd i fasnacheiddio gweithgarwch ymchwil ar raddfa fawr; gwella lefelau sgiliau gwyddonol a thechnegol a chefnogi cenedlaethau'r dyfodol drwy weithgarwch ymgysylltu ym maes STEM.
- **Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer y Gwyddorau Bywyd** – Nod y gyllideb hon yw sicrhau mai Cymru yw'r amgylchedd gorau posibl ar gyfer arloesi yn y Gwyddorau Bywyd a thwf busnesau. Bydd llwyddiant yn seiliedig ar fwy o gyflogaeth yn y sector ac olrhain y buddiannau iechyd ac economaidd ehangach i Gymru.

Cam Gweithredu Cyfalaf - Ystadau a Darpariaeth TG

| Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 Mai 2020 £000 | Ail Gyllideb Atodol 2020-21 Hydref 2020 £000 | Llinell Sylfaen 2020-21 £000 | 2021-22 Newidiadau £000 | Cyllideb Ddrafft 2021-22 Cynlluniau Newydd £000 |
|---|---|-------------------------------------|--------------------------------|--|
| 207,775 | 207,775 | 199,750 | 41,968 | 241,718 |

- Mae'r gyllideb hon yn cefnogi'r Rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21^{ain} Ganrif sy'n fuddsoddiad strategol yn ein seilwaith addysg yng Nghymru. Caiff y gyllideb ei defnyddio hefyd i gefnogi unrhyw ofynion ar gyfer cyllid cyfalaf i gyflawni ein blaenoriaethau addysg, ac mae hefyd yn cynnwys cyllid cyfalaf ar gyfer y cynnig Gofal Plant a Dechrau'n Deg.
- Dyrannwyd swm ychwanegol o £41.968m (net) o'r Cronfeydd Wrth Gefn:
 - £35m ar gyfer dyraniad cyfalaf cyffredinol ar gyfer Band B Ysgolion ar gyfer yr 21^{ain} Ganrif;
 - dyraniad o £5m ar gyfer cynllun peilot Ysgolion Carbon Sero Net;
 - Dyraniad Cyfalaf Trafodion Ariannol o £0.71m ar gyfer ail ran y cyfleuster cyfalaf gweithio y mae'n ofynnol gan WEPCo iddo gael ei ddyrannu i DBW Investment MIMs Limited, mewn perthynas â chyflawni Model Buddsoddi Cydfuddiannol;
 - Dyraniad Cyfalaf Trafodion Ariannol o £1.9m y disgwylir iddo gael ei fuddsoddi gan DBW Investment MIMs Limited fel dyled israddedig yn y prosiect cyntaf o dan Fodel Buddsoddi Cydfuddiannol;
 - Gostyngiad o £0.2m ar gyfer ad-daliadau Cyfalaf Trafodion Ariannol – Coleg y Cymoedd;
 - Gostyngiad o £0.442m ar gyfer ad-daliadau Cyfalaf Trafodion Ariannol – Coleg Pen-y-bont ar Ogwr.

Cam Gweithredu Cyfalaf – Arloesi

| Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 Mai 2020 £000 | Ail Gyllideb Atodol 2020-21 Hydref 2020 £000 | Llinell Sylfaen 2020-21 £000 | Newidiadau 2021-22 £000 | Cyllideb Ddrafft 2021-22 Cynlluniau Newydd £000 |
|---|---|-------------------------------------|--------------------------------|--|
| | | | | |

| | | | | |
|-------|-------|-------|---|-------|
| 4,066 | 3,456 | 4,066 | - | 4,066 |
|-------|-------|-------|---|-------|

- Mae'r Cam Gweithredu hwn yn cefnogi'r gwaith o sicrhau bod arloesi yn gallu cael yr effaith fesuradwy fwyaf bosibl ar economi Cymru drwy roi cymorth i fusnesau, y byd academiaidd a mentrau cydweithredol. Ni chynigir unrhyw newidiadau ar gyfer 2021-22.

Cam Gweithredu Cyfalaf – Gwyddoniaeth

| Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 Mai 2020 £000 | Ail Gyllideb Atodol 2020-21 Hydref 2020 £000 | Llinell Sylfaen 2020-21 £000 | Newidiadau 2021-22 £000 | Cyllideb Ddrafft 2021-22 Cynlluniau Newydd £000 |
|--|--|---------------------------------|----------------------------|---|
| 5,675 | 4,824 | 5,675 | - | 5,675 |

- Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Gwyddoniaeth** – Mae'r llinell wariant hon yn darparu cyllid ar gyfer hyrwyddo, cyflawni a chynghori i gefnogi gallu ymchwil a rhagoriaeth; comisiynu a dadansoddi tystiolaeth; annog cyfleoedd i fasnacheiddio gweithgarwch ymchwil ar raddfa fwy; gwella lefelau sgiliau gwyddonol a thechnegol a chefnogi cenedlaethau'r dyfodol drwy weithgarwch ymgysylltu ym maes STEM.
- Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer y Gwyddorau Bywyd** – Nod y gyllideb hon yw sicrhau mai Cymru yw'r amgylchedd gorau posibl ar gyfer arloesi yn y Gwyddorau Bywyd a thwf busnesau. Bydd llwyddiant yn seiliedig ar fwy o gyflogaeth yn y sector ac olrhain y buddiannau iechyd ac economaidd ehangach i Gymru.

Cam Gweithredu Cyfalaf – Addysg ôl-16

| Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 Mai 2020 £000 | Ail Gyllideb Atodol 2020-21 Hydref 2020 £000 | Llinell Sylfaen 2020-21 £000 | Newidiadau 2021-22 £000 | Cyllideb Ddrafft 2021-22 Cynlluniau Newydd £000 |
|--|--|---------------------------------|----------------------------|---|
| - | 3,200 | - | - | - |

- Bu dyraniad COVID-19 o £3.2m o'r Cronfeydd Wrth Gefn yn 2020-21 i estyn y cynnig digidol sydd eisoes ar gael i ddysgwyr ysgol, i ddysgwyr sy'n cael eu haddysg mewn lleoliadau addysgol eraill, gan gynnwys colegau addysg bellach a dysgu oedolion. Mae dysgwyr wedi cael cynnig cymorth gyda chyfarpar digidol er mwyn sicrhau eu bod yn gallu manteisio i'r eithaf ar yr arlwy ar-lein sydd bellach ar gael yn eang yn y sector addysg. Nid oes unrhyw ddyraniadau ar hyn o bryd ar gyfer 2021-22.

ATODIAD B – MEG Addysg yn ôl Cam Gweithredu a Llinell Wariant ar gyfer 2021-22, yr alldro a ragwelir ar gyfer 2020-21 a'r alldroeon terfynol ar gyfer 2019-20

| Cam Gweithredu | Disgrifiad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb | Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 Mai 2020 | Ail Gyllideb Atodol 2020-21 Hydref 2020 | Rhagolwg 2020-21 (Cyfnod 8) | Llinell Sylfaen 2020-21 | Newid | Cyllideb Ddrafft 2021-22 Cynlluniau Newydd |
|---|--|---|---|-----------------------------|-------------------------|---------------|--|
| Llythrennedd a Rhifedd | Llythrennedd a Rhifedd | 6,356 | 6,356 | 4,094 | 4,456 | -285 | 4,171 |
| Cyfanswm Llythrennedd a Rhifedd | | 6,356 | 6,356 | 4,094 | 4,456 | -285 | 4,171 |
| Cwricwlwm | Cwricwlwm ac Asesu | 3,955 | 3,955 | 4,961 | 6,782 | 1,000 | 7,782 |
| | Adolygiad o'r Cwricwlwm | 5,950 | 5,950 | 5,551 | 6,150 | 7,900 | 14,050 |
| | Y Cyfnod Sylfaen | 148 | 148 | 158 | 148 | 0 | 148 |
| Cyfanswm ar gyfer y Cwricwlwm | | 10,053 | 10,053 | 10,670 | 13,080 | 8,900 | 21,980 |
| Addysgu ac Arweinyddiaeth | Datblygu a Chefnogi Athrawon | 31,895 | 31,895 | 41,216 | 38,914 | 0 | 38,914 |
| Cyfanswm Addysgu ac Arweinyddiaeth | | 31,895 | 31,895 | 41,216 | 38,914 | 0 | 38,914 |
| Cymwysterau | Cymwysterau Cymru | 9,463 | 9,463 | 8,846 | 9,463 | 404 | 9,867 |
| Cyfanswm Cymwysterau | | 9,463 | 9,463 | 8,846 | 9,463 | 404 | 9,867 |
| Addysg ôl-16 | Darpariaeth Addysg Bellach | 459,377 | 487,711 | 510,259 | 460,326 | 39,980 | 500,306 |
| Cyfanswm Addysg ôl-16 | | 459,377 | 487,711 | 510,259 | 460,326 | 39,980 | 500,306 |
| Addysg Uwch | Gwariant Rhaglenni CCAUC | 161,857 | 193,357 | 207,458 | 176,788 | 25,025 | 201,813 |
| | Cyfalaf CCAUC | 90 | 90 | 90 | 90 | 0 | 90 |
| Cyfanswm Addysg Uwch | | 161,947 | 193,447 | 207,548 | 176,878 | 25,025 | 201,903 |
| Safonau Addysg | Grant Gwella Ysgolion | 129,959 | 146,799 | 148,657 | 134,159 | 12,029 | 146,188 |
| | Gwella Safonau mewn Ysgolion | 22,332 | 22,332 | 22,934 | 25,500 | 0 | 25,500 |
| | Cymorth Safonau Ysgolion | 994 | 994 | 916 | 1,194 | 310 | 1,504 |
| Cyfanswm ar gyfer Safonau Addysg | | 153,285 | 170,125 | 172,507 | 160,853 | 12,339 | 173,192 |
| Grant Datblygu Disgyblion | Grant Datblygu Disgyblion | 108,500 | 108,500 | 113,397 | 111,500 | 2,000 | 113,500 |
| Cyfanswm y Grant Datblygu Disgyblion | | 108,500 | 108,500 | 113,397 | 111,500 | 2,000 | 113,500 |
| TGCh a Systemau Rheoli Gwybodaeth | Cefnogi Dysgu Digidol mewn Addysg | 4,279 | 4,279 | 4,389 | 4,429 | 0 | 4,429 |
| Cyfanswm TGCh a Systemau Rheoli Gwybodaeth | | 4,279 | 4,279 | 4,389 | 4,429 | 0 | 4,429 |
| Llesiant plant a phobl ifanc | Anghenion Dysgu Ychwanegol | 10,536 | 10,536 | 9,691 | 10,536 | -845 | 9,691 |

| Cam Gweithredu | Disgrifiad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb | Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 Mai 2020 | Ail Gyllideb Atodol 2020-21 Hydref 2020 | Rhagolwg 2020-21 (Cyfnod 8) | Llinell Sylfaen 2020-21 | Newid | Cyllideb Ddrafft 2021-22 Cynlluniau Newydd |
|---|---|---|---|-----------------------------|-------------------------|----------------|--|
| | Bwyd a Maeth mewn Ysgolion | 6,765 | 6,765 | 4,990 | 7,765 | 1,150 | 8,915 |
| | Lleoliadau Arbenigol ôl-16 | 13,881 | 13,881 | 14,198 | 13,881 | 0 | 13,881 |
| | Dull Ysgol Gyfan o Ymdrin â Llesiant | 2,000 | 2,000 | 2,000 | 2,000 | 0 | 2,000 |
| | Grwpiau sy'n agored i niwed | 1,150 | 1,150 | 546 | 1,150 | 0 | 1,150 |
| Cyfanswm Llesiant Plant a Phobl Ifanc | | 34,332 | 34,332 | 31,425 | 35,332 | 305 | 35,637 |
| Cymorth i Ddysgwyr ôl-16 | Grantiau Cymorth i Fyfyrrwyr | 390,742 | 390,742 | 383,428 | 390,742 | -32,025 | 358,717 |
| | Costau Gweinyddu'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr/CThEM | 8,723 | 8,723 | 20,124 | 14,343 | 0 | 14,343 |
| | Darpariaeth Cyllideb Adnodd Benthyciadau i Fyfyrrwyr | 106,849 | 106,849 | 360,640 | 106,849 | 3,863 | 110,712 |
| | Dyfarniadau Cymorth i Fyfyrrwyr Wedi'u Targedu | 6,297 | 6,297 | 6,699 | 6,297 | 0 | 6,297 |
| | Rhaglen Trawsnewid Digidol | 0 | 0 | 1,110 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfanswm y Cymorth i Ddysgwyr ôl-16 | | 512,611 | 512,611 | 772,001 | 518,231 | -28,162 | 490,069 |
| Ennyn Diddordeb Disgyblion | Trechu Dadrithiad | 784 | 784 | 779 | 2,015 | 0 | 2,015 |
| Cyfanswm ar gyfer Ennyn Diddordeb Disgyblion | | 784 | 784 | 779 | 2,015 | 0 | 2,015 |
| Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuencid | Dysgu ar gyfer Troseddwyr | 3,328 | 3,328 | 6,628 | 3,328 | 0 | 3,328 |
| | Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuencid | 7,326 | 7,326 | 11,443 | 7,326 | 0 | 7,326 |
| Cyfanswm Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuencid | | 10,654 | 10,654 | 18,071 | 10,654 | 0 | 10,654 |
| Cymorth Cyflawni | Cyfathrebu ym maes Addysg | 294 | 294 | 594 | 482 | 0 | 482 |
| | Tystiolaeth Ymchwil a Rhyngwladol | 768 | 768 | 768 | 884 | -310 | 574 |
| Cyfanswm Cymorth Cyflawni | | 1,062 | 1,062 | 1,362 | 1,366 | -310 | 1,056 |
| Cymraeg mewn Addysg | Cymraeg mewn Addysg | 12,325 | 12,325 | 12,325 | 12,675 | 0 | 12,675 |
| Cyfanswm Cymraeg mewn Addysg | | 12,325 | 12,325 | 12,325 | 12,675 | 0 | 12,675 |
| Arloesi | Arloesi Busnes | 500 | 500 | 500 | 604 | 0 | 604 |
| Cyfanswm Arloesi | | 500 | 500 | 500 | 604 | 0 | 604 |
| Gwyddoniaeth | Gwyddoniaeth | 1,000 | 1,000 | 999 | 1,350 | 0 | 1,350 |
| | Gwyddorau Bywyd | 2,200 | 2,200 | 1,600 | 2,200 | 0 | 2,200 |
| Cyfanswm Gwyddoniaeth | | 3,200 | 3,200 | 2,599 | 3,550 | 0 | 3,550 |

| Cam Gweithredu | Disgrifiad o'r Llinell Wariant yn y Gyllideb | Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 Mai 2020 | Ail Gyllideb Atodol 2020-21 Hydref 2020 | Rhagolwg 2020-21 (Cyfnod 8) | Llinell Sylfaen 2020-21 | Newid | Cyllideb Ddrafft 2021-22 Cynlluniau Newydd |
|--|--|---|---|-----------------------------|-------------------------|---------------|--|
| ADDYSG – CYFANSWM Y GYLLIDEB ADNODDAU | | 1,520,623 | 1,597,297 | 1,911,988 | 1,564,326 | 60,196 | 1,624,522 |

| CYLLIDEB GYFALAF | | | | | | | |
|---|--|---|---|-----------------------------|-------------------------|---------------|--|
| 6 | Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu | Ymarferwyr TG Lefel 1 | Lefel 1 | 4,520 |
| 6 | Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu | Ymarferwyr TG Lefel 2 | Lefel 2 | 4,211 |
| 6 | Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu | Ymarferwyr TG Lefel 3 | Lefel 3 | 4,211 |
| 6 | Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu | Mynediad at Addysg Uwch Cyfrifiadureg Gymhwysol | Lefel AA | 3,324 |
| 6 | Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu | Rhaglen TG Uwch Lefel 2 | Lefel 2 | 8,199 |
| 6 | Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu | Rhaglen TG Uwch Lefel 3 | Lefel 3 | 8,199 |
| 6 | Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu | Defnyddwyr TG Lefel 1 | Lefel 1 | 4,535 |
| 6 | Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu | Defnyddwyr TG Lefel 2 | Lefel 2 | 4,229 |
| 6 | Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu | Defnyddwyr TG Lefel 3 | Lefel 3 | 4,229 |
| 6 | Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu | Technoleg Gwybodaeth Lefel E | Lefel E0 | 4,535 |
| 7 | Manwerthu a busnes masnachol | Manwerthu Lefel 1 | Lefel 1 | 4,409 |
| 7 | Manwerthu a busnes masnachol | Manwerthu Lefel 2 | Lefel 2 | 4,079 |
| 7 | Manwerthu a busnes masnachol | Manwerthu Lefel 3 | Lefel 3 | 4,079 |

| Maes Sector Pwnc | Teitl Maes Sector Pwnc | Teit y Rhaglen | Lefel | Gwerth y rhaglen 2020/21 |
|------------------|------------------------------|---|-----------|--------------------------|
| 7 | Manwerthu a busnes masnachol | Manwerthu Lefel E | Lefel E0 | 4,409 |
| 7 | Manwerthu a busnes masnachol | Gwallt a Harddwch Lefel 1 | Lefel 1 | 4,528 |
| 7 | Manwerthu a busnes masnachol | Gwallt a Harddwch Dysgu Carlam Lefel 1-2 | Lefel 1-2 | 5,680 |
| 7 | Manwerthu a busnes masnachol | Gwallt a Harddwch Lefel 2 | Lefel 2 | 4,220 |
| 7 | Manwerthu a busnes masnachol | Gwallt a Harddwch Lefel 3 | Lefel 3 | 4,220 |
| 7 | Manwerthu a busnes masnachol | Gwallt a Harddwch Lefel E | Lefel E0 | 4,528 |
| 7 | Manwerthu a busnes masnachol | Trin Gwallt Lefel 1 | Lefel 1 | 4,528 |
| 7 | Manwerthu a busnes masnachol | Trin Gwallt Dysgu Carlam Lefel 1-2 | Lefel 1-2 | 5,491 |
| 7 | Manwerthu a busnes masnachol | Trin Gwallt Lefel 2 | Lefel 2 | 4,220 |
| 7 | Manwerthu a busnes masnachol | Trin Gwallt Dysgu Carlam Lefel 2-3 | Lefel 2-3 | 5,099 |
| 7 | Manwerthu a busnes masnachol | Trin Gwallt Lefel 3 | Lefel 3 | 4,220 |
| 7 | Manwerthu a busnes masnachol | Therapi Harddwch Lefel 1 | Lefel 1 | 4,528 |
| 7 | Manwerthu a busnes masnachol | Therapi Harddwch Lefel 2 | Lefel 2 | 4,220 |
| 7 | Manwerthu a busnes masnachol | Therapi Harddwch Lefel 3 | Lefel 3 | 4,220 |
| 7 | Manwerthu a busnes masnachol | Therapi Harddwch Dysgu Carlam Lefel 1-2 | Lefel 1-2 | 5,680 |
| 7 | Manwerthu a busnes masnachol | Technoleg Ewinedd Lefel 2 | Lefel 2 | 4,220 |
| 7 | Manwerthu a busnes masnachol | Technoleg Ewinedd Lefel 3 | Lefel 3 | 4,220 |
| 7 | Manwerthu a busnes masnachol | Effeithiau Arbennig Theatraidd Lefel 2 | Lefel 2 | 4,220 |
| 7 | Manwerthu a busnes masnachol | Effeithiau Arbennig Theatraidd Lefel 3 | Lefel 3 | 4,220 |
| 7 | Manwerthu a busnes masnachol | Therapi Sba Lefel 3 | Lefel 3 | 4,220 |
| 7 | Manwerthu a busnes masnachol | Coginio Proffesiynol Lefel 1 | Lefel 1 | 4,868 |
| 7 | Manwerthu a busnes masnachol | Coginio Proffesiynol Dysgu Carlam Lefel 1-2 | Lefel 1-2 | 5,551 |
| 7 | Manwerthu a busnes masnachol | Coginio Proffesiynol Lefel 2 | Lefel 2 | 4,623 |

| Maes Sector Pwnc | Teitl Maes Sector Pwnc | Teit y Rhaglen | Lefel | Gwerth y rhaglen 2020/21 |
|------------------|--|---|-----------|--------------------------|
| 7 | Manwerthu a busnes masnachol | Coginio Proffesiynol Lefel 3 | Lefel 3 | 4,623 |
| 7 | Manwerthu a busnes masnachol | Coginio Proffesiynol Lefel 4 | Lefel 4 | 3,651 |
| 7 | Manwerthu a busnes masnachol | Arlwyo Lefel Mynediad | Lefel E0 | 4,868 |
| 7 | Manwerthu a busnes masnachol | Lletygarwch ac Arlwyo Lefel 1 | Lefel 1 | 4,868 |
| 7 | Manwerthu a busnes masnachol | Lletygarwch ac Arlwyo Lefel 2 | Lefel 2 | 4,623 |
| 7 | Manwerthu a busnes masnachol | Lletygarwch ac Arlwyo Lefel 3 | Lefel 3 | 4,623 |
| 7 | Manwerthu a busnes masnachol | Lletygarwch ac Arlwyo Lefel E | Lefel E0 | 4,868 |
| 8 | Hamdden, teithio a thwristiaeth | Chwaraeon a Hamdden Lefel 1 | Lefel 1 | 4,355 |
| 8 | Hamdden, teithio a thwristiaeth | Chwaraeon a Hamdden Dysgu Carlam Lefel 1-2 | Lefel 1-2 | 5,025 |
| 8 | Hamdden, teithio a thwristiaeth | Chwaraeon a Hamdden Lefel 2 | Lefel 2 | 4,015 |
| 8 | Hamdden, teithio a thwristiaeth | Chwaraeon a Hamdden Lefel 3 | Lefel 3 | 4,015 |
| 8 | Hamdden, teithio a thwristiaeth | Chwaraeon a Hamdden Lefel E | Lefel E0 | 4,355 |
| 8 | Hamdden, teithio a thwristiaeth | Teithio a Thwristiaeth Lefel 1 | Lefel 1 | 4,409 |
| 8 | Hamdden, teithio a thwristiaeth | Teithio a Thwristiaeth Dysgu Carlam Lefel 1-2 | Lefel 1-2 | 4,338 |
| 8 | Hamdden, teithio a thwristiaeth | Teithio a Thwristiaeth Lefel 2 | Lefel 2 | 4,079 |
| 8 | Hamdden, teithio a thwristiaeth | Teithio a Thwristiaeth Lefel 3 | Lefel 3 | 4,079 |
| 8 | Hamdden, teithio a thwristiaeth | Mynediad at Addysg Uwch Twristiaeth a Lletygarwch | Lefel AA | 3,232 |
| 9 | Y celfyddydau, y cyfryngau a chyhoeddi | Y Celfyddydau Perfformio Lefel 1 | Lefel 1 | 5,060 |
| 9 | Y celfyddydau, y cyfryngau a chyhoeddi | Y Celfyddydau Perfformio Lefel 2 | Lefel 2 | 4,851 |
| 9 | Y celfyddydau, y cyfryngau a chyhoeddi | Y Celfyddydau Perfformio Lefel 3 | Lefel 3 | 4,851 |
| 9 | Y celfyddydau, y cyfryngau a chyhoeddi | Y Celfyddydau Perfformio Lefel 4 | Lefel 4 | 5,041 |
| 9 | Y celfyddydau, y cyfryngau a chyhoeddi | Y Celfyddydau Perfformio Lefel E | Lefel E0 | 5,060 |
| 9 | Y celfyddydau, y cyfryngau a chyhoeddi | Cerddoriaeth a Thechnoleg Cerddoriaeth Lefel 2 | Lefel 2 | 4,851 |

| Maes Sector Pwnc | Teitl Maes Sector Pwnc | Teit y Rhaglen | Lefel | Gwerth y rhaglen 2020/21 |
|------------------|--|---|-----------|--------------------------|
| 9 | Y celfyddydau, y cyfryngau a chyhoeddi | Cerddoriaeth a Thechnoleg Cerddoriaeth Dysgu Carlam Lefel 2-3 | Lefel 2-3 | 6,031 |
| 9 | Y celfyddydau, y cyfryngau a chyhoeddi | Cerddoriaeth a Thechnoleg Cerddoriaeth Lefel 3 | Lefel 3 | 4,851 |
| 9 | Y celfyddydau, y cyfryngau a chyhoeddi | Celf a Dylunio Lefel 1 | Lefel 1 | 5,152 |
| 9 | Y celfyddydau, y cyfryngau a chyhoeddi | Celf a Dylunio Dysgu Carlam Lefel 1-2 | Lefel 1-2 | 6,005 |
| 9 | Y celfyddydau, y cyfryngau a chyhoeddi | Celf a Dylunio Lefel 2 | Lefel 2 | 4,960 |
| 9 | Y celfyddydau, y cyfryngau a chyhoeddi | Celf a Dylunio Lefel 3 | Lefel 3 | 4,960 |
| 9 | Y celfyddydau, y cyfryngau a chyhoeddi | Celf a Dylunio Lefel E | Lefel E0 | 5,152 |
| 9 | Y celfyddydau, y cyfryngau a chyhoeddi | Astudiaethau Sylfaen mewn Celf Lefel 3 | Lefel 3 | 4,960 |
| 9 | Y celfyddydau, y cyfryngau a chyhoeddi | Y Cyfryngau Lefel 1 | Lefel 1 | 4,950 |
| 9 | Y celfyddydau, y cyfryngau a chyhoeddi | Y Cyfryngau Dysgu Carlam Lefel 1-2 | Lefel 1-2 | 5,400 |
| 9 | Y celfyddydau, y cyfryngau a chyhoeddi | Y Cyfryngau Lefel 2 | Lefel 2 | 4,721 |
| 9 | Y celfyddydau, y cyfryngau a chyhoeddi | Y Cyfryngau Lefel 3 | Lefel 3 | 4,721 |
| 9 | Y celfyddydau, y cyfryngau a chyhoeddi | Y Cyfryngau Lefel 3 gyda Mwy o Ddysgu yn y Gweithle | Lefel 3 | 5,357 |
| 9 | Y celfyddydau, y cyfryngau a chyhoeddi | Y Celfyddydau Cynhyrchu Lefel 2 | Lefel 2 | 4,711 |
| 9 | Y celfyddydau, y cyfryngau a chyhoeddi | Y Celfyddydau Cynhyrchu Lefel 3 | Lefel 3 | 4,721 |
| 11 | Gwyddorau Cymdeithasol | Mynediad at Addysg Uwch y Dyniaethau | Lefel AA | 2,772 |
| 14 | Paratoi ar gyfer bywyd a gwaith | Astudiaethau Sylfaen Lefel 1 | Lefel 1 | 6,184 |
| 14 | Paratoi ar gyfer bywyd a gwaith | Astudiaethau Sylfaen Lefel 2 | Lefel 2 | 6,184 |
| 14 | Paratoi ar gyfer bywyd a gwaith | Dysgu Sylfaen Lefel E1 | Lefel E1 | 6,184 |
| 14 | Paratoi ar gyfer bywyd a gwaith | Dysgu Sylfaen Lefel E2 | Lefel E2 | 6,184 |
| 14 | Paratoi ar gyfer bywyd a gwaith | Dysgu Sylfaen Lefel E3 | Lefel E3 | 6,184 |
| 14 | Paratoi ar gyfer bywyd a gwaith | Sgiliau Byw'n Annibynnol Dwys Lefel E1 | Lefel E1 | 10,277 |
| 14 | Paratoi ar gyfer bywyd a gwaith | Sgiliau Byw'n Annibynnol Dwys Lefel E2 | Lefel E2 | 10,277 |

| Maes Sector Pwnc | Teitl Maes Sector Pwnc | Teit y Rhaglen | Lefel | Gwerth y rhaglen 2020/21 |
|------------------|---------------------------------|---|--------------------|--------------------------|
| 14 | Paratoi ar gyfer bywyd a gwaith | Sgiliau Byw'n Annibynnol Dwys Lefel E3 | Lefel E3 | 10,277 |
| 14 | Paratoi ar gyfer bywyd a gwaith | Sgiliau Byw'n Annibynnol Dwys Cyn Mynediad | Lefel Cyn Mynediad | 10,277 |
| 14 | Paratoi ar gyfer bywyd a gwaith | Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) Lefel 1 | Lefel 1 | 5,170 |
| 14 | Paratoi ar gyfer bywyd a gwaith | Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) Lefel 2 | Lefel 2 | 4,982 |
| 14 | Paratoi ar gyfer bywyd a gwaith | Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) Lefel E1 | Lefel E1 | 5,170 |
| 14 | Paratoi ar gyfer bywyd a gwaith | Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) Lefel E2 | Lefel E2 | 5,170 |
| 14 | Paratoi ar gyfer bywyd a gwaith | Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) Lefel E3 | Lefel E3 | 5,170 |
| 14 | Paratoi ar gyfer bywyd a gwaith | Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) Cyn Mynediad | Lefel Cyn Mynediad | 5,170 |
| 14 | Paratoi ar gyfer bywyd a gwaith | Sgiliau Byw'n Annibynnol Cymedrol Lefel E1 | Lefel E1 | 6,538 |
| 14 | Paratoi ar gyfer bywyd a gwaith | Sgiliau Byw'n Annibynnol Cymedrol Lefel E2 | Lefel E2 | 6,538 |
| 14 | Paratoi ar gyfer bywyd a gwaith | Sgiliau Byw'n Annibynnol Cymedrol Lefel E3 | Lefel E3 | 6,538 |
| 14 | Paratoi ar gyfer bywyd a gwaith | Sgiliau Byw'n Annibynnol Lefel E3 gyda Mwy o Ddysgu yn y Gweithle | Lefel E3 | 8,724 |
| 14 | Paratoi ar gyfer bywyd a gwaith | Sgiliau Byw'n Annibynnol Cymedrol Lefel E3 gydag interniaeth â chymorth | Lefel E3 | 6,599 |
| 14 | Paratoi ar gyfer bywyd a gwaith | Sgiliau Byw'n Annibynnol Lefel Cyn Mynediad | Lefel Cyn Mynediad | 6,538 |
| 14 | Paratoi ar gyfer bywyd a gwaith | Paratoi ar gyfer Gwaith Lefel 1 | Lefel 1 | 6,184 |
| 14 | Paratoi ar gyfer bywyd a gwaith | Paratoi ar gyfer Gwaith Lefel 2 | Lefel 2 | 6,184 |
| 14 | Paratoi ar gyfer bywyd a gwaith | Paratoi ar gyfer Gwaith Lefel E1 | Lefel E1 | 6,184 |
| 14 | Paratoi ar gyfer bywyd a gwaith | Paratoi ar gyfer Gwaith Lefel E2 | Lefel E2 | 6,184 |
| 14 | Paratoi ar gyfer bywyd a gwaith | Paratoi ar gyfer Gwaith Lefel E3 | Lefel E3 | 6,184 |
| 15 | Busnes, gweinyddu a'r gyfraith | Cyfrifeg Lefel 2 | Lefel 2 | 4,070 |
| 15 | Busnes, gweinyddu a'r gyfraith | Cyfrifeg Dysgu Carlam Lefel 2-3 | Lefel 2-3 | 5,259 |
| 15 | Busnes, gweinyddu a'r gyfraith | Cyfrifeg Lefel 3 | Lefel 3 | 4,070 |
| 15 | Busnes, gweinyddu a'r gyfraith | Cyfrifeg Lefel 4 | Lefel 4 | 3,225 |
| 15 | Busnes, gweinyddu a'r gyfraith | Mynediad at Addysg Uwch Ffyrddysgu a'r Arian | Lefel AA | 2,981 |

| Maes Sector Pwnc | Teitl Maes Sector Pwnc | Teit y Rhaglen | Lefel | Gwerth y rhaglen 2020/21 |
|------------------|--------------------------------|---|-----------|--------------------------|
| 15 | Busnes, gweinyddu a'r gyfraith | Gweinyddu Busnes Lefel 1 | Lefel 1 | 4,405 |
| 15 | Busnes, gweinyddu a'r gyfraith | Gweinyddu Busnes Dysgu Carlam Lefel 1-2 | Lefel 1-2 | 5,510 |
| 15 | Busnes, gweinyddu a'r gyfraith | Gweinyddu Busnes Lefel 2 | Lefel 2 | 4,075 |
| 15 | Busnes, gweinyddu a'r gyfraith | Gweinyddu Busnes Dysgu Carlam Lefel 2-3 | Lefel 2-3 | 6,031 |
| 15 | Busnes, gweinyddu a'r gyfraith | Gweinyddu Busnes Lefel 3 | Lefel 3 | 4,075 |
| 15 | Busnes, gweinyddu a'r gyfraith | Gweinyddu Busnes Lefel E | Lefel E0 | 4,405 |
| 15 | Busnes, gweinyddu a'r gyfraith | Ysgrifenyddion Cyfreithiol Lefel 2 | Lefel 2 | 4,075 |
| 15 | Busnes, gweinyddu a'r gyfraith | Ysgrifenyddion Cyfreithiol Lefel 3 | Lefel 3 | 4,075 |
| 15 | Busnes, gweinyddu a'r gyfraith | Gweinyddu Meddygol Lefel 2 | Lefel 2 | 4,075 |
| 15 | Busnes, gweinyddu a'r gyfraith | Gweinyddu Meddygol Lefel 3 | Lefel 3 | 4,075 |
| 15 | Busnes, gweinyddu a'r gyfraith | Gweinyddu Busnes Dysgu Carlam Lefel 1-2 | Lefel 1-2 | 4,978 |
| 15 | Busnes, gweinyddu a'r gyfraith | Astudiaethau Busnes Lefel 2 | Lefel 2 | 4,075 |
| 15 | Busnes, gweinyddu a'r gyfraith | Gweinyddu Busnes Dysgu Carlam Lefel 2-3 | Lefel 2-3 | 5,016 |
| 15 | Busnes, gweinyddu a'r gyfraith | Astudiaethau Busnes Lefel 3 | Lefel 3 | 4,070 |
| 15 | Busnes, gweinyddu a'r gyfraith | Mynediad at Addysg Uwch Astudiaethau Busnes | Lefel AA | 3,225 |
| 15 | Busnes, gweinyddu a'r gyfraith | Y Gyfraith Lefel 3 | Lefel 3 | 3,478 |
| 15 | Busnes, gweinyddu a'r gyfraith | Ymarfer Cyfreithiol Lefel 2 | Lefel 2 | 3,478 |
| 15 | Busnes, gweinyddu a'r gyfraith | Ymarfer Cyfreithiol Lefel 3 | Lefel 3 | 3,478 |
| 98 | Anhysbys | Mynediad at Addysg Bellach Lefel 1 | Lefel 1 | 2,254 |
| 98 | Anhysbys | Mynediad at Addysg Bellach Lefel 2 | Lefel 2 | 2,254 |

ATODIAD J – Grantiau Addysg Uwch

Tabl 1a: Gwariant Gwirioneddol ar grantiau i fyfyrwyr, 2019-20

| | <u>2019-20</u> |
|--|------------------------|
| Israddedigion Amser Llawn | |
| Grant Cynhaliaeth | £196,743,274.47 |
| Grant Ffioedd Dysgu | £127,882,244.65 |
| Lwfansau | £20,295,192.76 |
| Bron yn arian parod | £344,920,711.88 |
| Israddedigion rhan amser ¹ | |
| Grant Cynhaliaeth (Cyn 2018) | £3,830,960.22 |
| Grant Cynhaliaeth (Ar ôl 2018) | £16,688,579.38 |
| Bron yn arian parod | £20,519,539.60 |
| ôlraddedigion | |
| Grant Cyfrannu | £12,309,116.54 |
| Cyfanswm | £12,309,116.54 |
| Addysg Bellach | |
| LCA | £17,149,980.00 |
| Grant Dysgu LIC AB | £4,995,915.00 |
| Cyfanswm | £22,145,895.00 |

¹ Mae'r lwfansau wedi'u cynnwys yn nau gyfanswm y grantiau cynhaliaeth rhan-amser gan nad oes modd eu gwahanu.

Tabl 1b: Gwariant ar grantiau i fyfyrwyr a ragwelir, 2020-21 i 2024-25

| | <i>Rhagolygon o gostau'r flwyddyn ariannol</i> | | | | |
|--|--|----------------|----------------|----------------|----------------|
| Cyffredinol | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 |
| Israddedigion amser llawn | | | | | |
| Grant Cynhaliath | £222.3m | £239.8m | £251.5m | £262.4m | £275.9m |
| Grant Ffioedd Dysgu | £56.8m | £13.4m | £2.0m | £0.0m | £0.0m |
| Lwfansau (Amser llawn) | £21.3m | £22.3m | £23.2m | £24.3m | £25.5m |
| <i>Bron yn arian parod</i> | <i>£300.4m</i> | <i>£275.5m</i> | <i>£276.8m</i> | <i>£286.7m</i> | <i>£301.3m</i> |
| Israddedigion rhan-amser | | | | | |
| Grant Cynhaliath | £23.0m | £26.1m | £29.4m | £32.4m | £34.8m |
| Grant Ffioedd Dysgu | £0.1m | £0.1m | £0.0m | £0.0m | £0.0m |
| Lwfansau (rhan-amser) | £1.8m | £1.8m | £1.9m | £1.9m | £1.9m |
| <i>Bron yn arian parod</i> | <i>£25.0m</i> | <i>£28.0m</i> | <i>£31.3m</i> | <i>£34.3m</i> | <i>£36.8m</i> |
| Graddau Meistr ôlraddedig a ddysgir | | | | | |
| Grant Cyfrannu | £21.2m | £24.1m | £26.1m | £28.0m | £30.1m |
| <i>Bron yn arian parod</i> | <i>£21.2m</i> | <i>£24.1m</i> | <i>£26.1m</i> | <i>£28.0m</i> | <i>£30.1m</i> |
| Addysg Bellach | | | | | |
| LCA | £17.1m | £17.1m | £17.2m | £17.2m | £17.2m |
| Grant Dysgu LIC AB | £4.6m | £4.5m | £4.5m | £4.5m | £4.5m |
| <i>Bron yn arian parod</i> | <i>£21.7m</i> | <i>£21.6m</i> | <i>£21.6m</i> | <i>£21.6m</i> | <i>£21.6m</i> |
| Cyfanswm | | | | | |
| Bron yn arian parod | £368.4m | £349.1m | £355.8m | £370.7m | £389.8m |

Ffynhonnell: Modelu'r Is-adran Addysg Uwch (modelau Tachwedd 2020), Llywodraeth Cymru

Tabl 2: Gwariant ar grantiau i fyfyrwyr a ragwelir, 2020-21 i 2024-5, ar gyfer myfyrwyr o Gymru sy'n astudio yng Nghymru.

| <i>Rhagolygon o gostau'r flwyddyn ariannol</i> | | | | | |
|---|----------------|----------------|----------------|----------------|----------------|
| Myfyrwyr yng Nghymru | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 |
| Israddedigion amser llawn ¹ | | | | | |
| Grant Cynhaliath | £154.0m | £166.5m | £174.9m | £182.5m | £192.0m |
| Grant Ffioedd Dysgu | £35.8m | £8.4m | £1.3m | £0.0m | £0.0m |
| Lwfansau (Amser llawn) | £14.7m | £15.5m | £16.2m | £16.9m | £17.7m |
| <i>Bron yn arian parod</i> | <i>£204.5m</i> | <i>£190.4m</i> | <i>£192.3m</i> | <i>£199.5m</i> | <i>£209.8m</i> |
| Israddedigion rhan-amser ² | | | | | |
| <i>Bron yn arian parod</i> | <i>£23.5m</i> | <i>£26.2m</i> | <i>£29.3m</i> | <i>£32.2m</i> | <i>£34.5m</i> |
| Graddau Meistr ôlraddedig a ddysgir ³ | | | | | |
| <i>Bron yn arian parod</i> | <i>£13m</i> | <i>£14m</i> | <i>£15m</i> | <i>£17m</i> | <i>£18m</i> |
| Addysg Bellach (rhagdybir Cymru gyfan) | | | | | |
| <i>Bron yn arian parod</i> | <i>£22m</i> | <i>£22m</i> | <i>£22m</i> | <i>£22m</i> | <i>£22m</i> |
| Cyfanswm Myfyrwyr yng Nghymru | | | | | |
| Bron yn arian parod | £262m | £252m | £259m | £270m | £284m |

Ffynhonnell: Modelu'r Is-adran Addysg Uwch (modelau Tachwedd 2020), Llywodraeth Cymru

Nodiadau

¹Cyfrifwyd y cyfran trwy rannu'r cyfanswm yn ôl nifer y myfyrwyr sy'n astudio yng Nghymru a'r nifer sy'n astudio manau eraill. Mae'r dull hwn yn goramcangyfrif cyfran Cymru gan nad yw'n rhoi unrhyw ystyriaeth i'r cyfartaleddau is ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio gartref a'r cyfartaleddau uwch ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio oddi cartref yn Llundain. Mae'r dull hwn yn lleihau cymhlethdod ac yn ei gyd-destun, nid yw'r gwahaniaeth yn arwyddocaol.

²Mae gan y prif fodel rhan-amser ffigur ar gyfer grant cynhaliath ar gyfer myfyrwyr o Gymru sy'n astudio mewn manau eraill a ffigur ar gyfer cyfanswm y grant cynhaliath. Defnyddir y gymhareb i rannu rhan-amser. Yng Nghymru y mae'r rhan fwyaf o'r ddarpariaeth ran-amser, ac o ganlyniad, mae'r ffigur ond ychydig is na Thabl 1.

³Cyfrifwyd rhaniad yr ôlraddedigion gan ddefnyddio data SLC a godwyd o'u porthol Microstrategaeth. Mae'r data yn cyfrif nifer y cwsmeriaid yng Nghymru sy'n dilyn cwrs o fath ôlraddedig a hefyd yn ôl rhanbarth llywodraeth y sefydliad addysgol. Defnyddir cymhareb y cwsmeriaid sydd â'u sefydliad yn rhanbarth Cymru versus yr holl gwsmeriaid i rannu ôlraddedigion.

Tabl 3: Gwariant ar grantiau i fyfyrwyr a ragwelir, 2020-21 i 2024-5, ar gyfer myfyrwyr o Gymru sy'n astudio yn rhywle arall.

| <i>Rhagolygon o gostau'r flwyddyn ariannol</i> | | | | | |
|---|----------------|---------------|---------------|----------------|----------------|
| Myfyrwyr manau eraill | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 |
| Israddedigion amser llawn ¹ | | | | | |
| Grant Cynhaliath | £68m | £73m | £77m | £80m | £84m |
| Grant Ffioedd Dysgu | £21m | £5m | £1m | £0m | £0m |
| Lwfansau (Amser llawn) | £7m | £7m | £7m | £7m | £8m |
| <i>Bron yn arian parod</i> | <i>£96m</i> | <i>£85m</i> | <i>£84m</i> | <i>£87m</i> | <i>£92m</i> |
| Israddedigion rhan-amser ² | | | | | |
| <i>Bron yn arian parod</i> | <i>£1.5m</i> | <i>£1.8m</i> | <i>£2.0m</i> | <i>£2.1m</i> | <i>£2.2m</i> |
| Graddau Meistr ôlraddedig a ddysgir ³ | | | | | |
| <i>Bron yn arian parod</i> | <i>£8.6m</i> | <i>£9.8m</i> | <i>£10.6m</i> | <i>£11.4m</i> | <i>£12.2m</i> |
| (Addysg Bellach - rhagdybir nad oes mewn manau eraill) | | | | | |
| Cyfanswm myfyrwyr manau eraill | | | | | |
| Bron yn arian parod | £106.0m | £96.6m | £97.1m | £100.8m | £106.0m |

Ffynhonnell: Modelu'r Is-adran Addysg Uwch (modelau Tachwedd 2020), Llywodraeth Cymru

Nodiadau

¹Cyfrifwyd y cyfran trwy rannu'r cyfanswm yn ôl nifer y myfyrwyr sy'n astudio yng Nghymru a'r nifer sy'n astudio manau eraill. Mae'r dull hwn yn goramcangyfrif cyfran Cymru gan nad yw'n rhoi unrhyw ystyriaeth i'r cyfartaleddau is ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio gartref a'r cyfartaleddau uwch ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio oddi cartref yn Llundain. Mae'r dull hwn yn lleihau cymhlethdod ac yn ei gyd-destun, nid yw'r gwahaniaeth yn arwyddocaol.

²Mae gan y prif fodel rhan-amser ffigur ar gyfer grant cynhaliath ar gyfer myfyrwyr o Gymru sy'n astudio mewn manau eraill a ffigur ar gyfer cyfanswm y grant cynhaliath. Defnyddir y gymhareb i rannu rhan-amser. Yng Nghymru y mae'r rhan fwyaf o'r ddarpariaeth ran-amser, ac o ganlyniad, mae'r ffigur ond ychydig is na Thabl 1.

³Cyfrifwyd rhanriad yr ôlraddedigion gan ddefnyddio data SLC a godwyd o'u porthol Microstrategaeth. Mae'r data yn cyfrif nifer y cwsmeriaid yng Nghymru sy'n dilyn cwrs o fath ôlraddedig a hefyd yn ôl rhanbarth llywodraeth y sefydliad addysgol. Defnyddir cymhareb y cwsmeriaid sydd â'u sefydliad yn rhanbarth Cymru versus yr holl gwsmeriaid i rannu ôlraddedigion.

ATODIAD J – Darparu Benthyciadau

Tabl 4a: Darparu Benthyciadau i Fyfyrrwyr

Taliadau Cyllidebu a Chyfrifyddu Adnoddau: canrannau a gymhwyswyd o fodel y Llwybr Enillion Stocastig

| | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 |
|---|--------------|--------------|--------------|--------------|--------------|
| Gwariant ar Fenthyciadau | | | | | |
| Israddedigion amser llawn, Cynllun 1 ^(a) | £12,150 | | | | |
| Israddedigion amser llawn, Cynllun 2 ^(b) | £667,931,634 | £685,713,291 | £699,118,278 | £727,880,813 | £765,394,891 |
| Israddedigion rhan-amser | £18,934,145 | £22,565,442 | £24,460,711 | £25,744,050 | £26,622,611 |
| Graddau Meistr | £77,199,549 | £86,591,338 | £94,370,308 | £101,462,603 | £109,864,016 |
| Graddau Doethur | £7,379,143 | £12,042,055 | £16,535,530 | £20,321,485 | £22,814,553 |
| Tâl RAB - y ganran a gymhwysir | | | | | |
| Israddedigion amser llawn, Cynllun 1 ^(a) | 31.8% | | | | |
| Israddedigion amser llawn, Cynllun 2 ^(b) | 45.7% | 45.5% | 45.2% | 45.1% | 44.6% |
| Israddedigion rhan-amser | 40.2% | 39.1% | 38.5% | 38.4% | 38.2% |
| Graddau Meistr | 16.0% | 14.0% | 13.4% | 13.4% | 12.6% |
| Graddau Doethur | 43.2% | 43.5% | 43.3% | 42.7% | 42.0% |

Ffynhonnell: Rhagolygon ad-dalu benthyciadau myfyrwyr yr Is-adran Addysg Uwch (STEP 3.17, July 2020 central coronavirus scenario OBR data, 2019 borrower data)

(a) Cynllun 1: Y drefn benthyciadau myfyrwyr cyn 2012

(b) Plan 2: Y drefn benthyciadau myfyrwyr ar ôl 2012

Tabl 4b: Darparu Benthyciadau i Fyfyrrwyr

Taliadau Cyllidebu a Chyfrifyddu Adnoddau: Symiau a gyfrifwyd, gan gynnwys y tâl cyffredin a godir a'r tâl canslo rhannol a godir

| | Gwirioneddol 2019-20 | Rhagolygon | | | | |
|-------------------------|-------------------------|---------------------|---------------------|---------------------|---------------------|---------------------|
| | | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 |
| Tâl RAB | (264,499.30) | (349,761.02) | (368,482.03) | (388,643.93) | (413,739.69) | (435,040.99) |
| Tâl Stoc | 14,733.02 | (109,769.77) | | | | |
| Tâl Canslo Rhannol | (27,679.69) | (35,697.33) | (37,836.50) | (40,248.59) | (42,989.10) | (45,786.71) |
| Cyfanswm Tâl RAB | (277,445.97) | (495,228.12) | (406,318.53) | (428,892.52) | (456,728.79) | (480,827.70) |

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Oddi wryh: Llywodraeth Cymru

Dyddiad: 21 Ionawr 2021

Lleoliad: Y Senedd, Bae Caerdydd

Teitl: Craffu ar Gyllideb Ddrafft y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar gyfer 2021-22

1. Diben

Ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg ar 18 Tachwedd 2020, yn eu gwahodd i roi tystiolaeth ar y cynigion sydd ganddynt yn y Gyllideb Ddrafft a gofyn iddynt gyflwyno papur ar y Gyllideb Ddrafft.

2. Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am gynigion cyllideb plant a phobl ifanc y dyfodol ar gyfer 2021-22 ac mae hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am feysydd penodol o ddiddordeb i'r Pwyllgor.

Sylwebaeth ar Gamau Gweithredu a manylion dyraniadau'r Llinell Wariant yn y Gyllideb

Roedd y gyllideb Ddrafft fanwl a gyhoeddwyd ar 21 Rhagfyr yn nodi ein cynlluniau gwario ar gyfer y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ôl y Llinell Wariant yn y Gyllideb.

Nid oes ffigurau ar gael ar gyfer 2022-23 ar hyn o bryd am fod y gyllideb ddrafft ond yn cwmpasu un flwyddyn yn unig.

Dengys y tablau isod symudiadau'r gyllideb o gyllideb Atodol gyntaf 2020-21 i Gyllideb Ddrafft 2021-22.

Dyraniadau o fewn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

| AGA | | | |
|--------------------------------------|--|-------|---------|
| CAM GWEITHREDU | Cyflenwi Gwasanaethau GIG wedi'u Targedu | | |
| LLINELL WARIANT YN Y GYLLIDEB | Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 | Newid | 2021-22 |
| | £m | £m | £m |
| Cymru Iachach – Y Blynyddoedd Cynnar | 6.3 | 0.7 | 7.0 |

| AGA | Cefnogi Plant | | |
|--------------------------------------|---------------------------------------|---------------|----------------|
| CAM GWEITHREDU | Cefnogi Plant | | |
| LLINELL WARIANT YN Y GYLLIDEB | Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 | Newid | 2021-22 |
| | £m | £m | £m |
| Cymorth i Ofal Plant a Chwarae | 63.351 | 17.900 | 81.251 |
| Cefnogi Hawliau Plant | 0.991 | 0 | 0.991 |
| Cefnogi Plant | 3.289 | 0.576 | 3.865 |
| Y Comisiynydd Plant | 1.580 | 0 | 1.580 |
| Cymorth i Deuluoedd a Phlant | 3.604 | 2.400 | 6.004 |
| Cyfanswm Cefnogi Plant | 72.815 | 20.876 | 93.691 |

Mae newidiadau sydd wedi'u cynnwys yn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ymwneud â'r canlynol:

Cam Gweithredu – Cyflenwi Gwasanaethau GIG wedi'u Targeddu – Cymru Iachach

- Cynnydd o £0.7m yn y cymorth ar gyfer Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar. Bydd hyn yn rhoi'r cynllun 'Siarad gyda fi' ar waith ac yn darparu cyllid i gefnogi'r cynlluniau braenaru newydd drwy drawsnewid systemau.

Cam Gweithredu – Cefnogi Plant (gwahanol Linellau Gwariant yn y Gyllideb)

- Cynnydd o £17.9m yn y Cymorth ar gyfer Plant a Chwarae mewn perthynas â chynnydd o £15m yn y Cynnig Gofal Plant, cynnydd o £1.9m yn y gyfradd gysoni â'r cyfnod sylfaen a throsglwyddo cyllideb o £1m ar gyfer Llwg yn ystod y Gwyliau o'r MEG Addysg.
- Cynnydd o £0.576m ar gyfer Cefnogi Plant mewn perthynas â'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol.
- Cynnydd o £2.4m yn y Cymorth i Deuluoedd a Phlant gan gynnwys cymorth mewn perthynas â gwrthdaro rhwng rhieni; cymorth rhianta mewn perthynas â Deddf Plant (Cymru), profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a chostau rhaglenni ychwanegol.

| AGA | CAFCASS | | |
|-------------------------------|--------------------------------|-------|--------------------------|
| CAM GWEITHREDU | CAFCASS | | |
| LLINELL WARIANT YN Y GYLLIDEB | Cyllideb Atodol Gyntaf 2020-21 | Newid | 2021-22 Cyllideb Ddrafft |
| | £m | £m | £m |
| CAFCASS Cymru | 12.152 | 1.470 | 13.622 |

Mae newidiadau i **Gam Gweithredu CAFCASS** yn adlewyrchu'r cynnydd arfaethedig y cytunwyd arno yn 2020 oherwydd y galw o fewn y gwasanaeth wrth iddo gyflawni ei rwymedigaethau statudol. Mae'r cynnydd yn cynrychioli cyllid ar gyfer costau staff disgwylidig a gwasanaethau cyswllt drwy orchmynion llys yn 2021-22.

Llinell Wariant yn y Gyllideb 0030 – Dyraniadau Uniongyrchol Eraill y GIG

- £17m sydd wedi'i gynnwys yn y Gronfa Gofal Integredig ar gyfer gweithgareddau rhaglenni ar gyfer 'Plant ar Ffiniau Gofal' (£15m) a dyraniad newydd ar gyfer llety diogel i blant ag anghenion emosiynol ac ymddygiadol pen uchaf, cymhleth (£2m).

Dyraniadau newydd yn y MEG Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg sy'n berthnasol i blant a phobl ifanc

Llinell Wariant yn y Gyllideb 0270 – Iechyd Meddwl

- £4m o gymorth ychwanegol ar gyfer y Dull System Gyfan (y Dull Ysgol Gyfan gynt) i wella mynediad er mwyn cefnogi lles emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc.
- £5.4m o gyllid ychwanegol i gefnogi pobl ifanc â chyflwr iechyd meddwl wedi'i ddiagnosio drwy wasanaethau cymunedol neu wasanaethau arbenigol i gleifion mewnol.

3. Effaith gwariant ar ddatblygu hawliau plant o dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru)

O dan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, rydym wedi rhoi ystyriaeth gytbwys i'r hawliau a nodir yn y CCUHP. Mae Cyllideb ddrafft 2021-22, a gyhoeddwyd ar 21 Rhagfyr, yn nodi effeithiau ein penderfyniadau gwario fel rhan o'r prif naratifau ym mhenodau pedwar a chwech, gan dynnu sylw at benderfyniadau gwario sy'n cael effaith uniongyrchol ar blant a phobl ifanc. Ategir hyn gan yr Asesiad Effaith Integredig Strategol yn Atodiad C, sy'n nodi'r dystiolaeth gyd-destunol a fu'n sail i'n penderfyniadau gwario, gan gynnwys effaith y pandemig ar blant a phobl ifanc. Mae Atodiad C hefyd yn cynnwys astudiaethau achos manylach o effeithiau penderfyniadau gwario penodol, gan gynnwys un astudiaeth o'n cymorth ar gyfer iechyd meddwl plant a phobl ifanc.

Mae'r dystiolaeth a geir yn y papur hwn hefyd yn rhoi rhagor o wybodaeth am y ffordd y mae Hawliau Plant wedi llywio blaenoriaethau cyllidebol yn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r MEG Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg.

Yn unol â thystiolaeth rydym wedi'i darparu wrth graffu ar gyllidebau blaenorol, mae dull gweithredu integredig yn ein galluogi i ddeall effaith gyffredinol penderfyniadau ar blant a phobl ifanc yn gliriach. Mae'n rhaid cynnal asesiadau effaith manwl, gan gynnwys Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, fel rhan o'n gwaith parhaus i ddatblygu ac adolygu polisïau. Bydd yr asesiadau hyn yn parhau i gael eu defnyddio i lywio penderfyniadau cyllidebol a'r asesiad effaith ehangach o'r gyllideb.

Mae'r dull hwn o weithredu, yng nghyd-destun y dyraniadau cyllidebol, yn sicrhau bod tystiolaeth a dealltwriaeth o effeithiau yn cael eu hystyried o'r cychwyn a thrwy gydol ein paratodau ar gyfer y gyllideb.

Mae ein hadnodd asesu effaith integredig yn parhau i'w gwneud yn ofynnol i hawliau plant gael eu hystyried, a lle y bo angen, i asesiad llawn o'r effaith ar hawliau plant gael ei gwblhau. Mae proses yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yn rhoi lle canolog i hawliau plant pan fyddwn yn datblygu deddfwriaeth, polisïau newydd a rhaglenni.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Mae'r portffolio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cefnogi ein huchelgeisiau i wella iechyd a llesiant unigolion, teuluoedd a chymunedau. Gwneir hyn drwy gyflawni'r tri amcan a nodir yn Ffyniant i Bawb, sef: darparu gwasanaethau iechyd a gofal o safon sy'n addas i'r dyfodol, hyrwyddo iechyd da a llesiant i bawb a chreu cymunedau mwy iach ac amgylcheddau gwell. Rydym wedi mabwysiadu ymagwedd hirdymor wrth ddatblygu ein cynlluniau gwariant ar gyfer 2021-22, gan roi pwyslais ar gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig yn y dyfodol fel y'i nodir yn y ddogfen Cymru Iachach, ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Mae'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnwys y cyllid refeniw a chyfalaf craidd ar gyfer GIG Cymru, yn ogystal â chyllid i gefnogi gweithgareddau wedi'u rhaglennu a reolir yn ganolog mewn perthynas ag iechyd y cyhoedd, gofal cymdeithasol a chefnogi plant.

Mae Cymru Iachach yn cyflawni ein hymrwymiad yn 'Ffyniant i Bawb' i gyhoeddi cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru mewn ymateb i adroddiad yr Adolygiad Seneddol o Ddyfodol Hirdymor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'r Cynllun yn adeiladu ar athroniaeth Gofal Iechyd Darbodus i effeithio ar iechyd a llesiant drwy gydol oes. Rhoddir pwyslais ar fesurau atal er mwyn helpu pobl i reoli eu hiechyd a'u llesiant eu hunain, gan alluogi pobl i fyw'n annibynnol cyhyd ag y bo modd.

Ein nod yw cymryd camau sylweddol tuag at newid ein meddylfryd o driniaeth i atal. Y weledigaeth rydym wedi'i nodi yn Cymru Iachach yw canolbwyntio mwy ar atal ac ymyrryd yn fuan, yr ydym yn parhau i'w cefnogi drwy gymorth cyffredinol yn ogystal chymorth mwy penodol. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth, cyngor a chymorth i rieni

drwy ymgyrch Magu Plant. Rhowch Amser Iddo; cymorth ar gyfer lleferydd, iaith a chyfathrebu drwy Siarad gyda Fi: Cynllun Cyflawni ar gyfer Lleferydd, iaith a Chyfathrebu; a'r gwaith sy'n mynd rhagddo i leihau neu liniaru effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

Yn ogystal â buddsoddi'n sylweddol yn y GIG yn 2021-22, rydym yn dyrannu swm ychwanegol o £20m ar gyfer cymorth yn ystod y blynyddoedd cynnar i blant, pobl ifanc a theuluoedd. Bydd swm ychwanegol o £16.9m yn y Cynnig Gofal Plant a swm pellach o £3.1m er mwyn ehangu rhaglen Drawsnewid y Blynyddoedd Cynnar gan adeiladu ar yr hyn y gwyddom ei fod yn gweithio o raglen Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf a chymorth ar gyfer lleferydd, iaith a chyfathrebu.

Mae ein cymorth i ddarpariaeth gofal plant a chwarae yn cyfrannu at bob un o'r nodau llesiant ac, yn benodol, at y rhai sy'n ymwneud â Chymru ffyniannus ac iachach. Gall buddsoddi mewn darpariaeth gofal plant a chwarae o safon helpu plant ifanc i ddatblygu'n oedolion iach ac egnïol. Mae'n datblygu eu llesiant gwybyddol a chymdeithasol ac emosiynol ac yn lliniaru effeithiau andwyol profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Gall gofal plant hefyd alluogi rhieni i weithio a hyfforddi a chodi teuluoedd allan o dlodi.

Mae ein Cynnig Gofal Plant yn cefnogi'n benodol amcanion llesiant Llywodraeth Cymru, yn arbennig o ran:

- Cefnogi pobl a busnesau i ysgogi ffyniant
- Hyrwyddo iechyd da a llesiant i bawb
- Cefnogi pobl ifanc i gyflawni eu llawn botensial
- Meithrin uchelgais ac annog dysgu am oes

Byddwn yn parhau i lunio ein dyraniadau cyllidebol yn unol â gweithgareddau ataliol, gan gyflawni ymyriadau cadarnhaol sy'n diogelu'r sylfeini sydd eisoes wedi'u gosod, gan gynnwys ein hymrwymiad i hawliau plant, ac yn adeiladu arnynt.

Dull Ataliol

Dull System Gyfan

- Caiff swm ychwanegol o £4m ei ddyrannu er mwyn ehangu'r gwaith o gyflwyno'r dull system gyfan o'r MEG Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg. Bydd hyn yn cynyddu'r dyraniad yn 2021-22 i £7m o'r MEG Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg. Bydd y buddsoddiadau yn helpu i gynyddu darpariaeth gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion ac yn ymestyn y cynlluniau mewngymorth presennol ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed ymhellach i 2021-22. Mae'r gwasanaethau hyn yn helpu i atal problemau iechyd meddwl a llesiant mwy difrifol ymhlith plant o oedran ysgol rhag gwaethygu ac yn sicrhau gwelliannau cynaliadwy i amseroldeb ymyriadau. Hefyd, mae £2m yn y MEG Addysg sy'n cefnogi'r rhaglen hon, sy'n golygu bod cyfanswm o £9m wedi'i neilltuo ar ei chyfer.

Maethu Cenedlaethol

- £0.6m ychwanegol i gefnogi rhaglen waith bresennol y Fframwaith Maethu Cenedlaethol a datblygu Maethu Cymru. Mae'r rhaglen waith yn canolbwyntio ar ailgydbwysu darpariaeth gwasanaethau, gan ateb y galw am wasanaethau a gwella ansawdd lleoliadau. Mae cymorth hefyd yn ymestyn i feysydd gwaith allweddol eraill sy'n ymwneud â gofal preswyl, gan gynnwys darparu llety diogel i blant ag anghenion cymhleth ac ystyried ffyrdd o ddefnyddio trefniadau gwarcheidiaeth arbennig.

Cymorth cynnar

- £3.1m ychwanegol, sydd hefyd yn cynnwys £0.7m o gyllid Atal yn Fuan cynllun Cymru Iachach o'r MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd y cyllid hwn yn darparu amrywiaeth o ymyriadau mewn amrywiaeth o raglenni sy'n cefnogi plant a theuluoedd, gan gynnwys Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu er mwyn helpu i roi'r cynllun cyflawni ar waith; cymorth mewn perthynas â gwrthdaro rhwng rhieni; cymorth rhianta mewn perthynas â Deddf Plant (Cymru), profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a chostau rhaglenni ychwanegol.

Y Cynnig Gofal Plant

- £16.9m ychwanegol, gyda chynnydd o £15m yn y gyllideb llinell sylfaen graidd ar gyfer y Cynnig Gofal Plant ac £1.6m i gysoni'r gyfradd ar gyfer elfen addysg gynnar y Cynnig â'r elfen gofal plant.

Y Gronfa Gofal Integredig

- Cynnal cyfanswm y buddsoddiad yn y Gronfa Gofal Integredig ar gyfer Plant sydd ar Ffiniau Gofal (£15m) a blaenoriaethu dyraniad newydd o £2m i gefnogi plant ag anghenion sylweddol sy'n derbyn gofal sy'n cael eu hanfon allan o Gymru ar hyn o bryd.

CAFCASS Cymru

- Cynnydd arfaethedig o £1.470m, y cytunwyd arno yn 2020-21, oherwydd y galw o fewn y gwasanaeth wrth iddo gyflawni ei rwymedigaethau statudol. Mae'r cynnydd yn cynrychioli costau staff disgwylidig a gwasanaethau cyswllt drwy orchmynion llys.

Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed y GIG ar gyfer Haen 4 a Thimau Dwys Cymunedol

- Buddsoddiad ychwanegol o £5.4m ar gyfer y plant a'r bobl ifanc agored i niwed hynny y mae angen cymorth mwy sylweddol arnynt. Cynigir cymorth o'r fath ar lefel gymunedol lle y bo'n bosibl ond, mewn rhai achosion, mae'n gofyn am ymyrraeth arbenigol Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) a all arwain at driniaeth fel cleifion mewnol.

4. Dyraniadau o ran polisi a deddfwriaeth

Mae'r Pwyllgor yn gofyn am ddiweddariad ar dyraniadau o fewn MEG lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Cyllideb Ddrafft 2021-22 yn y meysydd canlynol sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor:

Costau deddfwriaeth: *Gwariant wedi'i gynllunio ar weithredu Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) yn y cyfnod cyn iddi ddod i rym.*

Cyhoeddwyd [asesiad effaith rheoleiddiol](#) ochr yn ochr â'r Bil pan gafodd ei gyflwyno ym mis Mawrth 2019, a oedd yn nodi costau a buddiannau amcangyfrifedig y ddeddfwriaeth arfaethedig. Nid yw rhai costau i sefydliadau yn hysbys, am na chaiff data perthnasol eu casglu gan y sefydliadau hynny i ddarparu llinell sylfaen, ac nid oes unrhyw ddata cymaradwy i ddarparu sail ar gyfer amcangyfrif y cynnydd posibl mewn llwyth gwaith. Fodd bynnag, rydym wedi gweithio drwy grŵp gorchwyl a gorffen ar Gasglu a Monitro Data i gytuno â'r heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol ar drefniadau ar gyfer casglu a monitro data a fydd yn ein galluogi i gasglu a monitro data cyn ac ar ôl i'r ddeddfwriaeth gychwyn, er mwyn helpu i asesu effaith y ddeddfwriaeth. Rydym hefyd yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid eraill megis Gwasanaeth Erlyn y Goron Cymru a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM i gasglu data ychwanegol ar ôl i'r ddeddfwriaeth gychwyn.

Rydym wedi dyfarnu contract i gefnogi'r ymgyrch codi ymwybyddiaeth ar gyfer y Ddeddf a'n hymgyrch *Magu Plant. Rhowch Amser Iddo*. Yn 2021-22, rydym wedi dyrannu hyd at £0.800m yn benodol i godi ymwybyddiaeth o'r newid i'r ddeddfwriaeth. Mae hon yn ymgyrch ymgysylltu a chyfathrebu gynhwysfawr, sy'n cynnwys y canlynol: gwaith wedi'i dargedu gyda phartneriaid, rhanddeiliaid a gweithwyr proffesiynol; ymgysylltu â phobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig a chynulleidfaoedd wedi'u targedu; strategaeth ar gyfer plant a phobl Ifanc; ymgyrch aml-gyfrwng i godi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd gan gynnwys hysbysebion awyr agored a hysbysebion ar y teledu a'r radio ac yn y cyfryngau cymdeithasol. Dyrannwyd £0.2m i'r ymgyrch *Magu Plant. Rhowch Amser Iddo*, sy'n cefnogi ein polisi o annog dewisiadau amgen cadarnhaol yn lle cosbi'n gorfforol ac yn rhoi gwybodaeth a chynghor ar dechnegau rhianta cadarnhaol. Byddwn hefyd yn dyrannu hyd at £0.030m ar gyfer ymchwil gymdeithasol i fonitro barn ar y ddeddfwriaeth a lefelau ymwybyddiaeth ohoni, a hyd at £0.043m i gefnogi gweithgarwch ymgysylltu â phobl ifanc drwy Plant yng Nghymru.

Tlodi Plant

Dyrannwyd £23.27m i'r MEG Tai a Llywodraeth Leol drwy Gronfa Galedi Llywodraeth Leol ar gyfer darpariaeth yn lle prydau ysgol am ddim i ddysgwyr cymwys yn ystod gwyliau'r ysgol yn 2021-22.

Dyrannwyd £15m i'r Cynnig Gofal Plant sy'n helpu rhieni plant 3-4 oed sy'n gymwys ac sy'n gweithio i dalu eu costau gofal plant. Mae rhiant nodweddiadol y mae ei blentyn yn cael 20 awr o ofal plant yr wythnos yn cael yr hyn sy'n cyfateb i £90 ychwanegol yr wythnos yn ei boced – sef arian na fyddai wedi'i gael fel arall.

Mae'r Cynnig wedi'i werthuso'n annibynnol ers y flwyddyn weithredu gyntaf. Mae canlyniadau'r gwerthusiad diweddaraf yn seiliedig ar flwyddyn 2 y Cynnig ac yn dangos y canlynol:

- Nododd 84% **o rieni** fod ganddynt fwy o incwm gwario
- Roedd 57% **o rieni** o'r farn bod penderfyniadau cysylltiedig â gwaith yn fwy hyblyg
- Roedd gan 56% **o rieni** fwy o gyfle i gynyddu eu henillion
- Nododd 45% **o rieni** fod ganddynt fwy o gyfleoedd i hyfforddi, dysgu a datblygu

Mae cyflog canolrifol rhieni a gefnogir gan y Cynnig tua £21,000 y flwyddyn, sy'n is na'r cyflog blynyddol cyfartalog cenedlaethol, sef £25,896 y flwyddyn (fel y'i cofnodir gan yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion).

Mae'r gwerthusiad diweddaraf o flwyddyn 3 y Cynnig wrthi'n cael ei gynnal ar hyn o bryd a disgwylir y canlyniadau ar ddechrau 2021. Yn ystod 2021-22, byddwn hefyd yn adolygu cyfradd y cynnig ac yn ystyried y posibilrwydd o gyflwyno'r Cynnig i rieni plant mewn addysg a hyfforddiant.

Mae'r ddwy raglen o fewn y Grant Plant a Chymunedau yn y MEG Tai a Llywodraeth Leol yn rhaglenni ymyrraeth gynnar ac atal. Mae'r rhain yn cynnwys Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf sy'n cefnogi teuluoedd mewn tlodi. Nid oes unrhyw ddyraniadau newydd wedi'u gwneud i'r Grant Plant a Chymunedau yn y Gyllideb Ddrafft, ond mae cyllidebau wedi'u cynnal ar lefelau 2020-21.

Dechrau'n Deg

Mae grant refeniw Dechrau'n Deg yn rhan o'r Grant Plant a Chymunedau. Mae'r Grant Plant a Chymunedau yn cynnwys 7 rhaglen (Gofal Plant a Chwarae, Cymunedau am Waith a Mwy, Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, y Gronfa Waddol, Hybu Ymgysylltiad Cadarnhaol ymhlith Pobl Ifanc sydd mewn Perygl o Droseddu, Cronfa Dydd Gŵyl Dewi). Mae Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf yn rhaglenni trechu tlodi, sy'n galluogi Awdurdodau Lleol (ALLau) i fod yn fwy hyblyg o ran eu dull gweithredu er mwyn gwella ac integreiddio prosesau darparu gwasanaethau ar gyfer ymyrraeth gynnar. Mae gan ALLau hyblygrwydd llwyr i gyfeirio eu cyllid o'r Grant Plant a Chymunedau ar draws y 7 rhaglen hyn, gan eu galluogi i sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu darparu'n fwy effeithlon ac effeithiol.

Er mwyn cydnabod yr hyblygrwydd newydd mewn cyllidebau y darperir ar ei gyfer gan y Grant Plant a Chymunedau, mae gan awdurdodau lleol yr hyblygrwydd bellach i ddyrannu unrhyw ran o gyllideb gyffredinol eu Grant Plant a Chymunedau ar gyfer gwaith allgymorth h.y. bwriedir iddo hwyluso penderfyniadau lleol ynghylch anghenion ac, yn unol â chais ein rhanddeiliaid, rydym wedi dileu'r rhwystrau i hyn.

Mae rhaglen Dechrau'n Deg yn cwmpasu gwariant ataliol sylfaenol ac eilaidd ac mae'n rhaglen trechu tlodi ac ymyrraeth gynnar.

Rydym yn awyddus i adeiladu ar gyflawniadau sylweddol rhaglen Dechrau'n Deg a dysgu o'r hyn sy'n gweithio'n dda, yn enwedig sut y gallwn ddyfnhau trefniadau

partneriaeth, cydweithio a gwaith amlasiantaethol rhwng sectorau er mwyn cefnogi pobl ifanc a'u teuluoedd. Rydym am ddatblygu gwaith Cynlluniau Braenaru'r naw Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Trawsnewid yn Ystod y Blynyddoedd Cynnar, sy'n ystyried pa gamau y byddai angen eu cymryd i greu system blynyddoedd cynnar fwy integredig ac ymatebol, yn lleol ac yn genedlaethol, drwy gynyddu nifer y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar y rhaglen er mwyn profi elfennau craidd gwasanaeth blynyddoedd cynnar integredig.

Byddwn yn **darparu £3.1m ychwanegol** ar gyfer amrywiaeth o raglenni sy'n cefnogi Plant a Theuluoedd gan gynnwys Lleferydd, Iaith a Chyfaterbu er mwyn helpu i roi'r cynllun cyflawni ar waith; cymorth mewn perthynas â gwrthdaro rhwng rhieni; cymorth rhianta mewn perthynas â Deddf Plant (Cymru), profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a chostau rhaglenni ychwanegol.

Ers ei sefydlu, mae Dechrau'n Deg wedi buddsoddi mwy na £68m o gyfalaf i ddatblygu'r seilwaith sydd ei angen ledled Cymru i gyflwyno'r rhaglen trechu tlodi hon. Mae hyn yn cynnwys creu lleoliadau gofal plant newydd er mwyn darparu lleoedd rhan amser o ansawdd uchel sydd eu hangen ar gyfer plant bach 2-3 oed a buddsoddiad sylweddol i ddatblygu llety i'r timau amlasiantaethol sy'n cyflwyno'r rhaglen. Y **gyllideb gyfalaf ar gyfer 2021-22 yw £5.529m** a bydd awdurdodau lleol yn parhau i gael eu hannog i fabwysiadu dull strategol o gynllunio rhaglenni cyfalaf gan gynnwys Ysgolion yr 21ain Ganrif, y Gymraeg a'r Cynnig Gofal Plant er mwyn i flaenoriaethau allweddol allu cael eu cyflawni mewn ffordd fwy cydgyssylltiedig.

Rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf

Mae grant refeniw Teuluoedd yn Gyntaf yn rhan o'r Grant Plant a Chymunedau. Gall awdurdodau lleol fod yn hyblyg o ran y ffordd y maent yn defnyddio'r cyllid hwn o fewn amodau'r grant er mwyn rhoi cymorth cynnar i blant a theuluoedd sydd ei angen. Mae'r buddsoddiad parhaus hwn yn rhan bwysig o'n hymrwymiad i helpu plant i gyflawni eu potensial a lleihau profiadau niweidiol yn ystod plentyndod sy'n effeithio ar ganlyniadau tymor hwy.

Gofal plant

Yn 2020-21, gwnaethom ddatblygu Cynllun Cymorth Gofal Plant ar gyfer Argyfwng y Coronafeirws er mwyn cefnogi rhieni yn ystod y pandemig. Dyrannwyd £20m o gronfeydd wrth gefn hefyd er mwyn talu costau cynyddol y Cynnig Gofal Plant ac ateb y galw.

Dyrannwyd **£16.9m ychwanegol** i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb ar gyfer Gofal Plant yn 2021-22, sydd wedi cynyddu'r cyllid sydd ar gael i'r Cynnig yn 2021-22 i **£76.9m**. Oherwydd natur y Cynnig sy'n seiliedig ar alw, ni allwn ddiystyru'n posibilrwydd y bydd costau yn fwy na'r gyllideb a ddyrannwyd. Os bydd hyn yn digwydd, fel mewn blynyddoedd blaenorol, caiff hyn ei reoli fel pwysau yn ystod y flwyddyn gyda chymorth cronfeydd wrth gefn Llywodraeth Cymru.

Yn ogystal â chynnydd o £15m i adlewyrchu'r galw tebygol am y Cynnig, rydym yn dyrannu £1.9m tuag at gostau cysoni'r cyfraddau ar gyfer addysg gynnar a gofal

plant o fewn y Cynnig. Mae hyn yn dilyn cynllun peilot i dreialu un gyfradd ar gyfer dwy elfen y Cynnig yn 2019. Mae nifer o leoliadau yn pryderu ynghylch y gwahaniaeth yn y gyfradd rhwng elfennau addysg a gofal plant y Cynnig.

Disgwylir i'r gwaith o gysoni'r cyfraddau gostio tua £3.8m, gydag £1.9m yn dod o'r gyllideb lechyd a Gofal Cymdeithasol a £1.9m ychwanegol o'r gyllideb Addysg.

Rydym hefyd wedi ymrwymo i adolygu'r gyfradd a delir ar gyfer y Cynnig. Rydym yn ymwybodol o bryderon yn y sector nad yw'r gyfradd bresennol yn adlewyrchu newidiadau yn y farchnad, gan gynnwys newidiadau diweddar i'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol er enghraifft. Cysoni'r cyfraddau yw'r cam cyntaf yn y broses o fynd i'r afael â'r pryderon hyn.

Rydym hefyd wedi ymrwymo i ystyried goblygiadau ymestyn y Cynnig i gynnwys rhieni mewn addysg a hyfforddiant a rhieni sydd ar fin dychwelyd i'r gwaith.

Rydym yn gwneud cynnydd da yn y ddau faes hyn ac yn disgwyl i'r adolygiadau gael eu cwblhau ym mis Chwefror 2021.

Mae'r gwaith o ddatblygu un system ddigidol i Gymru gyfan ar gyfer gweinyddu'r Cynnig wedi dechrau, gyda chyllideb gyfalaf o £4.5m ar gyfer 2020-21 a swm rhagolygol o £4m ar gyfer 2021-22.

Byddwn yn parhau i ddarparu'r un lefel o gymorth i CWLWM (Gofal Plant Cymru'n Dysgu a Gweithio ar y Cyd), sef £1.4m. Hwn yw'r consortiwm ambarél sy'n cynrychioli darparwyr gofal plant yng Nghymru. Mae CWLWM yn chwarae rôl allweddol drwy gynnal cyswllt rhwng y Llywodraeth a darparwyr ar lawr gwlad ac mae'n gweithredu fel seinfwrdd gwerthfawr wrth inni ddatblygu ein polisïau a'u rhoi ar waith.

Bu'r gydberthynas hon yn amhrisiadwy yn ystod 2020 ac, er mwyn ein helpu i oroesi argyfwng Covid-19, dyrannwyd swm ychwanegol o £0.800 yn ystod y flwyddyn i hybu gweithgarwch yn ymwneud â chanllawiau Covid-19 a chymorth i ddarparwyr drwy bartneriaid CWLWM.

Yn 2020-21, rydym wedi parhau i ariannu awdurdodau lleol drwy elfen Gofal Plant a Chwarae'r Grant Plant a Chymunedau er mwyn i awdurdodau lleol allu helpu i sicrhau cynaliadwyedd darparwyr gofal plant a chwarae yn eu hardaloedd a llenwi unrhyw fylchau mewn darpariaeth yn eu hardaloedd lleol.

Yn 2020-21, bu'n bosibl inni ddyrannu £2.3m ychwanegol i awdurdodau lleol fel rhan o becyn ail-greu Llywodraeth Cymru, ar ben eu dyraniad blynyddol arferol, sef £2.3m. Roedd yr arian ychwanegol hwn yn ddyraniad untro i gefnogi lleoliadau y mae Covid-19 wedi effeithio arnynt a cheisio sicrhau ein bod yn gallu cynnal sector gofal plant cryf a hyfyw yn y dyfodol.

Yn 2021-22, byddwn yn parhau i gefnogi awdurdodau lleol gyda'u gwaith o sicrhau digonolrwydd gofal plant. Mae'r cyllid hwn yn rhan o'r Grant Plant a Chymunedau yn y MEG Tai a Llywodraeth Leol.

Bu gostyngiad yn y cyllid ar gyfer gwasanaethau gofal plant a chwarae o fewn Arolygiaeth Gofal Cymru a oedd i'w briodoli i'r ffaith bod gwasanaethau gofal plant wedi cau oherwydd Covid-19 ac effaith hynny ar weithgarwch arolygu. Rydym yn disgwyl i'r cyllid ar gyfer AGC ddychwelyd i lefelau nodweddiadol yn 2021-22, a fydd tua £0.4m. Bydd hyn yn ariannu gweithgarwch arolygu ar y cyd ag Estyn ar gyfer lleoliadau lle y darperir gofal plant a darpariaeth blynyddoedd cynnar ac yn helpu i dalu costau TGCh a chostau gweinyddu'r cynllun nanis.

Rydym hefyd yn bwriadu parhau i ariannu Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC) mewn perthynas â'r gwaith y mae'n ei wneud ar gyfer y gweithlu gofal plant. Mae gofal plant yn rhan o'r gweithlu gofal cymdeithasol ehangach ac mae GCC yn helpu i roi'r cynllun 10 mlynedd ar gyfer y gweithlu gofal plant, gwaith chwarae a'r blynyddoedd cynnar, a gyhoeddwyd gennym yn 2017, ar waith.

Yn 2020-21, dyrannwyd £0.315m i GCC, er bod newidiadau i'w gynllun gwaith, yn sgil pandemig Covid-19, wedi golygu mai dim ond £0.3m roedd ei angen arno. Rydym yn disgwyl i'r cyllid ddychwelyd i o leiaf £0.315m yn 2021-22 ac rydym yn gweithio gyda GCC i benderfynu ar y ffordd orau o ailbroffilio ac aildechrau amrywiaeth o weithgarwch arfaethedig i gefnogi'r gweithlu gofal plant ehangach, gan gynnwys gwaith ar gymwysterau a chofrestru.

Rydym yn cefnogi amrywiaeth o raglenni i wella sgiliau'r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae drwy raglen Cynnydd ar gyfer Llwyddiant, a ariennir o Gronfeydd Cymdeithasol Ewrop. Yn 2020-21, rydym yn disgwyl gwario £0.715m mewn arian cyfatebol er mwyn cyflawni ein hymrwymiaadau o ran y rhaglen. Mae'n debygol y bydd ein hymrwymiaadau ychydig yn llai yn 2021-22, er bod trafodaethau ynghylch faint o arian Ewropeaidd a gaiff ei hawlio yn mynd rhagddo.

Rydym wedi parhau i gefnogi rhaglenni eraill sydd â'r nod o gefnogi'r gweithlu gofal plant. Mae hyn yn cynnwys 'Childcare Works', a weinyddir gan Gymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd, gwaith penodol ar brentisiaethau sy'n cael ei ddatblygu gan Mudiad Meithrin, a grantiau cymorth i fusnesau a weinyddir gan Busnes Cymru. Er na fydd pob un o'r rhaglenni hyn yn parhau, byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn rhaglenni cymorth ar gyfer y gweithlu yn ystod 2021-22.

Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE)

Mae Rhieni, Gofal Plant a Chyflogaeth (PaCE) yn rhaglen gwerth £21.5m a ariennir ar y cyd gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop a Llywodraeth Cymru, sy'n gweithio mewn partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP). Ar hyn o bryd, mae'r rhaglen wedi'i hariannu hyd at fis Mawrth 2023.

Mae PaCE yn targedu rhieni sy'n economaidd anweithgar 25 oed a throsodd, a rhieni rhwng 16 a 24 oed Nad Ydynt mewn Cyflogaeth, Addysg na Hyfforddiant (NEET). Gofal plant yw'r prif ffactor sy'n atal pob rhiant sy'n cofrestru ar PaCE rhag manteisio ar gyfleoedd addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Mae PaCE yn adeiladu ar wasanaethau a gynigir drwy Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf ac yn

gweithredu y tu allan i hen ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, er mwyn ategu prosiectau eraill megis Cymunedau am Waith.

Nod PaCE yw gweithio gyda 9,000 o rieni yn ystod oes y prosiect a helpu o leiaf 1,800 o'r rhieni hynny i gael gwaith. Hyd at fis Hydref 2020, mae PaCE wedi cefnogi 5605 o bobl. Mae'r rhaglen wedi cyflawni'n gysgon a disgwylir iddi barhau i wneud hynny er gwaethaf effaith cyfyngiadau Covid-19.

Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd

Darperir cyllid ar gyfer y Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd drwy Grant Cynnal Refeniw i Awdurdodau Lleol.

Cymorth rhianta

Yn 2021-22, dyrannwyd hyd at £0.2m i gefnogi ein hymgyrch Magu Plant. Rhowch Amser Iddo. Mae'r ymgyrch yn cefnogi ein polisi o annog dewisiadau amgen cadarnhaol yn lle cosbi'n gorfforol yn ogystal â rhoi gwybodaeth a chyngor i rieni a theuluoedd ar dechnegau rhianta cadarnhaol ehangach. Rydym yn bwriadu ymestyn ystod oedran yr ymgyrch yn ystod 2020-21 o 0-7 i rieni plant 0-18 oed.

Cwblhawyd ymarfer mapio er mwyn asesu lefel y cymorth rhianta sydd ar gael ar hyn o bryd ledled Cymru ac, yn sgil y pandemig, buom yn gweithio gydag ymarferwyr rhianta hefyd i goladu a rhannu eu gwaith arloesol i ddarparu cymorth rhianta yn rhithwir. Gyda'n Grŵp Gweithredu Arbenigol ar Rianta rydym yn ystyried i ba raddau y gallai fod angen darparu cymorth ac adnoddau rhianta ychwanegol.

Diogelu ac Eiriolaeth £2.365m, yn Llinell Wariant yn y Gyllideb 0460

Gwasanaethau diogelu

Mae cyllid ar gyfer Diogelu yn cefnogi'r gwaith o roi Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf 2014) ar waith yn bennaf ac yn hyrwyddo agenda ataliol i wella canlyniadau llesiant plant ac oedolion sy'n wynebu risg. Mae blaenoriaethau diogelu wedi'u hamlinellu yn *Symud Cymru Ymlaen* sy'n nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r plant a'r teuluoedd mwyaf agored i niwed yng Nghymru ac yn eu cefnogi. Mae *Ffyniant i Bawb* yn cynnwys gofal cymdeithasol fel un o'r pum prif flaenoriaeth ac yn cydnabod bod angen mabwysiadu dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac sy'n seiliedig ar gydweithredu i ddiwallu anghenion gofal a chymorth plant, eu helpu i aros gyda'u teuluoedd os bydd yn ddiogel iddynt wneud hynny a diogelu plant rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso.

Er mwyn hyrwyddo'r nodau hyn, mae cyllid yn cefnogi'r gwaith o Ddatblygu a Gweithredu Polisi Diogelu. Mae'r nodau hyn yn cynnwys y canlynol:

- Gweithio i helpu i roi canllawiau statudol arfaethedig ar amddiffyn plant rhag camfanteisio rhywiol, sydd ar fin cael eu cyhoeddi, ar waith.
- Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar atal plant rhag cael eu cam-drin yn rhywiol ac ymateb i gamdriniaeth rywiol a rhoi camau gweithredu o'r cynllun hwnnw, sy'n dod o fewn y cyfnod ariannol, ar waith.
- Cyhoeddi Fframwaith Lleihau Arferion Cyfyngol ar gyfer lleoliadau gofal plant, gofal cymdeithasol, addysg ac iechyd a gweithio i helpu i'w roi ar waith.
- Gweithio i ddatblygu cyngor ar ddiogelu plant yn ystod y blynyddoedd cynnar.
- Gweithio i hyrwyddo pecyn hyfforddiant amlasiantaethol ar ddiogelu yn ystod blaenlencyndod, a gomisiynwyd i'w ddatblygu yn y flwyddyn ariannol hon.
- Parhau i weithio i gefnogi adfer ar ôl pandemig Covid-19 drwy roi gwybodaeth, cyngor a chymorh i blant a phobl ifanc, rhieni/gofalwyr, ymarferwyr a'r cyhoedd.

Bydd £103,000 o gyllid yn helpu i ddatblygu polisi i ddiogelu plant a'i roi ar waith, fel y nodwyd uchod. Bwriedir i £53,000 o'r dyraniad hwn gael ei ddefnyddio i roi camau gweithredu o dan y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar atal plant rhag cael eu cam-drin yn rhywiol ac ymateb i gamdriniaeth rywiol, ar waith.

Mae cyllid diogelu yn cefnogi gwaith y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol a'r Byrddau Diogelu rhanbarthol er mwyn sicrhau bod mesurau ar waith i gefnogi arferion cyson sy'n seiliedig ar dystiolaeth i ddiogelu plant mewn asiantaethau a ledled Cymru. Rhoddir £180,000 i'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol.

Cyhoeddwyd Gweithdrefnau Diogelu Cymru a chanllawiau arferion cysylltiedig ym mis Tachwedd 2019 ar lwyfan digidol ac mae'n hyrwyddo arferion diogelu cyson sy'n seiliedig ar dystiolaeth ymhellach mewn asiantaethau a ledled Cymru. Bydd gwaith sy'n mynd rhagddo o dan arweiniad Bwrdd Prosiect Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn sicrhau y caiff y gweithdrefnau a'r canllawiau eu hadolygu a'u diwygio wrth i dystiolaeth newydd o arferion effeithiol gael ei nodi ac er mwyn cynnal y cynnig digidol. Bydd hyn yn gofyn am ddyrannu cyllid gwerth £25,000.

Bydd Cyllid ar gyfer gweithgarwch Diogelu yn parhau ar lefelau 2020-21 a bydd y blaenoriaethau ar gyfer 2021-22 yn cynnwys parhau i gefnogi Byrddau Diogelu Rhanbarthol er mwyn sicrhau y caiff Gweithdrefnau Diogelu Cymru a'r canllawiau arferion cysylltiedig eu mabwysiadu'n gadarn mewn arferion bob dydd yn ogystal â chyllid ar gyfer y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol sy'n cefnogi byrddau rhanbarthol ac yn rhoi cyngor i Weinidogion ar effeithiolrwydd trefniadau diogelu yng Nghymru. Bydd cyllid ar gyfer Wythnos Ddiogelu yn parhau i fod yn flaenoriaeth a bydd hyn yn cyfrannu at atal plant rhag cael eu cam-drin yn rhywiol a diogelu plant sy'n wynebu risg.

Bydd cyllid ar gael er mwyn helpu i roi'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar atal plant rhag cael eu cam-drin yn rhywiol ac ymateb i gamdriniaeth rywiol, sydd wedi'i nodi ar gyfer y cyfnod ariannol yn y cynllun; datblygu a darparu hyfforddiant er mwyn helpu i roi canllawiau statudol newydd ar amddiffyn plant rhag camfanteisio rhywiol a Fframwaith Lleihau Arferion Cyfyngol newydd ar waith. Bydd gweithgarwch datblygu polisi yn cynnwys Cod Ymarfer Gwirfoddol i gyrff nad ydynt yn bartneriaid diogelu perthnasol ar hyn o bryd, canllawiau ar faterion diogelu sy'n dod i'r amlwg ar gyfer

plant a chyngor ar arferion ar gyfer diogelu plant yn y blynyddoedd cynnar ac i gefnogi polisiâu ac arferion diogelu corfforaethol cryfach ledled Cymru.

Gwasanaethau eiriolaeth

Mae'r Dull Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Statudol (NASA) yn ddull safonedig ar gyfer gwasanaethau eirioli statudol sy'n cael eu darparu gan y chwe Chydweithredfa Gwasanaethau Cymdeithasol Rhanbarthol. Bu ar waith ers mis Mehefin 2017, gyda Llywodraeth Cymru yn rhoi hyd at £550k y flwyddyn er mwyn helpu i roi'r dull hwn ar waith. Mae'r gwaith o roi NASA ar waith yn cael ei fonitro gan Grŵp Gorchwyl a Gorffen a sefydlwyd o dan Grŵp Cynghori'r Gweinidog.

Daethpwyd â'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen i ben ym mis Tachwedd 2020 gyda dull gweithredu newydd yn cael ei fabwysiadu gan Fforymau Rhanbarthol sy'n dilyn ôl troed y Byrddau Diogelu Rhanbarthol. Caiff y dull hwn o weithredu ei oruchwylio gan Fforwm Cenedlaethol a gadeirir gan Lywodraeth Cymru a Phennaeth Gwasanaethau Plant Awdurdod Lleol. Bydd NASA yn parhau i gael ei reoli a'i fonitro drwy'r Fforymau Rhanbarthol a Chenedlaethol. Bydd yr elfen cyllid gan Lywodraeth Cymru yn parhau (hyd at £550k y flwyddyn).

Mae NASA yn nodi disgwyliadau cenedlaethol a rennir o ran mynediad i wasanaethau eiriolaeth proffesiynol annibynnol ac argaeledd gwasanaethau o'r fath. Wedi'u seilio ar y Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol, elfennau cyffredin manyleb gwasanaeth a thempled adrodd, mae NASA yn atgyfnerthu ac yn sicrhau cynnig a phrofiad cyson i blant ac ymarferwyr. Mae NASA yn dangos tystiolaeth bellach ac yn llywio dulliau cyflawni a gwella'r dyfodol trwy waith adrodd ansoddol a meintiol ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Mae cynnig gweithredol o eiriolaeth yn rhan o NASA ac fe'i darperir o dan yr amgylchiadau canlynol: 'Mae plant a phobl ifanc yn gymwys i gael cynnig eiriolaeth gan Eiriolydd Proffesiynol Annibynnol statudol pan fyddant yn dechrau derbyn gofal neu'n dod yn destun ymchwiliad amddiffyn plant sy'n arwain at Gynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol.'

Meic yw'r llinell gymorth genedlaethol ar gyfer gwybodaeth, cyngor ac eiriolaeth sy'n darparu un man cyswllt i blant a phobl ifanc drwy wasanaeth rhadffôn, negeseua gwib a thestun.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am y gweithgaredd hwn yn uniongyrchol, ond mae'n cynnal cyfarfodydd monitro'r contract yn rheolaidd â Pro-Mo Cymru y dyfarnwyd contract dwy flynedd (ynghyd â'r opsiwn ar gyfer 2 flynedd ychwanegol) iddo ym mis Ebrill 2016 yn dilyn ymarfer tendro cyhoeddus yn 2015.

Yn unol â thelerau'r contract ac ar sail awdurdod y Gweinidog, mae Llywodraeth Cymru wedi manteisio ar yr opsiwn i ymestyn y contract am 2 flynedd arall, ar sylfaen adnewyddu blynyddol.

Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid gwerth £535,980 y flwyddyn i MEIC hyd at fis Mawrth 2021. O ganlyniad i'r pandemig, rhoddwyd cyllid ychwanegol gwerth £33,000 i Pro-Mo Cymru er mwyn helpu i dalu am yr adnoddau ychwanegol sydd eu hangen (staff a deunyddiau) er mwyn i wasanaeth MEIC allu ymateb yn briodol i'r cynnydd yn nifer y galwadau i'r llinell gymorth a llunio adnoddau

sy'n benodol i Covid-19 yn ystod cyfnod o newid ac ansicrwydd mawr i bobl ifanc yng Nghymru (e.e. ymateb i alwadau sy'n ymwneud ag ansicrwydd ynghylch addysg ac, yn benodol, ynghylch canlyniadau arholiadau a pharatoi ar gyfer y brifysgol yn ystod y pandemig).

Mae'r pandemig wedi cyflwyno heriau o ran yr ymarfer caffael i gynnal gwasanaeth MEIC y tu hwnt i fis Mawrth 2021. Mae gwaith yn mynd rhagddo i'w gwneud yn bosibl i'r gwasanaeth barhau am flwyddyn arall tan fis Mawrth 2022. Yn ystod y cyfnod hwn, bwriedir parhau i ystyried y posibilrwydd o ddarparu Gwasanaeth Gwybodaeth i Bobl Ifanc Cymru (Cymru Ifanc) a'r bwriad yw y byddai MEIC yn un elfen o'r gwasanaeth hwnnw. Mae'r estyniad hwn yn golygu na therfir ar y gwasanaeth tra bydd y gwasanaeth arfaethedig mwy o faint yn cael ei ddatblygu. Bydd y gwasanaeth newydd hwn yn hyblyg er mwyn iddo allu cael ei gysoni â blaenoriaethau'r Gweinidog nawr ac yn y dyfodol a sicrhau bod hynny'n digwydd.

Plant sy'n Derbyn Gofal

Yn 2021-22, cyllideb y rhaglen ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal (LACTG) fydd £0.660m a'r gyllideb ar gyfer Plant sy'n Agored i Niwed fydd £3.156m.

Bydd cyllideb LACTG yn ei gwneud yn bosibl i'r rhaglen waith helaeth, fel y'i nodir yn y rhaglen Gwella Canlyniadau ar gyfer Plant, barhau a datblygu. Prif nodweddion y rhaglen yw:

Lleihau nifer y plant y mae angen gofal arnynt mewn ffordd ddiogel

Gweithio gydag awdurdodau lleol, y farnwriaeth a rhanddeiliaid allweddol eraill i barhau i ddatblygu gwasanaethau sy'n helpu i gadw teuluoedd gyda'i gilydd yn ddiogel. Mae hyn yn cynnwys dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth megis dulliau o wneud penderfyniadau fel grŵp teuluol er mwyn lleddfu argyfyngau teuluol a chefnogi ailuno, gan ddarparu dysgu rhwng cymheiriaid ar draws sectorau. Mae hefyd yn cynnwys gwaith i helpu i ddiwygio'r system cyfiawnder teuluol er mwyn sicrhau bod mesurau ataliol yn elfen allweddol ohoni er mwyn osgoi'r angen i deuluoedd ddod yn rhan o achosion gofal.

Darparu a chomisiynu cymysgedd hyblyg, fforddiadwy a digonol o leoliadau o safon uchel

Bwrw ymlaen â gwaith y Fframwaith Maethu Cenedlaethol a datblygu'r ymgyrch farchnata. Mae recriwtio gofalwyr maeth yn allweddol i sicrhau llwyddiant gwasanaethau maethu awdurdodau lleol a'u datblygu. Er mwyn cyflawni'r nod hwn, nodwyd y byddai angen datblygu "brand Cymru gyfan ar gyfer gwasanaethau maethu Awdurdodau Lleol", sef brand cenedlaethol cyson ar gyfer gwasanaethau maethu Awdurdodau Lleol sy'n adlewyrchu cryfderau a phersonoliaethau'r 22 o Awdurdodau Lleol - 'Maethu Cymru' yw'r brand hwn. Mae Maethu Cymru yn cynnig cyfle i ailgydbwysu darpariaeth gwasanaethau, ateb y galw a chynnig dewis gwell o leoliadau i blant.

Mae'r rhaglen hefyd yn cefnogi meysydd gwaith allweddol eraill sy'n ymwneud â gofal preswyl, gan gynnwys darparu llety diogel i blant ag anghenion cymhleth ac ystyried ffyrdd o gynyddu'r defnydd o drefniadau gwarcheidiaeth arbennig.

Cefnogi Plant sy'n derbyn gofal i gael y Daith Orau Bosibl trwy Ofal ac i Fywyd fel Oedolion

Parhau i roi cymorth i'r rhai sy'n gadael gofal i'w helpu i bontio'n llwyddiannus i fywyd fel oedolion. Ceir hefyd amrywiaeth o waith trawslywodraethol sy'n canolbwyntio ar wella deilliannau addysgol plant sy'n derbyn gofal, datblygu amrywiaeth o opsiynau ar gyfer llety sy'n rhoi profiadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc sy'n gadael gofal a rhaglen waith sy'n ymwneud â rhianta corfforaethol.

Plant sy'n Agored i Niwed (£3.156m) – Mae'r gweithgareddau yn cynnwys y canlynol:

Mecanwaith Adolygu Annibynnol

Mae'r Mecanwaith Adolygu Annibynnol yn rheoli'r broses a ddefnyddir gan ddarpar fabwysiadwyr neu fabwysiadwyr a gymeradwywyd, a darpar rieni maeth neu rieni maeth a gymeradwywyd, i wneud cais am adolygiad o 'ddyfarniad o gymhwyster' a wneir gan ddarparwr mabwysiadu neu faethu. Mae hyn yn cynnwys awdurdodau lleol a darparwyr annibynnol

Gwasanaethau Mabwysiadu gan gynnwys cymorth ôl-Fabwysiadu

Mae plant a fabwysiedir ymysg y plant mwyaf agored i niwed yng Nghymru; plant y mae dewisiadau eraill wedi'u dihyssbyddu ar eu cyfer ac a fyddai'n fwy tebygol o aros 'yn derbyn gofal' am eu plentyndod pe na baent yn cael eu mabwysiadu. Bydd gwella cymorth yn sicrhau bod y buddsoddiad sydd eisoes wedi'i wneud o ran diogelu'r plant hyn yn arwain at y canlyniadau gorau ac yn annog mwy o deuluoedd i ystyried mabwysiadu.

Cofrestr Fabwysiadu Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol er mwyn sicrhau y parheir i ddarparu Cofrestr Fabwysiadu Cymru. Mae'r Gofrestr yn darparu cronfa ddata bwrpasol i asiantaethau mabwysiadu (gan gynnwys asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol) yng Nghymru. Mae'n darparu data i roi gwell tystiolaeth o weithgarwch mabwysiadu ledled Cymru a gwella prosesau mabwysiadu, yn enwedig o ran y plant hynny sy'n fwy anodd i'w lleoli gyda darpar rieni. Yn ystod 2021-22 bydd Cofrestr Fabwysiadu newydd Cymru yn parhau i gael ei hymgorffori er mwyn cyflymu'r broses o baru plant drwy hysbysu plant a mabwysiadwyr yn gyflymach yn unol â chanllawiau diwygiedig.

Cymorth Mabwysiadu

Fframwaith y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol:

Byddwn yn parhau i fuddsoddi er mwyn helpu i roi Fframwaith y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ar gyfer Cymorth Mabwysiadu, sy'n darparu'r strategaeth ar gyfer gwella cymorth mabwysiadu ledled Cymru, ar waith.

Gwaith Taith Bywyd

Bwrriedir i Gwaith Taith Bywyd helpu plentyn i wneud synnwyr o'i orffennol a deall ei sefyllfa bresennol er mwyn ei helpu i symud ymlaen i'r dyfodol. Bydd y cyllid a ddarperir yn golygu bod modd parhau i wella'r gwasanaeth hwn er mwyn sicrhau y bydd pob plentyn sydd wedi'i fabwysiadu yn gallu manteisio ar ei waith taith bywyd. Caiff cyllid ei anelu at ariannu swyddi cydgysylltwyr hyrwyddwyr ym mhob un o ranbarthau'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ynghyd â swyddi cefnogol er mwyn helpu i ddatblygu'r maes gwaith hwn ymhellach.

TESSA

Buddsoddi i gyllido'r Gwasanaeth Cymorth Addysg Therapiwtig ar gyfer Teuluoedd sy'n Mabwysiadu (TESSA), a sefydlwyd yn ddiweddar.

Dulliau Arferion Gorau

Rhoi'r canllawiau arferion gorau a ddatblygwyd gan y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ar waith.

Adoption UK Cymru

Yn ystod 2021-22, caiff cyllid ei gyfeirio at Adoption UK Cymru er mwyn iddo allu parhau i ddarparu amrywiaeth eang o wasanaethau sy'n cynnwys cadw gwirfoddolwyr a chynyddu nifer y gwirfoddolwyr, darparu hyfforddiant ôl-gymeradwyo, darparu Llinell Gymorth ar gyfer Mabwysiadu yng Nghymru, darparu gwasanaeth pwrpasol ar gyfer plant 7-10 oed, pobl ifanc 11-25 oed a grŵp o bobl 18-25 oed sydd wedi'u mabwysiadu.

Mabwysiadu Gyda'n Gilydd

Mae Mabwysiadu Gyda'n Gilydd yn rhaglen bwrpasol sy'n dod o hyd i deuluoedd i fabwysiadu'r plant mwyaf agored i niwed sydd wedi bod yn aros am yr amser hiraf yng Nghymru. Mae anghenion teuluoedd Mabwysiadu Gyda'n Gilydd ar lefel uwch ac mae angen cymorth seicolegol a therapiwtig uniongyrchol arnynt sy'n benodol yn hytrach na chyffredinol, er mwyn sicrhau lleoliadau sefydlog.

Astudiaeth Carfan – Prifysgol Caerdydd

Hyd yma, mae'r astudiaeth wedi darparu gwybodaeth amhrisiadwy a gafwyd yn uniongyrchol gan deuluoedd a phlant sydd, o safbwynt ymarferol, wedi'n galluogi i ddatblygu ymatebion a fydd yn helpu i gynnal lleoliadau mabwysiadu yn fwy effeithiol byth; a recriwtio mwy o fabwysiadwyr addas am ein bod yn gallu deall yn well y pwysau sydd ar deuluoedd sy'n mabwysiadu a'u llwyddiannau a'r ffyrdd gorau o'u helpu i gyflawni eu rôl. Yn 2021-22, bydd y cyllid yn adeiladu ar feysydd ymchwil newydd, yn seiliedig ar yr argymhellion sy'n deillio o ddata'r 5^{ed} don.

Cymdeithas Mabwysiadu a Maethu Cymru (AFA Cymru)

Mae Cymdeithas Mabwysiadu a Maethu Cymru yn rhan o Gymdeithas Plant Dewi Sant, sy'n ymgymryd ag amrywiaeth o waith hyfforddi ar gyfer asiantaethau maethu a mabwysiadu yn ogystal â gweithgareddau cyfreithiol/ymgyngori. Bydd y buddsoddiad hwn yn galluogi AFA Cymru i ddarparu ei gwasanaethau craidd er mwyn iddi allu parhau i atgyfnerthu trefniadau yn y sector maethu a mabwysiadu a hyrwyddo arferion da a chymorth mewn perthynas â pharhad a lleoliadau sefydlog i blant sy'n derbyn gofal.

Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd Cafcass Cymru

Cytunwyd ar gynnydd rheolaidd arfaethedig o £1.470m yn 2021, oherwydd y galw o fewn y gwasanaeth wrth iddo gyflawni ei rwymedigaethau. Mae'r cynnydd hwn yn cynrychioli costau staff disgwylidiedig a gwasanaethau cyswllt drwy orchmynion llys.

Mae'r gyllideb bresennol yn cwmpasu costau staffio a chostau rhedeg y sefydliad yn ogystal â chyllid grant er mwyn helpu rhieni sydd wedi gwahanu i gadw mewn

cysylltiad â'u plant, pan fydd y Llys Teulu yn eu cyfarwyddo i wneud hynny. Mae'r gyllideb hefyd yn cyllido'r gwaith o gyflwyno Rhaglen Gweithio Gyda'n Gilydd er Lles Plant, a orchmynnir gan y llys, sy'n helpu rhieni sydd wedi gwahanu, neu sy'n gwahanu, i reoli eu hymddygiad yn well er mwyn sicrhau bod anghenion emosiynol, ymarferol a chorfforol a budd pennaf eu plant yn hollbwysig.

Hawliau plant a phobl ifanc

Bydd cyllid gwerth hyd at £0.991m yn 2021-22 yn helpu i roi Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 ar waith. Mae rhan o'r cyllid hwn yn helpu Plant yng Nghymru i gyflawni ei gynllun cytûn drwy gefnogi agenda hawliau plant yng Nghymru.

Mae hefyd yn cynnwys datblygu:

- a gweithredu strategaeth gyfranogi er mwyn galluogi Plant a Phobl Ifanc i ddylanwadu ar bolisi (erthygl 12 o CCUHP).
- a gweithredu strategaeth codi ymwybyddiaeth ar gyfer rhanddeiliaid mewnol ac allanol (erthygl 42 o CCUHP)
- hyfforddiant cynhwysfawr a gynigir i Weinidogion, Swyddogion, Dirprwy Gyfarwyddwyr a rhanddeiliaid allanol
- strategaeth ymchwil sy'n canolbwyntio ar Hawliau Plant

Bydd y cyllid hwn yn sicrhau y gall Llywodraeth Cymru roi argymhellion y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg mewn perthynas â Hawliau Plant yng Nghymru a Chynllun Hawliau Plant diwygiedig ar waith.

Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru

Mae Comisiynydd Plant Cymru yn sefydliad hawliau plant annibynnol a sefydlwyd yn 2001. Prif nod y Comisiynydd, o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000, yw diogelu a hyrwyddo hawliau a llesiant plant. Mae Deddf Safonau Gofal 2000 yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru gyllido'r Comisiynydd Plant a'i swyddfa. Mae'r dyraniad cyllidebol o £1.580m yn cwmpasu costau rhedeg swyddfa'r Comisiynydd ar gyfer 2021-22 a'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni ei swyddogaethau statudol.

Polisi a gwasanaethau chwarae

Yn 2019, gwnaethom dreialu'r defnydd o leoliadau gwaith chwarae i fynd i'r afael â phroblem llwgu yn ystod y gwyliau ac arweiniodd llwyddiant y cynlluniau hyn at ddyrannu £1m i gefnogi'r dull hwn o weithredu yn 2021-22, sydd wedi'i gynnwys yn y gyllideb Addysg. O'r cychwyn cyntaf, bwriadwyd i'r cyllid hwn gael ei ddarparu ochr yn ochr â'r cyllid sydd wedi'i ddyrannu drwy Raglen Gwella Gwyliau'r Haf.

Yn ein barn ni, ni ddylai unrhyw blentyn fod yn llwgu yn ystod y gwyliau. Gwnaethom ariannu darpariaeth prydau ysgol am ddim yn ystod gwyliau'r Pasg, gwyliau hanner tymor y gwanwyn a gwyliau'r haf yn 2020 fel rhan o'n ymateb i bandemig Covid-19. Yn ogystal â hynny, dyrannwyd £11m ychwanegol ar gyfer prydau ysgol am ddim o hanner tymor mis Hydref hyd at wyliau Pasg yr ysgol yn 2021 ac yn cynnwys y cyfnod hwnnw. Rydym wedi ymrwymo i barhau i ariannu'r ddarpariaeth hon, gan roi

mwy o gyfleoedd i blant chwarae a mynd i'r afael â phroblemau sy'n gysylltiedig â llwgu.

O ganlyniad i'r ddarpariaeth honno, ailgyfeiriwyd y swm o £1m a ddyrannwyd yn wreiddiol er mwyn helpu lleoliadau gwaith chwarae i fynd i'r afael â phroblem llwgu yn ystod y gwyliau i'r £1.6m a ddefnyddiwyd i ddarparu cymorth chwarae a gofal plant i blant o oedran ysgol sy'n agored i niwed yn ystod gwyliau haf yr ysgol. Roedd y cyllid hwn yn ategu'r cymorth a oedd ar gael i blant cyn oed ysgol drwy'r Cynllun Cymorth Gofal Plant ar gyfer Argyfwng y Coronafeirws, y cyllid a ddarparwyd yn lle Rhaglen Gwella Gwyliau'r Ysgol a pharhad prydau ysgol am ddim.

Rydym wedi cadw'r £1m a ddyrannwyd i leoliadau gwaith chwarae fynd i'r afael â phroblem llwgu yn ystod y gwyliau yn y gyllideb ar gyfer 2021-22. Bydd yn symud o'r gyllideb Addysg i'r gyllideb Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Rydym yn ystyried y ffordd orau o dargedu'r cyllid hwnnw gan fod £23.27m bellach wedi'i ddyrannu i barhau i ddarparu prydau ysgol am ddim i bob dysgwr cymwys yn ystod gwyliau haf yr ysgol yn ystod blwyddyn ariannol 2021-22. Bydd byrbrydau a diodydd iach yn dal i fod ar gael o fewn darpariaeth gwaith chwarae.

Y flwyddyn nesaf, fel mewn blynyddoedd blaenorol, byddwn yn parhau i gefnogi Chwarae Cymru, sef yr elusen sy'n cefnogi chwarae plant. Bu Chwarae Cymru yn Gweithio gydag awdurdodau lleol i wella eu hymateb i'r Ddyletswydd i Sicrhau bod Digon o Gyfleoedd Chwarae yn eu hardaloedd a rhoi cyngor a chanllawiau arbenigol i'r sector gwaith chwarae. Mae gan Chwarae Cymru rôl allweddol i'w chwarae o ran cynnal cyswllt rhwng y Llywodraeth â'r sector gwaith chwarae. Mae'n gweithredu fel seinfwrdd gwerthfawr wrth inni ddatblygu ein polisïau a'u rhoi ar waith.

Bu'r gydberthynas hon yn amhrisiadwy yn ystod 2020. O'r gronfa ail-greu ar ôl Covid-19, bu'n bosibl inni ddyrannu cyllid ychwanegol gwerth £0.200m yn ystod y flwyddyn er mwyn i gyllid Chwarae Cymru allu helpu awdurdodau lleol i fanteisio ar ddarpariaeth gwaith chwarae.

Caiff y grant blynyddol i Chwarae Cymru ei gynnal ar y lefel y bu arni yn ystod y blynyddoedd diwethaf, sef £0.360m, er mwyn inni allu parhau i fanteisio ar y bartneriaeth allweddol hon. Mae Chwarae Cymru hefyd yn cefnogi Adolygiad y Gweinidog o Chwarae a fydd yn cyflwyno ei adroddiad yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

Bydd hefyd yn cynorthwyo awdurdodau lleol drwy gefnogi'r rhwydwaith gwaith chwarae a'r trydydd sector er mwyn sicrhau eu bod yn deall y canllawiau ar fesurau rhagweithiol Gwaith Chwarae Mynediad Agored ac yn cydymffurfio â nhw. Bydd Chwarae Cymru yn defnyddio ei arbenigedd ym maes asesiadau risg yn y gweithle ac o ran sut i amrywio cyfleoedd chwarae er mwyn sicrhau y caiff plant a phobl ifanc y budd gorau.

Yn y flwyddyn ariannol hon, gwnaed dyraniad untro o £0.500m o referniw a £3m o gyllid cyfalaf o'r gronfa ail-greu ar ôl Covid-19 drwy grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan i awdurdodau lleol i'w helpu i gyflawni eu dyletswydd i sicrhau bod digon o gyfleoedd chwarae yn eu hardaloedd. Bydd y £0.500m o gyllid referniw yn helpu awdurdodau lleol i wella cyfleoedd chwarae, megis cynlluniau chwarae a gweithgareddau gwaith chwarae eraill, i blant a phobl ifanc yn ystod y gwyliau a hyd

at ac yn cynnwys Pasg 2021. Bydd hyn yn helpu cymunedau sy'n agored i niwed ac yn cefnogi rhieni drwy eu galluogi i weithio.

Bydd y £3m o gyllid cyfalaf yn galluogi awdurdodau lleol i gefnogi cyfleoedd chwarae i blant ymhellach am y byddant yn gallu agor ardaloedd chwarae sydd wedi aros ar gau am fod angen adnewyddu neu atgyweirio cyfarpar. Caiff y cyllid hwn ei ddefnyddio hefyd i wella profiadau chwarae plant yn yr awyr agored drwy ddileu rhai o'r rhwystrau i gael mynediad i fannau chwarae a wynebwr gan blant anabl a'u teuluoedd. Caiff byrbrydau a diodydd iach eu darparu o fewn darpariaeth gwaith chwarae.

Gwasanaethau i blant anabl

Darperir cyllid craidd i awdurdodau lleol ddarparu gwasanaethau i blant anabl drwy'r Grant Cynnal Refeniw.

Mae'r cyllid wedi'i gynnal fel rhan o gyllid Cymru Iachach ar gyfer y llwybr clinigol ar gyfer cyfarpar cyfathrebu amgen a chynyddol. Dyrannwyd £0.6m i ariannu therpyddion llefeydd ac iaith a gweithwyr cymorth ychwanegol mewn byrddau iechyd (a Felindre) a chyllideb ar gyfer cyfarpar bach, er mwyn darparu gwasanaethau technoleg isel yn nes at gartref oedolion a phlant y mae angen asesiad lleferydd ac iaith, triniaeth a chyfarpar cyfathrebu amgen a chynyddol arnynt.

At hynny, dyrannwyd cyllid gwerth £0.572m o'r gyllideb ar gyfer Cymru Iachach, yn rhannol i ddarparu prostheses gweithgarwch i blant a phobl ifanc hyd at 25 oed (er mwyn sicrhau ei bod yn cyd-fynd â'n hoeddrannau polisi ar gyfer cefnogi pobl ifanc mewn addysg o dan Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a Deddf Ymadawyr Gofal). Mae dyraniad hefyd wedi'i gynnwys er mwyn helpu i ehangu'r Bartneriaeth Chwaraeon Anabledd Iechyd. Mae hwn yn gynllun peilot llwyddiannus sy'n cynyddu cyfranogiad plant a phobl ifanc (ac oedolion) mewn chwaraeon anabledd. Fe'i cynhelir mewn partneriaeth â Chwaraeon Anabledd Cymru.

Drwy'r Grant i'r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy, yn 2021-22, rhoddir £9.8m i sefydliadau yn y trydydd sector sy'n cefnogi egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a Cymru Iachach. Bydd tua 30% o'r grant hwn yn cefnogi cynlluniau sy'n cynnwys plant a phobl ifanc. Mae cymorth penodol i blant anabl yn cael ei ddarparu drwy gymorth grant i nifer o sefydliadau yn y trydydd sector, gan gynnwys Cymdeithasau Syndrom Down; Anabledd Dysgu Cymru a Whizz Kidz.

Gordewdra ymhlith plant

Buddsoddir £5.5m er mwyn cyflawni strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach yn 2021-22. Mae'r cynllun cyflawni, a gyhoeddwyd ar ddechrau 2020, yn nodi ymrwymadau fel rhan o strategaeth 10 mlynedd Pwysau Iach Cymru Iach ond mae Covid-19 wedi cael cryn effaith arno sydd wedi arwain at oedi o ran cyflawni'r amcanion a bennwyd ar gyfer 2020. Fodd bynnag, rydym yn parhau i ganolbwyntio ar y cynigion a nodwyd ar gyfer 2020-21 a byddwn yn cyhoeddi amserlen ddiwygiedig ar gyfer cyflawni yn 2021-22. Bydd y cyllid yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Cefnogi Llwybr Gordewdra Clinigol, a fydd yn datblygu gwasanaethau plant a theuluoedd a chymorth i deuluoedd yn y blynyddoedd cynnar. Bydd hyn yn cynnwys cymorth i raglen Rheoli Pwysau yn ystod Beichiogrwydd a fydd yn datblygu model cyflawni cenedlaethol i gyflwyno arferion gorau, gydag arbenigedd a chymorth yn cael eu darparu ar gyfer pob Bwrdd Iechyd Lleol.
- Cynllun Ymyrryd i Blant a Theuluoedd a fydd yn ceisio cefnogi ein cymunedau mwyaf difreintiedig, wedi'i dargedu at y gyfran fwyaf o blant sy'n ordew, yn seiliedig ar y Rhaglen Mesur Plant. Bydd y cynllun yn cysylltu â seilwaith drwy Dechrau'n Deg a dulliau presgripsiynu cymdeithasol a bydd yn canolbwyntio'n benodol ar ymddygiad llonydd ac anghydraddoldebau iechyd er mwyn datblygu cynlluniau peilot i brofi ffyrdd newydd o weithio.
- Datblygu systemau gwaith drwy Fyrddau Iechyd Lleol a phartneriaid, er mwyn cynnal gweithgareddau ymgysylltu pwrpasol â phlant a theuluoedd, er mwyn eu grymuso i wneud penderfyniadau a datblygu atebion lleol.
- Datblygu ymchwil a dealltwriaeth o ymddygiad a fydd yn datblygu camau gweithredu wedi'u llywio gan dystiolaeth drwy'r cynllun cyflawni.

Gwasanaethau Newyddenedigol

Dyraniadau i Gyflwyno Safonau Newyddenedigol Cymru Gyfan

Mae Rhwydwaith Mamolaeth a Newyddenedigol Cymru Gyfan, a ffurfiwyd yn 2019 drwy gyfuno dau rwydwaith blaenorol, yn rhoi cyngor amserol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i Fyrddau Iechyd, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru a Llywodraeth Cymru mewn perthynas â gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol. Roedd yr uno hwn wedi cynnig cyfleoedd i feithrin cysylltiadau agosach ar bob cam o'r llwybr clinigol i famau a babanod a darparu meysydd newydd ar gyfer cydweithio.

Mae'r Rhwydwaith yn defnyddio dangosfwrdd Newyddenedigol i Gymru gyfan sy'n goruchwyllo gweithgarwch a pherfformiad; yn rhoi sicrwydd ynglŷn ag ansawdd gwasanaethau newyddenedigol yng Nghymru; yn darparu llwyfan ar gyfer monitro mesurau'r Rhaglen Archwilio Newyddenedigol Genedlaethol (NNAP) ar sail Cymru gyfan; ac yn cefnogi ceisiadau busnes Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru a Llywodraeth Cymru am wybodaeth am y ffordd y darperir gwasanaethau newyddenedigol.

Mae'r Rhwydwaith yn sicrhau y caiff cynnydd tuag at gydymffurfio'n llawn â'r Safonau, a ddiwygiwyd ddiwethaf gan Grŵp Llywio'r Rhwydwaith Newyddenedigol ym mis Medi 2017, ei fonitro'n rheolaidd. Roedd y safonau yn seiliedig ar y dystiolaeth a'r canllawiau arferion gorau diweddaraf a oedd ar gael ar yr adeg honno er mwyn sicrhau eu bod yn glinigol ac yn weithredol berthnasol. Dylanwadwyd arnynt gan ddatblygiadau newyddenedigol ledled y Deyrnas Unedig a gwnaethant ystyried argymhellion gan Gymdeithas Meddygaeth Amenedigol Prydain (BAPM), y Rhaglan Archwilio Newyddenedigol Genedlaethol (NNAP), Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant (RCPCH), Bliss a safonau eraill a gyhoeddwyd yn Lloegr a'r Alban.

Nod safonau'r 3ydd Argraffiad oedd parhau i adeiladu ar safonau blaenorol er mwyn gwella gwasanaethau i fabanod a'u teuluoedd ledled Cymru, gan ymgorffori rôl gynyddol bwysig y Rhwydwaith Newyddenedigol ac Unedau Newyddenedigol yng Nghymru sy'n cydweithio er mwyn rhannu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i hwyluso gwella gwasanaethau'n barhaus.

Mae'r Rhwydwaith Mamolaeth a Newyddenedigol wedi datblygu set o ddangosyddion ansawdd ar gyfer adolygiadau gan gymheiriaid, ond bydd angen eu diweddarau o hyd yn dilyn y cylch presennol o adolygiadau (y disgwylir iddo gael ei gwblhau ym mis Ebrill 2021). Oherwydd y broses adolygu gan gymheiriaid a oedd yn dal i fynd rhagddi ac effeithiau pandemig Covid-19, ni ofynnodd y Rhwydwaith Mamolaeth a Newyddenedigol i Fyrddau Iechyd gwblhau hunanaseisd yn erbyn y safonau yn 2020. Mae'r hunanasesiadau hyn hefyd yn darparu amcangyfrif o'r goblygiad o ran cost i gyrraedd safonau. Mae'r asesiad sylfaenol hwn yn nodi unrhyw fylchau o ran y gwasanaethau a ddarperir mewn unedau yn ogystal â meysydd lle na chydymffurfir â'r safonau ar lefel uned.

Mae'r blaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau newyddenedigol dros y 12 mis nesaf yn cynnwys gwaith sy'n mynd rhagddo i gyflwyno gwasanaeth cludiant newyddenedigol 24 awr, 7 diwrnod yr wythnos ledled De Cymru, a sicrhau bod yr adnoddau gofal critigol cywir gyda'r gweithlu priodol ar gael ledled De Cymru. Cytunwyd ar fodel cludiant newyddenedigol 24 awr dros dro a chaiff ei roi ar waith o fis Ionawr 2021 ymlaen, tra'n aros i fodel parhaol gael ei ddarparu yn ddiweddarach y flwyddyn nesaf.

Rydym hefyd yn disgwyl i fyrddau iechyd barhau i weithio gyda'r Rhwydwaith Mamolaeth a Newyddenedigol er mwyn sicrhau bod cynlluniau eu gwasanaethau newyddenedigol yn ddigon cadarn i gyrraedd Safonau Newyddenedigol Cymru gyfan a sicrhau gwelliannau ym mhob rhan o'r gwasanaeth.

Yn y dyfodol, bydd y Rhaglen Adolygu Gwasanaethau Newyddenedigol gan Gymheiriaid, a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2019, yn parhau i adolygu cydymffurfiaeth â'r Safonau yn ogystal â mesurau perfformiad y cytunwyd arnynt, canllawiau clinigol a pholisïau sy'n berthnasol ar adeg cynnal yr adolygiad.

Lansiwyd Adolygiad Trawsnewidiol GIG Lloegr eleni ac mae'r Rhwydwaith wedi cytuno i feincodi'r gwasanaeth yng Nghymru yn erbyn y rhaglen hon a gwneud cyflwyniad yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd ym mis Mawrth. Bydd hyn yn cynnwys data o Gymru, themâu adolygiadau gan gymheiriaid, y gweithlu meddygol a nyrsio, cymorth therapi ac argaeledd gofal sy'n pontio.

Mae gwaith ar y galw am wasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol ac adnoddau'r gwasanaethau hynny yn rhan o raglen y Rhwydwaith a'r rhaglen waith Gydweithredol. Ni chytunwyd ar amserlen ar gyfer y gwaith hwn eto. Fodd bynnag, bydd yn gofyn am gydweithrediad Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru a'r Uned Gyflawni.

Sut y bydd y dyraniad cyllidebol ar gyfer 2020-21 yn helpu i ysgogi newid / gwella perfformiad

Caiff gwasanaethau newyddenedigol byrddau iechyd eu cyllido drwy'r dyraniad refeniw dewisol blynyddol a bydd byrddau iechyd yn gosod eu blaenoriaethau lleol mewn perthynas â gwasanaethau newyddenedigol yn eu Cynlluniau Tymor Canol Integredig. Mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn rheoli'r mwyafrif o gyllideb y byrddau iechyd ar gyfer comisiynu gwasanaethau Gofal Dwys Newyddenedigol (Lefel 4) a Dibyniaeth Uchel Newyddenedigol (Lefel 3). Caiff y

gyllideb ar gyfer yr Uned Gofal Arbennig Babanod ei rheoli gan fyrddau iechyd unigol.

Ystyrir bod gwasanaethau newyddenedigol yn Wasanaethau Hanfodol y mae angen eu cynnal yn ystod pandemig COVID-19. Hysbyswyd byrddau iechyd bod angen iddynt adlewyrchu cynlluniau i gynnal gwasanaethau o'r fath fel rhan o'u gwaith cynllunio parhaus ac maent yn adrodd ar hyn i'r Rhwydwaith a Llywodraeth Cymru.

Ers 2015, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi tua £116m mewn datblygiadau newyddenedigol ledled Cymru. Gwnaed y buddsoddiad hwn mewn nifer o safleoedd aciwt allweddol yng Nghymru gyda'r nod o leihau nifer yr achosion o drosglwyddo mamau a babanod drwy ddarparu amgylchedd arbenigol, gyda'r gofod angenrheidiol, i sicrhau bod y gofal a roddir i fabanod yn ddiogel ac effeithiol. Mae'r cyllid a ddarparwyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynnwys y canlynol:

- buddsoddwyd £19m yn y Ganolfan Gofal Dwys Newyddenedigol Isranbarthol (SuRNICC) yn Ysbyty Glan Clwyd, a agorwyd gan Brif Weinidog Cymru ym Medi 2018;
- dyrannwyd £44.5m ar gyfer y datblygiadau Cam II yn Ysbyty Athrofaol Caerdydd, a gwblhawyd yn 2019;
- dyrannwyd £25m ar gyfer Cam II y cynllun Menywod a Phlant yn Ysbyty Glangwili, Caerfyrddin, y disgwylir iddo gael ei gwblhau yn 2021;
- dyrannwyd £10m ar gyfer Capasiti Newyddenedigol ac Ôl-enedigol ar safle Ysbyty Singleton, a gwblhawyd ym mis Hydref 2020;
- dyrannwyd £6 miliwn ar gyfer gwaith ar yr uned newyddenedigol yn Ysbyty Tywysog Charles, Merthyr Tudful, a gwblhawyd yn 2018;
- buddsoddwyd £2m mewn gwaith ar uned newyddenedigol safle Ysbyty Brenhinol Gwent, Casnewydd, a agorwyd yn ystod gwanwyn 2017;
- buddsoddwyd £10m yng ngham 1 gwaith newyddenedigol yn Ysbyty Athrofaol Cymru a Glangwili er mwyn galluogi buddsoddiad pellach.

Iechyd Meddwl Amenedigol

Yn ystod pandemig Covid-19, rydym wedi sicrhau bod gwasanaethau amenedigol ymhlith y gwasanaethau iechyd meddwl 'hanfodol' hynny rydym wedi nodi'n glir bod angen eu cynnal. Drwy'r system rydym wedi'i rhoi ar waith gydag arweinwyr byrddau iechyd ar gyfer cyflwyno adroddiadau yn rheolaidd, rydym yn cael sicrwydd bod gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol cymunedol yn weithredol ac ar gael o hyd.

Gwnaed y buddsoddiad gwreiddiol ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol i fyrddau iechyd yn 2015-16 ac roedd yn cyfateb i £1.435m. Nododd cylchoedd dilynol o gyllid trawsnewid iechyd meddwl (a ddechreuodd yn 2018/19) a chyllid gwella gwasanaethau (yn 2019-20 a 2020-21) nifer o feysydd â blaenoriaeth lle roedd gan fyrddau iechyd hyblygrwydd i benderfynu i ble y byddai eu cyllid yn cael ei ddyrannu. Mewn rhai byrddau iechyd, ond nid pob un, arweiniodd hyn at ddyrannu cyllid ychwanegol i wasanaethau iechyd meddwl amenedigol cymunedol.

Dengys y tabl canlynol y dyraniadau cyllid cronol a fydd yn rhan o'r cyllid sydd wedi'i neilltuo ar gyfer Iechyd Meddwl ym Mhrif Ddyraniad y Byrddau Iechyd ar gyfer 2021-22.

| | Cyfanswm |
|---|------------------|
| Bwrdd Iechyd | £m |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 807,426 |
| Bwrdd Iechyd Addysgu Powys | 223,309 |
| Bwrdd Iechyd Hywel Dda | 327,109 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe | 361,213 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | 301,149 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf | 336,030 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 472,237 |
| | 2,828,473 |

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau'n ymrwymedig i wella gwasanaethau, gyda gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol yn parhau'n faes â blaenoriaeth yn 2021-22.

Datblygwyd cynigion gan fyrddau iechyd yn seiliedig ar anghenion eu hardal ac ar y ddealltwriaeth bod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau i bob bwrdd iechyd bod disgwyl iddo gyrraedd Safonau Cymunedol Amenedigol Coleg Brenhinol y Seiciatryddion. Mae gan yr Arweinydd Clinigol Amenedigol rôl bwysig i'w chwarae o ran helpu byrddau iechyd i weithio tuag at y safonau hyn. Caiff effaith y cyllid gwella gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer gwelliannau amenedigol ei monitro drwy'r trefniadau y cytunwyd arnynt ar gyfer Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2019-2022.

Er bod Covid-19 wedi effeithio ar gynlluniau gwaith ar gyfer iechyd meddwl amenedigol, mae gwaith yn mynd rhagddo i sefydlu darpariaeth i gleifion mewnol ar safle Tonna sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Rydym ar y trywydd iawn i gwblhau'r gwaith adeiladu hwn a disgwylir i'r uned agor ym mis Ebrill 2021. Cost y gwaith adeiladu hwn yw £1.6m, ar hyn o bryd.

Iechyd Meddwl a Lles Emosiynol Plant a Phobl Ifanc

Fel ffocws allweddol i waith craffu'r Pwyllgor yn ystod y 5ed Senedd hon, byddem yn croesawu'r canlynol:

• Sylwadau manwl mewn perthynas ag iechyd meddwl a lles emosiynol plant a phobl ifanc

Yn y gyllideb ddrafft, rydym yn neilltuo cyllid ychwanegol i gefnogi Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) a'r Dull System Gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl. Mae hyn yn ymateb i'r cynnydd disgwyliedig yn y galw am y gwasanaethau hyn a'r angen i newid i ddarpariaeth ataliol integredig er mwyn cefnogi iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc.

Cynigir cymorth i blant ifanc â chyflwr iechyd meddwl wedi'i ddiagnosisio ar lefel gymunedol lle y bo'n bosibl ond, mewn rhai achosion, efallai y bydd yr ymyrraeth arbenigol hon gan CAMHS ar gyfer y plant mwyaf agored i niwed yn golygu bod

angen iddynt gael eu trin fel cleifion mewnol. Caiff y cyllid ychwanegol (£5.4m) ei gyfeirio tuag at hybu cynlluniau gwasanaethau CAMHS y GIG yn erbyn Haen 4 (gofal arbenigol, gan gynnwys gofal fel cleifion mewnol) yn ogystal â Thimau Dwys Cymunedol.

Fel rhan o'n Dull System Gyfan, bydd yn ehangu'r ddarpariaeth o wasanaethau cwnsela mewn ysgolion a chymorth emosiynol ochr yn ochr â chynyddu darpariaeth mewngymorth CAMHS drwy ymestyn y safleoedd peilot ar sail Cymru gyfan, gan ddarparu £4m o gyllid ychwanegol yn y gyllideb hon, hyd at gyfanswm o £9m. Byddwn hefyd yn parhau i gefnogi'r gwaith o roi ein fframwaith dull system gyfan ar waith, drwy gyllido arweinwyr cyflawni i weithio'n lleol gydag ysgolion, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i ddatblygu dulliau system gyfan o ymdrin â llesiant dysgwyr; ac adeiladu ar weithgarwch cynharach drwy ddatblygu ymyriadau cyffredinol ac ymyriadau wedi'u targedu ymhellach; cyfleoedd dysgu proffesiynol; a chefnogi llesiant staff ysgol.

▪ Gwybodaeth am ddyraniadau o ran iechyd meddwl a lles emosiynol plant a phobl ifanc yn 2021-22 a lle y gellir eu canfod yn y MEG Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg.

Mae cyllidebau iechyd meddwl a ddelir yn ganolog wedi'u trosglwyddo i'r MEG Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg. Mae cyllid a ddyrennir i'r GIG ar gyfer gwasanaethau Iechyd Meddwl yn dal i fod yn rhan o brif ddyraniad y GIG yn y MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r cyllid sydd wedi'i neilltuo i'r GIG, ar gyfer yr holl wasanaethau iechyd meddwl, wedi cynyddu i £726m ar gyfer 2021-22.

**Yn y MEG Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg
Llinell Wariant yn y Gyllideb 0270 – Iechyd Meddwl**

- £7.1m, a gyhoeddwyd yn 2019-20, mewn perthynas â Cadernid Meddwl.
- Cymorth ychwanegol gwerth £7m ar gyfer y Dull System Gyfan er mwyn gwella lles emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc.
- £5.4m o gyllid ychwanegol i gefnogi pobl ifanc â chyflwr iechyd meddwl wedi'i ddiagnosio drwy wasanaethau cymunedol neu wasanaethau arbenigol i gleifion mewnol.

*Buddsoddiad parhaus gwerth £2m yn y dull system gyfan o'r MEG Addysg yn 2021-22. Felly, mae cyfanswm y cyllid yn cyfateb i £9m.

Caiff y cyllid gwerth £7m ar gyfer gwella gwasanaethau iechyd meddwl, a gyhoeddwyd yn 2020-21, ei ddyrannu i fyrddau iechyd fel rhan o'u prif ddyraniad. Bydd cynnydd yn y cyllid ar gyfer gwella gwasanaethau Iechyd Meddwl ar gyfer 2021-22, fel rhan o'r £20m ychwanegol a gyhoeddwyd i gefnogi iechyd meddwl.

Byddem hefyd yn croesawu cael rhagor o fanylion am y canlynol:

- *Cyllid ar gyfer cyflawni blaenoriaethau ar gyfer iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc fel y'u nodir yn y fersiwn ddiwygiedig o Gynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl.*

Mae nifer o'r camau gweithredu yn y fersiwn ddiwygiedig o Gynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc a chânt eu cyflawni drwy ddefnyddio'r cyllid a nodwyd uchod.

▪ *Manylion y cyllid i liniaru effeithiau Covid-19 ar iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc, gan gynnwys sut y bydd hwn yn mynd i'r afael â'r effaith anghymesur ar rai grwpiau (gan gynnwys, er enghraifft, y rhai ag afiechyd meddwl eisoes, plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n agored i niwed, a grwpiau incwm isel).*

Mewn ymateb i bandemig Covid-19, rydym wedi diwygio ein Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2019-2022 er mwyn diwallu anghenion iechyd meddwl sy'n newid. Mae'r cynllun diwygiedig yn ailddatgan ein hymrwymiad i flaenoriaethu iechyd meddwl a lles plant a phobl ifanc ac rydym wedi cyflymu'r broses o gyflawni sawl cam gweithredu, gan gynnwys ehangu haen 0 a darpariaeth cwnsela mewn ysgolion er mwyn helpu i wneud hyn.

At hynny, yn ystod 2020, rydym wedi rhoi £9.9m o gyllid ychwanegol ar gyfer iechyd meddwl i'r GIG, y trydydd sector ac Awdurdodau Lleol.

- £5m ar gyfer y dull system gyfan o ymdrin â lles meddyliol – mae hyn yn cynnwys cynyddu nifer y gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion.
- £2.7m i gefnogi haen 0 er mwyn helpu i leihau'r galw am wasanaethau iechyd meddwl y GIF yn y sector gofal sylfaenol. Mae hyn yn cynnwys cymorth i blant a phobl ifanc – er enghraifft, drwy Becyn Cymorth Iechyd Meddwl Ieuenctid a llinell gymorth CALL.
- £2.2m i greu capasiti i ddarparu ar gyfer y cynnydd yn nifer y cleifion mewnol ledled Cymru.

Mae hyn yn ychwanegol at y buddsoddiad ychwanegol arfaethedig o £7m mewn gwasanaethau iechyd meddwl drwy'r gronfa gwella gwasanaethau (a nodir isod).

Mae cyllideb ar y cyd y MEG Addysg a'r MEG Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg, a oedd yn cyfateb i £5m yn y flwyddyn flaenorol a £9.4m yn 2021-22, yn cefnogi ymateb Llywodraeth Cymru i bandemig Covid-19. Mae hyn yn cydnabod y bydd effeithiau'r pandemig ar iechyd emosiynol a llesiant plant a phobl ifanc yn parhau ar ôl yr effaith gorfforol. Yn y flwyddyn flaenorol, rydym wedi targedu cyllid yn benodol i gefnogi gweithgarwch sy'n gysylltiedig â phandemig Covid-19, megis helpu darparwyr gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion i symud darpariaeth ar-lein a datblygu modiwlau dysgu proffesiynol penodol sy'n ymwneud â Covid-19.

▪ *Sut y bydd y Gyllideb Ddrafft hon yn cefnogi dull 'system gyfan', drawslywodraethol a thraws-sector o ran iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc, gan gynnwys ffocws ar atal / ymyrraeth gynnar a meithrin gwytnwch.*

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cytuno i adolygu aelodaeth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cyd-Weinidogol ar Ddull Ysgol Gyfan o Ymdrin ag Iechyd Meddwl a Llesiant a fydd yn dod yn Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol ar gyfer Gweithredu ar sail System Gyfan i ysgogi cynnydd am weddill tymor y Senedd hon.

Er y parheir i ganolbwyntio ar blant o oedran ysgol, bydd y dull system gyfan yn adlewyrchu gwaith presennol y grŵp yn well a'i alluogi i roi arweiniad ac ehangu ar draws meysydd perthnasol ychwanegol.

Yn benodol, bydd yn sicrhau bod camau gweithredu a arweinir gan y sectorau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu hintegreiddio â'r cymorth strwythuredig ar gyfer gweithgarwch gweinyddol a rhaglenni sydd wedi canolbwyntio ar y Dull System Gyfan hyd yma ac yn cael budd o'r cymorth hwnnw.

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y grŵp y pennwyd ffocws newydd iddo ar 14 Rhagfyr a bydd y grŵp yn cyfarfod yn amlach yn y Flwyddyn Newydd er mwyn sicrhau ein bod yn cynnal y momentwm o ran cyflymder y broses gyflawni.

Rydym yn bwriadu cyhoeddi fersiwn derfynol fframwaith y Dull System Gyfan ar ddechrau 2021 ac rydym hefyd yn ystyried pa waith a chymorth pellach sydd ei angen er mwyn helpu ysgolion, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i roi'r fframwaith ar waith yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys y ffordd orau o sicrhau y caiff ein gwaith ei fonitro a'i werthuso'n lleol gan ysgolion.

▪ *Cyllid i gefnogi datblygiad a chynaliadwyedd y gweithlu gofal iechyd plant a phobl ifanc, gan gynnwys cyfeiriad penodol at y gweithlu iechyd meddwl plant a phobl ifanc.*

Yn Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2019-2022 mae cam gweithredu â blaenoriaeth i ddatblygu cynllun ar gyfer y gweithlu iechyd meddwl. Mae'r cynllun ar gyfer y gweithlu yn cael ei ddatblygu ar y cyd ag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) a Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC).

Cynhaliodd AaGIC a GCC ymarfer mapio gyda Byrddau Iechyd yn ystod mis Tachwedd er mwyn nodi staff a swyddi a bydd yr ymarfer hwn yn llywio'r Cynllun ar gyfer y Gweithlu Iechyd Meddwl y bwriedir ymgynghori arno ar ddiwedd 2021. Yn ystod mis Hydref, arweinodd AaGIC a GCC gynhadledd rithwir ar y cyd, a barodd fis, er mwyn ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid i lywio'r gweithlu iechyd meddwl yng Nghymru. Bydd y gwaith hwn yn llywio gwariant ar y gweithlu iechyd meddwl plant a phobl ifanc yn y dyfodol. Fodd bynnag, yn y cyfamser, mae elfennau o'r cyllid gwella gwasanaethau wedi'u dyrannu i ddiwallu anghenion hyfforddi a datblygu a nodwyd gan fyrddau iechyd.

▪ *Gwybodaeth am y gronfa gwella gwasanaethau iechyd meddwl, gwerth £7m, gan gynnwys (mewn perthynas â phlant a phobl ifanc) manylion am sut mae'r cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio gan fyrddau iechyd yn 2020-21, a'r amcanion/blaenoriaethau o ran y cyllid hwn ar gyfer 2021-22.*

Ar gam cynnar, cydnabu Llywodraeth Cymru bwysigrwydd rhoi cymaint o hyblygrwydd â phosibl i fyrddau iechyd ymateb i'r pwysau sy'n gysylltiedig â'r pandemig presennol ym maes iechyd meddwl ac, felly, rhyddhaodd y chwe mis cyntaf o gyllid (£3.5m) a ddyrannwyd i bob bwrdd iechyd er mwyn sicrhau'r parhad a'r hyblrwydd roedd eu hangen ar yr adeg hon. Gofynnwyd i fyrddau iechyd, yn ôl-weithredol, roi trosolwg lefel uchel ynglŷn â'r ffordd roedd y cyllid yn cael ei ddefnyddio i ymateb i'r pwysau sy'n

gysylltiedig â'r pandemig presennol ym maes iechyd meddwl. Cadarnhaodd y ffurflenni a ddychwelwyd fod y cyllid hwn wedi cael ei ddefnyddio mewn sawl ffordd, gan gynnwys: talu am staff ychwanegol o asiantaethau a staff wedi'u hadleoli o adrannau eraill, talu am ofal ychwanegol am fod gwasanaethau gofal dydd wedi cau, comisiynu capasiti gofal ychwanegol ar gyfer cleifion mewnol ac ailgyflunio modelau gwasanaeth er mwyn eu darparu'n ddigidol.

Dyrannwyd yr ail ddyraniad o £3.5m i nifer o feysydd â blaenoriaeth. Bydd elfennau o gynigion wedi'u targedu at bobl ifanc wedi'u cynnwys yn y rhan fwyaf o gategoriâu â blaenoriaeth. Nodir y rhaniad rhwng y meysydd â blaenoriaeth ar gyfer 2020-21 yn y tabl isod.

| Maes Blaenoriaeth | Y swm y gofynnwyd amdano 2020/21 |
|---|---|
| Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed | £330,495 |
| Anhwyldeiriau bwyta | £501,385 |
| Amenedigol | £222,488 |
| Therapiau Seicolegol – darpariaeth ar gyfer pob oedran (gyda £51,000 wedi'i anelu'n benodol at Blant a Phobl Ifanc) | £446,446 |
| Argyfwng / Y Tu Allan i Oriau – darpariaeth ar gyfer pob oedran (gyda £253,000 wedi'i anelu'n benodol at Blant a Phobl Ifanc) | £991,217 |
| Ymyrraeth Gynnar mewn Seicosis | £92,166 |
| Arall (h.y. fferylliaeth, iechyd mewn carchardai, gwasanaethau adfer) | £300,011 |
| Ymateb i bandemig Covid-19 | £367,848 |
| Blaenoriaethau Covid/Cynllun Cyflawni Amhenodol | £247,944 |
| Cyfanswm | £3,500,000 |

Caiff effaith y cyllid hwn ei fonitro drwy'r trefniadau y cytunwyd arnynt ar gyfer Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2019-2022.

Eitem 5.1

CYPE(5)-02-21- Papur i'w nodi 1

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government

Kirsty Williams AS/MS
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-JJ-4478-20

Lynne Neagle, AS
Cadeirydd – y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

SeneddCYPE@senedd.cymru

Copi at:
John Griffiths AS
Cadeirydd – y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

6 Ionawr 2021

SeneddCommunities@senedd.cymru

Annwyl Lynne,

Diolch ichi am eich llythyr 20 Tachwedd ynghylch Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2021-22.

Roedd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd yn glir yn y gyllideb ddrafft mai un o'r dewisiadau anodd yr ydym wedi'u hwynebu wrth bennu ein cynlluniau gwario ar gyfer y flwyddyn nesaf yw ein hymagwedd at dâl y sector cyhoeddus. Y gwir amdani yw na chawsom unrhyw gyllid ychwanegol trwy Fformiwla Barnett i ddarparu ar gyfer dyfarniadau tâl ar draws y sector cyhoeddus y flwyddyn nesaf o gofio penderfyniad Llywodraeth y DU i rewi codiad cyflog y sector cyhoeddus, ac eithrio'r GIG a'r rhai ar y cyflogau isaf. Bydd goblygiadau dyfarniadau tâl yn 2021-22 yn gorfod cael eu hymgorffori o fewn gwaith cynllunio cyllideb yr awdurdodau lleol yng ngoleuni'r Setliad. Mae ein penderfyniadau yn y gyllideb yn targedu cymaint o gymorth ag y gallwn at iechyd a llywodraeth leol i gefnogi pwysau mewn gwasanaethau rheng flaen gan ganolbwyntio ar ysgolion a gwasanaethau cymdeithasol.

Er na chawsom unrhyw gyllid ychwanegol oddi wrth Lywodraeth y DU ar gyfer tâl y sector cyhoeddus, wrth benderfynu ar ddsbarthu cyllid ar draws yr awdurdodau lleol ar gyfer setliad llywodraeth leol, rydym wedi cydnabod y penderfyniadau a wnaed ar gytundeb tâl athrawon a'r ymrwymiad a wnaed gan lywodraeth leol i ariannu'r cytundeb hwn trwy gyfeirio cyllid at y rhan o'r fformiwla sy'n ymwneud ag ysgolion.

At ei gilydd (ac eithrio trosglwyddo cyllid ar gyfer y Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol), bydd llinell sylfaen y setliad yn cynyddu £176 miliwn mewn termau arian parod yn 2021-22. Mae

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 160
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

hyn yn adlewyrchu cynnydd mwy yn y Grant Cynnal Refeniw (RSG) i ddigolledu ar gyfer gostyngiad mewn casglu Ardrethi Annomestig, a achosir yn bennaf gan effaith y pandemig.

Fel yn y blynyddoedd blaenorol, defnyddir y gwariant y mae'r awdurdodau lleol yn ei gyllidebu i bennu maint cymharol sectorau'r Asesiad o Wariant Safonol (SSA). Ar gyfer 2021-22, i gydnabod cytundeb tâl athrawon ar gyfer 2020/21, rydym yn cyfeirio £19.973 at sector SSA gwasanaethau ysgolion, i athrawon mewn ysgolion a gynhelir o'r dosbarth meithrin i flwyddyn 11, cyn rhannu gweddill y cynnydd ar draws y sectorau SSA.

Cyfrifwyd y ffigur o £19.973 miliwn fel a ganlyn (ac mae'n cynnwys y sefyllfa ddiweddaraf ar bensiynau athrawon):

- Roedd £13.148m = y pum mis o'r elfen 2.6% ¹o gytundeb tâl 2020/21 nad oedd eisoes yn llinell sylfaen setliad 2020-21 (7 mis, gan gynnwys Medi 2020 i Fawrth 2021, eisoes yn y llinell sylfaen, ar werth o £18.4m yn setliad 2020-21).

p/lws

- £6.825m = 12 mis llawn o elfen 0.5%² o gytundeb tâl 2020/21, nad oedd unrhyw ran ohono yn llinell sylfaen setliad 2020-21 (mae 7 mis ohono'n cael ei dalu fel grant penodol, gan gwmpasu Medi 2020 i Fawrth 2021, ar gost o £3.981m)

Diben cyfeirio'r cyllid at rannau penodol o'r fformiwla yw sicrhau bod y cyllid yn cael ei ddsbarthu yn y ffordd fwyaf priodol, i gydnabod y pwysau y mae'r awdurdodau lleol yn eu hwynebu. Nid yw'n ffordd o bennu faint o gyllid sydd yn y setliad ar gyfer diben penodol. Felly, ni fyddai'n gywir siarad yn nhermau cyfrannau o gyllid sydd wedi'u cynnwys at ddiben penodol.

O ran pensiynau athrawon, nid oes unrhyw gyllid ychwanegol yn y setliad hwn yn benodol at y diben hwnnw. Mae'r cyllid a oedd yn cael ei ddarparu trwy setliad 2020-21 yn aros yn y llinell sylfaen ac yn cael ei ddsbarthu yn ôl y fformiwla ehangach sy'n seiliedig ar anghenion.

Rydym yn gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o gymorth wrth asesu'r pwysau ar yr awdurdodau lleol.

Yn gywir

Julie James AS/MS
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
Minister for Housing and Local Government

Kirsty Williams AS/MS
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

¹2.6% oedd amcangyfrif gorau y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol o chwyddiant adeg y cyfrifiad
² 0.5% i gydnabod y gwahaniaeth rhwng amcangyfrif y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (2.6%) a'r cynnydd cyffredinol o 3.1% i'r bil cyfngol

Eitem 5.2

CYPE(5)-02-21- Papur i'w nodi 2

Eluned Morgan AS/MS
Y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg
Minister for Mental Health, Wellbeing and Welsh Language



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lynne Neagle AS
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

SeneddPPIA@senedd.cymru

8 Ionawr 2021

Annwyl Lynne,

Ysgrifennaf atoch mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 20 Tachwedd ar ran y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Mae eich llythyr yn ymwneud â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22.

Anfonodd Helen Mary Jones llythyr tebyg ataf ar ran y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu (CWLC) ar 19 Tachwedd ac rwyf wedi drafftio papur tystiolaeth i'w drafod gyda'r pwyllgor ar 14 Ionawr 2021 (wedi'i atodi yn Atodiad A). Mae'r papur yn darparu gwybodaeth mewn perthynas â chynigion y gyllideb ym maes y Gymraeg fel sydd wedi'u hamlinellu yng Nghyllideb Ddrafft 2021-22, a gyhoeddwyd ar 21 Rhagfyr 2020. Mae'n darparu manylion gwariant arfaethedig ar y Gymraeg yn y ddau MEG ar gyfer 2021-22 er mwyn gweithredu [Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr](#) fel a ganlyn:

- Y MEG Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg yn fy mhortffolio i:
 - BEL y Gymraeg
 - BEL Comisiynydd y Gymraeg.
- Y MEG Addysg ym mhortffolio'r Gweinidog Addysg:
 - BEL y Gymraeg mewn Addysg.

Fel sydd wedi'i nodi yn fy mhapur i'r Pwyllgor CWLC, mae fy nghyllideb i'n ategu cyllideb y Gweinidog Addysg o ran cefnogi gweithgareddau addysgiadol. Mae gan *Cymraeg 2050* dair brif thema:

- Thema 1: Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
- Thema 2: Cynyddu defnydd o'r Gymraeg
- Thema 3: Creu amodau ffafriol – sy'n ymwneud â gosod cyd-destun a seilwaith briodol i gefnogi themâu 1 a 2.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 162
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Nod pob un o ymyraethau fy mhortffolio o dan BEL y Gymraeg a BEL Comisiynydd y Gymraeg, yn y pen draw, yw cynyddu defnydd o'r iaith (Thema 2 a 3). Mae'r gyllideb sydd wedi ei neilltuo i'r Gymraeg o dan BEL y Gymraeg mewn Addysg ym mhortffolio'r Gweinidog Addysg yn dueddol o ganolbwyntio ar Thema 1: caffael iaith mewn lleoliadau cyn-ysgol, ysgol ac ôl-16.

Fodd bynnag, mae yna gysylltiadau clir rhwng gwariant pob un o'r tri BEL (er enghraifft y Siarter Iaith a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol) gan na all caffael iaith fyth ddigwydd heb gefnogaeth ffactorau eraill. Mae'r ddwy gyllideb yn cydweithio ac rwy'n trafod cynnydd yn erbyn targedau *Cymraeg 2050* gyda'r Gweinidog Addysg, fel gyda nifer o weinidogion eraill ar draws y Llywodraeth, yn rheolaidd er mwyn gwneud yn siŵr bod nodau polisi wedi'u halinio.

Dyma felly ddiolch i'r pwyllgor am ei waith wrth graffu ar wariant ar y Gymraeg, a hoffwn eich cyfeirio at y dystiolaeth y gwnes i ei pharatoi ar gyfer y Pwyllgor CWLC, wedi'i chynnwys yn Atodiad A. Yn y papur hwnnw, er hwylustod, fe welwch fod y dystiolaeth wedi'i darparu o dan bob un o gerrig milltir *Cymraeg 2050*.

Yn gywir,



Eluned Morgan AS/MS

Y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg
Minister for Mental Health, Wellbeing and Welsh Language

Copi i: Y Gweinidog Addysg

Eitem 5.3

CYPE(5)-02-21- Papur i'w nodi 3

Kirsty Williams AS/MS
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/KW/4547/20
Lynne Neagle AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Senedd Cymru

14 Ionawr 2021

Annwyl Lynne,

Yn dilyn fy mhresenoldeb yn y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 26 Tachwedd, ac fel rhan o ymchwiliad eich Pwyllgor i effaith COVID-19 ar blant a phobl ifanc, diolch am eich gohebiaeth ddiweddar yn tynnu sylw at y meysydd rydych yn bwriadu eu hailystyried y tymor hwn ac yn gofyn am eglurhad ynghylch nifer o bwyntiau. Ymatebaf i bob un o'ch cwestiynau yn unigol, fel y nodir isod.

Y camau sy'n cael eu cymryd er mwyn sicrhau bod gan bob disgybl fynediad i'r cyfarpar a'r seilwaith digidol cywir fel rhan o ddysgu cyfunol

Rwy'n cydnabod yr her sy'n wynebu pob dysgwr, athro ac arweinydd o ganlyniad i bandemig COVID-19, ac yn cydnabod nad yw'r ymatebion a'r datrysiadau digidol o bosibl mor addas i rai o gymharu ag eraill. Felly, rydym wedi creu Gweithgor Dysgu Cyfunol, sy'n cynnwys swyddogion o Lywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol a'r Consortia Rhanbarthol, a fydd yn ymgymryd â'r dasg o fynd i'r afael â materion tegwch wrth gael mynediad i ddysgu yn ystod cyfnodau pan derfir ar addysg.

Mae'r Gweithgor wedi bod yn ystyried y ffordd orau o ddysgu am y ddarpariaeth, yr atebion a'r canllawiau presennol o ran dysgu cyfunol, gan gynnwys rhai digidol a rhai nad ydynt yn ddigidol, o safbwynt canolog, rhanbarthol a lleol. Mae'r Grŵp wedi nodi pum her ar lefel system, ac rydym wrthi nawr yn ymgysylltu â phob awdurdod lleol ar lefel genedlaethol er mwyn pennu llinell sylfaen genedlaethol ar gyfer y ddarpariaeth gyfredol ar lefel ysgol ac Awdurdod Lleol.

Mae darpariaeth dda ar gael i ysgolion yng Nghymru eisoes, gyda mynediad i wasanaethau a seilwaith digidol drwy raglen technoleg addysg Hwb. Mae llwyfan Hwb yn parhau i chwarae rôl allweddol wrth gefnogi'r addysg a ddarperir yn ystod y cyfnod heriol iawn hwn. Ym mis Tachwedd, mewngofnodwyd i'r llwyfan dros 2.9 miliwn o weithiau (cynnydd o 148% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol), a darllenwyd y tudalennau dros 9.5 miliwn o weithiau (cynnydd o 143% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol). Mae dros 99% o ysgolion yn parhau i fynd ati i ddefnyddio'r llwyfan hwn.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 164
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Drwy raglen technoleg addysg ehangach Hwb, rydym eisoes wedi gweld dros 74,000 o ddyfeisiau yn cael eu dosbarthu i ddefnyddwyr mewn awdurdodau lleol, a disgwylir i'r 58,000 o ddyfeisiau eraill a archebwyd gael eu dosbarthu yn ystod yr wythnosau nesaf.

Rwyf hefyd wedi neilltuo hyd at £3 miliwn (o'r cyllid cyfalaf o £30 miliwn a ddyrannwyd ar gyfer technoleg addysg Hwb yn 2020/21) er mwyn rhoi cymorth penodol i ddysgwyr sydd wedi'u heithrio'n ddigidol mewn ysgolion a gynhelir lle nad oedd unrhyw ddarpariaeth ar gael iddynt drwy eu hysgol na'u hawdurdod lleol. Gyda'r arian hwnnw, gweithiodd awdurdodau lleol gyda'u hysgolion er mwyn sicrhau bod dysgwyr sydd wedi'u heithrio'n ddigidol yn cael dyfeisiau ysgol a addaswyd at ddibenion gwahanol a chysylltedd MiFi 4G lle roedd angen. Yn seiliedig ar y galw a nodwyd gan ysgolion ac awdurdodau lleol, mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu 10,848 o ddyfeisiau MiFi a 9,717 o drwyddedau meddalwedd ledled Cymru.

Eglurhad ynghylch y rhyngwyneb rhwng Profi, Orlhain a Diogelu ac ysgolion, a chysondeb y cyngor sy'n cael ei ddarparu ledled Cymru

Rwyf wedi croesawu'r data wythnosol sy'n cael eu cyhoeddi gan lechyd Cyhoeddus Cymru mewn perthynas ag achosion o COVID-19 a gadarnhawyd mewn ysgolion a lleoliadau. Rwyf hefyd yn parhau i gael diweddariadau dyddiol drwy adroddiadau rhybuddion cynnar ysgolion, sy'n cynnwys manylion am y rhai sy'n hunanynysu. Mae'r sefyllfa mewn ysgolion yng Nghymru yn newid yn barhaus, fel y gwelir hefyd mewn lleoliadau eraill.

Rydym yn gweithio gydag ysgolion, awdurdodau lleol ac undebau llafur er mwyn sicrhau ein bod yn dysgu'r gwersi o'r hanner tymor cyntaf a byddwn yn parhau i adolygu'r canllawiau. Rwyf wedi cyhoeddi asedau ychwanegol, sy'n cynnwys manylion ar hunanynysu a'r hyn y mae'n ei olygu yn ymarferol, er mwyn rhoi help ychwanegol i ysgolion ac awdurdodau lleol sicrhau bod ysgolion yn parhau i weithredu'n ddiogel ac yn cynnig y ddarpariaeth ddysgu sydd ei hangen ar bob dysgwr.

Rydym yn parhau i rannu neges ynghylch pwysigrwydd hunanynysu yn dilyn prawf cadarnhaol, ac rydym yn parhau i weithio'n agos gyda chydweithwyr yn y tîm olrhain cysylltiadau er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd ar lawr gwlad.

Wrth gwrs, bydd profion cyfresol yn cael eu cynnig mewn ysgolion a lleoliadau addysg bellach o fis Ionawr 2021 hefyd, gan wneud rhywfaint i sicrhau bod llai o blant a staff yn gorfod hunanynysu. Er na all profion ar eu pen eu hunain ddileu'r risgiau sy'n gysylltiedig â dal COVID-19 a'i drosglwyddo, byddant yn helpu i liniaru'r risg i'r rhai sydd mewn amgylchedd ysgol os cânt eu gweithredu ar y cyd â mesurau atal heintiau cyfredol eraill, gan gynnwys cadw pellter cymdeithasol priodol a mesurau hylendid dwylo.

Gwybodaeth am fanylder a graddau'r ymgynghori sy'n mynd rhagddo â'r sector yn Lloegr o ran y penderfyniad ynghylch sut i ddyfarnu graddau Safon Uwch yn 2021

Cyn i mi gyhoeddi ar 10 Tachwedd na fyddai unrhyw arholiadau i ddysgwyr sy'n dilyn cyrsiau TGAU, Uwch Atodol a Safon Uwch yng Nghymru yn ystod haf 2021, cynhaliais drafodaethau â'r sector Addysg Uwch, gan gynnwys prifysgolion y tu allan i Gymru ac aelodau o Grŵp Russell. Rhoddodd y cynrychiolwyr hyn sicrwydd na fyddai mabwysiadu dull gwahanol o ddyfarnu cymwysterau yng Nghymru, o gymharu â'r cymwysterau a ddyfernir mewn gwledydd eraill yn y DU, yn rhoi dysgwyr yng Nghymru o dan anfantais wrth wneud cais i ddilyn cyrsiau prifysgol na chael eu derbyn ar y cyrsiau hynny.

Yn ystod y trafodaethau hynny, nododd prifysgolion mai eu blaenoriaethau yw: gwneud penderfyniadau yn gynnar, proses gadarn, cyfathrebu clir, a sicrhau y manteisir i'r eithaf ar gyfleoedd addysgu a dysgu er mwyn cwmpasu'r cynnwys sydd ei angen i ategu cynnydd. Mae'r ymgysylltiad hwn â chynrychiolwyr prifysgolion wedi parhau wrth ddatblygu'r dull manwl o drefnu asesiadau, ac mae UCAS hefyd yn aelod allweddol o'n grŵp cyfeirio rhanddeiliaid.

Gwybodaeth bellach am yr ystyriaeth sy'n cael ei rhoi i'r angen i "adennill safonau" yn y system gymwysterau, y tu hwnt i gyfres arholiadau 2021

Roedd 2020 yn flwyddyn eithriadol o ran cymwysterau, ond mae'r flwyddyn hon yn eithriadol mewn ffyrdd gwahanol – nid yn unig y mae dysgwyr mewn grwpiau arholiadau wedi bod allan o'r ysgol a'r coleg yn ystod tymor yr haf, maent hefyd wedi profi anghysondebau eisoes o ran eu proses ddysgu. Fel y cyfryw, bydd y graddau a ddyfernir yn 2021 yn gyson ar y cyfan â'r rhai a ddyfarnwyd yn 2020, er mwyn cydnabod yr amser dysgu a gollwyd a'r ymyrraeth gyffredinol – mae hyn yn gyson â'r dull sy'n cael ei fabwysiadu gan Lywodraeth y DU ar gyfer dyfarnu graddau yn 2021 a bydd yn sicrhau na fydd dysgwyr yng Nghymru dan anfantais o gymharu â dysgwyr mewn mannau eraill o'r DU. Mae Cymwysterau Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda rheoleiddwyr eraill y DU i gynnal hyder yn y system gymwysterau a sicrhau bod y system honno yn parhau i fod yn gredadwy.

Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati i adolygu ei chanllawiau i'r sector Addysg Uwch er mwyn sicrhau ei bod yn gliriach bod sefydliadau yn gallu – ac yn cael eu grymuso – i drefnu neu hwyluso gweithgareddau cymdeithasol cyfreithiol sy'n ddiogel o ran COVID-19 ar y campws, ac i gydnabod y cysylltiad rhwng dysgu a llesiant

Ym mis Mawrth, sefydlais Grŵp Gorchwyl a Gorffen Addysg Uwch gyda rhanddeiliaid o bob rhan o'r sector a chynrychiolwyr myfyrwyr ac undebau llafur, gyda chefnogaeth cydweithwyr ym maes iechyd y cyhoedd. Rwy'n ddiolchgar iawn i aelodau'r grŵp hwnnw a Chadeirydd y grŵp, Ben Calvert, am eu gwaith a'u cefnogaeth barhaus. Rydym wedi cydweithio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf er mwyn sicrhau ein bod yn ystyried anghenion pob rhan o'r gymuned prifysgol, ochr yn ochr â'r angen i ddiogelu iechyd y cyhoedd. Mae gwaith y grŵp hwn wedi galluogi Llywodraeth Cymru i gyhoeddi canllawiau i'r sector addysg uwch ar COVID-19, adolygu'r canllawiau hynny a'u diwygio wrth i'r sefyllfa newid. Mae'r canllawiau yn nodi sut y gellir cadw staff a myfyrwyr yn ddiogel a chaiff fersiwn ddiwygiedig sy'n adlewyrchu'r lefelau rhybudd ei chyhoeddi'n fuan.

Rwy'n cydnabod nad yw hon yn flwyddyn arferol i fyfyrwyr ac rwyf wedi neilltuo £10 miliwn ychwanegol i gefnogi gweithgareddau, yn cynnwys mwy o wasanaethau iechyd meddwl a chronfeydd caledi i fyfyrwyr. Bydd prifysgolion hefyd yn cael help i wella'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr, gan gynnwys gwasanaethau bwyd i fyfyrwyr y mae'n ofynnol iddynt hunanynysu. Mae'r arian hefyd ar gael i sicrhau y gall undebau myfyrwyr a phrifysgolion roi mwy o gyngor a chymorth i fyfyrwyr a staff, gyda ffocws ar gymorth iechyd meddwl a mesurau hunanladdiad mwy diogel. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau ar-lein a chymorth drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru i'r Sector Addysg Uwch wedi bod yn glir y dylai hwyluso gweithgareddau cymdeithasol cyfreithlon er mwyn cefnogi myfyrwyr yn ystod y cyfnod anodd hwn. Fodd bynnag, mae angen i ni fod yn glir, yn yr hinsawdd sydd ohoni, mai rhyngweithio rhithwir neu ryngweithio a gyfyngir i gartref neu grŵp cyswllt myfyriwr fydd ei angen er mwyn gallu rhyngweithio'n gymdeithasol yn y ffordd fwyaf diogel. Mae'r newid i'r system lefelau rhybudd newydd wedi caniatáu i'r grŵp canllawiau adolygu'r ddogfen ganllaw er mwyn sicrhau y gall prifysgolion, darparwyr llety ac undebau llafur gefnogi myfyrwyr yn gyfreithlon, gan nodi sut y bydd hynny'n newid gyda'r lefelau rhybudd.

Cyn diwedd y tymor, aeth Llywodraeth Cymru ati i weithio gyda Llywodraeth y DU i gyflwyno cynllun peilot profion llif unffordd ar raddfa fawr yn y rhan fwyaf o'n prifysgolion er mwyn cynnig profion asymptomatig i fyfyrwyr a staff, gyda Phrifysgol Caerdydd a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd yn defnyddio Gwasanaeth Sgrinio Prifysgol Caerdydd. Nid yw'r data o'r cynllun peilot hwn ar gael eto.

O ran tymor y gwanwyn, ym mis Rhagfyr, gofynnais i'n prifysgolion ohirio'r broses o addysgu wyneb yn wyneb tan ar ôl 11 Ionawr a gwneud penderfyniadau ynghylch eu myfyrwyr a'u staff eu hunain, gan nodi pa fyfyrwyr y byddai angen iddynt ddychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb a phryd. Roedd y prifysgolion eisoes wedi bwriadu parhau i ddysgu mewn ffordd gyfunol drwy gydol tymor y gwanwyn, a bydd prifysgolion yn dechrau'r broses o ddysgu ar-lein fel y bwriadwyd, gan rannu eu cynlluniau â'u myfyrwyr.

Mae'r dull hyblyg hwn wedi rhoi ymreolaeth i brifysgolion yng Nghymru wneud penderfyniadau yn seiliedig ar anghenion eu myfyrwyr a'r angen i ddarparu cymwysterau academaidd o ansawdd uchel. Mae hyn wedi galluogi prifysgolion i roi blaenoriaeth i fyfyrwyr sy'n astudio elfennau ymarferol lle y mae angen iddynt gael eu haddysgu wyneb yn wyneb a lle y mae angen iddynt gael mynediad i gyfleusterau ar y campws, yn ogystal â'r rhai sydd ar leoliadau a'r gweithlu y bydd ei angen arnom yn y dyfodol i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol fel gofal iechyd perthynol, addysgu, gwasanaethau milfeddygol, gwyddorau cymhwysol a gwasanaethau cymdeithasol, ymhlith eraill. Rwyf hefyd wedi bod yn glir bod yn rhaid i brifysgolion hefyd ystyried sut y gellir diwallu anghenion y garfan fawr o fyfyrwyr sy'n cymudo yng Nghymru a'r myfyrwyr hynny na wnaethant deithio ar gyfer cyfnod y gwyliau ac y mae angen iddynt gael mynediad i gyfleusterau ar y campws (y prifysgolion sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu sut i wneud hynny).

O ran y myfyrwyr hynny sydd wedi teithio ar gyfer y gwyliau, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi negeseuon clir na ddylai myfyrwyr ddychwelyd i'r llety lle maent yn byw yn ystod y tymor tan y bydd eu prifysgol yn rhoi gwybod iddynt fod addysgu wyneb yn wyneb yn ailgychwyn.

Yn sgil y cyfyngiadau llymach a gyflwynwyd yn ddiweddar, rwyf wedi gweithio gyda'r grŵp canllawiau ac Is-gangellorion i ystyried effaith y penderfyniad hwnnw ar ein cynlluniau yng Nghymru. Rwy'n hyderus bod y cynlluniau sydd gennym i ddychwelyd yn raddol yn gadarn, a bydd ein prifysgolion yn gofyn i fyfyrwyr ddychwelyd dros gyfnod o bedair wythnos o 11 Ionawr. Bydd hyn yn golygu y caiff myfyrwyr eu helpu i ddychwelyd ar yr adeg briodol er mwyn cael yr addysgu wyneb yn wyneb sy'n hanfodol iddynt yn seiliedig ar anghenion academaidd ac anghenion y myfyrwyr.

Wrth i fyfyrwyr a staff ddychwelyd i'r brifysgol, gallant fanteisio unwaith eto ar brofion asymptomatig. Mae ein canllawiau yn gofyn i fyfyrwyr gael prawf cyn gynted â phosibl ar ôl iddynt ddychwelyd, sicrhau eu bod yn cael llai o gysylltiad â phobl eraill rhwng profion, gan gynnwys pobl yn eu haelwyd, ac yna'n cael ail brawf. Dylai hyn roi cryn dipyn o sicrwydd na fydd myfyrwyr sy'n dychwelyd i'r llety lle maent yn byw yn ystod y tymor yn peri risg i'w ffrindiau, grwpiau cyswllt, y brifysgol na'r gymuned ehangach. Os bydd myfyrwyr yn dewis peidio â chael prawf, disgwylir iddynt hunanynysu am 10 diwrnod ar ôl iddynt ddychwelyd i'r llety lle maent yn byw yn ystod y tymor. Unwaith eto, bydd y data o'r profion asymptomatig yn cynnig tystiolaeth werthfawr o'r ffordd orau y gallwn helpu ein prifysgolion wrth i ni barhau i fyw gydag effeithiau COVID-19.

Y defnydd y bwriedir ei wneud o'r £400,000 sydd wedi'i ddarparu i awdurdodau lleol ar gyfer 2020-21 er mwyn helpu teuluoedd sy'n addysgu yn y cartref, a sut y caiff effaith hyn ei fonitro

Ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21, mae £400,000 wedi'i neilltuo i awdurdodau lleol yng Nghymru er mwyn cefnogi addysgu yn y cartref. Mae'r arian hwn wedi'i ddsbarthu ar sail pro rata – yn seiliedig ar nifer y plant yn yr awdurdod y gwyddys eu bod yn cael eu haddysgu yn y cartref fel y nodwyd yng Nghyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion 2018/19. Caiff yr arian hwn ei ddefnyddio'n benodol i helpu teuluoedd sy'n addysgu yn y cartref. Gallai'r arian gael ei ddefnyddio, yn ein barn ni, er mwyn helpu gyda ffioedd arholiadau, adnoddau/meddalwedd dysgu, teithiau addysgol ac ati. Fodd bynnag, awdurdodau lleol fydd yn penderfynu ar y ffordd y caiff yr arian hwnnw ei ddrynnu a'i reoli, yn ôl eu disgrisiwn.


Nid ydym wedi rhagnodi sut y dylai'r arian gael ei ddefnyddio oherwydd gallai'r anghenion mewn un awdurdod lleol fod yn wahanol i'r anghenion mewn awdurdod lleol arall. Bydd fy swyddogion yn holi grwpiau gweithrediadau awdurdodau lleol i weld sut mae'r arian wedi cael ei ddefnyddio.

Gwybodaeth ychwanegol am yr amserlen ar gyfer newidiadau i'r gofyniad y dylai athrawon mewn ysgolion annibynnol gofrestru â Chyngor y Gweithlu Addysg (y Cyngor)

Rwyf wedi bod yn glir eisoes ynghylch fy mwriad i gyflwyno newidiadau i'r rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol i staff mewn ysgolion annibynnol gofrestru â'r Cyngor. Credaf y byddai cyflwyno'r ddeddfwriaeth hon yn ddymunol, ac roeddwn wedi gobeithio y gallai'r gwaith hwn fynd rhagddo yn ystod tymor cyfredol y Senedd. Fodd bynnag, oherwydd y pwysau deddfwriaethol sylweddol a digynsail, nad oedd modd rhagweld llawer ohono o ran Brexit a COVID-19, ni fydd yn bosibl gwneud hynny o fewn yr amserlen honno yn anffodus.

Gobeithio y bydd yr ymatebion hyn yn helpu gyda'r ymchwiliad sy'n mynd rhagddo. Os bydd angen unrhyw wybodaeth bellach arnoch, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir



Kirsty Williams AS/MS
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

To: To: Lynne Neagle
MS

Chair
Children, Young People
and Education
Committee

Via email only

18 January 2021

Dear Chair,

As Children's Commissioner for Wales, I strongly welcomed your recommendation to Government that they include a due regard duty on the face of the Curriculum and Assessment (Wales) Bill.

In both my written¹ and oral evidence to your Committee I detailed why the inclusion of this duty was so essential in terms of how it may affect children's experience of this bill in their day-to-day lives. I also laid out that without this overarching duty, the Bill needs several amendments in order to make it fully compliant with the United Nations Convention on the Rights of the Child.

I was disappointed that Government rejected your recommendation, and I strongly dispute the basis on which this rejection has been made.

Please find enclosed a copy of my letter to the Education Minister on this matter, which details why the basis for their rejection of this recommendation is flawed. I am happy for that letter to be published on your Committee webpage in the usual way.

I will continue to urge Government not to lose this opportunity to ensure greater realisation of the human rights of children in Wales, and I thank your Committee also for your continued and longstanding commitment to this issue.

Yours sincerely,



Sally

¹ [CAW97 Childrens Commissioner for Wales.pdf \(senedd.wales\)](#)



Tŷ Ystumllwynarth/Oystermouth House
Llys Siarter/Charter Court, Phoenix Way
Abertawe/Swansea SA7 9FS
01792 765600

comisiynyddplant.cymru
childrenscommissioner.wales

post@comisiynyddplant.cymru
post@childrenscommissioner.wales

Tudalen y pecyn 169
Croesawm ohebiaeth yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg ac mewn amryw o fformatau
We welcome correspondence in the medium of Welsh and English as well as alternative formats

Sally Holland
Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a gwladau a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd cysylltu yn Gymraeg yn arwain at oedi | We welcome receiving correspondence and calls in Welsh. We will respond to correspondence and calls in Welsh, and contacting us in Welsh will not lead to delay.



To: Kirsty Williams
Minister for Education

Via email only

18 January 2021

Dear Kirsty,

The principal aim of the Children's Commissioner for Wales is to safeguard the welfare and rights of children and young people in Wales, as set out in the United Nations Convention on the Rights of the Child. I have therefore been consistently clear, over a period of years, that children's rights need to be at the heart of new curriculum legislation in Wales.

To do this it is essential that children's rights are part of the legislation underpinning educational reform, and I have called for a due regard duty to the UNCRC to be included on the face of the Curriculum and Assessment (Wales) Bill. This recommendation has also been made by the Children, Young People and Education Committee in their Stage 1 scrutiny of the Bill, and the Committee specify that this duty should be placed on all persons listed in section 66(3) of the Bill when exercising any of their functions conferred by or under the Bill.

I have written at length about why this change is needed¹, but I write now to dispute the flawed basis on which this recommendation has been rejected by Government. The Government response claims that, *The UNCRC is aimed at states and, accordingly, it is for Governments to ensure compliance through their laws, administrative actions and other appropriate measures. This is an important principle and, unless the state is directly providing the service, this Convention is not targeted at frontline providers of service.*

This misunderstands human rights. When public bodies, for example, education settings, are exercising a responsibility delegated by the state, these bodies have a delegated responsibility to ensure human rights. It is entirely appropriate for the Governing Bodies of schools, or for professionals employed by local authorities, to pay due regard to the human rights of children when they develop policies, strategies and practices. Including a due regard duty to the UNCRC would underline their responsibility delegated by the state, as it has done in two previous landmark Acts of the Senedd: the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 and the Additional Learning Needs and Education Tribunal (Wales) Act 2018.

¹ [CCFW-Children-Rights-and-Curriculum-Reform-Position-Paper-2018.pdf \(childcomwales.org.uk\)](https://www.childcomwales.org.uk/CCFW-Children-Rights-and-Curriculum-Reform-Position-Paper-2018.pdf)



Tŷ Ystumllwynarth/Oytermouth House
Llys Siarter/Charter Court, Phoenix Way
Abertawe/Swansea SA7 9FS
01792 765600

comisiynyddplant.cymru
childrenscommissioner.wales

post@comisiynyddplant.cymru
post@childrenscommissioner.wales

Tudalen y pecyn 171

Croesawn ohebiaeth yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg ac mewn amryw o fformatau
We welcome correspondence in the medium of Welsh and English as well as alternative formats

The response asserts that this would result in, 'creating layers of red tape and bureaucracy – teachers, schools and governing bodies would have to evidence that they have taken the Convention into account in their interactions with all children.' But this is not the case, and has not proven to be the case in the implementation of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014. A due regard duty would simply mean that as policies and practice are redeveloped in line with the new curriculum, they are at the same time re-developed in line with the principles of children's human rights. Changes are and will be underway to realise the ambitions of the new curriculum, and to integrate children's rights into this would be a highly effective way of simultaneously supporting the human rights of children in Wales through their education.

And this change is needed. Whilst many children do have an educational experience that upholds and promotes their rights this is not universally the case, as illustrated by the low levels of participation experienced in secondary schools in Wales², or by the lack of information provided to some young people in EOTAS provision³, or by the frequency of exclusions of Foundation Phase aged children⁴. Currently, children's experience of their rights in education relies too often on the practice of individual professionals, rather than being embedded into policies and strategies across a whole setting, or embedded into policies at a local authority level.

There is an opportunity presented by this Bill to ensure that all children and young people experience their rights on a daily basis throughout their education. In her 1958 address to the United Nations in New York, Eleanor Roosevelt posed the following:

"Where, after all, do universal rights begin? In small places, close to home – so close and so small that they cannot be seen on any maps of the world. Yet they are the world of the individual person; the neighborhood he lives in; the school or college he attends; the factory, farm or office where he works. Such are the places where every man, woman, and child seeks equal justice, equal opportunity, equal dignity without discrimination. Unless these rights have meaning there, they have little meaning anywhere."

It is exactly this that we need to achieve for children in Wales.

Yours sincerely,

² The Children's Commissioner for Wales Annual Report 2019-2020 p.67 [Annual-Report-2019-20.pdf](#) (childcomwales.org.uk)

³ [EOTAS 08 Childrens Commissioner for Wales.pdf](#) (senedd.wales)

⁴ [Building Blocks: Inclusion in the Foundation Phase - Children's Commissioner for Wales](#) (childcomwales.org.uk)





Sally

Sally Holland
Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a gwladau a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd cysylltu yn Gymraeg yn arwain at oedi | We welcome receiving correspondence and calls in Welsh. We will respond to correspondence and calls in Welsh, and contacting us in Welsh will not lead to delay.

